SWYDDFA GARTREF

# Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984

(a.60(1)(a), a.60A(1), ac a.66(1))

---

# CODAU YMARFER A-G

ARGRAFFIAD 2005

# Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984
(a.60(1)(a), a.60A(1), ac a.66(1))

---

# CODAU YMARFER A-G
# ARGRAFFIAD 2005

Yn weithredol 1 Ionawr 2006

Llundain: Y Llyfrfa

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael gan y canlynol:

**Ar lein**
**www.tsoshop.co.uk**

**Post, Ffôn ac E-bost**
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 IGN
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 0870 600 5522
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: book.orders@tso.co.uk
Ffôn testun 0870 240 3701

**Siopau Y Llyfrfa**
123 Kingsway, London WC2B 6PQ
020 7242 6393 Ffacs 020 7242 6394
68-69 Bull Street, Birmingham B4 6AD
0121 236 9696 Ffacs 0121 236 9699
9-21 Princess Street, Manchester M60 8AS
0161 834 7201 Ffacs 0161 833 0634
16 Arthur Street Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401
18-19 High Street, Caerdydd CF10 1PT
029 2039 5548 Ffacs 029 2038 4347
71 Lothian Road, Edinburgh EH3 9AZ
0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

**Asiantwyr Achrededig Y Llyfrfa**
(*gweler* Tudalennau Melyn)

*a llyfrwerthwyr da*

Cyhoeddwyd gyda chaniatâd y Swyddfa Gartref ar ran Llyfrfa Ei Mawrhydi.

© Hawlfraint y Goron 2005

ISBN 0 11 341307 6

Cedwir pob hawl

Eiddo'r Goron yw hawlfraint y gosodiad topograffigol a dyluniad. Dylid gwneud ceisiadau ar gyfer atgynhyrchu at HMSO, The Licensing Division, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich, NR3 1BQ Fax: 01603 723000 neu drwy e-bostio: copyright@hmso.gov.uk

## Rhagair

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys Codau Ymarfer diwygiedig A-G. Mae Adrannau 60 a 66 (fel y'u diwygiwyd) Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Codau Ymarfer sy'n llywio rhai meysydd allweddol o ddulliau gweithredu'r heddlu. Mae'r Codau presennol fel a ganlyn:

- Côd A: Atal a Chwilio. Defnydd swyddogion yr heddlu o bwerau statudol atal a chwilio a gofynion i swyddogion yr heddlu a staff heddlu eraill gofnodi cyfarfyddiadau â'r cyhoedd. Cafodd y Côd hwn ei ddiwygio ddiwethaf ar 1 Awst 2004.

- Côd B: Chwilio adeiladau a meddiannu eiddo. Mae'r Côd yma'n ymwneud â'r defnydd o bwerau'r heddlu mewn perthynas â chwilio adeiladau a meddiannu eiddo a ganfyddir gan swyddogion yr heddlu ar bersonau neu mewn adeiladau. Cafodd y Côd hwn ei ddiwygio ddiwethaf ar 1 Awst 2004.

- Côd C: Cadw, triniaeth a holi. Pwrpas y Côd yma yw sicrhau bod pawb sydd dan amheuaeth o ymwneud â throseddu, ac eraill a gedwir gan yr heddlu, yn cael eu trin yn deg a phriodol yn unol â'r gyfraith. Cafodd y Côd hwn ei ddiwygio ddiwethaf ar 1 Awst 2004. Mae'r Côd yn amlinellu pwerau ynghylch profi am bresenoldeb cyffuriau dosbarth A mewn ardaloedd heddlu penodol.

- Côd D: Adnabod. Mae'r Côd yma'n ymwneud â'r prif ddulliau a ddefnyddir gan yr heddlu er mwyn adnabod personau mewn cysylltiad ag ymchwilio i droseddau a chadw cofnodion troseddol cywir a dibynadwy. Cafodd y Côd hwn ei ddiwygio ddiwethaf ar 1 Awst 2004.

- Côd E: Recordio cyfweliadau sain gyda phobl dan amheuaeth. Mae'r Côd hwn yn ymwneud â recordio cyfweliadau sain gyda phobl a amheuir o gyflawni rhai mathau o droseddau ac mae'n rheoli'r ffordd y cynhelir cyfweliadau wedi eu recordio ar dâp. Cafodd y Côd hwn ei ddiwygio ddiwethaf ar 1 Awst 2004.

- Côd F: Recordio cyfweliadau gweledol. Mae'r Côd hwn yn pennu'r weithdrefn er mwyn i'r heddlu allu recordio cyfweliadau gweledol gyda phobl dan amheuaeth. Nid oes unrhyw ofyniad statudol i'r heddlu gynnal cyfweliadau gweledol. Cyflwynwyd y Côd yn Ebrill 2002.

- Côd G: Pwerau arestio. Mae'r Côd yma yn nodi meini prawf y mae'n rhaid 'r heddlu eu hystyried wrth arfer eu pŵer i arestio o dan adran 24 PACE fel y'i diwygigwyd gan adran 110 Deddf Troseddu Trefnedig Ddifrifol a'r Heddlu 2005.

Mae'r Codau a gynhwysir yn y llyfryn hwn wedi eu cyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 ac fe'u cymeradwywyd gan y Senedd.

Maent yn ymdrin â chyswllt rhwng yr heddlu a'r cyhoedd wrth ddefnyddio pwerau'r heddlu i atal, chwilio ac arestio a chwilio mangreoedd a thrin, holi ac adnabod y sawl a amheuir a recordio cyfweliadau. Mae'r Codau yn rheoleiddio pwerau a gweithdrefnau'r heddlu wrth ymchwilio i droseddu ac maent yn pennu camau ar gyfer diogelu ac amddiffyn y cyhoedd.

Mae'r Codau yn darparu datganiad clir o hawliau'r unigolyn a phwerau'r heddlu. Mae'n rhaid i gopïau o'r Codau a gyhoeddir o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 fod ar gael yn hwylus ym mhob gorsaf heddlu ar gyfer dibenion ymgynghori i swyddogion yr heddlu, pobl a gedwir yn y ddalfa ac aelodau'r cyhoedd.

## CYNNWYS

**A CÔD YMARFER I'W WEITHREDU GAN SWYDDOGION YR HEDDLU YNGHYLCH PWERAU STATUDOL ATAL A CHWILIO**

**SWYDDOGION YR HEDDLU A STAFF YR HEDDLU O'R GOFYNION I GOFNODI CYFARFYDDIADAU Â'R CYHOEDD** 1

Cyffredinol 2

1 Yr egwyddorion sy'n rheoli atal a chwilio 2

2 Eglurhad o bwerau i atal a chwilio 3

Chwiliadau sy'n gofyn am seiliau rhesymol dros amheuaeth 3

Chwiliadau a awdurdodir o dan adran Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 5

Pwerau i ofyn am ddiosg gorchuddion wyneb 6

Chwiliadau a awdurdodir o dan adran 44, Deddf Terfysgaeth 2000 7

Pwerau i chwilio wrth weithredu pŵer i chwilio safle 8

3 Cynnal archwiliadau 9

Camau i'w cymryd cyn chwilio 10

4 Gofynion cofnodi 12

Cofnodi cyfarfyddiadau nad ydynt yn dod o dan bwerau statudol 13

5 Monitro ac arolygu'r defnydd o bwerau atal a chwilio 15

Nodiadau arweiniad 15

ATODIAD A: CRYNODEB O BRIF BWERAU ATAL A CHWILIO 20

ATODIAD B: HUNAN-DDIFFINIADAU O GATEGORÏAU DOSBARTHU ETHNIG 22

ATODIAD C: CRYNODEB O BWERAU SWYDDOGION CEFNOGAETH CYMUNEDOL I CHWILIO AC ATAFAELU 23

**B CÔD YMARFER AR GYFER SWYDDOGION YR HEDDLU YN CHWILIO ADEILADAU A MEDDIANNU EIDDO A GANFUWYD GAN SWYDDOGION YR HEDDLU AR BERSONAU NEU MEWN ADEILADAU** 27

1 Cyflwyniad 24

2 Cyffredinol 25

Nodiadau arweiniad 31

3 Gwarantau chwilio a gorchmynion cyflwyno 33

(a) Cyn gwneud cais 33

(b) Gwneud cais 35

Nodiadau arweiniad 36

4 Mynediad heb warant – pwerau arbennig 37

(a) Arestio ayyb 37

(b) Chwilio’r adeiladau lle gwneir yr arestiad neu lle’r oedd y sawl a arestiwyd yn union cyn ei arestio 37

(c) Chwilio adeiladau lle mae’r sawl a arestiwyd yn byw neu sydd dan ei reolaeth 37

5 Chwilio gyda chaniatâd 37

Nodiadau arweiniad 38

6 Chwilio adeiladau – ystyriaethau cyffredinol 38

(a) Amser chwiliadau 38

(b) Mynediad ar wahân i fynediad gyda chaniatâd 39

(c) Rhybudd Pwerau a Hawliau 40

(d) Cynnal chwiliadau 40

(e) Gadael adeiladau 41

(f) Chwiliadau dan PACE Atodlen 1 neu’r Ddeddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 5 41

Nodiadau arweiniad 42

7 Meddiannu a chadw eiddo 42

(a) Meddiannu 43

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (b) | Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001: Gweithdrefnau penodedig ar gyfer pwerau meddiannu a didoli | 44 |
| | (c) | Cadw | 46 |
| | (d) | Hawliau perchnogion ayyb | 46 |
| | Nodiadau arweiniad | | 47 |
| 8 | Gweithredu ar ôl chwiliadau | | 48 |
| 9 | Cofnodion chwiliadau | | 50 |
| | Nodyn arweiniad | | 50 |

**C CÔD YMARFER AR GYFER CADW, TRIN A HOLI POBL GAN SWYDDOGION YR HEDDLU** 53

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyffredinol | | 54 |
| | Nodiadau arweiniad | | 57 |
| 2 | Cofnodion cadw | | 59 |
| | Nodyn arweiniad | | 61 |
| 3 | Gweithredu cychwynnol | | 61 |
| | (a) | Pobl sy'n cael eu cadw – y drefn arferol | 61 |
| | (b) | Pobl sy'n cael eu cadw – grwpiau arbennig | 64 |
| | (c) | Pobl sy'n mynychu gorsaf heddlu yn wirfoddol | 65 |
| | (d) | Dogfennau | 66 |
| | (e) | Personau sy'n ateb mechniaeth stryd | 66 |
| | Nodiadau arweiniad | | 66 |
| 4 | Eiddo'r sawl sy'n cael eu cadw | | 67 |
| | (a) | Gweithredu | 67 |
| | (b) | Dogfennau | 68 |
| | Nodiadau arweiniad | | 69 |
| 5 | Hawl pobl i beidio cael eu cadw heb iddynt allu cysylltu â neb | | 69 |
| | (a) | Gweithredu | 69 |
| | (b) | Dogfennau | 70 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nodiadau arweiniad | | 70 |
| 6 | Yr Hawl i gyngor cyfreithiol | | 71 |
| (a) | Gweithredu | | 71 |
| (b) | Dogfennau | | 75 |
| | Nodiadau arweiniad | | 75 |
| 7 | Dinasyddion gwledydd annibynnol y Gymanwlad neu wledydd tramor | | 77 |
| | (a) | Gweithredu | 77 |
| | (b) | Dogfennau | 78 |
| | Nodyn arweiniad | | 78 |
| 8 | Amodau cadw | | 78 |
| | (a) | Gweithredu | 78 |
| | (b) | Dogfennau | 79 |
| | Nodiadau arweiniad | | 79 |
| 9 | Gofal a thriniaeth pobl sy'n cael eu cadw | | 79 |
| | (a) | Cyffredinol | 79 |
| | (b) | Sylw a thriniaeth glinigol | 80 |
| | (c) | Dogfennau | 82 |
| | Nodiadau arweiniad | | 83 |
| 10 | Rhybudd | | 84 |
| | (a) | Pryd y mae'n rhaid rhoi rhybudd | 84 |
| | (b) | Amodau'r rhybudd | 85 |
| | (c) | Rhybudd arbennig o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Drefn Gyhoeddus 1994, adrannau 36 a 37 | 86 |
| | (d) | Pobl ifanc a'r rhai sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol | 87 |
| | (e) | Dogfennau | 88 |
| | Nodiadau arweiniad | | 88 |
| 11 | Cyfweliadau – cyffredinol | | 89 |
| | (a) | Gweithredu | 89 |

(b) Cofnodion cyfweld 91

(c) Pobl ifanc a'r rhai sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol 92

(d) Y rhai dan amheuaeth sy'n agored i niwed – cyfweliadau brys mewn gorsafoedd heddlu 92

Nodiadau arweiniad 93

12 Cyfweliadau mewn gorsafoedd heddlu 94

(a) Gweithredu 94

(b) Dogfennau 96

Nodiadau arweiniad 96

13 Cyfieithwyr 97

(a) Cyffredinol 97

(b) Ieithoedd tramor 97

(c) Pobl fyddar a phobl sydd ag anawsterau lleferydd 98

(d) Rheolau ychwanegol ar gyfer pobl a gedwir 98

(e) Dogfennau 99

14 Holi – cyfyngiadau arbennig 99

Nodyn arweiniad 99

15 Adolygu ac ymestyn y cyfnod cadw 99

(a) Unigolion a gedwir dan PACE 99

(b) Pobl a gedwir o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000 101

(c) Adolygu cyfnod cadw dros y ffôn 101

(d) Dogfennau 102

Nodiadau arweiniad 103

16 Cyhuddo unigolion a gedwir 105

(a) Gweithredu 105

(b) Dogfennau 107

Nodiadau arweiniad 108

17 Profi unigolion am bresenoldeb cyffuriau Dosbarth A penodedig 109

(a) Gweithredu 109

(b) Dogfennau 112

(c) Cyffredinol 112

(d) Asesiado gamddefnyddio cyffuriau 112

Nodiadau arweiniad 113

ATODIAD A – NOETH-CHWILIADAU AC ARCHWILIADAU PERSONOL 116

ATODIAD B – GOHIRIO WRTH HYSBYSU RHYWUN EI FOD YN CAEL EI ARESTIO NEU ROI'R CYFLE IDDO GAEL CYNGOR CYFREITHIOL 121

ATODIAD C – CYFYNGIAD AR DDOD I GASGLIADAU NIWEIDIOL OHERWYDD DISTAWRWYDD A THELERAU'R RHYBUDD PAN FO'R CYFYNGIAD YN BERTHNASOL 125

ATODIAD D – DATGANIADAU YSGRIFENEDIG AR ÔL RHOI RHYBUDD 128

ATODIAD E – CRYNODEB O'R DARPARIAETHAU AR GYFER POBL SYDD AG ANHWYLDER MEDDWL NEU SYDD FEL ARALL YN AGORED I NIWED YN FEDDYLIOL 120

ATODIAD F – GWLEDYDD Y CEIR CYTUNDEBAU NEU GONFENSIYNAU CONSYLAIDD DWYOCHROG GYDA NHW SY'N GOFYN AM HYSBYSU RHYWUN PAN FO'U DINASYDDION YN CAEL EU HARESTIO A'U CADW, AC SYDD MEWN GRYM AR 1 EBRILL 2003 131

ATODIAD G – A YW PERSON MEWN CYFLWR I'W GYFWELD 134

ATODIAD H – PERSON SY'N CAEL EI GADW: RHESTR ARSYLWI 137

ATODIAD I – HEB EI DDEFNYDDIO 138

ATODIAD J – HEB EI DDEFNYDDIO 139

ATODIAD K – SGANIAU UWCHSAIN A PHELYDR X 140

**D CÔD YMARFER YN YMWNEUD AG ADNABOD POBL GAN SWYDDOGION YR HEDDLU** 143

1 Cyflwyniad 144

2 Cyffredinol 145

Nodiadau arweiniad 149

3 Adnabod gan dystion 150

(a) Achosion pan nad yw'n wybyddus pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth 150

(b) Achosion pryd mae'n wybyddus pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth a phan fo'r sawl sydd dan amheuaeth ar gael 151

Adnabod trwy Fideo 152

Rhes adnabod 152

Adnabod mewn grŵp 152

Trefnu gweithdrefnau adnabod 153

Amgylchiadau pan fo rhaid cynnal gweithdrefn adnabod 153

Dewis dull adnabod 153

Rhybudd i'r sawl sydd dan amheuaeth 154

(c) Achosion pryd mae'n wybyddus pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth ond nid yw ar gael 156

(d) Dogfennau 157

(e) Dangos ffilmiau a ffotograffau o ddigwyddiadau a gwybodaeth a ryddheir i'r cyfryngau 157

(f) Difrodi neu gadw ffotograffau a delweddau a gymerwyd neu a ddefnyddiwyd mewn dulliau adnabod 157

Nodiadau arweiniad 158

4 Adnabod trwy olion bysedd 159

(A) Cymryd olion bysedd mewn cysylltiad ag ymchwiliad troseddol 159

(a) Cyffredinol 159

(b) Gweithredu 159

(c) Dogfennau 161

(B) Cymryd olion bysedd mewn cysylltiad ag ymholiadau mewnfudo 161

(C) Cymryd olion esgidiau mewn cysylltiad ag ymchwiliad troseddol 163

a) Gweithredu 163

b) Dogfennau 164

Nodiadau arweiniad 164

5 Archwiliadau i sefydlu pwy yw person a chymryd ffotograffau 165

(A) Y sawl sy'n cael eu cadw mewn gorsafoedd heddlu 165

(a) Chwilio neu archwilio'r sawl sy'n cael eu cadw mewn gorsafoedd heddlu 165

(b) Cymryd ffotograffau o'r sawl sy'n cael eu cadw mewn swyddfeydd heddlu 166

(c) Gwybodaeth sydd i'w rhoi 168

(d) Dogfennau 168

(B) Personau mewn swyddfeydd heddlu nad ydynt yn cael eu cadw 169

Nodiadau arweiniad 170

6 Adnabod trwy samplau corfforol ac olion 172

(A) Cyffredinol 172

(B) Gweithredu 172

(a) Samplau personol 172

(b) Samplau amhersonol 173

(c) Dogfennau 174

Nodiadau arweiniad 175

ATODIAD A – ADNABOD TRWY FIDEO 177

ATODIAD B – RHESI ADNABOD 181

ATODIAD C – ADNABOD MEWN GRŴP 185

ATODIAD D – CYFWYNEBIAD GAN DYST 190

ATODIAD E — DANGOS FFOTOGRAFFAU 191

ATODIAD F – OLION BYSEDD, OLION ESGIDIAU A SAMPLAU – DINISTRIO A CHWILIADAU DYFALIADOL 193

**E CÔD YMARFER AR GYFER RECORDIO CYFWELIADAU SAIN GYDA PHOBL DAN AMHEUAETH** 199

1 Cyffredinol 200

2 Recordio a selio prif recordiadau 201

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nodiadau arweiniad | | 202 |
| 3 | Cyfweliadau i’w recordio ar dâp | | 202 |
| | Nodiadau arweiniad | | 203 |
| | 4 | Y cyfweliad | 203 |
| | (a) | Cyffredinol | 203 |
| | (b) | Cychwyn cyfweliadau | 204 |
| | (c) | Cyfweliadau gyda phobl fyddar | 204 |
| | (d) | Gwrthwynebiadau a chwynion gan y sawl sydd dan amheuaeth | 205 |
| | (e) | Newid cyfryngau recordio | 205 |
| | (f) | Toriad yn ystod y cyfweliad | 205 |
| | (g) | Offer recordio yn methu | 206 |
| | (h) | Tynnu cyfrwng recordio o'r recordydd | 206 |
| | (i) | Diwedd y cyfweliad | 206 |
| | Nodiadau arweiniad | | 207 |
| 5 | Ar ôl y cyfweliad | | 208 |
| | Nodyn arweiniad | | 208 |
| 6 | Diogelwch cyfryngau recordio | | 208 |
| | Nodiadau arweiniad | | 209 |

**F CÔD YMARFER AR GYFER RECORDIO CYFWELIADAU FIDEO GYDA SAIN GYDA PHOBL DAN AMHEUAETH** 211

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyffredinol | | 212 |
| 2 | Recordio a selio prif dapiau | | 212 |
| | Nodiadau arweiniad | | 213 |
| 3 | Cyfweliadau i'w recordio ar fideo | | 213 |
| | Nodiadau arweiniad | | 215 |
| 4 | Y cyfweliad | | 215 |
| | (a) | Cyffredinol | 215 |
| | (b) | Cychwyn cyfweliadau | 216 |

(c) Cyfweliadau gyda phobl fyddar 216
(d) Gwrthwynebiadau a chwynion gan y sawl sydd dan amheuaeth 217
(e) Newid y cyfrwng recordio 217
(f) Toriad yn ystod y cyfweliad 218
(g) Offer recordio yn methu 218
(h) Tynnu cyfrwng recordio o'r offer recordio 218
(i) Diwedd y cyfweliad 218
Nodiadau arweiniad 219

5 Ar ôl y cyfweliad 220
Nodyn arweiniad 220

6 Diogelwch Prif Gopi 220
(a) Cyffredinol 220
(b) Torri sêl y prif gopi ar gyfer achosion troseddol 220
(c) Torri sêl y prif gopi: achosion eraill 221
(d) Dogfennau 221
Nodiadau arweiniad 221

**G CÔD YMARFER AR GYFER PWERAU ARESTIO STATUDOL SWYDDOGION YR HEDDLU** 225

1 Cyflwyniad 226
2 Elfennau Arestio dan adran 24 PACE 226
Ymwneud â chomisynu trosedd 226
Meini prawf rheidrwydd 227
3 Gwybodaeth sydd i'w rhoi wrth Arestio 229
(a) Rhybuddion – pryd y mae'n rhaid rhoi rhybudd (cymerwyd o Gôd C adran 10) 229
(b) Geiriad y rhybudd (Wdi'i gymryd o Gôd C adran 10) 230
4 Cofnodion Arest 230
(a) Cyffredinol 230
(b) Cyfweliadau ac arestiadau 231
Nodiadau arweiniad 231

**MYNEGAI** 235

# DEDDF YR HEDDLU A THYSTIOLAETH DROSEDDOL 1984

# CÔD A

## CÔD YMARFER I'W WEITHREDU GAN: SWYDDOGION YR HEDDLU YNGHYLCH PWERAU STATUDOL ATAL A CHWILIO

## SWYDDOGION YR HEDDLU A STAFF YR HEDDLU O'R GOFYNION I GOFNODI CYFARFYDDIADAU GYDA'R CYHOEDD

**Cychwyniad – Trefniadau Trosiannol**

Mae'r côd hwn yn berthnasol i unrhyw chwiliad gan swyddog o'r heddlu a'r gofyniad i gofnodi cyfarfyddiadau cyhoeddus sy'n digwydd wedi hanner nos ar 31 Rhagfyr 2005.

**Cyffredinol**

Dylai'r côd ymarfer hwn fod ar gael yn hwylus ym mhob gorsaf heddlu er mwyn i swyddogion yr heddlu, staff yr heddlu, pobl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa ac aelodau o'r cyhoedd allu ymgynghori ag ef.

Nid yw'r Nodiadau arweiniad a gynhwysir yn ddarpariaethau o'r Côd yma, ond canllawiau i swyddogion yr heddlu ac eraill ynghylch ei ddefnydd a'i ddehongliad. Y darpariaethau yn yr atodiadau i'r côd yw'r darpariaethau ar gyfer y côd hwn.

Mae'r côd hwn yn rheoli defnydd swyddogion yr heddlu o bwerau statudol i chwilio person neu gerbyd heb arestio yn gyntaf. Nodir y prif bwerau atal a chwilio sy'n berthnasol i'r côd hwn yn Atodiad A, ond ni ddylid ystyried y rhestr honno fel un derfynol. [Gweler Nodyn 1] Yn ychwanegol i hyn, mae'n berthnasol *hefyd* i'r gofynion i swyddogion heddlu a staff yr heddlu i gofnodi cyfarfyddiadau nad ydynt yn dod o dan bwerau statudol.

Nid yw'r côd hwn yn berthnasol i'r:

(a) pwerau atal a chwilio o dan;

  (i) Ddeddf Diogelwch Awyrennau 1982, adran 27(2);

  (ii) Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, adran 6(1) (sy'n cyfeirio'n benodol at bwerau heddweision a gyflogir gan ymgymerwyr statudol ar fangre ymgymerwyr statudol).

(b) chwiliadau a wneir ar gyfer eu harchwilio o dan Atodiad 7 i Ddeddf Terfysgaeth 2000 sy'n berthnasol i'r Côd Ymarfer a gyhoeddwyd o dan baragraff 6 o Atodiad 14 i Ddeddf Terfysgaeth 2000.

**1 Yr egwyddorion sy'n rheoli atal a chwilio**

1.1 Rhaid defnyddio'r pwerau i atal a chwilio yn deg, a chyfrifol, gan barchu'r bobl sy'n cael eu chwilio a heb wahaniaethu anghyfreithlon. Mae Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiedig) 2000 yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i swyddogion yr heddlu wahaniaethu ar sail hil, lliw, tarddiad ethnig, cenedligrwydd neu darddiad o ran cenedl wrth ddefnyddio eu pwerau.

1.2 Rhaid i'r ymyrraeth ar ryddid y person sy'n cael ei atal neu ei chwilio fod yn fyr a rhaid cynnal chwiliad ar neu'n agos i leoliad yr ataliad.

1.3 Os na chedwir at yr egwyddorion sylfaenol hyn fe all y defnydd o bwerau i atal a chwilio gael ei gwestiynu. Mae methiant i ddefnyddio'r pwerau yn y dull cywir yn lleihau eu

heffeithiolrwydd. Gall atal a chwilio fod yn bwysig wrth ganfod ac atal troseddau, ac mae defnyddio'r pwerau'n deg yn eu gwneud yn fwy effeithiol.

1.4 Prif bwrpas pwerau i atal a chwilio yw galluogi swyddogion i dawelu neu gadarnhau amheuon am unigolion heb orfod defnyddio eu pwerau i arestio. Efallai y bydd gofyn i swyddogion gyfiawnhau defnyddio neu awdurdodi pwerau o'r fath, un ai mewn perthynas a chwiliadau unigol neu'n gyffredinol, i'w swyddogion goruchwyliol neu mewn llys. Mae unrhyw gamddefnydd o'r pwerau'n debyg o wneud niwed i'r heddlu ac arwain at ddiffyg ymddiriedaeth ynddynt. Rhaid i swyddogion *hefyd* allu egluro eu gweithredoedd i'r aelod o'r cyhoedd sy'n cael ei chwilio. Gall camddefnydd o'r pwerau hyn arwain at gymryd camau disgyblu.

1.5 Ni ddylai swyddog chwilio person, hyd yn oed gyda'i ganiatâd ef neu hi, os nad oes unrhyw bŵer chwilio'n berthnasol. Hyd yn oed os yw person yn barod i gael ei chwilio'n wirfoddol, ni ddylid chwilio'r person hwnnw os nad yw'r pwerau cyfreithiol angenrheidiol yn bodoli, a rhaid i'r chwiliad fod yn gyson â'r pŵer perthnasol a'r darpariaethau yn y Côd hwn. Mae'r unig eithriad, lle nad oes angen pŵer penodol ar swyddog, yn cyfeirio at chwilio pobl sy'n ceisio mynediad i faes chwaraeon neu fangre arall lle mae cydsynio â chael chwiliad yn amod mynediad.

## 2 Eglurhad o bwerau i atal a chwilio

2.1 Mae'r côd hwn yn berthnasol at bwerau i atal a chwilio fel a ganlyn:

(a) pwerau sy'n gofyn am seiliau rhesymol dros amheuaeth, cyn y gallant gael eu gweithredu; bod eitemau a gafwyd neu a feddiannwyd yn anghyfreithlon yn cael eu cario, neu o dan adran 43 Deddf Terfysgaeth 2000 fod person yn derfysgwr;

(b) pwerau awdurdodedig o dan adran 60 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, yn seiliedig ar gred resymol y gall trais difrifol ddigwydd neu fod pobl yn cario offer neu arfau peryglus o fewn unrhyw leoliad yn yr ardal heddlu;

(c) pwerau awdurdodedig o dan adran 44(1) a (2) Deddf Terfysgaeth 2000 yn seiliedig ar yr ystyriaeth fod defnyddio un neu ddau o'r pwerau'n ffordd o atal gweithredoedd terfysgol;

(d) pwerau i chwilio person sydd heb gael ei arestio er mwyn defnyddio pŵer i chwilio mangre (*gweler* Côd B paragraff 2.4).

### Chwiliadau sy'n gofyn am seiliau rhesymol dros amheuaeth

2.2 Mae seiliau rhesymol dros amheuaeth yn dibynnu ar yr amgylchiadau ym mhob achos. Rhaid wrth sail wrthrychol ar gyfer yr amheuaeth sy'n seiliedig ar ffeithiau, gwybodaeth,

ac / neu ymchwil sy'n berthnasol i'r posibilrwydd o ganfod eitem o fath arbennig neu, yn achos chwiliadau o dan adran 43 Deddf Terfysgaeth 2000, i'r posibilrwydd fod y person yn derfysgwr. Ni ellir cyfiawnhau amheuaeth resymol byth ar sail ffactorau personol yn unig heb gefnogaeth gwybodaeth neu ymchwil ddibynadwy neu ymddygiad penodol gan y person dan sylw. Er enghraifft, ni ellir defnyddio hil, oed, ymddangosiad, na'r ffaith fod person wedi ei ddedfrydu o'r blaen, eu hunain nac ar y cyd â'i gilydd fel rheswm dros chwilio'r person hwnnw. Ni ellir seilio amheuaeth resymol ar gyffredinoliadau na delweddau ystrydebol o grwpiau arbennig neu gategorïau o bobl sy'n cael eu hystyried yn fwy tebyg o fod yn rhan o weithgareddau troseddol. Ni ellir ystyried crefydd rhywun fel sail resymol dros amheuaeth ac ni ddylid byth ei ystyried fel rheswm i atal neu i atal a chwilio rhywun.

2.3 Gall amheuaeth resymol fodoli weithiau heb wybodaeth neu ymchwil benodol ac ar sail rhyw gymaint o gyffredinoli sy'n deillio o ymddygiad person. Er enghraifft, pe bai swyddog yn cwrdd â rhywun ar y stryd sy'n amlwg yn ceisio cuddio rhywbeth, fe allai'r swyddog (yn dibynnu ar yr amgylchiadau eraill) seilio ei amheuaeth ar y ffaith fod ymddygiad o'r fath yn aml yn gysylltiedig â chario eitemau wedi'u dwyn neu eu gwahardd. Yn yr un modd, ar gyfer pwrpas adran 43 Deddf Terfysgaeth 2000, gall amheuaeth fod person yn derfysgwr ddeillio o ymddygiad person mewn neu ger lleoliad sydd wedi cael ei nodi fel targed posibl i derfysgwyr.

2.4 Fodd bynnag, fel rheol dylid cysylltu amheuaeth resymol â gwybodaeth neu ymchwil gywir a chyfredol, megis gwybodaeth yn disgrifio eitem sy'n cael ei chario, troseddwr dan amheuaeth, neu berson sydd wedi cael ei weld yn cario eitem debyg i un a gafodd ei ddwyn yn ddiweddar o fangre yn yr ardal. Mae chwiliadau sy'n seiliedig ar wybodaeth neu ymchwil gywir a chyfredol yn fwy tebygol o fod yn effeithiol. Mae targedu chwiliadau mewn ardal arbennig ar broblemau troseddol penodol yn cynyddu eu heffeithiolrwydd ac yn achosi cyn lleied â phosibl o drafferth i aelodau'r cyhoedd sy'n parchu'r gyfraith. Mae *hefyd* yn gymorth i gyfiawnhau'r defnydd o chwiliadau i'r sawl sy'n cael eu chwilio a'r cyhoedd yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhwystro pwerau atal a chwilio rhag cael eu defnyddio mewn lleoliadau eraill lle gellir defnyddio pwerau o'r fath a lle mae amheuaeth resymol yn bodoli.

2.5 Mae chwiliadau'n fwy tebygol o fod yn effeithiol, yn gyfreithiol ac yn sicrhau hyder y cyhoedd pan seilir amheuaeth resymol ar ystod o ffactorau. Mae'r defnydd cyffredinol o'r pwerau hyn yn fwy tebygol o fod yn effeithiol pan fo gwybodaeth neu ymchwil gywir a chyfredol yn cael ei chyfleu i swyddogion a phan fônt yn adnabod patrymau troseddu ardal yn drwyadl.

2.6 Lle ceir gwybodaeth neu ddibynadwy fod aelodau o grŵp neu gang bob amser yn cario cyllyll, arfau anghyfreithlon neu gyffuriau rheoledig, ac yn gwisgo eitem arbennig o ddillad

neu ddull adnabod arall i ddynodi eu haelodaeth o'r grŵp neu'r gang, gall yr eitem arbennig o ddillad o neu ddull adnabod arall fod yn sail resymol dros atal a chwilio person. [Gweler *Nodyn 9*]

2.7 Efallai fod gan swyddog o'r heddlu sail resymol dros amau fod person yn meddu'n ddiarwybod ar eitemau wedi eu dwyn neu eu gwahardd neu eitem eraill y mae gan yr heddlu bwerau i chwilio amdanynt. Mewn achos o'r fath fe all y swyddog atal a chwilio'r person er nad oes unrhyw bwerau i arestio yn bodoli.

2.8 O dan adran 43(1) Deddf Terfysgaeth 2000 gall swyddog o'r heddlu atal a chwilio person y mae gan y swyddog sail resymol dros gredu ei fod yn derfysgwr er mwyn canfod a yw'r person yn cario unrhyw beth a allai fod yn dystiolaeth fod y person yn derfysgwr. Rhaid i'r chwiliadau hyn gael eu cynnal gan swyddog sydd o'r un rhyw a'r person sy'n cael ei chwilio.

2.9 Gall swyddog a chanddo sail resymol dros amheuaeth gadw'r person dan sylw yn y ddalfa er mwyn cynnal chwiliad. Cyn cynnal chwiliad gall y swyddog ofyn cwestiynau ynghylch ymddygiad y person neu ei bresenoldeb yn yr amgylchiadau fu'n gyfrifol am godi'r amheuon. O ganlyniad i holi'r person a gedwir, gall y seiliau rhesymol dros amheuaeth sy'n angenrheidiol i'w gadw gael eu cadarnhau neu, oherwydd eglurhad boddhaol, gael eu dileu. [Gweler *Nodyn 2* a *3*] Gall cwestiynu *hefyd* ddatgelu seiliau rhesymol dros amau meddiant eitem anghyfreithlon o fath gwahanol i'r un a amheuwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio cwestiynu o'r fath wrth gadw person neu wrthodiad i ateb unrhyw gwestiynau a ofynnir yn ôl-weithredol fel sail resmynol dros amheuaeth.

2.10 Os yw'r seiliau rhesymol dros amau fod eitemau'n cael eu cario o'r math lle ceir pwerau ar gyfer atal a chwilio yn peidio, boed hynny o ganlyniad i gwestiynu cyn chwiliad, neu amgylchiadau eraill y daw'r swyddog yn ymwybodol ohonynt, ni ellir cynnal chwiliad. [Gweler *Nodyn 3*] Yn absenoldeb unrhyw bŵer cyfreithlon arall i gadw, mae'r person yn rhydd i adael a rhaid ei hysbysu o hynny.

2.11 Nid oes pŵer i atal a chwilio person er mwyn canfod seiliau ar gyfer chwiliad. Mae swyddogion yr heddlu yn cael nifer o gyfarfyddiadau ag aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yn golygu dal pobl yn erbyn eu hewyllys. Os daw seiliau rhesymol dros amheuaeth i'r amlwg yn ystod cyfarfyddiad o'r fath, gall swyddog chwilio person, er nad oedd seiliau'n bodoli pan ddechreuodd y cyfarfyddiad. Os yw swyddog yn cadw rhywun er mwyn cynnal chwiliad, dylid hysbysu'r person o hynny o'r cychwyn.

**Chwiliadau a awdurdodir o dan adran 60 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994**

2.12 Gellir rhoi awdurdod i heddwas mewn iwnifform atal a chwilio o dan adran 60 Deddf

Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 os yw'r swyddog sy'n awdurdodi yn credu'n rhesymol:

(a) y gall digwyddiadau'n cynnwys trais difrifol gymryd lle mewn unrhyw leoliad yn ardal swyddog yr heddlu, a'i bod yn fanteisiol defnyddio'r pwerau hyn er mwyn eu hatal, neu,

(b) fod pobl yn cario offer peryglus neu arfau bygythiol heb reswm da mewn unrhyw leoliad yn ardal swyddog yr heddlu.

2.13 Dim ond swyddog o safle arolygydd neu uwch all roi awdurdodiad o dan adran 60, yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba seiliau mae'n cael ei roi, y lleoliad mae'r pwerau i gael eu gweithredu ynddo a pha gyfnod amser maent mewn grym. Ni fydd y cyfnod a awdurdodir yn hwy nag sydd yn ymddangos yn rhesymol i rwystro, neu i geisio rhwystro digwyddiadau o drais difrifol, neu i ymdrin â'r broblem o gario offer peryglus neu arfau bygythiol. Ni all fod yn hwy na 24 awr. [Gweler *Nodyn 10-13*]

2.14 Os bydd arolygydd yn rhoi awdurdodiad, rhaid iddo ef neu hi, cyn gynted â phosibl, hysbysu swyddog o safle uwcharolygydd neu uwch. Gall y swyddog hwn orchymyn fod yr awdurdodiad i gael ei ymestyn am 24 awr bellach, os oes trais neu gario offer peryglus neu arfau bygythiol wedi digwydd, neu fod amheuaeth eu bod wedi digwydd, ac ystyrir bod angen parhau i ddefnyddio'r pwerau er mwyn atal neu ymdrin â rhagor o ddigwyddiadau o'r fath. Rhaid i'r gorchymyn hwn gael ei roi ar bapur ar y pryd neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny. [Gweler *Nodyn 12*]

**Pwerau i ofyn am ddiosg gorchuddion wyneb**

2.15 Mae adran 60AA Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 *hefyd* yn rhoi pŵer dros fynnu diosg cuddwisgoedd. Rhaid i'r swyddog sy'n defnyddio'r pŵer gredu'n rhesymol fod person yn gwisgo eitem yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer celu pwy ydyw. Mae hawl *hefyd* i feddiannu eitemau o'r fath os yw'r swyddog yn credu fod person yn bwriadu eu gwisgo ar gyfer y pwrpas hwn. Nid oes pŵer i atal a chwilio am guddwisgoedd. Gall swyddog feddiannu unrhyw eitemau o'r fath a gaiff eu canfod wrth ddefnyddio pŵer i atal a chwilio am rywbeth arall, neu sy'n cael eu cario, ac mae'r swyddog yn credu'n rhesymol y bwriedir eu defnyddio i gelu pwy yw person. Ni ellir ond defnyddio'r pŵer hwn os oes awdurdodiad o dan adran 60 neu awdurdodiad o dan adran 60AA mewn grym.

2.16 Gall awdurdodiad i heddwas mewn iwnifform i ofyn am ddiosg cuddwisgoedd a'u meddiannu dan adran 60AA gael ei roi os yw'r swyddog awdurdodi yn credu'n rhesymol y gall digwyddiadau gymryd lle mewn unrhyw leoliad yn ardal swyddog yr heddlu sy'n debyg o arwain at droseddu a'i bod yn fanteisiol defnyddio'r pwerau er mwyn rhwystro neu reoli'r digwyddiadau hyn.

2.17 Dim ond swyddog o safle arolygydd neu uwch all roi awdurdodiad o dan adran 60AA, yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba seiliau mae'n cael ei roi, y lleoliad mae'r pwerau i gael eu gweithredu ynddo a pha gyfnod amser maent mewn grym. Ni fydd y cyfnod a awdurdodir yn hwy nag sydd yn ymddangos yn rhesymol i rwystro, neu i geisio rhwystro, troseddau rhag digwydd. Ni all fod yn hwy na 24 awr. [Gweler *Nodyn 10-13*]

2.18 Os bydd arolygydd yn rhoi awdurdodiad, rhaid iddo ef neu hi, cyn gynted â phosibl, hysbysu swyddog o safle uwcharolygydd neu uwch. Gall y swyddog hwn orchymyn fod yr awdurdodiad i gael ei ymestyn am 24 awr ychwanegol, os oes troseddau wedi cael eu cyflawni, neu fod amheuaeth eu bod wedi cael eu cyflawni, ac ystyrir bod angen parhau i ddefnyddio'r pwerau er mwyn atal neu ymdrin â rhagor o ddigwyddiadau o'r fath. Rhaid i'r gorchymyn hwn *hefyd* gael ei roi ar bapur ar y pryd neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny. [Gweler *Nodyn 12*]

**Chwiliadau a awdurdodir o dan adran 44, Deddf Terfysgaeth 2000**

2.19 O dan adran 44 Deddf Terfysgaeth 2000 gall swyddog o safle prif gwnstabl cynorthwyol (neu gyfatebol) neu uwch awdurdodi defnyddio'r pwerau atal a chwilio canlynol trwy neu mewn rhan o'i ardal heddlu os yw'r swyddog yn ystyried bod hynny'n fanteisiol er mwyn rhwystro gweithredoedd terfysgol:

(a) o dan adran 44(1) Deddf Terfysgaeth 2000, i roi pŵer i heddwas mewn iwnifform i atal a chwilio unrhyw gerbyd, ei yrrwr, unrhyw deithiwr yn y cerbyd ac unrhyw beth yn y cerbyd neu ar y cerbyd neu sy'n cael ei gario gan y gyrrwr neu unrhyw deithiwr; ac

(b) o dan adran 44(2) Deddf Terfysgaeth 2000, i roi pŵer i heddwas mewn iwnifform i atal a chwilio unrhyw berson ar droed ac unrhyw beth sy'n cael ei gario ganddo.

Gellir cyfuno awdurdodiad o dan adran 44(1) gydag awdurdodiad o dan adran 44(2).

2.20 Os rhoddir awdurdodiad ar lafar yn gyntaf, rhaid wrth gadarnhad ysgrifenedig gan y swyddog a'i rhoddodd cyn gynted ag y bod hynny'n rhesymol bosibl.

2.21 Wrth roi awdurdodiad rhaid i'r swyddog nodi'n fanwl ym mha ardal ddaearyddol y mae'r pŵer i gael ei ddefnyddio, a'r amser a'r dyddiad y daw'r awdurdodiad i ben (hyd at gyfanswm o 28 diwrnod o'r amser pryd y rhoddwyd yr awdurdodiad). [Gweler *Nodyn 12* a *13*]

2.22 Rhaid i'r swyddog sy'n rhoi awdurdodiad o dan adran 44(1) neu (2) sicrhau fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael ei hysbysu, cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol bosib, fod awdurdodiad o'r fath wedi cael ei roi. Bydd awdurdodiad nad yw'n cael ei gadarnhau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o fewn 48 awr iddo gael ei roi yn parhau mewn grym hyd

ddiwedd y cyfnod 48 awr neu ddiwedd y cyfnod a nodir yn yr awdurdodiad (pa un bynnag a ddaw gyntaf). [Gweler *Nodyn 14*]

2.23 Yn dilyn cael ei hysbysu am awdurdodiad, gall yr Ysgrifennydd Gwladol:

(i) ddiddymu'r awdurdodiad yn ddi-oed neu nodi amser arall ar gyfer dod â'r diddymiad i rym;

(ii) ei gadarnhau ond am gyfnod llai na'r un a nodir yn yr awdurdodiad; neu

(iii) gadarnhau yr awdurdodiad a roddwyd.

2.24 Pan roddir awdurdodiad o dan adran 44, gall heddwas mewn iwnifform ddefnyddio'r pwerau:

(a) dim ond er mwyn chwilio am eitemau o'r math y gellid eu defnyddio mewn cysylltiad â therfysgaeth (*gweler* paragraff 2.25);

(b) pa un oes seiliau dros amau presenoldeb eitemau o'r fath neu beidio.

2.24A Pan roddir pwerau i Swyddog Cefnogaeth Cymunedol ar ddyletswydd ac mewn iwnifform o dan Adran 44 Deddf Terfysgaeth 2000 gan Brif Swyddog ei heddlu, mae'n rhaid i'r defnydd o'r pŵer yma gydymffurfio â gofynion y Côd Ymarfer hwn, yn cynnwys gofynion cofnodi.

2.25 Dylai'r detholiad o bobl a atelir o dan adran 44 Deddf Terfysgaeth 2000 adlewyrchu asesiad gwrthrychol o'r bygythiad a osodir gan y grwpiau terfysgol amrywiol sydd ar waith ym Mhrydain. Ni ddylid defnyddio'r pwerau i atal a chwilio am resymau nad oes ganddynt gysylltiad â therfysgaeth. Rhaid i swyddogion gymryd gofal arbennig i beidio gwahaniaethu yn erbyn aelodau o grwpiau ethnig lleiafrifol wrth weithredu'r pwerau hyn. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau mae'n briodol i swyddogion roi ystyriaeth i darddiad ethnig person wrth ddethol pobl i'w hatal mewn ymateb i fygythiad terfysgol penodol (er enghraifft, mae rhai grwpiau terfysgol rhyngwladol yn gysylltiedig â grwpiau ethnig arbennig). [Gweler *Nodyn 12* a *13*]

2.26 Nid yw'r pwerau o dan adrannau 43 a 44 Deddf Terfysgaeth 2000 ond yn caniatáu i heddwas chwilio am eitemau a allai gael eu defnyddio i bwrpas terfysgol. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn atal chwiliad rhag cael ei gynnal o dan bwerau eraill pe bai'r swyddog, wrth weithredu'r pwerau hyn, yn ffurfio seiliau rhesymol dros amheuaeth.

**Pwerau i chwilio wrth weithredu pŵer i chwilio mangre**

2.27 Mae'r pwerau canlynol i chwilio mangre *hefyd* yn awdurdodi chwilio unrhyw berson, nad yw wedi ei arestio, sy'n cael ei ganfod ar y fangre yn ystod y archwiliad:

(a) mae adran 139B Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 yn caniatáu i heddwas gael

mynediad i ysgol a chwilio'r fangre neu unrhyw berson yn y fangre am unrhyw eitem gyda min neu lafn neu arf bygythiol; ac

(b) o dan warant a gyhoeddwyd o dan adran a.23(3) Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 i chwilio mangre am gyffuriau neu ddogfennau ond dim ond os yw'r warant yn awdurdodi hynny'n benodol y gellir chwilio pobl a ganfyddir ar y fangre.

2.28 Cyn y gellir gweithredu'r pŵer o dan adran 139B Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988, rhaid i'r heddwas fod â seiliau rhesymol dros gredu fod trosedd o dan adran 139A Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (bod ag eitem gyda min neu lafn neu arf bygythiol mewn ysgol) wedi neu yn cael ei chyflawni. Gall warant i chwilio mangre a phobl a ganfyddir ar y fangre gael ei chyhoeddi o dan adran 23(3) Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 os oes seiliau rhesymol dros amau fod cyffuriau rheoledig neu ddogfennau arbennig ym meddiant person ar y fangre.

2.29 Nid yw'r pwerau ym mharagraff 2.27(a) neu (b) yn gofyn am seiliau penodol ymlaen llaw dros amau fod gan y person i'w chwilio eitem yn ei feddiant lle nad oes pŵer mewn bodolaeth i chwilio. Fodd bynnag, wrth ddewis a thrin unigolion i'w chwilio mae'n parhau'n angenrheidiol seilio'r defnydd o'r pwerau hyn ar ffactorau gwrthrychol sy'n gysylltiedig â'r chwiliad o'r safle, ac nid ar ragfarnau personol.

## 3 Cynnal chwiliadau

3.1 Rhaid cynnal bod ataliad a chwiliad yn gwrtais, ystyriol a chan barchu'r person dan sylw. Mae hyn yn cael dylanwad arwyddocaol ar hyder y cyhoedd. Dylid gwneud pob ymdrech resymol i godi cyn lleied â phosibl o gywilydd ar y person sy'n cael ei chwilio. [Gweler *Nodyn 4*]

3.2 Ym mhob achos dylid ceisio cydweithrediad y person sydd i gael ei chwilio, hyd yn oed os yw'r person ar y cychwyn yn gwrthwynebu'r chwiliad. Gellir defnyddio grym dim ond os yw'r person yn amlwg yn gwrthod cydweithredu neu'n ceisio gwrthsefyll. Os yw popeth arall yn methu gellir defnyddio grym rhesymol os oes angen i gynnal chwiliad neu i gadw person neu gerbyd gyda'r pwrpas o gynnal chwiliad.

3.3 Rhaid i'r cyfnod amser pryd y cedwir person neu gerbyd fod yn rhesymol a chyn fyrred â phosibl. Pan fo angen amheuaeth resymol i ddefnyddio pŵer, rhaid i drylwyredd a maint y chwiliad fod yn ddibynnol ar yr hyn a amheuir o gael ei gario, a chan bwy. Os yw'r amheuaeth yn ddibynnol ar weld eitem neilltuol yn cael ei llithro i boced person, yna, yn absenoldeb seiliau eraill dros amheuaeth neu gyfle i symud yr eitem i rywle arall, rhaid cyfyngu'r chwiliad i'r boced honno. Yn achos eitemau bach iawn y gellir eu cuddio'n hawdd, megis cyffuriau, ac y gellir eu cuddio yn unrhywle ar y corff, fe all chwiliad mwy trylwyr fod yn angenrheidiol. Yn achos y chwiliadau a grybwyllwyd ym

mharagraff 2.1(b), (c), a (d), nad ydynt yn gofyn am seiliau rhesymol dros amheuaeth, gall swyddogion wneud unrhyw chwiliad rhesymol i edrych am eitemau y mae ganddynt yr awdurdod i chwilio amdanynt. [Gweler *Nodyn 5*]

3.4 Rhaid cynnal y chwiliad yn y lleoliad ble y cafodd y person neu gerbyd ei atal gyntaf neu'n agos at y lleoliad hwnnw. [Gweler *Nodyn 6*]

3.5 Nid oes pŵer i ofyn i berson ddiosg unrhyw ddillad yn gyhoeddus ar wahân i gôt allanol, siaced neu fenig, ac eithrio o dan adran 45(3) Deddf Terfysgaeth 2000 (sy'n awdurdodi heddwas sy'n cynnal chwiliad o dan 44(1) neu 44(2) o'r Ddeddf honno i ofyn i berson ddiosg penwisgoedd neu esgidiau'n gyhoeddus) ac o dan adran 60AA Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 (sy'n awdurdodi heddwas i ofyn i berson ddiosg unrhyw eitem a wisgir i gelu pwy ydyw). [Gweler *Nodyn 4* a *6*] Rhaid cyfyngu chwiliad cyhoeddus o ddillad person sydd heb gael eu diosg i chwiliad arwynebol o ddillad allanol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhwystro swyddog rhag gosod ei law/llaw y tu mewn i bocedi y dillad allanol, neu deimlo y tu mewn i goleri, sanau ac esgidiau os bernir bod hyn yn rhesymol yn yr amgylchiadau i edrych am wrthrych y chwiliad neu i gymryd ac archwilio unrhyw eitem yr amheuir yn rhesymol i fod yn wrthrych y chwiliad. Am yr un rhesymau, yn unol â'r cyfyngiadau ar ddiosg penwisgoedd, gellir chwilio gwallt person yn gyhoeddus (*gweler* paragraff 3.1 and 3.3).

3.6 Pryd y bernir bod seiliau rhesymol dros gynnal chwiliad mwy trwyadl (e.e. trwy ofyn i berson ddiosg crys-T), rhaid gwneud hyn allan o olwg y cyhoedd, er enghraifft, mewn fan heddlu os nad yw paragraff 3.7 yn berthnasol, neu swyddfa heddlu os oes un gerllaw. [Gweler *Nodyn 6*] Ni ellir cynnal chwiliad sy'n golygu diosg mwy na chôt allanol, siaced, menig, penwisg neu esgidiau, neu unrhyw eitem arall sy'n celu pwy yw person, ond gan swyddog o'r un rhyw â'r person sy'n cael ei chwilio a ni all neb o'r rhyw arall fod yn bresennol os nad yw'r person sy'n cael ei chwilio'n gofyn yn benodol am hynny. [Gweler *Nodyn 4*, *7* a *8*]

3.7 Rhaid peidio cynnal chwiliadau sy'n golygu dadlennu rhannau personol o'r corff fel estyniad arferol i chwiliad llai trylwyr, yn unig am na chafodd dim ei ganfod yn ystod y chwiliad cychwynnol. Rhaid cynnal chwiliadau sy'n golygu dadlennu rhannau personol o'r corff mewn swyddfa heddlu gyfagos yn unig neu leoliad arall sydd o olwg y cyhoedd (ond nid cerbyd heddlu). Rhaid i'r chwiliadau hyn gydymffurfio â pharagraff 11 o Atodiad A i Gôd C ond ni ellir awdurdodi na chynnal y chwiliad personol a grybwyllir ym mharagraff 11(f) o Atodiad A i Gôd C o dan bwerau atal a chwilio. Ni yw darpariaethau eraill Côd C yn berthnasol i gynnal a chofnodi chwiliadau o bobl a gaiff eu dal mewn swyddfeydd heddlu wrth ddefnyddio pwerau atal a chwilio. [Gweler *Nodyn 7*]

**Camau i'w cymryd cyn chwilio**

3.8 Cyn cynnal unrhyw chwiliad o berson a ataliwyd neu gerbyd rhaid i'r swyddog gymryd camau rhesymol i roi'r wybodaeth ganlynol i'r person sydd i'w chwilio neu sydd yng ngofal y cerbyd:

(a) eu bod yn cael eu hatal er mwyn cynnal chwiliad;

(b) enw'r swyddog (ac eithrio yn achos ymholiadau sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau terfysgol, neu fel arall os yw'r swyddog yn credu'n rhesymol y byddai rhoi ei enw yn beryglus iddo ef neu hi gan roi rhif warant neu rif adnabod arall) ac enw'r swyddfa heddlu mae'r swyddog yn gysylltiedig â hi;

(c) y pŵer chwilio cyfreithiol sy'n cael ei ymarfer; ac

(d) esboniad eglur o'r canlynol:

(i) pwrpas y chwiliad o ran yr eitem neu eitemau y rhoddir pŵer i chwilio amdanynt; ac

(ii) yn achos pwerau sy'n gofyn am amheuaeth resymol (*gweler* paragraff 2.1(a)), y seiliau ar gyfer yr amheuaeth honno; neu

(iii) yn achos y pwerau nad ydynt yn gofyn am amheuaeth resymol (*gweler* paragraff 2.1(b), a (c)), natur y pŵer ac unrhyw awdurdodiad angenrheidiol a'r ffaith ei fod wedi cael ei roi.

3.9 Rhaid i swyddogion nad ydynt mewn iwnifform ddangos eu cardiau warant. Dim ond heddweision mewn iwnifform all gynnal ataliadau a chwiliadau o dan y pwerau a grybwyllir ym mharagraffau 2.1(b), a (c).

3.10 Cyn y gellir cynnal chwiliad rhaid i'r swyddog hysbysu'r person (neu berchennog neu'r person yng ngofal y cerbyd sydd i'w chwilio) o'i hawl ef neu hi i gopi o gofnod o'r chwiliad, yn cynnwys ei hawl i gofnod o'r chwiliad os gwneir cais o fewn 12 mis, os yw'n gwbl anymarferol i wneud cofnod ar y pryd. Os na wneir cofnod ar y pryd dylid dweud wrth y person sut i gael gafael ar gopi (*gweler* adran 4). Dylai'r person *hefyd* gael gwybodaeth ynghylch pwerau'r heddlu i atal a chwilio a hawliau'r unigolyn yn yr amgylchiadau hyn.

3.11 Os nad yw'r person sydd i gael ei chwilio, neu sydd yng ngofal cerbyd sydd i gael ei chwilio, yn ymddangos ei fod yn deall yr hyn sy'n cael ei ddweud, neu os oes unrhyw amheuaeth ynghylch gallu'r person i ddeall Saesneg, rhaid i'r swyddog gymryd camau rhesymol i dynnu ei sylw at wybodaeth yn ymwneud â hawliau'r person ac unrhyw amodau perthnasol o'r Côd hwn. Os yw'r person yn fyddar neu'n methu deall Saesneg ac yng nghwmni person arall, yna rhaid i'r swyddog geisio sefydlu a yw'r person hwnnw'n gallu cyfieithu neu fel arall gynorthwyo'r swyddog i gyfleu'r wybodaeth angenrheidiol.

## 4 Gofynion cofnodi

4.1 Rhaid i swyddog sydd wedi cynnal chwiliad wrth ymarfer unrhyw bŵer sy'n berthnasol i'r Côd hwn, wneud cofnod o hynny ar y pryd, os na cheir amgylchiadau eithriadol a fyddai'n gwneud hyn yn gwbl anymarferol (e.e. mewn sefyllfaoedd o anhrefn cyhoeddus neu pan fo angen y swyddog ar frys yn rhywle arall). Os na wneir cofnod ar y pryd, rhaid i'r swyddog wneud hynny cyn gynted â phosib ar ôl hynny. Mewn rhai sefyllfaoedd efallai nad yw'n bosibl cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen i gwblhau cofnod, ond dylai'r swyddog wneud pob ymdrech resymol i wneud hynny. [Gweler *Nodyn 21*]

4.2 Rhaid rhoi copi o'r cofnod a wnaed ar y pryd yn syth i'r person a gafodd ei chwilio. Rhaid i'r swyddog ofyn am enw, cyfeiriad a dyddiad geni y person sy'n cael ei chwilio, ond nid oes rheidrwydd ar y person i roi'r manylion hyn na phwerau cadw os yw'r person yn amharod i wneud hynny.

4.3 Rhaid cynnwys y wybodaeth ganlynol bob amser yn y cofnod o'r chwiliad, hyd yn oed os nad yw'r person yn dymuno rhoi unrhyw fanylion personol:

(i) enw'r person sy'n cael ei chwilio, neu (os na rhoddir enw) disgrifiad;

(ii) nodyn o ddiffiniad y person o'i darddiad ethnig; [Gweler *Nodyn 18*]

(iii) pan chwilir cerbyd, ei rif cofrestru; [Gweler *Nodyn 17*]

(iv) y dyddiad, amser a'r lleoliad y cafodd y person neu'r cerbyd ei atal gyntaf;

(v) y dyddiad, amser a'r lleoliad y cafodd y person neu gerbyd ei chwilio os yn wahanol i (iv));

(vi) pwrpas y chwiliad;

(vii) ei seiliau, neu yn achos y chwiliadau a grybwyllir ym 2.1(b) a (c), natur y pŵer ac unrhyw awdurdodiad angenrheidiol a'r ffaith ei fod wedi cael ei roi; [Gweler *Nodyn 17*]

(viii) ei ganlyniadau (e.e. arestio neu dim gweithredu pellach);

(ix) nodyn o unrhyw anaf neu ddifrod i eiddo yn deillio ohono;

(x) yn unol â pharagraff 3.8, dull o adnabod y person sy'n cynnal y chwiliad. [Gweler *Nodyn 15*]

4.4 Nid oes dim ym mharagraff 4.3 (x) neu 4.10A i ofyn am ddangos enwau swyddogion yr heddlu ar y cofnod o'r chwiliad nac unrhyw gofnod arall y gofynnir amdano o dan y Côd hwn yn achos ymholiadau sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau terfysgol neu fel arall os yw'r swyddog yn credu'n rhesymol y gall cofnodi enwau beryglu swyddogion. Mewn

achosion o'r fath rhaid i'r cofnod ddangos rhif warant y swyddogion neu rif adnabod arall a'r swyddfa ddyletswydd.

4.5 Mae angen cofnod ar gyfer pob person a phob cerbyd a chwilir. Fodd bynnag, os oes person mewn cerbyd a'r ddau yn cael eu chwilio, ac mai'r un yw gwrthrych a seiliau'r chwiliad, nid oes ond angen cwblhau un cofnod. Os chwilir mwy nag un person mewn cerbyd, rhaid cael cofnod ar wahân ar gyfer chwiliad pob person. Os mai dim ond cerbyd sy'n cael ei chwilio, rhaid cofnodi enw'r gyrrwr a'i ddiffiniad o'i darddiad ethnig, os nad yw'r cerbyd yn wag.

4.6 Rhaid i'r cofnod o'r seiliau dros gynnal chwiliad egluro'n gryno ond yn gynhwysfawr y rheswm dros amau'r person dan sylw, trwy gyfeirio at ymddygiad y person ac/neu amgylchiadau eraill.

4.7 Pan fo swyddogion yn cadw unigolyn gyda'r bwriad o gynnal chwiliad, ond nad ydynt yn gwneud hynny oherwydd fod y seiliau dros amheuaeth yn cael eu dileu o ganlyniad i holi'r person dan sylw, rhaid dal i gadw cofnod yn unol â'r drefn a amlinellir uchod ym Mharagraff 4.12.

4.8 Wedi chwilio cerbyd gwag, neu unrhywbeth sydd ynddo neu arno, rhaid i swyddog adael hysbysiad ynddo (neu arno, os oes pethau ar y cebryd wedi cael eu chwilio heb iddo gael ei agor) yn cofnodi'r ffaith ei fod wedi cael ei chwilio.

4.9 Rhaid i'r hysbysiad gynnwys enw'r swyddfa heddlu mae'r swyddog dan sylw'n gysylltiedig â hi a nodi o ble y gellir cael copi o gofnod o'r chwiliad ac i ble y dylid cyfeirio cais am iawndal.

4.10 Dylid gadael y cerbyd yn ddiogel, os yw hynny'n bosib.

4.10A Pan yw swyddog yn gwneud cofnod o'r atal yn electronig ac yn methu darparu copi o'r ffurlfen ar y pryd, yna mae'n rhaid i'r swyddog egluro sut all y person gael gafael ar gopi cyflawn o'r atal neu'r chwiliad a rhoi derbynneb i'r person sy'n cynnwys y canlynol:

- cyfeirnod unigryw ac arweiniad ar sut i gael copi cyflawn o'r atal neu'r chwiliad;
- enw'r swyddog a gynhaliodd yr atal neu'r chwiliad (oni bai fod paragraff 4.4 yn berthnasol); a'r
- pŵer a ddefnyddiwyd i atal a chwilio hwynt. [Gweler *Nodyn 21*]

**Cofnodi cyfarfyddiadau nad ydynt yn dod o dan bwerau statudol**

4.11 Mater i heddluoedd unigol yw penderfynu pryd i weithredu paragraffau 4.12 i 4.20 o'r Côd hwn. Mae'n rhaid eu gweithredu'n llawn, fodd bynnag, ar draws pob heddlu cyn 1 Ebrill 2005. o ganlyniad, os yw swyddog yn gofyn i berson mewn man cyhoeddus i roi cyfrif am eu hunain cyn 1 Ebrill 2005 ac mewn ardal lle nad yw'r heddlu ar yr adeg

honno wedi gweithredu'r darpariaethau hyn, ni chwblheir unrhyw gofnod.

4.12 Pan fo swyddog yn gofyn i berson mewn man cyhoeddus i roi cyfrif am eu hunain, h.y. gweithredoedd, ymddygiad, presenoldeb mewn lleoliad arbennig neu fod ym meddiant rhywbeth, mae'n rhaid cwblhau cofnod o'r cyfarfyddiad ar y pryd a rhoi copi i'r sawl a holwyd. Mae'n rhaid i'r cofnod adnabod enw'r swyddog a stopiodd y person ac a gynhaliodd y cyfarfyddiad. Nid yw hyn yn berthnasol o dan yr amgylchiadau eithriadol a amlinellwyd yn 4.1.

4.13 Nid yw'r gofyniad yma'n berthnasol i sgyrsiau cyffredinol megis rhoi cyfarwyddiadau i rywle, neu wrth chwilio am dystion. Hefyd, nid yw'n cynnwys adegau lle mae swyddog yn chwilio am wybodaeth gyffredinol neu'n holi pobl i ganfod cefndir i ddigwyddiadau sydd wedi golygu bod swyddogion yn ymyrryd i gadw'r heddwch neu i ddatrys anghydfod.

4.14 Nid oes angen cwblhau cofnod ar wahân wrth:

- atal person mewn cerbyd, pan roddir ffurflen HORT/1, Hysbysiad Cynllun Cywiro Nam Cerbyd, neu Rhybudd Cosb Sefydlog. Nid yw ychwaith yn berthnasol pan fydd angen sampl o anadl o dan Adran 6 Deddf traffig y Ffyrdd Act 1988.
- atal person pan roddir Rhybudd o Gosb ar gyfer trosedd.

4.15 Mae'n rhaid i swyddogion hysbysu'r person o'i hawl i gopi o gofnod y cyfarfyddiad.

4.16 Bydd darpariaethau 4.4 yr un mor berthnasol pan gofnodir y cyfarfyddiadau a ddisgrifiwyd yn 4.12 a 4.13.

4.17 Mae'n rhaid cynnwys y wybodaeth ganlynol yn y cofnod

(i) dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfyddiad;

(ii) os yw'r person mewn cerbyd, y rhif cofrestru;

(iii) rheswm y swyddog dros holi'r person hwnnw; [Gweler Nodyn 18]

(iv) nodyn o ddiffiniad y person ei hun o'i gefndir ethnig; [Gweler Nodyn 19]

(v) canlyniad y cyfarfyddiad.

4.18 Nid oes unrhyw bŵer i orfodi'r person i ddarparu manylion personol. Os yw person yn gwrthod rhoi ei ddiffiniad ei hun o'i gefndir ethnig, mae'n dal yn ofynnol cwblhau ffurflen, sy'n cynnwys disgrifiad o gefndir ethnig y person. [Gweler Nodyn 19]

4.19 Mae'n rhaid gwneud cofnod o gyfarfyddiad ar bob adegpan fydd y meini prawf yn 4.12 wedi eu cyflawni. Os na fydd y meini prawf wedi eu cyflawni ond mae’r person yn gofyn am gofnod, dylai’r swyddog ddarparu copi o’r ffurflen gan nodi arni nad oedd y cyfarfyddiad yn cyflawni’r meini prawf. Fe all y swyddog wrthod rhoi'r ffurflen os yw o'r farn resymol mai

diben bwriadol y cais yw rhwystro neu oedi gweithgaredd dilys yr heddlu. [Gweler *Nodyn 20*]

4.20 Mae pob cyfeiriad at swyddogion yn yr adran hon yn cynnwys staff heddlu a ddynodwyd fel Swyddogion Cefnogaeth Cymunedol o dan adran 38 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.

## 5 Monitro ac arolygu'r defnydd o bwerau atal a chwilio

5.1 Rhaid i swyddogion arolygu fonitro'r defnydd o bwerau atal a chwilio a dylid ystyried yn arbennig oes yna unrhyw dystiolaeth o'u defnyddio ar sail delweddau ystrydebol neu gyffredinoli anaddas. Dylai swyddogion arolygu fodloni eu hunain fod dulliau swyddogion dan eu goruchwyliaeth wrth atal, chwilio a chofnodi yn cydymffurfio â'r Côd hwn. Rhaid i arolygwyr *hefyd* archwilio eu cofnodion i weld a ydynt yn datgelu unrhyw dueddiadau neu batrymau a allai achosi pryder, ac os felly dylid cymryd camau priodol i drafod hyn.

5.2 Rhaid i uwch-swyddogion a chanddynt gyfrifoldebau dros ardal neu heddluoedd *hefyd* fonitro'r defnydd ehangach o bwerau atal a chwilio a gweithredu, lle bo angen, ar y lefel briodol.

5.3 Rhaid casglu cofnodion ystadegol cynhwysfawr o ataliadau a chwiliadau ar lefel heddlu, ardal ac yn lleol i gefnogi'r monitro ac arolygu. Dylid nodi ac archwilio unrhyw ddefnydd ymddangosiadol anghyfartal o'r pwerau gan swyddogion arbennig neu grwpiau o swyddogion neu mewn perthynas â charfanau neilltuol o'r gymuned.

5.4 Er mwyn hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y defnydd o'r pwerau, rhaid i heddluoedd mewn ymgynghoriad ag awdurdodau heddlu wneud trefniadau i'r cofnodion gael eu harchwilio gan gynrychiolwyr o blith y gymuned, ac i egluro'r defnydd o'r pwerau ar lefel leol. [Gweler Nodyn 19]

### *Nodiadau arweiniad*

#### *Swyddogion sy'n defnyddio pwerau atal a chwilio*

*1 Nid yw'r côd hwn yn effeithio ar allu swyddog i siarad â pherson neu ei holi wrth gyflawni ei ddyletswyddau arferol heb gadw'r person yn y ddalfa neu ddefnyddio unrhyw elfen o orfodaeth. Nid pwrpas y côd yw gwahardd cyfarfyddiadau o'r fath rhwng yr heddlu a'r gymuned lle ceir cydweithrediad y person dan sylw ac nid yw chwaith yn amharu ar yr egwyddor bod gan pob dinesydd ddyletswydd i gynorthwyo swyddogion yr heddlu i atal troseddau a chanfod drwgweithredwyr. Dyletswydd dinesig yn hytrach na chyfreithiol yw hwn; ond pan fo swyddog o'r heddlu yn ceisio canfod a oes trosedd wedi ei chyflawni, a phwy sydd wedi cyflawni'r drosedd honno, fe all ef neu hi holi unrhyw berson a all gynnig gwybodaeth ddefnyddiol, yn unol â'r cyfyngiadau a osodir gan Gôd C. Nid yw amharodrwydd person i ateb yn newid yr hawl hwn, ond yn absenoldeb pŵer i arestio, neu atal er mwyn chwilio, mae'r person yn rhydd i adael a ni ellir ei orfodi i aros gyda'r swyddog.*

2 *Mewn rhai amgylchiadau efallai na fydd angen cwestiynau paratoadol, ond yn gyffredinol argymhellir sgwrs fer neu beth cyfnewid geiriau, nid yn unig fel dull o osgoi chwiliadau aflwyddiannus, ond er mwyn egluro'r seiliau ar gyfer yr ataliad/chwiliad, ennyn cydweithrediad a lleihau unrhyw densiwn a all fodoli ynghylch yr ataliad/chwiliad.*

3 *Pan fo person yn cael ei atal yn gyfreithiol ar gyfer ei chwilio, ond nid oes chwiliad yn digwydd, nid yw hyn yn golygu bod yr ataliad yn cael ei wneud yn anghyfreithlon.*

4 *Mae llawer o bobl yn gorchuddio eu pennau neu wynebau am resymau crefyddol – er enghraifft menyw Fwslemaidd, ddynion sy'n Siciaid, menywod sy'n Siciaid neu'n Hindwiaid, neu ddynion a menywod sy'n Rastaffariaid. Ni all swyddog o'r heddlu orchymyn i rywun ddiosg gorchudd pen neu wyneb ac eithrio lle mae yno reswm i gredu bod yr eitem yn cael ei gwisgo gan unigolyn yn llwyr neu yn bennaf ar gyfer dibenion celu pwy ydyw, nid yn unig oherwydd fod yr eitem yn celu pwy ydyw. Lle bydd sensitifrwydd crefyddol posib ynghylch gorchymyn diosg eitem o'r fath, fe ddylai'r swyddog caniatáu diosg yr eitem o olwg y cyhoedd. Pan fo hynny'n ymarferol, dylai'r eitem gael ei diosg ym mhresenoldeb swyddog o'r un rhyw â'r person ac o olwg unrhyw un o'r rhyw arall.*

5 *Dylid cwblhau chwiliad cyhoeddus o berson cyn gynted â phosibl.*

6 *Ni all person gael ei gadw o dan bŵer atal a chwilio mewn lle gwahanol i ble y cafodd y person ei atal yn wreiddiol, dim ond os yw'r lle hwnnw, boed yn swyddfa heddlu neu rywle arall, gerllaw. Dylai lle o'r fath gael ei leoli o fewn pellter teithio rhesymol gan ddefnyddio pa bynnag ddull teithio (cerdded neu gar) sy'n addas. Mae hyn yn berthnasol i bob chwiliad o dan bwerau atal a chwilio, boed hwy'n golygu diosg dillad neu ddangos rhannau personol o'r corff (gweler paragraffu 3.6 a 3.7) neu'n digwydd yng ngolwg y cyhoedd neu allan o olwg y cyhoedd. Er enghraifft, mae'n golygu na ellir cynnal chwiliad o dan y pŵer atal a chwilio yn adran 23 Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 sy'n golygu diosg gorfodol ar fwy na chôt allanol, siaced neu fenig person os nad oes lle ar gael sy'n agos i ble y cafodd ei atal yn wreiddiol a bod y lle hwnnw allan o olwg y cyhoedd. Os yw'r chwiliad yn golygu dangos rhannau personol o'r corff ac nid oes swyddfa heddlu gerllaw, dylid cymryd gofal neilltuol i sicrhau fod y lleoliad yn addas a'i fod yn galluogi'r chwiliad i gael ei gynnal yn unol â'r gofynion ym mharagraff 11 o Atodiad A i Gôd C.*

7 *Dylid ystyried chwiliad ar y stryd ei hun fel un cyhoeddus ar gyfer pwrpas paragraffau 3.6 a 3.7 uchod, hyd yn oed os yw'r stryd yn wag pan fo'r chwiliad yn dechrau. Er nad oes pŵer i ofyn i berson wneud hynny, nid oes dim i atal swyddog rhag gofyn i berson ddiosg yn wirfoddol fwy na chôt allanol, siaced neu fenig (a phenwisg neu esgidiau o dan adran 45(3) Deddf Terfysgaeth 2000) yn gyhoeddus.*

8 *Pan all gofyn i berson ddiosg penwisg gan ddefnyddio'r pwerau o dan adran 45(3) Deddf Terfysgaeth 2000 fod yn anodd am resymau crefyddol, dylai swyddog yr heddlu gynnig*

*cynnal y chwiliad o olwg y cyhoedd (er enghraifft, mewn fan heddlu neu swyddfa heddlu os oes un gerllaw).*

9 *Gall dulliau eraill o adnabod gynnwys tlysau, bathodynnau, tatŵs neu nodweddion eraill a ddefnyddir i nodi aelodaeth o gang neu grŵp arbennig.*

***Swyddogion awdurdodi***

10 *Mae'r pwerau o dan adran 60 ar wahân ac yn ychwanegol i'r pwerau atal a chwilio arferol sy'n gofyn am seiliau rhesymol dros amau unigolyn o gario arf bygythiol (neu eitem arall). Eu pwrpas cyffredinol yw rhwystro trais difrifol a'r cario eang ar arfau a all arwain at niweidio pobl yn ddifrifol trwy ddiarfogi drwgweithredwyr posibl mewn amgylchiadau lle na fyddai pwerau eraill yn ddigonol. Ni ddylid felly eu defnyddio yn lle neu i osgoi'r pwerau arferol ar gyfer ymdrin â phroblemau troseddu cyffredin. Pwrpas y pwerau o dan adran 60AA yw rhwystro'r rhai sy'n rhan o brotestiadau treisgar neu fygythiol rhag defnyddio gorchuddion wyneb i gelu pwy ydynt.*

11 *Mae awdurdodiadau o dan adran 60 yn gofyn am gred resymol ar ran y swyddog awdurdodi. Rhaid i'r gred wrth sail wrthrychol, er enghraifft, ymchwil neu wybodaeth berthnasol megis cefndir o drais a chasineb rhwng grwpiau arbennig; digwyddiadau treisgar blaenorol sydd ar hyn o bryd, neu a fu yn y gorffennol, yn gysylltiedig ag achlysuron neu leoliadau arbennig; cynnydd sylweddol mewn lladradau gyda chyllyll mewn ardal gyfyngedig; adroddiadau bod unigolion yn cario arfau'n gyson mewn lleoliad arbennig; neu yn achos adran 60AA enghreifftiau blaenorol o droseddau'n cael eu cyflawni gyda gorchuddion wyneb yn cael eu gwisgo i gelu pwy sydd wrthi.*

12 *Y swyddog awdurdodi sydd i benderfynu ar y cyfnod amser mae'r pwerau a grybwyllir ym mharagraff 2.1 (b) a (c) i gael eu gweithredu. Dylai'r swyddog osod y cyfnod amser lleiaf y mae ef neu hi yn ei ystyried yn angenrheidiol i ymdrin â'r perygl o drais, cario cyllyll neu arfau bygythiol, neu derfysgaeth. Unwaith yn unig y gellir rhoi cyfarwyddyd i ymestyn y cyfnod a awdurdodwyd o dan y pwerau a grybwyllir ym mharagraff 2.1 (b). Wedi hynny rhaid i ddefnydd pellach o'r pwerau wrth awdurdodiad newydd. Nid oes darpariaeth i ymestyn awdurdodiad o'r pwerau a grybwyllir ym mharagraff 2.1(c); rhaid i ddefnydd pellach o'r pwerau wrth awdurdodiad newydd.*

13 *Y swyddog awdurdodi sydd i benderfynu ar yr ardal ddaearyddol mae'r defnydd o'r pwerau i gael ei awdurdodi. Wrth wneud hynny efallai yr hoffai'r swyddog roi ystyriaeth i ffactorau megis natur a lleoliad y digwyddiad disgwyliedig, nifer y bobl a all fod yn agos at y digwyddiad disgwyliedig; mynediad i ardaloedd o amgylch a lefel y trais a ddisgwylir. Ni ddylai'r swyddog osod ardal ddaearyddol sy'n ehangach nag y mae ef neu hi yn ei hystyried yn angenrheidiol ar gyfer y pwrpas o rwystro trais, cario cyllyll neu arfau bygythiol,*

*digwyddiadau terfysgol disgwyliedig, neu, yn achos adran 60AA, rhwystro cyflawni troseddau. Mae'n neilltuol bwysig sicrhau fod heddweision sy'n ymarfer pwerau o'r fath yn gwbl ymwybodol lle y gellir eu defnyddio. Os yw'r ardal benodedig yn llai na holl ardal yr heddlu, dylai'r swyddog sy'n rhoi'r awdurdodiad nodi un ai'r strydoedd sy'n ffurfio terfynau'r ardal neu derfyn rhanbarthol o fewn ardal yr heddlu. Os yw'r pŵer i gael ei ddefnyddio mewn ymateb i fygythiad neu ddigwyddiad sy'n pontio ardaloedd heddlu, bydd angen i swyddog o bob un o'r heddluoedd dan sylw roi awdurdodiad.*

14 *Rhaid i swyddog sydd wedi awdurdodi defnydd o bwerau o dan adran 44 Deddf Terfysgaeth 2000 gymryd camau uniongyrchol i anfon copi o'r awdurdodiad i'r Cyd Uned Cenedlaethol, Adran Arbennig Heddlu Llundain, a fydd yn ei anfon ymlaen i'r Ysgrifennydd Gwladol. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gael gwybod beth yw'r rhesymau am yr awdurdodiad. Bydd y Cyd Uned Cenedlaethol yn hysbysu'r heddlu dan sylw, o fewn 48 awr o wneud yr awdurdodiad, a yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cadarnhau neu ganslo neu ddiwygio'r awdurdodiad.*

***Cofnodi***

15 *Pan fo atal a chwilio'n cael ei gynnal gan fwy nag un swyddog rhaid cofnodi pwy yw'r holl swyddogion sy'n rhan o'r chwilio. Nid oes dim i rwystro swyddog sy'n bresennol ond nid yn rhan uniongyrchol o'r chwilio rhag cwblhau'r cofnod yn ystod y cyfarfyddiad.*

16 *Pan fo cerbyd heb gael rhif cofrestru (e.e. car rali neu feic modur treialon) nid yw'r rhan honno o'r gofynion o dan 4.3(iii) yn berthnasol.*

17 *I bwrpas monitro mae'n bwysig nodi a gafodd yr hawl i ddefnyddio pŵer atal a chwilio ei awdurdodi o dan adran 60 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, neu o dan adran 44(1) neu 44(2) Deddf Terfysgaeth 2000.*

18 *Dylai swyddogion gofnodi diffiniad pob person a atelir o'i darddiad ethnig yn unol â'r categorïau a ddefnyddir yn y cwestiwn o Gyfrifiad 2001 a restrir yn Atodiad B. Dylid gofyn i atebwyr ddewis un o'r prif bump categori sy'n cynrychioli'r grwpiau ethnig cyffredinol ac yna gefndir diwylliannol mwy penodol o fewn y grŵp hwn. Dylid cofnodi'r dosbarthiad ethnig mewn côd gan ddefnyddio'r system gôd yn Atodiad B. Ceir blwch ychwanegol 'Heb ei Nodi' ond ni ddylid ei gynnig yn amlwg i atebwyr. Dylai swyddogion fod yn ymwybodol ac egluro i aelodau o'r cyhoedd, yn enwedig pan godir cwestiynau, bod angen yr wybodaeth hon er mwyn cael darlun cywir o'r gweithgaredd atal a chwilio ac i gynorthwyo gwell monitro ethnig, mynd I'r afael ag arferion o wahaniaethu, a hyrwyddo defnydd effeithiol o bwerau. Os bydd person yn rhoi ateb sy'n ymddangos i'w swyddog yn 'anghywir' (e.e. person sy'n ymddangos yn wyn yn nodi ei fod yn ddu), dylai'r swyddog gofnodi'r ymateb a gafwyd. Dylai swyddogion hefyd gofnodi eu barn eu hunain am gefndir ethnig pob person a atelir a dylid gwneud hyn gan ddefnyddio system ddosbarthu PNC/Phoenix.*

*Os defnyddir y categori 'Heb ei Nodi' dylid nodi'r rheswm am hynny ar y ffurflen.*

19 *Dylai trefniadau ar gyfer archwiliadau cyhoeddus o'r cofnodion roi ystyriaeth i hawl y rhai a gafodd eu hatal a'u chwilio i gyfrinachedd. Ffurflenni heb fod yn cynnwys enwau ac/neu ystadegau wedi'u cynhyrchu o gofnodion ddylai fod yn ffocws i archwiliadau gan aelodau o'r cyhoedd.*

20 *Lle mae swyddog yn cychwyn sgwrs nad yw'n berthnasol i'r camau neu leoliad yr unigolyn (e.e. nid yw'n ymwneud â pham fod y person yno, beth y mae'n ei wneud neu lle mae wedi bod neu i ble mae'n mynd) yna ni fyddai rhoi'r ffurlfen yn cwrdd â'r meini prawf a nodwyd ym mharagraff 4.12. Fe allai sefyllfaoedd godi a fwriadwyd i rwystro gweithgaredd yr heddlu, er enghraifft, mewn sefyllfaoedd trefn gyhoeddus lle mae unigolion yn cymell deialog gyda swyddog heddlu ond lle nad yw'r swyddog yn cychwyn neu gymryd rhan mewn cyswllt ynghylch amgylchiadau unigol y person.*

21 *Mewn sefyllfaoedd lle nad yw'n ymarferol darparu cofnod ysgrifenedig o'r atal neu'r atal a chwilio ar y pryd, dylai'r swyddog ystyried darparu manylion i'r person o'r orsaf y gall ei mynychu i gael cofnod. Fe allai hynny fod ar ffurf cerdyn busnes syml, gan ychwanegu dyddiad yr atal neu'r atal a chwilio.*

## ATODIAD A CHRYNODEB O BRIF BWERAU ATAL A CHWILIO

Mae'r tabl yma yn ymwneud â phwerau atal a chwilio yn unig. Fe all statudau unigol isod gynnwys pwerau eraill yr heddlu i gael mynediad, chwilio ac atafaelu.

| **Pŵer** | **Gwrthrych y chwiliad** | **Maint y chwiliad** | **Lle y maent i gael eu gweithredu** |
|---|---|---|---|
| **Eitemau anghyfreithlon yn gyffredinol** | | | |
| 1. Deddf Storfeydd Cyhoeddus 1875, a6 | Storfeydd E.M. a ladratwyd neu a gafwyd yn anghyfreithlon | Pobl, cerbydau a llongau | Unrhywle lle mae gan yr heddlu yr hawl i ddefnyddio'u pwerau |
| 2. Deddf Gynnau 1968, a47 | Gynnau | Pobl a cherbydau | Man cyhoeddus, neu unrhywle mewn achos o amheuaeth resymol o gario gynnau gyda bwriad troseddol neu dresbasu gyda gynnau |
| 3. Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, a23 | Cyffuriau rheoledig | Pobl a cherbydau | Unrhywle |
| 4. Deddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979, a163 | Nwyddau: (a) na thalwyd tollau arnynt; (b) a symudwyd, mewnforwyd neu allforwyd yn anghyfreithlon; (c) yn atebol fel arall I'w fforffedu i Dollau Tramor a Chartref E.M. | Cerbydau a llongau yn unig | Unrhywle |
| 5. Deddf Diogelwch Awyrennau 1982, a27(1) | Nwyddau a ladratwyd neu a gafwyd yn anghyfreithlon | Gweithwyr maes awyr a cherbydau'n cario gweithwyr maes awyr neu awyrennau neu unrhyw gerbyd mewn ardal gargo boed yn cario gweithiwr neu beidio | Unrhyw faes awyr dynodedig |
| 6. Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, a1 | Nwyddau a ladratwyd; eitemau i'w defnyddio mewn ambell drosedd Deddf Ddwyn; arfau bygythiol, yn cynnwys eitemau gyda llafn neu fin (ac eithrio cyllyll poced plygadwy gyda min llafnog heb fod yn fwy na 3 modfedd); gwaharddiad rhag bod ym meddiant tân gwyllt categori 4 (gradd arddangosfa), unrhyw berson o dan 18 oed ym meddiant tân gwyllt oedolyn mewn man cyhoeddus. | Pobl a cherbydau | Lle ceir mynediad I'r cyhoedd |
| | Difrod troseddol: Eitemau a wnaed, addaswyd neu a fwriadwyd ar gyfer dinistrio neu ddifrodi eiddo | Pobl a cherbydau | Lle ceir mynediad I'r cyhoedd |
| Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, a6(3) (gan gwnstabl Heddlu Awdurdod Tanwydd Atomig y Deyrnas Gyfunol parthed eiddo yn perthyn i neu a reolir gan Tanwydd Niwclear Prydain ccc) | Storfeydd E.M. (ar ffurf nwyddau a chelfi'n perthyn i Danwydd Niwclear Prydalin ccc) | Pobl, cerbydau a llongau | Unrhywle lle mae gan yr heddlu yr hawl i ddefnyddio'u pwerau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7. Deddf Digwyddiadau Chwaraeon (Rheoli Alcohol ayyb) 1985, a7 | Gwirodydd meddwol | Pobl, bysiau a threnau | Meysydd chwaraeon penodol neu fysiau neu drenau'n teithio i neu o ddigwyddiad chwaraeon penodol |
| 8. Deddf Croesfŵau 1987, a4 | Croesfŵau neu rannau o groesfŵau (ac eithrio gyda phwysau tynnu o lai nag 1.4 cilogram) | Pobl a cherbydau | Unrhywle ac eithrio anheddau |
| 9. Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 a139B | Arfau bygythiol, eitemau gyda llafn neu fin | Pobl | Mangre ysgol |
| **Tystiolaeth o droseddau hela bywyd gwyllt** | | | |
| 10. Deddf Atal Herwhela 1862, a2 | Offer hela neu herwhela | Pobl a cherbydau | Man cyhoeddus |
| 11. Deddf Ceirw 1991, a12 | Tystiolaeth o droseddau o dan y Ddeddf | Pobl a cherbydau | Unrhywle ac eithrio anheddau |
| 12. Deddf Gwarchod Morloi 1970, a4 | Morloi neu offer hela | Cerbydau yn unig | Unrhywle |
| 13. Deddf Moch Daear 1992, a11 | Tystiolaeth o droseddau o dan y ddeddf | Pobl a cherbydau | Unrhywle |
| 14. Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, a19 | Tystiolaeth o droseddau bywyd gwyllt | Pobl a cherbydau | Unrhywle ac eithrio anheddau |
| **Arall** | | | |
| 15. Deddf Terfysgaeth 2000, a.43 | *Tystiolaeth o atebolrwydd i arestio o dan adran 14 o'r Ddeddf* | Pobl | Unrhywle |
| 16. Deddf Terfysgaeth 2000, a.44(1) | *Eitemau y gellid eu defnyddio i bwrpas yn gysylltiedig â chyflawni, paratoi neu ysgogi gweithredoedd terfysgol* | Cerbydau, gyrrwr a theithwyr | Unrhywle o fewn yr ardal neu leoliad a awdurdodwyd o dan is-adran (1) |
| 17. Deddf Terfysgaeth 2000, a.44(2) | *Eitemau y gellid eu defnyddio i bwrpas yn gysylltiedig â chyflawni, paratoi neu ysgogi gweithredoedd terfysgol* | Cerddwyr | Unrhywle o fewn yr ardal neu leoliad a awdurdodwyd |
| 18. Paragraffau 7 a 8 Atodiad 7, Deddf Terfysgaeth 2000 | *Unrhywbeth perthnasol i benderfynu yw person sy'n cael ei chwilio yn dod o dan baragraff 2(1)(a) i (c) o Atodiad 5* | Pobl, cerbydau, llongau ayyb | Porthladdoedd a meysydd awyr |
| 19. Adran 60 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus | Arfau bygythiol neu offer perysglus i rwystro digwyddiadau | Pobl a cherbydau | Unrhywle o fewn lleoliad a awdurdodwyd o dan is-adran (1) |
| 1994, fel y'i diwygiwyd gan a.8 Deddf Cyllyll 1997 | o drais difrifol neu i ymdrin â chario eitemau o'r fath | | |

## ATODIAD B Hunan-ddiffiniadau o Gategorïau Dosbarthu Ethnig

| | |
|---|---|
| ***Gwyn*** | ***G*** |
| *A. Gwyn – Prydeinig* | *G1* |
| *B. Gwyn – Gwyddelig* | *G2* |
| *C. Unrhyw gefndir Gwyn arall* | *G9* |
| ***Cymysg*** | ***C*** |
| *D. Gwyn a Du Caribïaidd* | *C1* |
| *E. Gwyn a Du – Affricanaidd* | *C2* |
| *F. Gwyn ac Asiaidd* | *C3* |
| ***G. Unrhyw gefndir Cymysg arall*** | ***C9*** |
| *Asiaidd/Asiaidd – Prydeinig* | *A* |
| *H. Asiaidd – Indiaidd* | *A1* |
| *I. Asiaidd – Pacistanaidd* | *A2* |
| *J. Asiaidd – Bangladeshiaidd* | *A3* |
| *K. Unrhyw gefndir Asiaidd arall* | *A9* |
| ***Du/Du – Prydeinig*** | ***D*** |
| *L. Du – Caribïaidd* | *D1* |
| *M. Du – Affricanaidd* | *D2* |
| *N. Unrhyw gefndir Du arall* | *D9* |
| *Arall* | *Ar* |
| *O. Tsieineaidd* | *Ar1* |
| *P. Arall* | *Ar9* |
| ***Heb ei Nodi*** | ***HN*** |

## ATODIAD C Crynodeb o Bwerau Swyddogion Cefnogaeth Cymunedol i Chwilio ac Atafaelu

Mae'r canlynol yn grynodeb o bwerau chwilio ac atafaelu y gellir eu defnyddio gan swyddog cefnogaeth cymunedol a ddynodwyd â'r pwerau perthnasol yn unol â Rhan 4 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.

Wrth ddefnyddio'r pwerau hyn, mae'n rhaid i swyddog cefnogaeth cymunedol ystyried unrhyw ddarpariaethau perthnasol o'r Cod yma, yn cynnwys adran 3 sy'n ymwneud â chynnal chwiliadau a'r camau i'w cymryd cyn chwiliad.

**1. Pŵer i atal a chwilio heb ganiatâd**

| Dynodiad | Pŵer a roddwyd | Pwrpas y Chwiliad | Maint y Chwiliad | Lle y maent i gael eu gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| Deddf Diwygio'r Heddlu 2002, Atodlen 4, paragraff 15 | (a) Deddf Terfysgaeth 2000, a.44(1)(a) a (d) a 45(2); | Eitemau y bwriedir eu defnyddio mewn cysylltiad â therfysgaeth. | (a) Cerbydau neu unrhyw beth a gludir mewn neu ar y cerbyd ac unrhyw beth a gludir gan y gyrrwr neu'r teithiwr. | Unrhyw le o fewn ardal a awdurdodwyd ac yng nghwmni a than oruchwyliaeth heddwas. |
| | (b) Deddf Terfysgaeth 2000, a.44 (2)(b) a 45(2). | | (b) unrhyw beth a gludir gan rywun sy'n cerdded ar y stryd. | |

**2. Pwerau i chwilio sydd angen caniatâd yr unigolyn ac atafaelu**

Fe all swyddog cefnogaeth cymunedol gadw person trwy ddefnyddio grym rhesymol lle bo angen fel nodir yn Rhan 1, Atodlen 4 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002. Os yw'r person wedi'i gadw'n gyfreithlon, fe all y swyddog cefnogaeth cymunedol chwilio'r person ar yr amod bod y person wedi rhoi caniatâd i chwiliad o'r fath mewn perthynas â'r canlynol:

| Dynodiad | Pŵer a roddwyd | Pwrpas y Chwiliad | Maint y Chwiliad | Lle y maent i gael eu gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| Deddf Diwygio'r Heddlu 2002, Atodlen 4, paragraff 7A | (a) Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2001, a12(2) | (a) Alcohol neu gynhwysydd alcohol | (a) Unigolion | (a) Man cyhoeddus dynodedig |
| | (b) Deddf Atafaelu Alcohol (Pobl Ifanc) 1997, a1 | (b) Alcohol | (b) Unigolion o dan 18 oed | (b) Man cyhoeddus |
| | (c) Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933, adran 7(3) | (c) Tybaco neu bapurau sigarennau | (c) Unigolion o dan 16 oed a ganfyddir yn ysmygu | (c) Man cyhoeddus |

**3. Pwerau i chwilio lle nad oes angen caniatâd yr unigolyn ac atafaelu**

Fe all swyddog cefnogaeth cymunedol gadw person trwy ddefnyddio grym rhesymol lle bo angen fel nodir yn Rhan 1, Atodlen 4 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002. Os yw'r person wedi'i gadw'n gyfreithlon, fe all y swyddog cefnogaeth cymunedol chwlio'r person heb yr angen i'r person roi ei g/chaniatâd mewn perthynas â'r canlynol:

| **Dynodiad** | **Pŵer a roddwyd** | **Pwrpas y Chwiliad** | **Maint y Chwiliad** | **Lle y maent i gael eu gweithredu** |
|---|---|---|---|---|
| Deddf Diwygio'r Heddlu 2002, Atodlen 4, paragraff 2A | Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, a.32 | a) Gwrthrychau y gellir eu defnyddio i achosi anaf corfforol i'r unigolyn neu'r Swyddog Cefnogaeth Cymunedol.<br><br>b) Eitemau y gellid eu defnyddio i gynorthwyo'r unigolyn i ddianc. | Unigolion sy'n destun gofyniad i aros. | Unrhyw le lle gwnaed y gofyniad i aros. |

**4. Pwerau i atafaelu heb ganiatâd**

Mae'r pŵer yma'n berthnasol lle canfyddir cyffuriau yn ystod unrhyw chwiliad a nodwyd uchod.

| **Dynodiad** | **Pŵer a roddwyd** | **Pwrpas y Chwiliad** | **Maint y Chwiliad** |
|---|---|---|---|
| Deddf Diwygio'r Heddlu 2002, Atodlen 4, paragraff 7B | Deddf Diwygio'r Heddlu 2002, Atodlen 4, paragraff 7B | Cyffuriau rheoledig ym meddiant unigolyn. | Unrhyw fan lle mae unigolyn ym meddiant cyffuriau. |

B

# DEDDF YR HEDDLU A THYSTIOLAETH DROSEDDOL 1984 (PACE)

# CÔD B

# CÔD YMARFER AR GYFER SWYDDOGION YR HEDDLU YN CHWILIO MANGREODD AC YN MEDDIANNU EIDDO A GANFUWYD GAN SWYDDOGION YR HEDDLU AR BERSONAU NEU MEWN MANGRE

## Cychwyniad – Trefniadau Trosiannol

Mae'r Côd hwn yn berthnasol i geisiadau ar gyfer gwarantau a wnaed ar ôl hanner nos ar 31 Rhagfyr 2005 ac ar gyfer chwilio a meddiannu eiddo ar ôl hanner nos ar 31 Rhagfyr 2004.

B

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Côd Ymarfer yma'n delio gyda phwerau'r heddlu i:

- chwilio mangreoedd
- feddiannu a chadw eiddo a ganfuwyd mewn mangre neu ar bersonau

1.1A Gellir defnyddio'r pwerau yma i ganfod:

- eiddo a deunydd mewn perthynas â throsedd
- personau y mae'r heddlu'n chwilio amdanynt
- plant sy'n dianc o lety o eiddo'r awdurdod lleol lle maent ar fechnïaeth neu wedi'u hanfon yno gan lys

1.2 Gall ynad heddwch gyhoeddi gwarant chwilio sy'n rhoi pwerau i fynd i mewn i fangre a'i chwilio a meddiannu eiddo, e.e. gwarantau i chwilio am eiddo sydd wedi'i ddwyn, cyffuriau, gynnau a thystiolaeth o droseddau difrifol. Hefyd mae gan yr heddlu bwerau heb warant chwilio. Mae'r prif bwerau a ddarperir dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Troseddol 1984 (PACE) yn cynnwys pwerau i chwilio mangreoedd:

- i arestio
- ar ôl arestio

1.3 Mae'r hawl i breifatrwydd a pharch tuag at eiddo personol yn egwyddorion allweddol o Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Dylai pwerau i gael mynediad i fangreoedd, eu chwilio a meddiannu eiddo gael eu cyfiawnhau'n llawn ac yn glir cyn eu defnyddio gan y gallant ymyrryd yn sylweddol â phreifatrwydd y deiliad. Dylai swyddogion ystyried a oes modd cwrdd â'r amcanion angenrheidiol trwy ddulliau llai ymwthgar.

1.4 Ym mhob achos, dylai'r heddlu:

- ymarfer eu pwerau'n gwrtais, gyda pharch tuag at bersonau ac eiddo
- ddefnyddio grym rhesymol yn unig pan ystyrier fod hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur i'r amgylchiadau

1.5 Os na chedwir at ddarpariaethau PACE a'r Côd yma, gall tystiolaeth a gafwyd o chwiliad gael ei gwestiynu.

## 2 Cyffredinol

2.1 Mae'n rhaid i'r Côd yma fod ar gael yn hwylus ym mhob gorsaf heddlu ar gyfer dibenion ymgynghori:

B

- swyddogion yr heddlu
- staff yr heddlu
- pobl yn y ddalfa
- aelodau o'r cyhoedd

2.2 Nid yw'r *Nodiadau Arweiniad* a gynhwysir yn ddarpariaethau o'r Côd yma.

2.3 Mae'r Côd yma'n berthnasol i chwiliadau eiddo:

(a) gan yr heddlu ar gyfer dibenion ymchwilio i drosedd honedig, gyda chaniatâd y deiliad, ar wahân i:

- chwiliadau rheolaidd o leoliad trosedd;
- alwadau tân neu fwrgleriaeth wedi'u gwneud gan ddeiliad neu ar eu rhan neu chwiliadau ar ôl i larymau tân neu fwrgleriaeth gael eu seinio neu ar ôl canfod mangreoedd anniogel;
- chwiliadau pan fo *paragraff 5.4* yn berthnasol;
- alwadau ynglŷn â bygythiad o fom;

(b) dan bwerau a roddwyd i swyddogion yr heddlu gan PACE, adrannau 17, 18 a 32;

(c) a wnaed yn dilyn gwarantau chwilio a roddwyd i ac a weithredwyd gan heddweision yn unol â PACE, adrannau 15 a 16. Gweler *Nodyn 2A*;

(d) yn ddarostyngedig i *baragraff 2.6*, o dan unrhyw bŵer arall a roddwyd i'r heddlu i fynd i mewn i fangre gyda neu heb warant chwilio ar gyfer unrhyw ddiben yn gysylltiedig â'r ymchwiliad i drosedd honedig neu amheuaeth o drosedd. Gweler *Nodyn 2B*

Ar gyfer dibenion y Côd yma, mae 'mangre' yn ôl diffiniad PACE, adran 23, yn cynnwys unrhyw le, gerbyd, awyren, hofranlong, pabell neu unrhyw beth symudol ac unrhyw weithfeydd alltraeth yn ôl diffiniad Deddf Gwaith Mwynau (Gosodiadau Alltraeth) 1971, adran 1. Gweler *Nodyn 2D*

2.4 Dylai person sydd heb ei arestio ond sy'n cael ei chwilio yn ystod chwiliad mangre gael ei chwilio'n unol â chôd A. Gweler *Nodyn 2C*

2.5 Nid yw'r Côd yma'n berthnasol i ymarfer pŵer statudol er mwyn cael mynediad i fangre nac i archwilio nwyddau, offer na gweithdrefnau os nad yw ymarfer y pŵer hwnnw'n seiliedig ar achos i amau bod trosedd bosibl wedi'i chyflawni ac nad oes gan y person sy'n ymarfer y pŵer unrhyw sail resymol dros fod ag amheuaeth o'r fath.

2.6 Nid yw'r Côd yma'n effeithio ar unrhyw gyfarwyddiadau ynglŷn â gwarant chwilio neu rybudd, a weithredir yn unol â'r gyfraith yng Nghymru neu Loegr, ynghylch unrhyw eitem neu dystiolaeth a feddiennir dan y warant honno neu rybudd a drosglwyddir i'r heddlu, llys, tribiwnlys, neu awdurdod arall y tu allan i Gymru neu Loegr. Er enghraifft, gwarantau a rhybuddion a gyflwynir yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon, *gweler Nodyn 2B(f)* a gwarantau chwilio a gyflwynir o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (Cydweithrediad Rhyngwladol) 1990, adran 7.

2.7 Pan fo'n ofynnol i'r Côd yma gael ei awdurdodi neu gael cytundeb ymlaen llaw gan swyddog o safle arolygydd neu uwcharolygydd o leiaf, gall yr awdurdod hwnnw gael ei roi gan ringyll neu brif arolygydd a awdurdodwyd i weithredu swyddogaethau'r safle uwch dan PACE, adran 107.

2.8 Dylid gwneud cofnodion ysgrifenedig sy'n ofynnol dan y Côd yma nad ydynt yn y cofnod chwilio, oni bai y nodir yn wahanol:

- yn llyfr poced y swyddog cofnodi (mae 'llyfr poced' yn cynnwys unrhyw lyfr cofnodi swyddogol a roddir i swyddogion yr heddlu) neu
- ar ffurflenni a ddarperir ar gyfer y diben

2.9 Nid oes dim yn y Côd yma'n gofyn am ddatgelu pwy yw'r swyddogion, neu unrhyw un sy'n bresennol gyda hwy yn ystod chwilio'r fangre:

(a) yn achos ymholiadau sy'n gysylltiedig ag ymchwilio i derfysgaeth; neu

(b) os oes gan y swyddogion le rhesymol i gredu y gallai cofnodi neu ddatgelu eu henwau eu rhoi mewn perygl.

Mewn achosion o'r fath dylai swyddogion ddefnyddio gwarant neu rifau adnabod eraill ac enw'r orsaf heddlu. Dylai staff yr heddlu ddefnyddio'r rhif adnabod a roddir iddynt gan yr heddlu. Gweler Nodyn 2E

2.10 Mae'r 'swyddog â gofal am y chwiliad' yn golygu'r swyddog sydd â dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol wedi'u dynodi iddo dan y Côd yma. Pan fo chwiliad mangre y mae'r Côd yma'n berthnasol iddo, rhaid i un swyddog weithredu fel y swyddog â gofal am y chwiliad. *Gweler Nodyn 2F*

2.11 Yn y Côd yma mae:

(a) 'person dynodedig' yn golygu rhywun ar wahân i swyddog heddlu, a ddynodwyd dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, Rhan 4 sydd â phwerau a dyletswyddau penodedig swyddogion heddlu a roddwyd iddynt neu a orfodwyd arnynt;

(b) unrhyw gyfeiriad at swyddog heddlu yn cynnwys person dynodedig sy'n gweithredu

wrth ymarfer neu gyflawni'r pwerau a'r dyletswyddau a roddwyd iddynt neu a orfodwyd arnynt gan eu dynodiad.

(c) person a awdurdodwyd i fynd gyda swyddogion heddlu neu bersonau dynodedig wrth weithredu gwarant sydd â'r un pwerau a heddwas wrth weithredu gwarant a chwilio a meddiannu unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'r warant. Mae'n rhaid ymarfer y pwerau hyn yng nghwmni ac o dan oruchwyliaeth swyddog heddlu.

2.12 Os yw pŵer a roddwyd i berson dynodedig:

(a) yn caniatáu defnyddio grym rhesymol pan y'i defnyddir gan swyddog heddlu, mae gan y person dynodedig sy'n defnyddio'r pŵer yna yr un hawl i ddefnyddio grym;

(b) yn cynnwys pŵer i ddefnyddio grym i gael mynediad i unrhyw fangre, ni all y person dynodedig ymarfer y pŵer yna ac eithrio:

(i) ym mhresenoldeb ac o dan oruchwyliaeth swyddog o'r heddlu; neu

(ii) ar gyfer dibenion:

- achub bywyd neu niwed corfforol; neu
- rwystro difrod difrifol i eiddo.

2.13 Rhaid i bersonau dynodedig gymryd i ystyriaeth unrhyw ddarpariaethau perthnasol o'r Codau Ymarfer.

***Nodiadau arweiniad***

*2A Mae adrannau 15 a 16 PACE yn berthnasol i'r holl warantau chwilio a roddwyd neu a weithredwyd gan heddweision o dan unrhyw ddeddf, e.e. gwarantau chwilio a roddwyd gan:*

*(a) ynad heddwch o dan:*

- *Deddf Dwyn 1968, adran 26 – eiddo wedi'i ddwyn;*
- *Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, adran 23 – cyffuriau rheoledig;*
- *PACE, adran 8 – tystiolaeth o drosedd ditiadwy;*
- *Deddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 5, paragraff 1;*

*(b) barnwr Uchel Lys, barnwr cylchdaith, Cofiadur neuFarnwr Ardal o dan:*

- *PACE, Atodlen 1;*
- *Deddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 5, paragraff 11.*

B

*2B Mae enghreifftiau o'r pwerau eraill ym mharagraff 2.3(d) yn cynnwys:*

*(a) Deddf Traffig y Ffyrdd 1988 adran 6E(1) sy'n rhoi pŵer i'r heddlu gael mynediad i fangre o dan adran 6E(1) i:*

- *ofyn i berson roi sampl anadl; neu*
- *arestio person yn dilyn:*
  - ~ *prawf anadl positif;*
  - ~ *methu â rhoi sampl anadl;*

*(b) Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992, adran 30(4) sy'n rhoi pwerau i'r heddlu gael mynediad i fangre yn cyfateb â'r pwerau yn (a) mewn perthynas â phersonau penodedig yn gweithio ar systemau trafnidiaeth sy'n berthnasol i'r Ddeddf;*

*(c) Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988, adran 139B sy'n rhoi pŵer i'r heddlu i gael mynediad i fangreoedd ysgolion a'u chwilio am arfau peryglus, eitemau â llafn neu â blaen;*

*(d) Deddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 5, paragraffau 3 a 15 sy'n rhoi'r awdurdod i uwcharolygydd mewn achosion brys roi awdurdod ysgrifenedig i'r heddlu gael mynediad i fangreoedd a'u chwilio ar gyfer dibenion ymchwilio terfysgaeth;*

*(e) Deddf Ffrwydron 1875, adran 73(b) sy'n rhoi'r hawl i uwcharolygydd roi awdurdod ysgrifenedig i'r heddlu gael mynediad i fangreoedd, eu harchwilio a'u chwilio am ffrwydron;*

*(f) gwarantau chwilio a gorchmynion cyflwyno neu gyfatebol a gyflwynwyd yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon a weithredir dan y Ddeddf (Proses) Awdurdod Diannod 1881 neu Ddeddf Lysoedd Bach (Iwerddon) 1851 i'w gweithredu yn Lloegr a Chymru.*

*2C Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988, adran 139B yn caniatáu mynediad i heddwas sydd â sail resymol dros gredu bod trosedd wedi cael ei chyflawni neu yn cael ei chyflanwi o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988, adran 139A, i fangre ysgol a chwilio'r fangre ac unrhyw rai ynddi am unrhyw eitemau â llafn neu â blaen neu arf peryglus. Gellir chwilio personau dan warant a gyflwynwyd dan y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, adran 23(3) er mwyn chwilio mangre am gyffuriau neu ddogfennau a hynny'n unig os yw'r warant yn nodi bod hawl benodol i chwilio personau yn y fangre.*

*2D Mae Deddf Mewnfudo 1971, Rhan III ac Atodlen 2 yn rhoi pwerau i swyddogion mewnfudo gael mynediad i fangreoedd a'u chwilio, meddiannu a chadw eiddo, gyda a heb warant chwilio. Mae'r pwerau hyn yn debyg i'r pwerau a roddir i'r heddlu dan warant chwilio a roddwyd gan ynad heddwch a heb warant o dan PACE, adrannau 17, 18, 19 a 32 ond eu bod yn berthnasol yn unig i droseddau penodedig o dan Ddeddf Mewnfudo 1971 a*

*phwerau rheoli mewnfudo. Ar gyfer rhai mathau o ymchwiliadau ac ymholiadau mae'r pwerau hyn yn osgoi'r angen i'r Gwasanaeth Mewnfudo ddibynnu ar swyddogion yr heddlu i ymwneud yn uniongyrchol â hwy. Wrth ymarfer y pwerau hyn, mae'n ofynnol i swyddogion mewnfudo, o dan Ddeddf Mewnfudo a Llochesu 1999, adran 145 gymryd i ystyriaeth ddarpariaethau cyfatebol y Côd yma. Pan fo swyddogion mewnfudo'n delio gyda phersonau neu eiddo mewn gorsafoedd heddlu, dylai swyddogion yr heddlu roi cymorth priodol iddynt fel y gallant gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau penodol.*

*2E Diben paragraff 2.9(b) yw diogelu'r rhai sy'n ymwneud ag ymchwiliadau i droseddau difrifol a gynllwyniwyd neu sy'n arestio pobl sy'n arbennig o dreisgar pan fo gwybodaeth ddibynadwy y gallai'r rhai a arestir neu eu cymdeithion fygwth neu achosi niwed i'r swyddogion neu unrhyw un sy'n bresennol gyda hwy yn ystod chwiliad o fangre. Mewn achosion o amheuaeth, dylid ymgynghori â swyddog o safle arolygydd neu uwch.*

*2F Ar gyfer dibenion paragraff 2.10, fel arfer y swyddog uchaf ei safle sy'n bresennol yn y chwiliad a ddylai fod â gofal o'r chwiliad. Mewn rhai eithriadau:*

*(a) gall swyddog goruchwylio sy'n bresennol neu'n helpu yn y fangre lle cynhelir y chwiliad benodi swyddog o safle is i fod yn swyddog â gofal o'r chwiliad os yw'r swyddog hwnnw:*

- *yn fwy cyfarwydd â'r ffeithiau;*
- *yn swyddog fwy priodol i fod â gofal o'r chwiliad;*

*(b) pan fo'r holl swyddogion sy'n chwilio mangre o'r un safle. Dylai'r swyddog goruchwylio os yw ar gael sicrhau y penodir un o'u plith fel swyddog â gofal o'r chwiliad, neu dylai'r swyddogion eu hunain enwebu un o'u plith i fod â gofal o'r chwiliad;*

*(c) swyddog hŷn sy'n cynorthwyo mewn rôl arbenigol. Ni ddylid ystyried bod y swyddog o anghenraid â rôl oruchwylio gyffredinol wrth gynnal y chwiliad ac ni ddylid ei benodi na disgwyl iddo weithredu fel swyddog â gofal o'r chwiliad.*

*Ac eithrio yn (c), nid oes dim yn y Nodyn yma sy'n lleihau rôl a chyfrifoldebau swyddog goruchwylio sydd yn bresennol yn y chwiliad neu sydd yn gwybod bod chwiliad yn digwydd.*

*2G Fe all swyddog o safle arolygydd neu uwch gyfarwyddo swyddog ymchwilio dynodedig i beidio gwisgo iwnifform ar gyfer dibenion gweithgaredd penodol.*

## 3 Gwarantau chwilio a gorchmynion cyflwyno

### *(a) Cyn gwneud cais*

3.1 Pan ddaw gwybodaeth i gyfiawnhau cais, dylai'r swyddog gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir, yn ddiweddar ac nad yw wedi'i darparu'n faleisus neu'n

anghyfrifol. Ni ellir gwneud cais ar sail gwybodaeth gan ffynhonnell ddienw os na wnaed cais am gryfhau'r dystiolaeth. Gweler *Nodyn 3A*

3.2 Bydd y swyddog yn canfod y math o eitemau dan sylw a'u lleoliad, a hynny mor benodol â phosibl.

3.3 Bydd y swyddog yn gwneud ymholiadau rhesymol:

(i) er mwyn sefydlu:

- a oes yno unrhyw wybodaeth am ddeiliad tebygol y fangre a natur y fangre eu hunain;
- a chwiliwyd y fangre'n flaenorol a pha mor ddiweddar y gwnaed hynny;

(ii) er mwyn cael unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

3.4 Dylai cais:

(a) am warant chwilio i ynad heddwch neu gais am warant chwilio neu orchymyn cyflwyno i farnwr Uchel Lys, barnwr cylchdaith, Cofiadur neu Farnwr Ardal, o dan PACE, Atodlen 1

gael ei gefnogi a'i awdurdodi'n ysgrifenedig, wedi'i lofnodi gan swyddog o safle arolygydd neu uwch:

Sylwer: Mewn achos o gais brys i ynad heddwch, pan nad oes arolygydd neu swyddog uwch ar gael, gall y swyddog uchaf ei safle ar ddyletswydd ei awdurdodi'n ysgrifenedig.

(b) i farnwr cylchdaith dan Ddeddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 5 am

- orchymyn cyflwyno;
- warant chwilio; neu
- orchymyn yn gofyn am eglurhad o'r deunydd a feddiannwyd neu a gyflwynwyd dan warant neu orchymyn cyflwyno o'r fath

gael ei gefnogi a'i awdurdodi'n ysgrifenedig, wedi'i lofnodi gan swyddog o safle uwcharolygydd neu uwch.

3.5 Ac eithrio mewn achos brys, os oes lle i gredu y gallai chwiliad gael effaith andwyol ar y berthynas rhwng yr heddlu a'r gymuned, dylai'r swyddog â gofal ymgynghori â'r heddlu lleol/swyddog cyswllt cymunedol:

- cyn y chwiliad; neu
- mewn achosion brys, gynted ag y bo hynny'n ymarferol ar ôl y chwiliad

B

***(b) Gwneud cais***

3.6 Dylai gwarant chwilio gael ei chefnogi'n ysgrifenedig, yn nodi:

(a) o dan ba ddeddf y gwneir y cais, *gweler Nodyn 2A*;

(b) (i) a yw'r warant ar gyfer awdurdodi mynediad a chwiliad o:

~ un gyfres o fangreoedd; neu

~ os yw'r cais o dan PACE adran 8, neu Atodlen 1, paragraff 12, mwy nag un gyfres o fangreoedd penodol neu bob mangre a breswylir neu a reolir gan berson penodedig; a'r

(ii) fangre sydd i'w chwilio;

(c) nod y chwiliad, *gweler Nodyn 3B*;

(d) ar ba sail y gwneir y cais, yn cynnwys, pan mai diben y chwiliad arfaethedig yw canfod tystiolaeth o drosedd honedig, nodi sut mae'r dystiolaeth yn ymwneud â'r ymchwiliad;

(da) lle mae'r warant o dan PACE adran 8, neu Atodlen 1, paragraff 12 am warant unigol i gael mynediad a chwilio:

(i) mwy nag un gyfres o fangreoedd penodol, mae'n rhaid i'r swyddog nodi manylion pob cyfres o fangreoedd y dymunir cael mynediad iddynt a'u chwilio

(ii) pob mangre a breswylir neu a reolir gan berson penodol, yna mae'n rhaid i'r swyddog nodi'r manylion canlynol:

~ pob cyfres o fangreoedd y dymunir cael mynediad iddynt a'u chwilio ag sy'n rhesymol ymarferol i'w nodi

~ y person sydd yn preswylio neu'n rheoli'r mangreoedd hynny ac unrhyw rai eraill y dymunir eu chwilio

~ pam fod angen chwilio mwy o fangreoedd na'r rhai y gellir eu nodi

~ pam nad yw'n rhesymol ymarferol i nodi manylion yr holl fangreoedd y dymunir cael mynediad iddynt a'u chwilio

(db) a yw'r cais o dan PACE adran 8 am warant i awdurdodi mynediad a chwilio ar fwy nag un achlysur, ac os felly, mae'n rhaid i'r swyddog nodi'r sail ar gyfer hyn ac a yw'r nifer o fynediadau a awdurdodwyd heb uchafswm neu ag uchafswm penodedig.

(e) nad oes unrhyw sail resymol i gredu bod y deunydd sydd ei angen, wrth wneud cais i:

(i) ynad heddwch neu farnwr Uchel Lys, barnwr Cylchdaith, Cofiadur neu Farnwr Ardal, farnwr cylchdaith, yn ymwneud ag eitemau sy'n amodol ar fraint gyfreithiol neu'n cynnwys eitemau o'r fath;

(ii) ynad heddwch, yn ymwneud â neu'n cynnwys deunydd a waherddir neu ddeunydd ar gyfer trefn arbennig;

Sylwer: nid yw hyn yn effeithio ar y pwerau ychwanegol ynglŷn â chipio yn y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001, Rhan 2 a gynhwysir ym mharagraff 7.7, *gweler Nodyn 3B*;

(f) os yn berthnasol, cais i'r warant awdurdodi person neu bersonau i fod yn bresennol gyda'r swyddog sy'n gweithredu'r warant, *gweler* Nodyn 3C.

3.7 Dylai cais am warant chwilio dan PACE, Atodlen 1, paragraff 12(a), pan fo'n briodol, ddangos pam yr ystyrir y gallai rhoi rhybudd ynghylch cais am orchymyn cyflwyno ragfarnu'r ymchwiliad mewn modd difrifol. Rhaid i geisiadau am warantau chwilio dan Ddeddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 5, paragraff 11 ddangos pam na fyddai gorchymyn cyflwyno yn briodol.

3.8 Os gwrthodir cais am warant chwilio, ni ellir gwneud cais pellach am y fangre honno oni bai y cefnogir hyn gan resymau ychwanegol.

***Nodiadau arweiniad***

*3A Nid oes raid datgelu enw hysbysydd wrth wneud cais, ond dylai'r swyddog fod yn barod i ateb unrhyw gwestiynau gan yr ynad neu farnwr am:*

- *gywirdeb gwybodaeth flaenorol y ffynhonnell honno*
- *unrhyw faterion perthnasol eraill*

*3B Dylai'r wybodaeth sy'n cefnogi cais am warant chwilio fod mor benodol â phosibl, yn arbennig mewn perthynas â'r eitemau sydd eu hangen neu'r personau dan sylw a ble mae'n debygol y deuir o hyd iddynt yn y fangre. Diffinnir ystyr 'eitemau sy'n ymwneud â braint gyfreithiol', 'deunydd a eithriwyd' a 'deunydd gweithdrefn arbennig' gan PACE, adrannau 10, 11 a 14.*

*3C O dan PACE, adran 16(2), gall warant chwilio awdurdodi pobl ar wahân i swyddogion yr heddlu i fynd gyda'r heddwas sy'n gweithredu'r warant. Mae hyn yn cynnwys, e.e. unrhyw berson cymwysedig neu fedrus sy'n addas neu sydd â sgiliau arbenigwr mewn maes arbennig y mae ei angen i adnabod yn gywir y deunydd sydd ei angen neu i roi cyngor ynglŷn â'r man mwyaf tebygol i ddod o hyd i dystiolaeth arbennig a sut y dylid delio ag ef. Nid yw'n rhoi unrhyw hawl mynediad trwy rym, ond mae'n rhoi'r hawl iddynt fod yn y fangre yn ystod y chwiliad i chwilio neu feddiannu eiddo heb ganiatâd y deiliad.*

B

## 4 Mynediad heb warant – pwerau arbennig

***(a) Arestio ayyb***

4.1 Amlinellir yn PACE, adran 17, yr amodau lle gall swyddog gael mynediad i fangre a'i chwilio heb warant. Dylid nodi nad yw'r adran yma'n rhoi nac yn caniatáu unrhyw bwerau i arestio. Gweler y pwerau eraill yn *Nodyn 2B(a)*.

***(b) Chwilio'r fangre lle gwneir yr arestiad neu lle'r oedd y sawl a arestiwyd yn union cyn ei arestio***

4.2 Lle arestiwyd person am drosedd ditiadwy, mae gan swyddog heddlu bŵer o dan PACE, adran 32 i chwilio mangre lle arestiwyd person neu lle'r oedd y person a arestiwyd yn union cyn ei arestio.

***(c) Chwilio mangre lle mae'r sawl a arestiwyd yn byw neu sydd dan ei reolaeth***

4.3 Amlinellir yn PACE, adran 18, y pwerau penodedig i chwilio mangre lle mae'r sawl a arestiwyd am drosedd ditiadwy yn byw neu sydd dan ei reolaeth. Ni ellir ymarfer y pwerau hyn, ac eithrio pan fo adran 18 (5) yn berthnasol, oni bai fod swyddog o safle arolygydd neu uwch wedi awdurdodi hynny'n ysgrifenedig. Dylid rhoi'r awdurdod hwnnw'n unig pan fo'r swyddog awdurdodedig yn fodlon bod rhesymau angenrheidiol dros wneud hyn. Os yw'n bosibl dylai'r swyddog awdurdodedig gofnodi ei fod wedi awdurdodi hyn ar y Rhybudd Pwerau a Hawliau ac, yn ddarostyngedig i *baragraff 2.9*, dylai arwyddo'r Rhybudd. Dylid cofnodi sail dros y rheswm am y chwiliad a natur y dystiolaeth sydd ei hangen fel sy'n ofynnol dan adran18(7) o'r Ddeddf yn y:

- cofnod cadw os yw ar gael, neu fel arall
- llyfr poced y swyddog, neu'r
- cofnod chwilio

## 5 Chwilio gyda chaniatâd

5.1 Yn ddarostyngedig i *baragraff 5.4*, os bwriedir chwilio mangre gyda chaniatâd person sydd â'r hawl i ganiatáu mynediad, dylai'r caniatâd, os yw'n ymarferol, fod yn ysgrifenedig ar y Rhybudd Pwerau a Hawliau cyn y chwiliad. Rhaid i'r swyddog wneud unrhyw ymholiadau angenrheidiol fel ei fod yn fodlon bod y person mewn safle i roi caniatâd o'r fath. Gweler *Nodiadau 5A* a *5B*

5.2 Cyn gofyn am ganiatâd bydd y swyddog â gofal am y chwiliad yn nodi diben y chwiliad arfaethedig a'i raddfa. Rhaid i'r wybodaeth yma fod mor benodol â phosibl, yn arbennig o ran

B

yr eitemau a'r rhannau o'r fangre y bwriedir eu chwilio neu'r personau dan sylw. Rhaid hysbysu'r person dan sylw yn glir nad yw'n ofynnol cael caniatâd ganddo/i ac y gall unrhyw beth a feddiennir gael ei ddangos fel tystiolaeth. Os nad yw'r person yn cael ei amau o drosedd, ar unrhyw adeg, bydd y swyddog yn dweud hyn wrth egluro diben y chwiliad.

5.3 Nid oes gan swyddog yr hawl i gael mynediad i fangre na'i chwilio na pharhau i'w chwilio dan *baragraff 5.1* os rhoddir caniatâd dan orfodaeth neu os y tynnir y caniatâd yn ôl cyn cwblhau'r chwiliad.

5.4 Nid yw'n angenrheidiol gofyn am ganiatâd dan *baragraffau 5.1* a *5.2* os byddai hyn yn achosi anhwylustod anghymesur i'r person dan sylw. Gweler *Nodyn 5C*

***Nodiadau arweiniad***

*5A Mewn tŷ llety neu lety tebyg, dylid gwneud pob ymdrech i gael caniatâd y tenant, lletywr neu'r deiliad. Ni ddylid gwneud chwiliad yn unig ar sail caniatâd y landlord oni bai fod y tenant, lletywr neu'r deiliad ddim ar gael a'i fod yn fater brys.*

*5B Os mai'r bwriad yw chwilio mangre dan awdurdod gwarant neu hawl mynediad a chwiliad heb warant, a bod y deiliad yn cydweithredu'n unol â pharagraff 6.4, nid oes angen cael caniatâd ysgrifenedig.*

*5C Mae paragraff 5.4 yn berthnasol pan fo'n rhesymol tybio y byddai deiliad dieuog yn cytuno, ac yn disgwyl, i heddlu weithredu yn ôl yr arfer, e.e. os:*

- *yw'r sawl sydd dan amheuaeth wedi dianc o leoliad y trosedd neu osgoi cael ei arestio a bod angen edrych ar fyrder yn y gerddi a'r mannau o gwmpas i weld a yw'n cuddio*
- *yw'r heddlu wedi arestio rhywun yn y nos ar ôl ei ymlid a bod angen cael cipolwg yn y gerddi lle buont yn ei ymlid er mwyn gweld a yw wedi taflu eitemau cyhuddol neu eitemau sydd wedi'u dwyn*

## 6 Chwilio mangre – ystyriaethau cyffredinol

### *(a) Amser chwiliadau*

6.1 Rhaid i chwiliadau dan warant gael eu cynnal o fewn un mis calendr i'r dyddiad y cyflwynwyd y warant.

6.2 Rhaid cynnal chwiliadau ar amser rhesymol oni bai y gallai hyn darfu ar ddiben y chwiliad.

6.3 Mae gwarant yn awdurdodi mynediad ar un achlysur yn unig. Pan fo cymhlethdod chwiliad neu ei raddfa yn golygu y bydd yn cymryd amser hir, gall y swyddog â gofal am y chwiliad ystyried defnyddio pwerau meddiannu a didoli y cyfeirir atynt yn *adran 7*.

6.3A Fe all warant o dan PACE, adran 8 awdurdodi mynediad a chwilio mangre ar fwy nag un achlysur os, wrth wneud cais, bodlonir yr ynad heddwch ei bod yn angenrheidiol i awdurdodi mynediad ar fwy nag un achlysur er mwyn cyflawni diben cyhoeddi'r warant. Ni ellir cael mynediad neu chwilio unrhyw fangre ar adegau dilynol heb awdurdod ysgrifenedig swyddog o safle arolygydd nad yw'n ymwneud â'r ymchwiliad. Mae pob warant arall yn awdurdodi mynediad ar un achlysur yn unig.

6.3B Lle mae warant o dan PACE adran 8, neu Atodlen 1, paragraff 12 yn awdurdodi mynediad er mwyn chwilio pob mangre a breswylir neu a reolir gan berson penodedig, ni ellir cael mynediad neu chwilio unrhyw fangre nad yw'n cael ei nodi yn y warant heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan swyddog o safle arolygydd nad yw'n ymwneud â'r ymchwiliad.

### *(b) Mynediad ar wahân i fynediad gyda chaniatâd*

6.4 Bydd y swyddog â gofal am y chwiliad yn gyntaf yn ceisio cyfathrebu gyda'r deiliad, neu unrhyw berson arall sydd â'r hawl i roi mynediad i'r fangre, gan egluro'r awdurdod a ddefnyddir ar gyfer mynediad a gofyn i'r deiliad ganiatáu mynediad, oni bai:

(i) bod yr fangre a chwilir yn wag;

(ii) bod y deiliad neu unrhyw berson arall sydd â'r hawl i ganiatáu mynediad yn absennol;

(iii) bod lle rhesymol i gredu y byddai rhoi gwybod i'r deiliad neu unrhyw berson arall sydd â'r hawl i ganiatáu mynediad yn tarfu ar ddiben y chwiliad neu'n rhoi swyddogion neu bobl eraill mewn perygl.

6.5 Oni bai fod *is-baragraff 6.4(iii)* yn berthnasol, os oes rhywun yn y fangre, yn ddarostyngedig i *baragraff 2.9*, bydd y swyddog cyn dechrau'r chwiliad yn:

(i) dweud pwy ydyw, yn dangos ei gerdyn gwarant (os nad yw mewn iwnifform) ac yn nodi diben a sail ei chwiliad;

(ii) dweud pwy ydyw ac yn cyflwyno unrhyw un sy'n bresennol gyda'r swyddog â gofal (dylai personau o'r fath fod â cherdyn adnabod petai cais i'w weld) a disgrifio'n fyr rôl y person hwnnw yn y broses.

6.6 Gellir defnyddio grym rhesymol a chymesur os yw'n angenrheidiol i gael mynediad i fangre os yw'r swyddog â gofal o'r chwiliad yn fodlon mai'r fangre honno yw'r un penodedig mewn unrhyw warant, neu wrth ymarfer y pwerau a ddisgrifir ym *mharagraffau 4.1* i *4.3*, ac os:

(i) yw'r deiliad neu unrhyw berson arall sydd â'r hawl i ganiatáu mynediad wedi gwrthod mynediad;

(ii) yw'n amhosibl cyfathrebu gyda'r deiliad neu unrhyw berson arall sydd â'r hawl i ganiatáu mynediad; neu

(iii) os yw unrhyw un o ddarpariaethau paragraff 6.4 yn berthnasol.

***(c) Rhybudd Pwerau a Hawliau***

6.7 Os yw swyddog yn cynnal chwiliad sy'n berthnasol i'r Côd yma, bydd y swyddog, oni bai fod hynny'n anymarferol, yn darparu copi o Rybudd ar ffurf safonol i'r deiliad:

(i) yn nodi os yw'r chwiliad yn cael ei wneud dan warant, gyda chaniatâd, neu wrth ymarfer y pwerau a ddisgrifir ym *mharagraffau 4.1* i *4.3*. Sylwer: bydd y rhybudd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r awdurdod a'r caniatâd a roddir, *gweler paragraffau 4.3* a *5.1*;

(ii) yn crynhoi graddfa'r pwerau i chwilio a meddiannu a roddwyd gan PACE;

(iii) yn egluro hawliau'r deiliad, a pherchennog yr eiddo a feddiannwyd;

(iv) yn egluro y gallai iawndal fod yn daladwy mewn achosion priodol ar gyfer difrod a achoswyd wrth gael mynediad i fangre a'i chwilio, a rhoi'r cyfeiriad ar gyfer anfon cais am iawndal, *gweler Nodyn 6A*;

(v) yn nodi bod y Côd yma ar gael mewn unrhyw orsaf heddlu.

6.8 Os yw'r deiliad:

- yn bresennol, y rhoddir iddo/i gopïau o'r Rhybudd a'r warant, os yw'n ymarferol, cyn dechrau'r chwiliad, oni bai fod y swyddog â gofal o'r chwiliad o'r farn y byddai hyn yn tarfu ar nod y chwiliad neu'n rhoi swyddogion neu bobl eraill mewn perygl
- ddim yn bresennol, y gadewir copïau o'r Rhybudd a'r warant mewn lle amlwg yn y fangre neu mewn rhan briodol o'r fangre a'i arnodi, yn ddarostyngedig i *baragraff 2.9* gydag enw'r swyddog â gofal o'r chwiliad, y dyddiad ac amser y chwiliad

Bydd y warant wedi'i arnodi i ddangos bod hyn wedi'i wneud.

***(d) Cynnal chwiliadau***

6.9 Gellir chwilio mangre'n unig i'r graddau y bo'n angenrheidiol er mwyn cyflawni nod y chwiliad, gan gymryd i ystyriaeth hyd a lled yr hyn sydd dan sylw.

6.9A Ni ellir parhau â chwiliad dan:

- awdurdod gwarant unwaith bod yr holl bethau a nodir yn y warant honno wedi'u canfod
- unrhyw bŵer arall unwaith bod nod y chwiliad wedi'i gyflawni

B

6.9B Ni ellir parhau â'r un chwiliad unwaith bod y swyddog â gofal am y chwiliad yn fodlon nad yw'r hyn sydd ei angen yn y fangre. Gweler *Nodyn 6B*. Nid yw hyn yn rhwystro chwiliad pellach o'r un fangre os daw rhesymau ychwanegol i'r amlwg sy'n sail i gais pellach am warant chwilio neu ymarfer neu ymarfer pellach o bŵer arall. Er enghraifft, pan gredir, yn sgîl gwybodaeth newydd, fod eitemau na chawsant eu canfod yn flaenorol neu eitemau ychwanegol yn y fangre.

6.10 Rhaid cynnal chwiliadau gydag ystyriaeth ddyledus i'r eiddo ac i breifatrwydd y deiliad heb darfu mwy nag sydd raid. Gellir defnyddio grym rhesymol yn unig pan fo'n gymesur ac yn angenrheidiol pan na ellir cael cydweithrediad y deiliad neu pan nad yw'n ddigonol ar gyfer y diben. Gweler *Nodyn 6C*

6.11 Rhaid caniatáu i ffrind, gymydog neu berson arall fod yn dyst i'r chwiliad os yw'r deiliad yn dymuno hynny oni bai fod y swyddog â gofal am y chwiliad â sail resymol dros gredu y byddai presenoldeb y person hwnnw'n tarfu'n ddifrifol ar yr ymchwiliad neu'n rhoi swyddogion neu bobl eraill mewn perygl. Nid oes angen gohirio chwiliad yn ddiangen i'r diben yma. Dylid cofnodi'r gweithredu ar gofnod chwilio'r fangre gan gynnwys y sail dros wrthod cais y deiliad.

6.12 Nid yw'n ofynnol rhybuddio rhywun cyn holi cwestiynau sydd angen eu gofyn yn unig ar gyfer diben parhau'n briodol ac yn effeithlon gyda'r chwiliad, *gweler* Côd C, *paragraff 10.1(c)*. Er enghraifft, cwestiynau i ganfod pwy yw deiliad mangre benodedig, i ddod o hyd i oriad er mwyn agor drôr neu gwpwrdd sydd dan glo neu i gael cydweithrediad yn ystod y chwiliad neu i benderfynu a yw eitem arbennig yn debygol o gael ei meddiannu.

6.12A Os yw'r cwestiynu'n mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen ar gyfer diben yr eithriad yng Nghôd C, mae'n debygol y byddai hyn ar ffurf cyfweliad fel y'i diffinnir gan Gôd C, *paragraff 11.1A* a byddai angen yr amddiffyniadau perthnasol a gynhwysir yng Nghod C, *adran 10*.

***(e) Gadael mangre***

6.13 Os defnyddiwyd grym er mwyn cael mynediad i fangre, rhaid i'r swyddog â gofal o'r chwiliad sicrhau bod y fangre'n ddiogel cyn gadael trwy:

- drefnu bod y deiliad neu eu hasiant yn bresennol
- unrhyw fodd priodol arall

***(f) Chwiliadau dan PACE Atodlen 1 neu'r Ddeddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 5***

6.14 Penodir swyddog i fod â gofal o'r chwiliad, *gweler* paragraff 2.10, mewn perthynas ag unrhyw chwiliad a wneir dan warant a gyflwynwyd o dan Ddeddf PACE 1984, Atodlen 1

B

neu Ddeddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 5. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod y chwiliad yn cael ei gynnal gyda disgresiwn ac mewn modd sy'n tarfu cyn lleied â phosibl ar unrhyw fusnes neu weithgareddau eraill yn y fangre.

6.15 Unwaith bod y swyddog â gofal o'r chwiliad yn fodlon na ddygir unrhyw ddeunydd o'r fangre heb yn wybod iddynt, byddant yn gofyn am y dogfennau neu gofnodion eraill dan sylw. Gall y swyddog â gofal o'r chwiliad *hefyd* ofyn am gael gweld y mynegai i'r ffeiliau a gedwir yn y fangre, a gall y swyddogion sy'n cynnal y chwiliad archwilio unrhyw ffeiliau sydd, yn ôl y mynegai, yn ymddangos fel pe baent yn cynnwys y deunydd sydd ei angen. Gellir chwilio'r fangre'n fwy manwl yn unig os:

- yw'r person sy'n gyfrifol amdani yn gwrthod:
  - ~ cyflwyno'r deunydd sydd ei angen, neu'n gwrthod
  - ~ caniatáu mynediad i'r mynegai
- yw'n ymddangos bod y mynegai'n:
  - ~ anghywir, neu'n
  - ~ anghyflawn
- os oes unrhyw reswm arall i'r swyddog â gofal o'r chwiliad fod â sail resymol dros gredu bod angen chwiliad o'r fath er mwyn dod o hyd i'r deunydd sydd ei angen.

***Nodiadau arweiniad***

*6A Amgylchiadau pob achos sy'n pennu a yw iawndal yn briodol. Mae'n annhebygol y ceir iawndal am ddifrod a achoswyd wrth gael mynediad os oedd y chwiliad yn un cyfreithlon, ac os gellir dangos bod y grym a ddefnyddiwyd yn rhesymol, yn gymesur ac yn angenrheidiol er mwyn cael mynediad. Os digwydd i'r chwiliad gael ei gynnal drwy gamgymeriad yn y fangre anghywir, dylid gwneud popeth a ellir cyn gynted â phosib i leddfu unrhyw bryderon. Fel arfer dylid rhagdybio y bydd iawndal yn cael ei dalu.*

*6B Mae'n bwysig, pan fo'n bosibl, bod pawb sy'n ymwneud â chwiliad yn hollol gyfarwydd ag unrhyw bwerau i'w hymarfer a therfynau'r chwiliad a'i raddfa.*

*6C Ym mhob achos dylid penderfynu ar nifer y swyddogion a phersonau eraill sy'n ymwneud â gweithredu'r warant yn ôl yr hyn sy'n rhesymol ac yn angenrheidiol o gofio'r amgylchiadau dan sylw.*

## 7 Meddiannu a chadw eiddo

B

### *(a) Meddiannu*

7.1 Yn ddarostyngedig i *baragraff 7.2*, gall swyddog sy'n chwilio unrhyw berson neu fangre dan unrhyw bŵer statudol neu gyda chaniatâd y deiliad feddiannu unrhyw beth:

(a) sydd dan warant

(b) y mae gan y swyddog sail resymol dros gredu sy'n dystiolaeth o drosedd neu sydd wedi'i gael yn sgîl cyflawni trosedd ond dim ond os oes angen ei feddiannu rhag bod yr eitemau'n cael eu cuddio, colli, gwaredu, newid, difrodi, dinistrio neu ymyrryd â hwy

(c) dan bwerau Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001, Rhan 2 sy'n caniatáu i swyddog feddiannu eiddo gan bersonau neu o fangre a'i gadw ar gyfer ei ddidoli neu ei archwilio yn rhywle arall

Gweler *Nodyn 7B*

7.2 Ni ellir meddiannu unrhyw eitem y mae'r swyddog â sail resymol dros gredu ei fod yn destun braint gyfreithiol, fel y diffinnir yn PACE, adran 10, ar wahân i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001, Rhan 2.

7.3 Rhaid i swyddogion fod yn ymwybodol o ddarpariaethau Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001, adran 59, sy'n caniatáu ceisiadau i awdurdod barnwrol ar gyfer dychwelyd yr eiddo a feddiannwyd a'r dyletswydd wedyn i'w ddiogelu yn adran 60, *gweler paragraff 7.12(iii)*.

7.4 Gall unrhyw swyddog benderfynu nad yw'n briodol meddiannu eiddo o ganlyniad i eglurhad gan berchennog yr eiddo ond er hynny gall fod â sail resymol dros gredu iddo dderbyn yr eiddo yn dilyn trosedd gan berson. Mewn amgylchiadau fel hyn, dylai'r swyddog ddangos yr eiddo i'r perchennog, a rhoi gwybod iddo am ei amheuon ac egluro y gallai wynebu achosion sifil neu droseddol os bydd yn gwaredu, newid neu'n dinistrio'r eiddo.

7.5 Gall swyddog drefnu i dynnu llun, gopïo neu atgynhyrchu unrhyw ddogfen neu eitem arall y mae ganddo'r pŵer i'w feddiannu yn unol â *pharagraff 7.1*. Mae hyn yn amodol ar amodau penodedig ynghlwm ag archwilio, gopïo neu atgynhyrchu eiddo arbennig sydd wedi'i feddiannu dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001, Rhan 2. Rhaid i swyddog gadw dan ystyriaeth y gofynion statudol sydd ynghlwm â chadw dogfen wreiddiol neu eitem arall yn unig pan na fydd llun neu gopi'n ddigonol.

7.6 Os yw swyddog yn ystyried y gallai gwybodaeth a gedwir ar unrhyw ffurf electronig ac y gellir cael mynediad iddo yn y fangre, gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth, gall yr heddlu ofyn am y wybodaeth ar ffurf:

B

- y gellir mynd ag ef oddi yno, sy'n weladwy ac yn ddarllenadwy; neu
- mae modd ei gopïo'n weladwy a darllenadwy

***(b) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001: Gweithdrefnau penodedig ar gyfer pwerau meddiannu a didoli***

7.7 Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001, Rhan 2 yn rhoi pwerau cyfyngedig i swyddogion feddiannu eiddo o fangre neu gan bersonau fel y gallant ei ddidoli neu ei archwilio yn rhywle arall. Rhaid i swyddogion ofalu eu bod yn ymarfer y pwerau hyn yn unig pan fo hynny'n hanfodol ac nad ydynt yn mynd â dim mwy o ddeunydd nag sydd ei angen. Gall mynd â llawer o ddeunydd, na fydd modd cadw llawer ohono yn y pendraw, fod â goblygiadau difrifol i'r perchnogion, yn arbennig i'r rhai hynny sy'n ymwneud â busnes neu weithgareddau fel newyddiaduraeth neu'n darparu gwasanaethau meddygol. Rhaid i swyddogion ystyried yn ofalus a fyddai mynd â chopïau neu atgynyrchiadau o ddeunydd perthnasol neu ddata yn ddewis posibl rhag mynd â'r rhai gwreiddiol. Pan fydd swyddogion yn mynd â'r deunydd gwreiddiol, rhaid iddynt gopïo neu atgynhyrchu'r deunydd i'r perchnogion pan fo hynny'n rhesymol ymarferol. Gweler *Nodyn 7C*

7.8 Rhaid cadw eiddo a feddiannwyd o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001, adrannau 50 neu 51 yn ddiogel ac ar wahân i unrhyw ddeunydd a feddiannwyd dan bwerau eraill. Rhaid gweithredu archwiliad dan adran 53 er mwyn penderfynu pa elfennau y dylid eu cadw cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl, gan ystyried y priodoldeb o ganiatáu cyfle i'r person y meddiannwyd yr eiddo oddi wrtho, neu berson â diddordeb yn yr eiddo, fod yn bresennol neu gael ei gynrychioli yn yr archwiliad.

7.8A Dylid cymryd pob cam rhesymol i ganiatáu cais person sydd â diddordeb fod yn bresennol, a chymryd bod y cais yn rhesymol ac yn amodol ar yr angen i osgoi gwneud niwed, ymyrryd, neu achosi oedi afresymol i'r broses ymchwilio. Os yw archwiliad yn mynd rhagddo yn absenoldeb person â diddordeb sydd wedi gofyn iddo ef neu gynrychiolydd fod yn bresennol, rhaid i'r swyddog sydd wedi gweithredu'r pŵer meddiannu perthnasol roi rhybudd ysgrifenedig yn dweud pam y gwnaed yr archwiliad dan yr amgylchiadau hynny. Os yw'n angenrheidiol oherwydd rhesymau diogelwch neu gyfrinachedd, gall swyddogion wahardd personau rhag bod yn bresennol yn y broses o ddatrys yr ymchwiliad neu brosesau eraill sy'n hyrwyddo'r archwiliad ond nid yn ffurfio rhan ohono. Gweler *Nodyn 7D*

7.9 Cyfrifoldeb y swyddog â gofal o'r archwiliad yw sicrhau bod yr eiddo'n cael ei ddychwelyd yn unol ag adrannau 53 i 55. Pan nad oes pŵer i gadw deunydd, rhaid iddo:

- gael ei wahanu oddi wrth weddill yr eiddo a feddiannwyd

B

- gael ei ddychwelyd cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl ar ôl archwilio'r holl eiddo a feddiannwyd

7.9A Ni warentir oedi ac eithrio pan fo rhesymau clir ac amlwg yn bodoli, e.e:

- nid yw'r person y dylid dychwelyd y deunydd iddo ar gael
- yr angen i gytuno ar amser cyfleus i ddychwelyd llawer iawn o ddeunydd

7.9B O ran deunydd sy'n ymwneud â braint gyfreithiol, deunydd a waherddir neu ddeunydd ar gyfer trefn arbennig na ellir ei gadw, dylid ei ddychwelyd:

- cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl
- cyn disgwyl am yr ymchwiliad llawn

7.9C Fel yr amlinellir yn adran 58, rhaid dychwelyd y deunydd i'r sawl y meddiannwyd ef oddi arnynt, ac eithrio pan fo'n glir fod gan rywun arall fwy o hawl iddo. Gweler *Nodyn 7E*

7.10 Pan fo sail resymol gan swyddog sy'n ymwneud ag ymchwiliad dros gredu bod person sydd â diddordeb perthnasol yn yr eiddo a feddiannwyd dan adran 50 neu 51 yn bwriadu gwneud cais dan adran 59 i ddychwelyd unrhyw ddeunydd sy'n ymwneud â braint gyfreithiol, deunydd ar gyfer trefn arbennig neu ddeunydd gwaharddedig, dylid hysbysu'r swyddog â gofal o'r ymchwiliad cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol a dylid cadw'r eiddo a feddiannwyd yn ddiogel yn unol ag adran 61. Gweler *Nodyn 7C*

7.11 Cyfrifoldeb y swyddog â gofal am yr ymchwiliad yw sicrhau bod yr eiddo'n ddigon diogel. Ystyr diogelu yw sicrhau nad yw'r eiddo'n cael ei archwilio, ei gopïo, ei atgynhyrchu na'i ddefnyddio i ddiben arall ac eithrio ar gais, neu gyda chaniatâd, y sawl sy'n gwneud y cais neu'n unol â chyfarwyddiadau'r awdurdod barnwrol priodol. Rhaid cofnodi'n ysgrifenedig unrhyw gais, ganiatâd neu gyfarwyddiadau a'u llofnodi gan y sawl a ddechreuodd yr ymchwiliad. Gweler *Nodiadau 7F a 7G*

7.12 Pan fydd swyddog yn ymarfer pŵer i feddiannu a roddwyd gan adrannau 50 neu 51 dylent ddarparu rhybudd ysgrifenedig ar gyfer deiliad y fangre neu'r person y meddiennir yr eiddo oddi arno. Dylai'r rhybudd:

(i) nodi beth sydd wedi'i feddiannu dan y pwerau a roddwyd gan yr adran honno;

(ii) nodi'r sail ar gyfer y pwerau hynny;

(iii) amlinellu adrannau 59 i 61 sy'n cynnwys sail i berson â diddordeb perthnasol mewn eiddo a feddiannwyd wneud cais am awdurdod barnwrol ar gyfer ei ddychwelyd a dyletswydd swyddogion i ddiogelu eiddo dan amgylchiadau arbennig pan wneir cais;

B

(iv) nodi enwi a chyfeiriad y person:

- y mae'n orfodol rhoi iddo rybudd o gais am awdurdod barnwrol priodol mewn perthynas ag unrhyw eiddo a feddiannwyd;
- sy'n gallu gwneud cais i ganiatáu bod yn bresennol yn yr ymchwiliad dechreuol i'r eiddo.

7.13 Os nad yw'r deiliad yn bresennol ond bod rhywun yn gofalu am y fangre, dylid rhoi'r rhybudd iddynt hwy. Os nad oedd person addas ar gael, ac fel y gellir dod o hyd i'r rhybudd yn rhwydd dylid:

- ei adael mewn man amlwg yn y fangre
- ei osod ar du allan y fangre

### *(c) Cadw*

7.14 Yn ddarostyngedig i *baragraff 7.15*, gellir cadw unrhyw beth a feddiannwyd yn unol â'r darpariaethau uchod yn unig cyn belled ag y bo'n hynny'n angenrheidiol. Gellir ei gadw, ymysg dibenion eraill:

(i) i'w ddefnyddio fel tystiolaeth mewn achos ynglŷn â throsedd;

(ii) i hyrwyddo'r defnydd mewn ymchwiliad neu weithrediadau o rywbeth y mae'n rhan annatod ohono, *gweler Nodyn 7H*;

(iii) ar gyfer archwiliad fforensig neu ymchwiliad arall mewn cysylltiad â throsedd;

(iv) er mwyn sefydlu pwy yw ei berchennog cyfreithiol pan mae sail resymol dros gredu ei fod wedi'i ddwyn neu wedi'i gael trwy gyflawni trosedd.

7.15 Ni ddylid cadw eiddo dan *baragraff 7.14(i)*, *(ii)* neu *(iii)* os byddai copi neu atgynhyrchiad ohono'n ddigonol.

### *(d) Hawliau perchnogion ayyb*

7.16 Os cedwir eiddo, rhaid darparu rhestr neu ddisgrifiad o'r eiddo o fewn amser rhesymol i'r person oedd â'r eiddo yn ei feddiant neu dan ei reolaeth yn union cyn ei feddiannu, os gwneir cais ganddo.

7.17 Rhaid caniatáu mynediad dan oruchwyliaeth i'r eiddo ar gyfer y person hwnnw neu eu cynrychiolydd i'w archwilio neu dynnu llun neu gael copi ohono, neu ddarparu llun neu gopi ar eu cyfer. Yn y ddau achos dylid gwneud hyn o fewn amser rhesymol i unrhyw gais ac ar eu cost eu hunain, oni bai fod swyddog â gofal o'r ymchwiliad â sail resymol

dros gredu y byddai hyn yn:

(i) rhagfarnu ymchwiliad ynglŷn ag unrhyw drosedd neu achosion troseddol; neu'n

(ii) arwain at gyflawni trosedd trwy ddarparu mynediad i ddeunydd anghyfreithlon fel pornograffi;

Pan na cheir mynediad, dylid cofnodi ar ba sail y gwrthodwyd hyn.

***Nodiadau arweiniad***

*7A Gall unrhyw berson sy'n hawlio eiddo a feddiannwyd gan yr heddlu wneud cais i lys yr ynadon o dan Ddeddf yr Heddlu (Eiddo) 1897 am ei gael yn eu meddiant a dylent, os yw'n briodol, gael gwybod am hyn.*

*7B Mae pwerau meddiannu a roddwyd gan PACE, adrannau 18(2) a 19(3) yn cynnwys meddiannu'r fangre gyfan pan fo'n ymarferol bosib i feddiannu a chadw'r fangre yn eu cyfanrwydd a bod ystyriaethau ymarferol o blaid meddiannu o'r fath. Er enghraifft, gall yr heddlu fynd â phebyll, cerbydau neu garafanau i orsaf heddlu ar gyfer dibenion cadw tystiolaeth.*

*7C Dylai swyddogion ystyried dod i gytundeb gyda'r perchnogion a/neu bartïau eraill sydd â diddordeb ynglŷn â'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i fath penodol o eiddo, yn hytrach nac aros am benderfyniad yr awdurdod barnwrol. Gall cytundeb weithiau fod yn ffordd gynt a mwy bodlon i bawb sydd ynglŷn â hyn gan leihau costau a chymhlethdod cyfreithiol.*

*7D Fe all diddordeb perthnasol mewn deunydd penodol ddibynnu ar natur y deunydd a'r amgylchiadau y cafodd ei feddiannu. Dylai unrhyw un sy'n gwneud cais rhesymol ynghylch perchnogaeth o'r deunydd neu unrhyw un â'r deunydd yn eu gofal ar ran y perchennog gael eu hystyried.*

*7E Mae gofynion i ddiogelu a dychwelyd eiddo yr un mor berthnasol i bob copi, atgynhyrchiad neu ddeunydd arall a grëwyd yn sgîl meddiannu'r eiddo gwreiddiol.*

*7F Mae'r modd o ddiogelu eiddo yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau; "rhoi mewn bagiau", h.y. rhoi'r deunydd mewn bagiau neu gynhwysyddion wedi'u selio ac wedi hynny rheolaeth dyn o ran mynediad iddynt, yw'r drefn briodol sy'n cael ei dilyn ym mwyafrif yr achosion.*

*7G Pan fo'r deunydd yn cael ei feddiannu dan bwerau meddiannu a roddwyd gan PACE, mae'r dyletswydd i'w gadw dan y Côd Ymarfer a gyflwynwyd o dan Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 yn amodol ar y darpariaethau ar gadw deunydd a gipiwyd yn PACE, adran 22.*

*7H Mae paragraff 7.14 (ii) yn berthnasol os meddiennir deunydd sy'n rhan annatod o'r*

B

*ymchwiliad dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001, adrannau 50 neu 51. Deunydd sy'n rhan annatod o'r ymchwiliad yw deunydd nad yw'n rhesymol ymarferol ei wahanu oddi wrth ddeunydd cysylltiedig arall heb ragfarnu defnydd y deunydd arall hwnnw mewn unrhyw ymchwiliad neu weithdrefnau. Er enghraifft, efallai na fydd yn bosibl gwahanu eitemau o ddata ar ddisg cyfrifiadur heb wneud niwed iddynt fel tystiolaeth. Gyda deunydd sy'n rhan annatod o'r ymchwiliad, ni ddylid ei archwilio, atgynhyrchu na'i gopïo na'i ddefnyddio ar gyfer unrhyw ddiben arall ar wahân i brofi ffynhonnell a/neu natur y deunydd cysylltiedig.*

## 8 Gweithredu ar ôl chwiliadau

8.1 Os chwilir mangre mewn amgylchiadau sy'n berthnasol i'r Côd yma, oni bai fod yr eithriadau ym *mharagraff 2.3(a)* yn berthnasol, wedi cyrraedd yr orsaf heddlu bydd y swyddog â gofal o'r chwiliad yn gwneud neu bydd wedi gwneud cofnod o'r chwiliad, a fydd yn cynnwys:

(i) cyfeiriad y fangre a chwiliwyd;

(ii) dyddiad, amser a hyd y chwiliad;

(iii) yr awdurdod a ddefnyddiwyd ar gyfer y chwiliad:

- os gwnaed y chwiliad trwy ymarfer pŵer statudol i chwilio mangre heb warant, y pŵer a ddefnyddiwyd ar gyfer y chwiliad:
- os gwnaed y chwiliad dan warant neu gyda chaniatâd ysgrifenedig;
  - ~ copi o'r warant a'r awdurdod ysgrifenedig i wneud cais amdano, *gweler paragraff 3.4*; neu
  - ~ y caniatâd ysgrifenedig;

  byddant ynghlwm i'r cofnod neu bydd y cofnod yn nodi lle mae copi o'r warant neu'r caniatâd.

(iv) yn ddarostyngedig i baragraff 2.9, enwau'r:

- swyddog(ion) â gofal o'r chwiliad;
- yr holl swyddogion eraill a phobl awdurdodedig fu'n cynnal y chwiliad;

(v) enwau'r bobl yn y fangre os gwyddys hwy;

(vi) unrhyw sail dros wrthod cais y deiliad i gael rhywun yn bresennol yn ystod y chwiliad, *gweler paragraff 6.11*;

B

(vii) rhestr o unrhyw eitemau a feddiannwyd neu nodi lle mae’r rhestr ac, os nad oedd dan warant, ar ba sail y meddiannwyd hwy;

(viii) os defnyddiwyd grym, a’r rheswm;

(ix) manylion ynghylch unrhyw ddifrod a achoswyd yn ystod y chwiliad, a’r amgylchiadau;

(x) os yw’n berthnasol, y rheswm pam nad oedd yn ymarferol;

(a) i roi copi i’r deiliad o Rybudd Pwerau a Hawliau, *gweler paragraff 6.7*;

(b) cyn y chwiliad i roi copi o’r Rhybudd, *gweler paragraff 6.8*;

(xi) pan nad oedd y deiliad yn bresennol, lle’n union yn y fangre y gadawyd y copïau o’r Rhybudd Pwerau a Hawliau a’r warant chwilio, *gweler paragraff 6.8*.

8.2 Ar bob achlysur pan chwilir mangre dan warant, bydd y warant sy’n awdurdodi’r chwiliad ar yr achlysur hwnnw wedi’i arnodi i ddangos:

(i) os daethpwyd o hyd i unrhyw eitemau a nodwyd yn y warant, a'r cyfeiriad lle canfyddwyd hwynt;

(ii) os meddiannwyd unrhyw eitemau eraill;

(iii) dyddiad ac amser y gweithredwyd hyn ac os oedd yn bresennol, enw'r preswylydd neu os nad yw'r preswylydd yn bresennol enw'r unigolyn sydd yng ngofal y fangre;

(iv) yn ddarostyngedig i baragraff 2.9, enwau’r swyddogion a weithredodd y warant ac unrhyw bobl awdurdodedig oedd yn bresennol;

(v) os oedd copi, ynghyd â chopi o’r Rhybudd Pwerau a Hawliau

- wedi’i roi i’r deiliad; neu
- wedi’i arnodi fel sy’n ofynnol dan *baragraff 6.8*; a’u gadael yn y fangre ac ym mhle.

8.3 8.3 Dylid dychwelyd unrhyw warant o fewn tri mis calendr i’w gyhoeddi, neu'n gynt na hynny yn dilyn cwblhau'r chwiliad(au) a awdurdodwyd gan y warant, os cyflwynwyd ef gan:

- ynad heddwch, i’r swyddog dynodedig ar gyfer yr ardal cyfiawnder lleol yr oedd yr ynad yn gweithredu ynddi wrth gyhoeddi’r warant
- farnwr, i swyddog priodol y llys dan sylw.

B

## 9 Cofnodion chwiliadau

9.1 Mae cofrestr chwiliadau i'w chadw ym mhob gorsaf is-ranbarthol neu orsaf heddlu cyfatebol. Bydd yr holl gofnodion chwilio sy'n ofynnol dan *baragraff 8.1* yn cael eu rhoi, eu copïo neu bydd cyfeiriad atynt yn y gofrestr. Gweler *Nodyn 9A*

***Nodiadau arweiniad***

*9A Mae paragraff 9.1 hefyd yn berthnasol i gofnodion chwilio a wneir gan swyddogion mewnfudo. Yn yr achosion hyn, dylid hefyd gadw cofnod chwilio mewn swyddfa mewnfudo. Gweler hefyd Nodyn 2D*

B

**DEDDF YR HEDDLU A THYSTIOLAETH DROSEDDOL 1984 (PACE)**

C

# CÔD C

## CÔD YMARFER AR GYFER CADW, TRIN A HOLI POBL GAN SWYDDOGION YR HEDDLU

### Cychwyniad – Trefniadau Trosiannol

Mae'r Côd yma yn berthnasol i bobl a gedwir gan yr heddlu ar ôl hanner nos ar 31 Rhagfyr, 2005, hyd yn oed os yw eu cyfnod cadw wedi cychwyn cyn yr adeg hynny.

C

## 1 Cyffredinol

1.1 Rhaid delio â phob person yn y ddalfa yn brydlon, a'u rhyddhau cyn gynted ag y gwelir nad oes angen eu cadw mwyach.

1.1A Rhaid i swyddog y ddalfa gyflawni swyddogaethau'r Côd yma cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol. Ni ystyrir bod swyddog y ddalfa yn torri amodau'r Côd yma os oes modd cyfiawnhau'r oedi ac os cymerir camau rhesymol i atal unrhyw oedi diangen. Bydd y cofnod cadw yn dangos lle bu oedi a'r rheswm am hynny. Gweler *Nodyn 1H*

1.2 Mae'n rhaid i'r Côd Ymarfer yma fod ar gael yn hwylus ar gyfer dibenion ymgynghori gan:

- swyddogion yr heddlu
- staff yr heddlu
- pobl yn y ddalfa
- aelodau'r cyhoedd

1.3 Mae darpariaethau'r Côd yma:

- yn cynnwys yr *Atodiadau*
- ond nid ydynt yn cynnwys y *Nodiadau Arweiniad*.

1.4 Os yw swyddog yn amau, neu'n cael gwybod mewn ffordd ddidwyll, y gallai fod anhwylder meddwl ar berson o unrhyw oedran, neu ei fod fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, yn absenoldeb tystiolaeth eglur i ddileu'r amheuaeth honno, yna bydd y person yn cael ei drin yn y ffordd honno at ddibenion y Côd yma. Gweler *Nodyn 1G*

1.5 Os yw'n ymddangos bod unrhyw un dan 17 oed, yna byddant yn cael eu trin fel person ifanc at ddibenion y Côd yma yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth eglur eu bod yn hŷn na hynny.

1.6 Os yw hi'n ymddangos bod person yn ddall, bod nam difrifol ar eu golwg, eu bod yn fyddar, yn methu â darllen neu siarad neu fod ganddynt drafferthion ar lafar oherwydd nam ar eu lleferydd, cânt eu trin fel hynny at ddibenion y Côd yma yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb.

1.7 Yn achos y canlynol:

(a) person ifanc, mae 'oedolyn priodol' yn golygu:

(i) rhiant, gwarcheidwad neu, os yw'r person ifanc yng ngofal awdurdod lleol neu gymdeithas wirfoddol, neu os gofelir amdano fel arall o dan Ddeddf Plant 1989, person sy'n cynrychioli'r awdurdod neu'r gymdeithas honno;

(ii) gweithiwr cymdeithasol o adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol;

(iii) os nad yw'n un o'r rhain, dylai fod yn oedolyn cyfrifol arall sy'n 18 oed neu'n hŷn, nad yw'n swyddog o'r heddlu nac yn cael ei gyflogi gan yr heddlu.

(b) person sydd ag anhwylder meddwl neu sy'n agored i niwed yn feddyliol, mae 'oedolyn priodol' yn golygu: Gweler *Nodyn 1D*

(i) perthynas, gwarcheidwad neu berson arall sy'n gyfrifol am eu gofal neu eu gwarchodaeth

(ii) rhywun sydd â phrofiad o ddelio â phobl sydd ag anhwylder meddwl neu sy'n agored i niwed yn feddyliol, ond nad yw'n swyddog o'r heddlu nac yn cael ei gyflogi gan yr heddlu;

(iii) os nad yw'n un o'r rhain, dylai fod yn oedolyn cyfrifol arall sy'n 18 oed neu'n hŷn nad yw'n swyddog o'r heddlu nac yn cael ei gyflogi gan yr heddlu.

1.8 Os yw'r Côd yma yn nodi bod angen rhoi gwybodaeth arbennig i berson, nid yw'n ofynnol ei roi iddynt ar y pryd os nad ydynt ar unrhyw adeg yn gallu deall yr hyn a ddywedir wrthynt, os ydynt yn dreisgar neu os gallent fynd yn dreisgar, neu os oes angen sylw meddygol brys arnynt, ond rhaid rhoi'r wybodaeth iddynt cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

1.9 Mae cyfeiriadau at swyddog y ddalfa yn cynnwys unrhyw:

- swyddog heddlu; neu
- swyddog staff y ddalfa dynodedig sy'n gweithredu wrth arfer neu berfformio'r pwerau a'r dyletswyddau a roddwyd neu a osodwyd arnynt gan eu dynodiad sy'n cyflawni swyddogaeth swyddog y ddalfa. Gweler *Nodyn 1J*.

1.9A Pan fo'r Côd yma yn gofyn am awdurdod neu gytundeb swyddog o safle arolygydd neu uwch-arolygydd o leiaf, ymlaen llaw, fe all rhingyll neu brif arolygydd a awdurdodwyd i gyflawni swyddogaethau'r safle uwch o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE), adran 107, roi'r awdurdod hwnnw.

1.10 Yn unol â *pharagraff 1.12*, mae'r Côd yma'n berthnasol i bobl a gedwir yn y ddalfa mewn gorsafoedd heddlu yng Nghymru a Lloegr, os cawsant eu harestio neu beidio, ac i'r rhai a ddygwyd i orsaf yr heddlu er mwyn darparu man diogel iddynt o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, adrannau 135 a 136. Mae *Adran 15* yn ymwneud â phobl a gedwir gan yr heddlu yn unig, e.e. y rhai a ddygwyd i orsaf yr heddlu ar ôl eu harestio neu'r rhai a arestiwyd yng ngorsaf yr heddlu am drosedd ar ôl mynd yno'n wirfoddol.

1.11 Mae pobl a gedwir yn y ddalfa gan yr heddlu yn cynnwys unrhyw un a gedwir o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 8 ac adran 41, ar ôl iddynt gael eu dwyn i orsaf yr heddlu

ar ôl cael eu harestio o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000, adran 41. Yn yr achosion hyn, mae cyfeirio at drosedd yn y Côd yma yn cynnwys comisiynu, paratoi ac annog digwyddiadau terfysgol.

1.12 Nid yw darpariaethau'r Côd yma'n berthnasol i bobl yn y ddalfa:

(i) a arestiwyd ar warant a gyhoeddwyd yn yr Alban gan swyddogion o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, adran 136(2), neu a arestiwyd neu a gadwyd heb warant gan swyddogion o un o heddluoedd yr Alban o dan adran 137(2). Yn yr achosion hyn, mae pwerau a dyletswyddau'r heddlu a hawliau'r person yn ystod eu cyfnod mewn gorsaf heddlu yng Nghymru neu Loegr, yr un fath ag y maent yn yr Alban;

(ii) a arestiwyd o dan Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999, adran 142(3) er mwyn cymryd olion eu bysedd;

(iii) y mae swyddog mewnfudo o dan Ddeddf Mewnfudo 1971 wedi awdurdodi eu cadw;

(iv) sy'n garcharorion y dyfarnwyd eu bod yn euog neu sy'n aros prawf, a gedwir yng nghelloedd yr heddlu ar ran Gwasanaeth y Carchardai o dan Ddeddf Carcharu (Darpariaethau Dros Dro) 1980;

(v) a gedwir i'w harchwilio o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 7 ac y mae'r Côd Ymarfer a gyhoeddwyd dan y Ddeddf honno, Atodlen 14, paragraff 6, yn berthnasol iddynt;

(vi) a gedwir i'w harchwilio dan bwerau atal ac archwilio ac eithrio'r rhai sy'n ofynnol gan Gôd A.

Rhaid ystyried mai'r darpariaethau ynghylch amodau cadw a thrin pobl yn *adrannau 8* a *9* yw'r safonau isaf posibl wrth drin pobl o'r fath sy'n cael eu cadw.

1.13 Yn y Côd yma mae:

(a) 'person dynodedig' yn golygu rhywun ar wahân i swyddog heddlu, a ddynodwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, Rhan 4, sydd â phwerau a dyletswyddau penodedig swyddogion heddlu a roddwyd iddynt neu a orfodwyd arnynt;

(b) unrhyw gyfeiriad at swyddog heddlu yn cynnwys person dynodedig sy'n gweithredu wrth ymarfer neu gyflawni'r pwerau a'r dyletswyddau a roddwyd iddynt neu a orfodwyd arnynt gan eu dynodiad.

1.14 Caniateir i bersonau dynodedig ddefnyddio grym rhesymol fel a ganlyn:

(a) wrth arfer pŵer a roddwyd iddynt sy'n caniatau i swyddog o'r heddlu, wrth arfer y

pŵer hwnnw, i ddefnyddio grym rhesymol, mae gan berson dynodedig yr un hawl i ddefnyddio grym; ac,

(b) ar adegau eraill wrth, gyflawni dyletswyddau a roddwyd neu a osodwyd arnynt sydd *hefyd* yn caniatáu iddynt ddefnyddio grym rhesymol, er enghraifft:

~ pan fônt mewn gorsaf heddlu yn cyflawni ei dyletswydd i gadw 'r rhai sydd yn y ddalfa y maent yn gyfrifol amdanynt dan reolaeth ac i gynorthwyo unrhyw swyddog heddlu neu berson dynodedig arall i gadw unrhyw un a gedwir yn y ddalfa dan reolaeth ac i'w hatal rhag dianc.

~ wrth sicrhau, neu gynorthwyo unrhyw swyddog heddlu neu berson dynodedig arall i sicrhau gadw person mewn gorsaf heddlu.

~ wrth hebrwng, neu wrth gynorthwyo unrhyw swyddog heddlu neu berson dynodedig i hebrwng person sy'n cael ei gadw mewn gorsaf heddlu

~ ar gyfer dibenion achub bywyd neu atal niwed corfforol neu rwystro difrod difrifol i eiddo.

1.15 Nid oes dim yn y Côd yma yn atal swyddog y ddalfa, neu swyddog arall y rhoddwyd gwarchodaeth o'r sawl sy'n cael eu cadw iddynt, rhag caniatáu i staff yr heddlu nad ydynt yn unigolion dynodedig i gynnal gweithdrefnau neu dasgau unigol yn yr orsaf heddlu, os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny. Fodd bynnag, mae'r swyddog yn dal yn gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau a'r tasgau'n cael eu cyflawni'n gywir, yn unol âr Codau Ymarfer. Mae'n rhaid i unrhyw unigolyn o'r fath fod yn:

(a) berson a gyflogir gan awdurdod heddlu sy'n cynnal gwasanaeth heddlu ac o dan reolaeth a chyfarwyddyd Prif Swyddog yr heddlu yna;

(b) yn gyflogedig gan berson y mae gan y gwasanaeth heddlu gytundeb â hwy ar gyfer cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phobl sy'n cael eu harestio neu sydd fel arall yn cael eu cadw yn y ddalfa.

1.16 Mae'n rhaid i unigolion dynodedig a staff heddlu eraill gadw mewn cof unrhyw ddarpariaethau perthnasol o'r Codau Ymarfer.

1.17 Mae cyfeiriadau at lyfrau poced yn cynnwys unrhyw lyfr adrodd swyddogol a ddosbarthwyd i swyddogion heddlu neu staff heddlu eraill.

***Nodiadau arweiniad***

*1A Er bod rhai adrannau o'r Côd yma yn ymwneud yn benodol â phobl yn y ddalfa mewn gorsafoedd heddlu, ni ddylid trin y rhai sydd yno'n wirfoddol er mwyn cynorthwyo gydag*

C

*ymchwiliad, mewn unrhyw ffordd lai ystyriol, e.e. dylid cynnig lluniaeth iddynt ar adegau priodol, a dylent gael yr hawl ddiamod i gael cyngor cyfreithiol neu gyfathrebu ag unrhyw un arall y tu allan i'r orsaf heddlu.*

1B *Ni ddylai person, gan gynnwys rhiant neu warcheidwad, gael eu hystyried yn oedolyn priodol os:*

- *ydynt*
  *dan amheuaeth o fod yn gysylltiedig â'r drosedd*
  - ~ *wedi dioddef y drosedd*
  - ~ *yn dyst*
  - ~ *yn ymwneud â'r ymchwiliad*
- *ydynt wedi derbyn cyfaddefiadau cyn mynychu er mwyn gweithredu fel oedolyn priodol.*

*Sylwer: Os yw rhiant person ifanc wedi cael eu gwahanu o'r person ifanc, ni ddylid gofyn iddynt weithredu fel yr oedolyn priodol os yw'r person ifanc yn gwrthwynebu'n benodol iddynt fod yn bresennol.*

1C *Os yw person ifanc yn cyfaddef i weithiwr cymdeithasol neu aelod o dîm troseddu ieuenctid ei fod wedi cyflawni trosedd, neu'n gwneud hynny yn eu presenoldeb, ar wahân i'r amser y mae'r person hwnnw yn oedolyn priodol ar gyfer y person ifanc, dylid penodi oedolyn priodol arall er mwyn sicrhau tegwch.*

1D *Yn achos pobl sydd ag afiechyd meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, efallai y bydd hi'n fwy boddhaol i'r oedolyn priodol fod yn rhywun sydd â phrofiad o ofalu amdanynt neu a hyfforddwyd i wneud hynny, yn hytrach na perthynas nad oes ganddynt gymwysterau o'r fath. Os yw'n well gan y sawl sy'n cael eu cadw gael perthynas yno na rhywun dieithr sydd â gwell cymwysterau, neu os yw'n gwrthwynebu person penodol, dylid parchu eu dymuniadau os yw hynny'n ymarferol.*

1E *Pan ofynnir i oedolyn priodol fynychu gorsaf yr heddlu, dylid rhoi'r cyfle bob amser i'r sawl sy'n cael eu cadw, i ymgynghori â chyfreithiwr yn breifat yn absenoldeb yr oedolyn priodol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Nid yw oedolyn priodol yn destun braint gyfreithiol.*

1F *Ni chaiff cyfreithiwr neu ymwelydd annibynnol â'r ddalfa (ymwelydd lleyg yn flaenorol) sy'n bresennol yng ngorsaf yr heddlu yn rhinwedd eu swydd, weithredu fel yr oedolyn priodol.*

1G *Mae "agored i niwed yn feddyliol" yn gymwys i unrhyw un sy'n cael ei gadw nad yw, o bosibl, yn deall arwyddocâd yr hyn a ddywedir, cwestiynau na'u hymatebion, oherwydd eu cyflwr neu eu gallu meddyliol. Diffinnir 'anhwylder meddwl' yn Neddf Iechyd Meddwl 1983, adran 1(2) fel 'salwch meddwl, rhywun y mae datblygiad eu meddwl wedi cael ei atal neu nad yw wedi datblygu'n llawn, anhwylder seicopathig ac unrhyw anhwylder neu anabledd arall yn y*

*meddwl.' Pan fo gan swyddog y ddalfa unrhyw amheuaeth ynghylch cyflwr neu allu meddyliol y sawl sy'n cael eu cadw, dylid trin y person hwnnw fel rhywun sy'n agored i niwed yn feddyliol a dylid galw am oedolyn priodol.*

*1H Diben paragraff 1.1A yw delio â'r oedi a allai ddigwydd wrth brosesu'r sawl sy'n cael eu cadw e.e.:*

- *os dygir nifer fawr o bobl dan amheuaeth i'r orsaf ar yr un pryd er mwyn eu cadw yn y ddalfa;*
- *os yw'r holl ystafelloedd cyfweld yn cael eu defnyddio;*
- *os ceir trafferthion wrth gysylltu ag oedolyn priodol, cyfreithiwr neu gyfieithydd.*

*1I Rhaid i swyddog y ddalfa atgoffa'r oedolyn priodol a'r sawl sy'n cael eu cadw o'r hawl i gael cyngor cyfreithiol, a chofnodi unrhyw resymau dros* ei wrthod, yn unol ag adran 6.

*1J Mae dynodi swyddogion y ddalfa staff yr heddlu yn berthnasol yn unig mewn ardaloedd heddlu lle mae gorchymyn sy'n cychwyn darpariaethau Deddf Diwygio'r Heddlu 2002, adran 38 ac Atodlen 4A ar gyfer dynodi swyddogion y ddalfa staff yr heddlu mewn grym.*

*1K Nid yw'r Côd yma yn effeithio ar yr egwyddor bod gan bob dinesydd ddyletswydd i helpu swyddogion yr heddlu i atal troseddu a chanfod troseddwyr. Dyletswydd ddinesig yn hytrach na chyfreithiol yw hyn; ond lle mae swyddog heddlu yn ceisio darganfod a gyflawnwyd trosedd, neu pwy gyflawnodd trosedd, mae ganddo hawl i holi unrhyw berson y mae ef/hi o'r farn y gallai roi gwybodaeth ddefnyddiol, yn amodol ar gyfyngiadau a osodwyd gan y Côd yma. Nid yw datganiad gan berson nad yw'n barod i ateb yn newid yr hawl yma.*

## 2 Cofnodion cadw

2.1A Pan fydd person yn cael ei gymryd i orsaf heddlu:

- ar ôl ei arestio
- yn cael ei arestio yng ngorsaf heddlu ar ôl mynd yno'n wirfoddol neu'n
- mynychu gorsaf heddlu er mwyn ateb mechnïaeth.

dylai ymddangos gerbron swyddog y ddalfa cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl iddynt gyrraedd yr orsaf neu, os yw hynny'n briodol, yn dilyn ei arestio ar ôl mynd i'r orsaf heddlu'n wirfoddol. Mae hyn yn berthnasol i orsafoedd heddlu dynodedig a gorsafoedd heddlu heb eu dynodi. Bernir bod person "mewn gorsaf heddlu" at y dibenion hyn os ydynt o fewn ffiniau unrhyw adeilad neu iard gaeedig sy'n ffurfio rhan o'r orsaf heddlu honno.

C

2.1 Rhaid cychwyn y cofnod cadw ar wahân cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol, ar gyfer pob person sy'n cael eu dwyn i orsaf heddlu ar ôl eu harestio, neu sy'n cael eu harestio yn yr orsaf ar ôl mynd yno'n wirfoddol neu'n mynychu gorsaf heddlu wrth ateb mechnïaeth stryd. Rhaid cofnodi'r holl wybodaeth a gofnodir dan y Côd yma cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol yn y cofnod cadw, oni bai y nodir fel arall. Nid yw unrhyw recordiad sain neu fideo a wneir yn y ddalfa, yn rhan o'r cofnod cadw.

2.2 Os oes unrhyw weithred yn gofyn am awdurdod swyddog o statws arbennig, yn unol â *pharagraff 2.6A*, rhaid nodi eu henw a'u statws yn y cofnod cadw.

2.3 Mae swyddog y ddalfa'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r cofnod cadw, ac am sicrhau bod y cofnod neu gopi o'r cofnod, yn cael ei drosglwyddo gyda'r sawl sy'n cael eu cadw os cânt eu trosglwyddo i orsaf heddlu arall. Bydd y cofnod yn nodi:

- amser y trosglwyddo a'r rheswm dros drosglwyddo;
- yr amser y bydd person yn cael ei ryddhau.

2.4 Rhaid caniatáu i gyfreithiwr neu oedolyn priodol edrych ar gofnod cadw'r sawl sy'n cael eu cadw cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ar ôl iddynt gyrraedd yr orsaf ac ar unrhyw adeg arall pan fo'r person yn cael ei gadw. Rhaid cytuno ar unrhyw drefniadau o'r fath gyda swyddog y ddalfa ac ni ddylai ymyrryd yn afresymol ar ddyletswyddau swyddog y ddalfa.

2.4A Pan fo person yn cael ei ryddhau neu pan fydd yn cael ei ddwyn i'r llys, fe all ei gynrychiolydd cyfreithiol neu'r oedolyn priodol ofyn am gopi o'r cofnod cadw cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol. Mae'r hawl hwn yn ddilys am 12 mis ar ôl ei ryddhau.

2.5 Fe all y sawl sy'n cael eu cadw, yr oedolyn priodol neu'r cynrychiolydd cyfreithiol archwilio'r cofnod cadw gwreiddiol ar ôl i'r sawl sy'n cael eu cadw gael eu rhyddhau, ar yr amod eu bod yn rhoi rhybudd rhesymol o'u cais. Bydd unrhyw chwiliad o'r fath yn cael ei nodi yn y cofnod cadw.

2.6 Yn unol â *pharagraff 2.6A*, rhaid nodi amser pob cofnod mewn cofnodion cadw a'u llofnodi gan yr un sy'n eu gwneud. Nodir amser unrhyw gofnodion a wneir ar gyfrifiadur, a byddant yn nodi manylion yr un sy'n cofnodi.

2.6A Nid oes dim yn y Côd yma yn gofyn am gofnodi neu ddatgelu pwy yw'r swyddogion heddlu neu staff heddlu eraill:

(a) yn achos ymholiadau sy'n gysylltiedig ag ymchwilio i derfysgaeth; neu

(b) os oes gan y swyddog neu'r staff heddlu le rhesymol i gredu y gallai cofnodi neu ddatgelu ei enw ei roi mewn perygl;

Mewn achosion o'r fath dylent ddefnyddio'u gwarant neu rifau adnabod eraill ac enw'r orsaf heddlu. Gweler *Nodyn 2A*

2.7 Rhaid cofnodi ffeithiau ac amser unrhyw achos pan fo'r sawl sy'n cael eu cadw yn gwrthod llofnodi cofnod cadw pan ofynnir iddynt wneud hynny yn unol â'r Côd yma.

C

***Nodyn arweiniad***

*2A Pwrpas paragraff 2.6A(b) yw amddiffyn rhai sydd wedi ymwneud ag ymchwiliadau difrifol i dor-cyfraith trefnedig neu arestio pobl sydd dan amheuaeth sy'n dreisiol iawn lle mae yno wybodaeth ddibynadwy y gallai'r rhai a arestiwyd, neu eu cymdeithion, fygwth neu achosi niwed i'r rhai dan sylw. Lle ceir amheuaeth, dylid ymgynghori gyda swyddog o safle arolygydd neu uwch.*

## 3 Gweithredu cychwynnol

### *(a) Pobl sy'n cael eu cadw – y drefn arferol*

3.1 Pan fydd person yn cael ei gymryd i orsaf yr heddlu ar ôl cael ei arestio, neu pan fydd yn cael ei arestio yn yr orsaf ar ôl mynd yno'n wirfoddol, rhaid i swyddog y ddalfa sicrhau bod y person hwnnw yn cael ei hysbysu'n eglur am yr hawliau parhaus canlynol, y gellir eu hymarfer ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod yn y ddalfa:

(i) yr hawl i hysbysu rhywun ei fod wedi cael ei arestio fel nodir yn *adran 5*;

(ii) yr hawl i ymgynghori â chyfreithiwr yn breifat a bod cyngor cyfreithiol annibynnol ar gael;

(iii) yr hawl i weld y Codau Ymarfer hyn. Gweler *Nodyn 3D*

3.2 Yn ogystal, rhaid rhoi'r canlynol i'r sawl sy'n cael eu cadw:

- hysbysiad ysgrifenedig sy'n nodi:
  - ~ y tri hawl uchod;
  - ~ y trefniadau er mwyn cael cyngor cyfreithiol;
  - ~ yr hawl i gael copi o'r cofnod cadw fel y nodwyd ym *mharagraff 2.4A*;
  - ~ y rhybudd yn y termau a nodir yn *adran 10*.
- hysbysiad ysgrifenedig ychwanegol yn nodi eu hawliau yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa yn gryno, *gweler Nodiadau 3A* a *3B*.

C

Sylwer: Gofynnir i'r sawl sy'n cael eu cadw, lofnodi'r cofnod cadw er mwyn cydnabod eu bod wedi cael yr hysbysiadau hyn. Rhaid cofnodi unrhyw achos o wrthod gwneud hyn yn y cofnod cadw.

3.3 Rhaid hysbysu dinesydd un o wledydd annibynnol y Gymanwlad neu ddinesydd gwlad dramor, gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon, cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ynghylch eu hawliau i gysylltu â'u Huchel Gomisiwn, eu Llysgenhadaeth neu eu Conswliaeth. Gweler *adran 7*

3.4 Bydd swyddog y ddalfa yn gwneud y canlynol:

- cofnodi'r trosedd(au) y cafodd y sawl a gedwir eu harestio amdanynt a'r rheswm/rhesymau am yr arestiad yng nghofnod y ddalfa. Gweler paragraff 10.3 a Côd G paragraffau 2.2 a 4.3.
- nodi ar y cofnod cadw unrhyw sylwadau a wneir gan y sawl sy'n cael eu cadw mewn perthynas â disgrifiad y swyddog arestio, ond ni fydd yn gofyn am sylwadau. Os nad yw'r swyddog arestio yn gorfforol bresennol pan ddygir y sawl a gedwir i orsaf yr heddlu, yna mae'n rhaid i adroddiad y swyddog arestio fod ar gael i swyddog y ddalfa naill ai trwy drosglwyddiad o bellter neu trwy drydydd parti ar ran y swyddog arestio. Os bydd swyddog y ddalfa yn awdurdodi cadw rhywun, rhaid hysbysu'r sawl i'w cadw o'r rhesymau am hyn cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol a chyn eu holi am unrhyw drosedd;
- nodi unrhyw sylwadau a wneir gan y sawl sy'n cael eu cadw ynghylch y penderfyniad i'w cadw, ond nid fydd yn gofyn am sylwadau;
- ni fydd yn gofyn cwestiynau penodol i'r sawl sy'n cael eu cadw ynghylch eu rhan mewn unrhyw drosedd, nac am unrhyw sylwadau a wneir ganddynt wrth ymateb i ddisgrifiad y swyddog arestio o'r penderfyniad i'w cadw. Mae trafodaeth o'r fath yn debygol o gael ei hystyried yn gyfweliad dan amodau *paragraff 11.1A* ac felly, bydd angen cymryd y camau diogel cysylltiedig yn *adran 11*.

Gweler *paragraff 11.13* am wybodaeth am sylwadau nas gofynnwyd amdanynt.

3.5 Bydd swyddog y ddalfa yn:

(a) gofyn i'r sawl sy'n cael eu cadw a hoffent, ar yr adeg yma:

(i) gael cyngor cyfreithiol, *gweler paragraff 6.5*;

(ii) hysbysu rhywun eu bod yn cael eu cadw, *gweler adran 5*;

(b) gofyn i'r sawl sy'n cael eu cadw, lofnodi'r cofnod cadw er mwyn cadarnhau eu penderfyniadau yn adran *(a)*;

(c) penderfynu:

(i) a oes angen triniaeth neu sylw feddygol ar y sawl sy'n cael eu cadw, neu a allai fod angen triniaeth neu sylw meddygol arnynt, *gweler adran 9*;

(ii) a oes angen un o'r canlynol ar y sawl sy'n cael eu cadw:

- oedolyn priodol;
- help i archwilio dogfennau;
- cyfieithydd;

(d) cofnodi'r penderfyniad a wnaed yn adran *(c)*.

3.6 Wrth bennu'r anghenion hyn, mae swyddog y ddalfa yn gyfrifol am gychwyn asesiad er mwyn ystyried a yw'r sawl sy'n cael eu cadw yn debygol o beri risgiau penodol i staff y ddalfa neu i'w hunain. Dylai asesiadau o'r fath gynnwys chwiliad ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu bob amser, y dylid ei wneud cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol, er mwyn nodi unrhyw risgiau a amlygir mewn perthynas â'r sawl sy'n cael eu cadw. Er mai cyfrifoldeb swyddog y ddalfa yw asesiadau o'r fath yn bennaf, efallai y bydd angen ymgynghori a chynnwys eraill, e.e. y swyddog arestio neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol, *gweler paragraff 9.13*. Rhaid cofnodi'r rhesymau dros ohirio cychwyn neu gwblhau'r asesiad.

3.7 Dylai Prif Swyddogion sicrhau yr ymgorfforir trefniadau er mwyn sicrhau yr asesiadau risg effeithiol a chywir sy'n ofynnol o dan *baragraff 3.6*, ar gyfer pob un sy'n cael eu cadw mewn gorsaf heddlu yn eu hardal.

3.8 Rhaid i asesiadau risg ddilyn proses strwythuredig sy'n diffinio'n eglur y categorïau risg i'w hystyried, a rhaid cynnwys y canlyniadau yng nghofnod cadw'r sawl sy'n cael eu cadw. Mae swyddog y ddalfa yn gyfrifol am sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am gyfnod y person yn y ddalfa, yn cael eu briffio'n briodol am y risgiau cysylltiedig. Os na nodir unrhyw risgiau penodol yn yr asesiad, dylid nodi hynny yn y cofnod cadw. Gweler *Nodyn 3E* a *pharagraff 9.14*

3.9 Mae swyddog y ddalfa yn gyfrifol am ymgorffori'r ymateb i unrhyw asesiad risg penodol, e.e.:

- lleihau'r cyfleoedd i'r person niweidio'i hun;
- galw gweithiwr gofal iechyd proffesiynol;
- sicrhau mwy o waith monitro neu arsylwi.

3.10 Mae asesu risg yn broses barhaus a rhaid adolygu asesiadau bob amser os bydd yr amgylchiadau'n newid.

3.11 Os gosodwyd camerâu fideo yn y ddalfa, dylid gosod hysbysiadau mewn mannau amlwg sy'n nodi y defnyddir camerâu. Gwrthodir unrhyw gais i ddiffodd camerâu fideo.

***(b) Pobl sy'n cael eu cadw – grwpiau arbennig***

C

3.12 Os yw'n ymddangos bod y sawl sy'n cael eu cadw yn fyddar neu os oes amheuaeth ynghylch eu gallu i glywed neu siarad neu ddeall Saesneg, ac os na all swyddog y ddalfa gyfathrebu â'r person yn effeithiol, rhaid i swyddog y ddalfa ofyn am gymorth cyfieithydd cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol, yn unol â *pharagraffau 3.1-3.5*. Gweler *adran 13*

3.13 Os yw'r sawl sy'n cael eu cadw yn berson ifanc, rhaid i swyddog y ddalfa ddod i wybod pwy sy'n gyfrifol am ei les, os yw hynny'n ymarferol. Gall y person hwnnw:

~ fod yn rhiant neu'n warcheidwad i'r person;

~ os yw'r person ifanc yng ngofal awdurdod lleol neu gymdeithas wirfoddol, neu fel arall yn cael gofal o dan Ddeddf Plant 1989, fod yn berson a benodwyd gan yr awdurdod hwnnw neu'r gymdeithas honno, i fod yn gyfrifol am les y person ifanc;

~ fod yn unrhyw un arall sy'n gyfrifol am les y person ifanc am y tro.

Rhaid hysbysu'r person hwnnw cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol, bod y person ifanc wedi cael ei arestio, y rheswm dros ei arestio a'r rheswm dros ei gadw. Mae'r hawl hon yn ychwanegol i hawl y person ifanc yn *adran 5* i beidio â chael ei gadw heb allu cysylltu â neb. Gweler *Nodyn 3C*

3.14 Os yw'n hysbys bod person ifanc yn destun gorchymyn llys lle y rhoddir unrhyw gyfrifoldeb statudol i berson neu sefydliad dros ei oruchwylio neu ei fonitro fel arall, rhaid cymryd camau rhesymol *hefyd* i hysbysu'r person neu'r sefydliad hwnnw (y 'swyddog cyfrifol'). Fel arfer, bydd y swyddog cyfrifol yn aelod o Dîm Troseddu Ieuenctid, ac eithrio mewn gorchymyn cyrffiw sy'n ymwneud â monitro electronig, pan mai'r contractiwr sy'n darparu'r gwasanaeth monitro fydd y swyddog cyfrifol fel arfer.

3.15 Os yw'r sawl sy'n cael eu cadw yn berson ifanc, os oes ganddo anhwylder meddwl neu os yw fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, rhaid i swyddog y ddalfa wneud y canlynol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol:

- hysbysu'r oedolyn priodol, a allai neu na allai fod yr un person sy'n gyfrifol am ei les yn achos person ifanc, fel nodir ym *mharagraff 3.13*, am:

  ~ y rheswm dros ei gadw;

  ~ ei leoliad.

- gofyn i'r oedolyn ddod i'r orsaf heddlu i weld y sawl sy'n cael eu cadw.

3.16 Mae'n hollbwysig bod person sydd ag anhwylder meddwl neu berson sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, sy'n cael ei gadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, adran 136, yn cael ei asesu cyn gynted ag y bo modd. Os gwneir yr asesiad hwnnw yng ngorsaf yr heddlu, gofynnir i weithiwr cymdeithasol a gymeradwywyd ac ymarferwr meddygol cofrestredig ddod i'r orsaf cyn gynted ag y bo modd er mwyn cyfweld ac archwilio'r sawl sy'n cael eu cadw. Ar ôl cyfweld, archwilio a gwneud trefniadau addas i drin neu ofalu am y sawl sy'n cael eu cadw, ni ellir ei gadw o dan adran 136 mwyach. Rhaid rhyddhau'r sawl sy'n cael eu cadw o dan adran 136 yn syth os daw ymarferwr meddygol cofrestredig i'r casgliad nad oes anhwylder meddwl arnynt yn ôl ystyr y Ddeddf, ar ôl ei archwilio.

C

3.17 Os:

- yw'r oedolyn priodol yng ngorsaf yr heddlu eisoes, rhaid cydymffurfio â darpariaethau *paragraffau 3.1* i *3.5* ym mhresenoldeb yr oedolyn priodol;
- nad yw'r oedolyn priodol yn yr orsaf ar adeg cydymffurfio â'r darpariaethau hyn, rhaid cydymffurfio â 'r darpariaethau unwaith eto ym mhresenoldeb yr oedolyn priodol pan fydd yn cyrraedd.

3.18 Dylid hysbysu'r sawl sy'n cael eu cadw:

- bod dyletswyddau'r oedolyn priodol yn cynnwys rhoi cyngor a chymorth;
- y gall ymgynghori'n breifat â'r oedolyn priodol ar unrhyw adeg.

3.19 Os yw'r sawl sy'n cael eu cadw, neu'r oedolyn priodol ar ran y sawl sy'n cael eu cadw, yn gofyn am alw cyfreithiwr i roi cyngor cyfreithiol, bydd darpariaethau *adran 6* yn berthnasol.

3.20 Os yw'r sawl sy'n cael eu cadw yn ddall, os oes nam difrifol ar eu golwg neu os nad ydynt yn gallu darllen, bydd swyddog y ddalfa yn sicrhau bod eu cyfreithiwr, perthynas iddynt, eu hoedolyn priodol neu unrhyw un arall sy'n debygol o gymryd diddordeb ynddynt ac nad yw'n ymwneud â'r ymchwiliad, ar gael i helpu i archwilio unrhyw ddogfennau. Pan fo'r Côd yn gofyn am ganiatâd ysgrifenedig neu lofnod, gellir gofyn i'r un sy'n cynorthwyo i lofnodi yn lle hynny, os yw'n well gan y sawl sy'n cael eu cadw i hynny ddigwydd. Nid yw'r paragraff hwn yn gofyn am alw oedolyn priodol yn unswydd i gynorthwyo wrth archwilio a llofnodi dogfennau ar gyfer person nad yw'n berson ifanc, nad oes ganddo anhwylder meddwl neu y mae fel arall yn agored i niwed yn feddyliol (*gweler paragraff 3.15*).

***(c) Pobl sy'n mynychu gorsaf heddlu yn wirfoddol***

3.21 Gall unrhyw un sy'n mynychu gorsaf heddlu yn wirfoddol er mwyn cynorthwyo mewn

ymchwiliad, adael os y dymunant, os nad ydynt yn cael eu harestio. Gweler *Nodyn 1K*. Os penderfynir na ddylid caniatáu iddynt adael, rhaid eu hysbysu ar unwaith eu bod yn cael eu harestio a'u dwyn gerbron swyddog y ddalfa, sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu o'u hawliau yn yr un ffordd ag yr hysbysir eraill sy'n cael eu cadw. Os nad ydynt yn cael eu harestio, ond yn cael eu rhybuddio fel nodir yn *adran 10*, rhaid i'r un sy'n eu rhybuddio eu hysbysu ar yr un pryd, nad ydynt yn cael eu harestio, nad oes yn rhaid iddynt aros yn yr orsaf, ond os byddant yn penderfynu aros yn yr orsaf, bod cyngor cyfreithiol annibynnol rhad ac am ddim ar gael iddynt os dymunant. Fe'u hysbysir bod yr hawl i gael cyngor cyfreithiol yn cynnwys yr hawl i siarad gyda chyfreithiwr dros y ffôn, a gofynnir iddynt a hoffent wneud hynny.

3.22 Os yw'r sawl sy'n mynychu gorsaf yr heddlu yn wirfoddol, yn gofyn am eu hawl i gyngor cyfreithiol, rhoddir copi iddynt o'r hysbysiad yn esbonio'r trefniadau ar gyfer cael cyngor cyfreithiol. Gweler *paragraff 3.2*

***(d) Dogfennau***

3.23 Cofnodir y rhesymau dros gadw person, pan fo'r person dan sylw yn bresennol os yw hynny'n ymarferol.

3.24 Bydd unrhyw gamau a gymerir o dan *baragraffau 3.12* i *3.20* yn cael eu cofnodi.

***(e) Personau sy'n ateb mechnïaeth stryd***

3.25 Pan fo rhywun yn ateb mechnïaeth stryd, dylai swyddog y ddalfa gysylltu unrhyw ddogfennau a ddelir mewn perthynas â'r arestiad gyda chofnod y ddalfa. Cofnodir unrhyw gamau pellach ar gofnod y ddalfa yn unol â pharagraffau 3.23 a 3.24 uchod.

***Nodiadau arweiniad***

*3A Dylai'r hysbysiad ynghylch hawliau:*

- *restru'r hawliau yn y Côd yma, gan gynnwys:*
  - ~ *ymweliadau a chyswllt gyda phobl o'r tu allan, gan gynnwys darpariaethau ar gyfer dinasyddion y Gymanwlad a phobl o wledydd tramor;*
  - ~ *safonau rhesymol o gyfforddusrwydd corfforol;*
  - ~ *digon o fwyd a diod;*
  - ~ *yr hawl i ddefnyddio toiledau a chyfleusterau ymolchi, dillad, sylw meddygol ac ymarfer corff pan fo hynny'n ymarferol.*
- *cyfeirio at:*
  - ~ *y darpariaethau'n ymwneud â sut y cynhelir cyfweliadau;*

~ *amgylchiadau pan ddylai oedolyn priodol fod ar gael i gynorthwyo'r sawl sy'n cael eu cadw a'u hawliau statudol i gyflwyno achos pan adolygir eu cyfnod cadw.*

*3B Yn ogystal â hysbysiadau yn Saesneg, dylai cyfieithiadau fod ar gael yn Gymraeg, y prif ieithoedd ethnig lleiafrifol a'r prif ieithoedd Ewropeaidd, pan fo hynny'n debygol o fod o gymorth. Dylid darparu fersiynau sain hefyd o'r hysbysiad*

*3C Os yw'r person ifanc yng ngofal awdurdod lleol neu gymdeithas wirfoddol, ond yn byw gyda'i rieni neu oedolion eraill sy'n gyfrifol am ei les, er nad oes ymrwymiad cyfreithiol i'w hysbysu, fel arfer dylid cysylltu â hwy, yn ogystal â'r awdurdod neu'r gymdeithas, oni bai y ceir amheuaeth eu bod yn gysylltiedig â'r drosedd dan sylw. Hyd yn oed os nad yw'r person ifanc yn byw gyda'i rieni, dylid ystyried eu hysbysu.*

*3D Nid yw'r hawl i weld y Codau Ymarfer yn rhoi hawl i'r person dan sylw i ohirio'n unrhyw gamau ymchwilio neu weinyddu angenrheidiol am gyfnod afresymol wrth iddo wneud hynny. Mae enghreifftiau o gamau nad oes angen gohirio afresymol cyn eu gweithredu, yn cynnwys:*

- *trefniadau sy'n gofyn am ddarparu samplau anadl, samplau gwaed neu samplau dŵr o dan Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1988 neu Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992*
- *archwilio'r sawl sy'n cael eu cadw yng ngorsaf yr heddlu*
- *cymryd olion bysedd, olion esgidiau neu samplau nad ydynt yn rhai trylwyr heb ganiatâd at ddibenion cael tystiolaeth.*

*3E Mae Cylchlythyr 32/2000 y Swyddfa Gartref yn rhoi arweiniad mwy manwl ar asesiadau risg gan nodi meysydd risg allweddol y dylid eu hystyried bob amser.*

## 4 Eiddo'r sawl sy'n cael eu cadw

### *(a) Gweithredu*

4.1 Mae swyddog y ddalfa yn gyfrifol am:

(a) ganfod pa eiddo:

(i) sydd gan y sawl sy'n cael eu cadw pan fyddant yn cyrraedd gorsaf yr heddlu, pa un a ydynt:

- wedi cael eu harestio neu eu cadw eilwaith er mwyn ateb mechnïaeth;
- wedi eu hymrwymo i gael eu cadw yn y carchar dan orchymyn neu ddedfryd llys;

C

- yn bresennol yn yr orsaf heddlu er mwyn cael eu cyflwyno i'r llys o gyfnod yn y ddalfa mewn carchar;
- yn cael eu trosglwyddo o gael eu cadw yn yr ysbyty neu mewn gorsaf arall;
- yn cael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, adran 135 neu 136;
- yn cael eu cadw yng ngofal yr heddlu ar awdurdod llys.

(ii) y gallai'r sawl sy'n cael eu cadw fod wedi ei sicrhau at ddiben anghyfreithiol neu niweidiol yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa;

(b) diogelu unrhyw eiddo sy'n cael ei gymryd oddi ar y sawl sy'n cael eu cadw, sy'n aros yng ngorsaf yr heddlu.

Fe all swyddog y ddalfa archwilio'r sawl sy'n cael eu cadw neu awdurdodi iddynt gael eu harchwilio i'r graddau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol ganddo, ar yr amod bod unrhyw chwiliad o rannau personol y corff neu sy'n golygu tynnu mwy nag un haen o ddillad allanol, yn cael ei wneud yn unig yn unol ag *Atodiad A*. Rhaid i swyddog o'r un rhyw â'r sawl sy'n cael eu cadw, gynnal chwiliad ohonynt. Gweler *Nodyn 4A*

4.2 Gall y sawl sy'n cael eu cadw, gadw dillad ac eiddo personol ar eu cyfrifoldeb eu hunain, oni bai fod swyddog y ddalfa o'r farn y gallent eu defnyddio i niweidio'i hunain neu eraill, ymyrryd â thystiolaeth, difrodi eiddo, trefnu ffordd o ddianc neu os oes eu hangen fel tystiolaeth. Os digwydd hyn, gall swyddog y ddalfa gadw unrhyw eitemau o'r fath os bydd yn ystyried bod angen gwneud hyn, a rhaid iddo hysbysu'r sawl sy'n cael eu cadw o'i resymau dros wneud hyn.

4.3 Meddiannau personal yw'r eitemau hynny y gallai'r sawl sy'n cael eu cadw fod eu hangen, eu defnyddio neu gyfeirio atynt yn gyfreithiol yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa, ond nid ydynt yn cynnwys arian ac eitemau eraill o werth.

### *(b) Dogfennau*

4.4 Mater i swyddog y ddalfa yw pennu a ddylid cofnodi'r eiddo naill ai sydd gan y sawl sy'n cael eu cadw adeg eu harestio neu a gymerwyd oddi arnynt wrth eu harestio. Nid yw'n ofynnol cadw unrhyw gofnod a wneir fel rhan o gofnod y ddalfa ond fe ddylid nodi yng nghofnod y ddalfa lle gellir dod o hyd i gofnod o'r fath. Lle bynnag y gwneir cofnod caniateir i'r sawl sy'n cael eu cadw i archwilio a llofnodi bod y cofnod eiddo yn gywir. Cofnodir unrhyw achos o wrthod llofnodi.

4.5 Os na chaniateir i'r sawl sy'n cael eu cadw, gadw unrhyw ddarn o ddillad neu feddiannau personol, rhaid cofnodi'r rheswm dros hynny.

***Nodiadau arweiniad***

*4A Mae PACE, Adran 54(1) a pharagraff 4.1 yn mynnu bod y sawl sy'n cael eu cadw, yn cael eu chwilio pan y bydd hi'n amlwg y bydd gan swyddog y ddalfa ddyletswyddau parhaus mewn perthynas â'r person hwnnw, neu pan fo ymddygiad neu drosedd y sawl sy'n cael eu cadw yn golygu bod rhestr eiddo yn briodol. Nid ydynt yn mynnu bod pob un sy'n cael eu cadw yn cael eu chwilio, e.e. os yw hi'n amlwg y cedwir y person am gyfnod byr ac na fydd yn cael ei roi mewn cell, gall swyddog y ddalfa benderfynu peidio â'u chwilio. Mewn achos o'r fath, nodir 'ni chwiliwyd' yn y cofnod cadw, ni fydd paragraff 4.4 yn berthnasol, ac estynnir gwahoddiad i'r sawl sy'n cael eu cadw, lofnodi'r cofnod. Os bydd y person yn gwrthod, bydd yn rhaid i swyddog y ddalfa weld pa eiddo sydd ganddynt yn unol â pharagraff 4.1.*

*4B Nid yw paragraff 4.4 yn mynnu bod swyddog y ddalfa yn cofnodi eiddo a oedd gan y sawl sy'n cael eu cadw pan gawsant eu harestio, yn y cofnod cadw, os nad yw hi'n ymarferol ei ddwyn i orsaf yr heddlu oherwydd ei natur, ei faint neu'r nifer ohonynt.*

*4C Nid yw paragraff 4.4 yn mynnu y dylid cofnodi'r eitemau dillad y mae'r person yn eu gwisgo, oni bai y bydd swyddog y ddalfa yn eu cadw fel nodir ym mharagraff 4.2.*

**5 Hawl pobl i beidio cael eu cadw heb iddynt allu cysylltu â neb**

***(a) Gweithredu***

5.1 Gall unrhyw berson sy'n cael ei arestio a'i gadw yn y ddalfa mewn gorsaf heddlu neu mewn adeilad arall, ofyn bod person y mae'n ei adnabod neu sy'n debygol o gymryd diddordeb yn ei les, yn cael eu hysbysu ynghylch ei leoliad cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol, a defnyddir arian cyhoeddus i dalu am hyn. Os na ellir cysylltu â'r person dan sylw, fe all y sawl sy'n cael eu cadw ddewis dau berson arall. Os na ellir cysylltu â hwy, gall yr un sy'n gyfrifol am ei gadw neu am yr ymchwiliad, ganiatáu ymdrechion pellach nes i'r wybodaeth gael ei chyfleu. Gweler *Nodiadau 5C* a *5D*

5.2 Yr unig adeg y gellir oedi wrth weithredu'r hawl uchod ar gyfer pob person a enwebir, yw dan yr amodau a nodir yn *Atodiad B*.

5.3 Gellir gweithredu'r hawl uchod bob tro y dygir y sawl sy'n cael eu cadw i orsaf heddlu arall.

5.4 Gall swyddog y ddalfa benderfynu caniatáu ymweliadau â'r sawl sy'n cael eu cadw. Gweler *Nodyn 5B*

5.5 Os bydd cyfaill, perthynas neu berson sydd â diddordeb yn lles y sawl sy'n cael eu

C

cadw, yn gofyn ymhle y maent yn cael eu cadw, rhoddir y wybodaeth yma iddynt os bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn cytuno ac os nad yw *Atodiad B* yn berthnasol. Gweler *Nodyn 5D*

5.6 Rhoddir deunydd ysgrifennu i'r sawl sy'n cael eu cadw os gofynnant amdanynt, ac fe ganiateir iddynt ffonio un person am gyfnod rhesymol o amser, *gweler Nodiadau 5A* a *5E*. Gellir gwrthod neu ohirio un o'r breintiau hyn, neu'r ddau ohonynt, os yw swyddog o safle arolygydd neu uwch, o'r farn y gallai anfon llythyr neu ffonio rhywun arwain at un o'r canlyniadau yn:

(a) Atodiad B paragraffau 1 a 2 ac os yw'r person yn cael ei gadw oherwydd iddo gyflawni trosedd ditiadwy; neu

(b) Atodiad B paragraffau 8 a 9 ac os yw'r person yn cael ei gadw o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 7 neu adran 41

Nid oes unrhyw ran o'r paragraff hwn yn caniatáu cyfyngu neu wrthod yr hawliau a nodir ym *mharagraffau 5.1 a 6.1*.

5.7 Cyn anfon unrhyw lythyr neu neges, neu cyn y gwneir unrhyw alwad ffôn, hysbysir y sawl sy'n cael eu cadw y gellir darllen neu wrando ar unrhyw beth a nodir ganddynt mewn llythyr, galwad neu neges (ac eithrio unrhyw gyfathrebu gyda chyfreithiwr), ac y gellir ei ddefnyddio fel tystiolaeth. Gellir terfynu galwad ffôn os yw'r fraint yn cael ei chamddefnyddio. Gall swyddog y ddalfa benderfynu defnyddio arian cyhoeddus i dalu'r costau neu beidio.

5.7A Dylai unrhyw oedi neu atal hawliau yn yr adran hon fod yn gymesur ac ni ddylai barhau am fwy na sydd angen.

***(b) Dogfennau***

5.8 Rhaid gwneud cofnod o'r canlynol:

(a) unrhyw gais a wneir dan yr adran hon a'r camau a gymerwyd;

(b) llythyron, negeseuon neu alwadau ffôn a wnaethpwyd neu a gafwyd neu unrhyw ymweliad a gafwyd;

(c) unrhyw achos pan fo'r sawl sy'n cael eu cadw yn gwrthod â chaniatáu i'r heddlu roi gwybodaeth amdanynt i rywun o'r tu allan. Rhaid gofyn i'r sawl sy'n cael eu cadw lofnodi'r cofnod a rhaid cofnodi unrhyw achos o wrthod gwneud hynny.

***Nodiadau arweiniad***

*5A Gall person ofyn am gyfieithydd i ddehongli galwad ffôn neu gyfieithu llythyr.*

*5B Yn ôl disgresiwn swyddog y ddalfa, dylid caniatáu ymweliadau pan fo modd, os oes digon o bersonél ar gael i oruchwylio'r ymweliad ac os na amherir ar yr ymchwiliad mewn unrhyw ffordd.*

*5C Os nad yw'r sawl sy'n cael eu cadw yn gwybod am unrhyw un i gysylltu â nhw am gyngor neu gymorth, neu os nad ydynt yn gallu cysylltu â chyfaill neu berthynas, dylai swyddog y ddalfa ystyried unrhyw gyrff gwirfoddol lleol neu sefydliadau eraill a allai helpu. Mae paragraff 6.1 yn berthnasol os oes angen cyngor cyfreithiol.*

*5D Mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd hi'n briodol defnyddio'r ffôn i ddatgelu gwybodaeth o dan baragraffau 5.1 a 5.5.*

*5E Mae'r alwad ffôn ym mharagraff 5.6 yn ychwanegol i unrhyw gyfathrebu o dan baragraffau 5.1 a 6.1.*

C

## 6 Yr hawl i gyngor cyfreithiol

### *(a) Gweithredu*

6.1 Oni bai fod *Atodiad B* yn berthnasol, rhaid hysbysu pob un sy'n cael eu cadw, y gallant ymgynghori a chyfathrebu'n breifat gyda chyfreithiwr ar eu pennau eu hunain, trwy ysgrifennu atynt neu dros y ffôn, a bod cyngor cyfreithiol annibynnol ar gael gan y cyfreithiwr ar ddyletswydd, yn rhad ac am ddim. Gweler *paragraff 3.1, Nodyn 6B* a *Nodyn 6J*

6.2 Ni Ddefnyddiwyd hwn

6.3 Rhaid arddangos poster sy'n hysbysebu'r hawl i gael cyngor cyfreithiol mewn rhywle amlwg yn y man cyhuddo ym mhob gorsaf heddlu. Gweler *Nodyn 6H*

6.4 Ni ddylai unrhyw swyddog heddlu wneud unrhyw beth neu ddweud unrhyw beth ar unrhyw adeg er mwyn perswadio'r sawl sy'n cael eu cadw i beidio â gofyn am gyngor cyfreithiol.

6.5 Yr unig adeg y gellir gohirio'r hawl i gael cyngor cyfreithiol yw mewn amgylchiadau fel nodir yn *Atodiad B*. Pan ofynnir am gyngor cyfreithiol, ac os na fydd *Atodiad B* yn berthnasol, rhaid i swyddog y ddalfa weithredu'n ddi-oed er mwyn sicrhau y darperir cyngor o'r fath. Os bydd y sawl sy'n cael eu cadw yn penderfynu peidio â siarad â chyfreithiwr yn unigol ar ôl cael gwybod neu ei atgoffa am ei hawl i gael gwneud hynny, dylai'r swyddog nodi bod yr hawl yn cynnwys yr hawl i siarad gyda chyfreithiwr dros y ffôn. Os yw'r sawl sy'n cael eu cadw yn parhau i wrthod ymarfer eu hawl, dylai'r swyddog ofyn iddynt pam y maent yn gwneud hynny, a chofnodi unrhyw resymau yn y cofnod cadw neu'r cofnod y cyfweliad pan fo hynny'n briodol. Rhaid atgoffa unigolion o'u hawl i gael cyngor

cyfreithiol fel nodir ym mharagraffau 3.5, 11.2, 15.4, 16.4, 2B Atodiad A, 3 Atodiad K, a 16.5 a Côd D, paragraffau 3.17(ii) a 6.3. Rhaid atgoffa unigolion o'u hawl i gael cyngor cyfreithiol fel nodir ym *mharagraffau 3.5, 11.2, 15.4, 16.4* a *16.5* a Côd D, *paragraffau 3.17(ii)* a *6.3*. Unwaith y bydd hi'n amlwg nad yw'r sawl sy'n cael eu cadw yn dymuno siarad gyda chyfreithiwr yn unigol neu dros y ffôn, dylid gofyn iddynt am eu rhesymau dros eu penderfyniad. Gweler *Nodyn 6K*

*6.5A* *Yn achos person ifanc, dylai oedolyn priodol ystyried a oes angen cyngor cyfreithiol gan gyfreithiwr. Os yw'r person ifanc yn nodi nad yw'n dymuno cael cyngor cyfreithiol, yna mae gan yr oedolyn priodol yr hawl i ofyn i gyfreithiwr fod yn bresennol pe bai hynny er budd y person. Fodd bynnag, ni ellir gorfodi'r person sy'n cael ei gadw i weld cyfreithiwr os yw'n bendant nad yw am wneud hynny.*

6.6 Ni ellir cyfweld unrhyw un sy'n cael eu cadw, sy'n dymuno cael cyngor cyfreithiol, neu ni ellir parhau i'w cyfweld, nes iddynt gael cyngor o'r fath oni bai fod:

(a) *Atodiad B* yn berthnasol, pan fo'r cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd yn *Atodiad C* yn berthnasol oherwydd nad yw'r sawl sy'n cael eu cadw, wedi cael cyfle i ymgynghori â chyfreithiwr; neu

(b) gan swyddog o safle uwch-arolygydd neu uwch, amheuon rhesymol dros gredu:

(i) y gallai'r oedi dilynol:

- arwain at ymyrryd neu niweidio tystiolaeth sy'n gysylltiedig â throsedd;
- arwain at ymyrryd â phobl arall, neu beri niwed corfforol iddynt;
- arwain at golledion difrifol o ran eiddo, neu ddifrod difrifol i eiddo;
- arwain at rybuddio pobl eraill sydd dan amheuaeth o fod wedi cyflawni trosedd ond nad ydynt wedi cael eu harestio am ei gyflawni eto;
- atal y gwaith o adennill eiddo a gafwyd o ganlyniad i gomisiynu trosedd.

(ii) y gallai aros dyfodiad cyfreithiwr, gan gynnwys cyfreithiwr ar ddyletswydd, y cysylltwyd ag ef ac sydd wedi cytuno mynychu, arwain at oedi afresymol ym mhroses yr ymchwiliad.

Sylwer: Yn yr achosion hyn, bydd y cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd yn *Atodiad C* yn berthnasol oherwydd nad yw'r sawl sy'n cael eu cadw, wedi cael cyfle i ymgynghori â chyfreithiwr;

(c) bod y cyfreithiwr a enwebwyd neu a ddewiswyd o restr gan y sawl sy'n cael eu cadw:

(i) yn absennol ac na ellir cysylltu ag ef;

(ii) wedi dweud o'r blaen nad yw'n dymuno i'r heddlu gysylltu ag ef; neu

(iii) ar ôl cysylltu ag ef, mae wedi gwrthod â mynychu; ac

mae'r sawl sy'n cael eu cadw wedi cael eu hysbysu am y Cynllun Cyfreithiwr ar Ddyletswydd ond maent wedi gwrthod gofyn am y cyfreithiwr ar ddyletswydd.

Yn yr amgylchiadau hyn, gellir cychwyn y cyfweliad neu barhau â'r cyfweliad yn syth, ar yr amod bod swyddog o safle arolygydd neu uwch, wedi cytuno y dylai'r cyfweliad fynd yn ei flaen.

Sylwer: Ni fydd y cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd yn *Atodiad C* yn berthnasol oherwydd nad yw'r sawl sy'n cael eu cadw, wedi cael cyfle i ymgynghori â'r cyfreithiwr ar ddyletswydd;

(d) bod y sawl sy'n cael eu cadw yn newid eu meddwl ynghylch cael cyngor cyfreithiol.

Yn yr amgylchiadau hyn, gellir cychwyn neu barhau â'r cyfweliad yn syth ar yr amod:

(i) bod y sawl sy'n cael eu cadw yn cytuno gwneud hynny, ar bapur neu ar y cofnod cyfweliad a wnaed yn unol â Chôd E neu F;

(ii) bod swyddog o safle arolygydd neu uwch, wedi gofyn am resymau'r sawl sy'n cael eu cadw dros newid eu meddwl, ac yn rhoi ei awdurdod i'r cyfweliad fynd yn ei flaen.

Bydd cadarnhad o gytundeb y sawl sy'n cael eu cadw, os byddant yn newid eu meddwl, y rhesymau dros wneud hynny os cânt eu rhoi ac, yn unol â pharagraff 2.6A, enw'r swyddog awdurdodi, yn cael eu cofnodi yng nghofnod ysgrifenedig y cyfweliad neu yn y cofnod o'r cyfweliad a wnaed yn unol â Chôd E neu F. Gweler *Nodyn 6I*. Sylwer: Yn yr amgylchiadau hyn, ni fydd y cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd yn Atodiad C yn berthnasol oherwydd rhoddir cyfle i'r sawl sy'n cael eu cadw i ymgynghori â chyfreithiwr os dymunant.

6.7 Os bydd *paragraff 6.6(b)(i)* yn berthnasol, ar ôl cael digon o wybodaeth er mwyn osgoi'r risg, rhaid i'r gwaith holi ddod i ben nes i'r sawl sy'n cael eu cadw gael cyngor cyfreithiol, oni bai fod *paragraff 6.6(a), (b)(ii)*, *(c)* neu *(d)* yn berthnasol.

6.8 Bydd y sawl sy'n cael eu cadw, sydd wedi cael caniatâd i ymgynghori â chyfreithiwr, yn cael yr hawl i ofyn i'r cyfreithiwr fod yn bresennol wrth gael eu cyfweld, ond bai fod un o'r eithriadau ym *mharagraff 6.6* yn berthnasol.

6.9 Yr unig adeg y gellir gofyn i'r cyfreithiwr adael y cyfweliad yw os bydd ei ymddygiad yn golygu nad yw'r cyfwelydd yn gallu holi'r sawl sydd dan amheuaeth yn briodol. Gweler *Nodiadau 6D* a *6E*

6.10 Os yw'r cyfwelydd o'r farn bod cyfreithiwr yn ymddwyn yn y fath ffordd, bydd yn atal y cyfweliad ac yn ymgynghori â swyddog nad yw ei safle yn is na safle uwch-arolygydd, os oes un ar gael, ac fel arall, swyddog nad yw ei safle yn is na safle arolygydd, nad yw'n gysylltiedig â'r ymchwiliad. Ar ôl siarad â'r cyfreithiwr, bydd y swyddog yr ymgynghorwyd ag ef, yn penderfynu a ddylai'r cyfweliad barhau ym mhresenoldeb y cyfreithiwr hwnnw. Os bydd yn penderfynu na ddylai'r cyfweliad barhau, rhoddir cyfle i'r sawl sydd dan amheuaeth i ymgynghori â chyfreithiwr arall cyn i'r cyfweliad fynd yn ei flaen, a rhoddir cyfle i'r cyfreithiwr hwnnw fynychu'r cyfweliad. Gweler *Nodyn 6E*

6.11 Mae gofyn i gyfreithiwr adael cyfweliad yn gam difrifol ac os bydd yn digwydd, bydd y swyddog o safle uwch-arolygydd neu uwch a wnaeth y penderfyniad, yn ystyried a ddylid hysbysu Cymdeithas y Cyfreithwyr am y digwyddiad. Os bydd swyddog o safle is nag uwch-arolygydd wedi penderfynu y dylai'r cyfreithiwr adael y cyfweliad, rhaid adrodd y ffeithiau i swyddog o safle uwch-arolygydd neu uwch, a fydd yn ystyried yn yr un modd a fyddai'n briodol hysbysu Cymdeithas y Cyfreithwyr. Pan fo'r cyfreithiwr dan sylw yn gyfreithiwr ar ddyletswydd, dylid anfon adroddiad at Gymdeithas y Cyfreithwyr ac at y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol.

6.12 Ystyr 'cyfreithiwr' yn y Côd yma yw:

- cyfreithiwr sydd â thystysgrif weithredol gyfredol
- cynrychiolydd wedi'i achredu neu ar gyfnod prawf, sydd ar gofrestr y cynrychiolwyr a gedwir gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol.

6.12A Anfonir cynrychiolydd wedi'i achredu neu ar ei gyfnod prawf, i orsaf yr heddlu er mwyn rhoi cyngor gan, ac ar ran, cyfreithiwr at y diben hwn, oni bai fod swyddog o safle arolygydd neu uwch, o'r farn y bydd ymweliad o'r fath yn amharu ar yr ymchwiliad, gan roi cyfarwyddyd fel arall. Nid yw amharu ar yr ymchwiliad yn cynnwys rhoi cyngor cyfreithiol priodol i'r sawl sy'n cael eu cadw, fel nodir yn Nodyn 6D. Ar ôl iddo gyrraedd gorsaf yr heddlu, bydd *paragraffau 6.6 i 6.10 yn berthnasol.*

6.13 Wrth weithredu yn ôl ei ddisgresiwn o dan *baragraff 6.12A*, dylai'r swyddog ystyried yn arbennig:

- a yw:
  - ~ manylion adnabod a statws y cynrychiolydd heb ei achredu neu sydd ar ei gyfnod prawf, wedi cael eu nodi'n foddhaol;
  - ~ cymeriad y cynrychiolydd yn addas i roi cyngor cyfreithiol, e.e. nid yw person sydd â chofnod droseddol yn debygol o fod yn addas oni bai fod y gollfarn yn ymwneud â mân drosedd ac na chafodd ei gyflawni'n ddiweddar.

- unrhyw faterion eraill mewn unrhyw lythyr ysgrifenedig sy'n awdurdodi, a ddarparwyd gan y cyfreithiwr, y mae'r person yn mynychu gorsaf yr heddlu ar ei ran. Gweler *Nodyn 6F*

6.14 Os bydd yr arolygydd yn gwrthod â gadael i gynrychiolydd wedi'i achredu neu sydd ar gyfnod prawf, i weld y person, neu os gwneir penderfyniad sy'n golygu nad yw person o'r fath yn cael aros yn y cyfweliad, rhaid i'r arolygydd hysbysu'r cyfreithiwr yr oedd y cynrychiolydd yn gweithredu ar ei ran, o hyn, a rhoi'r cyfle iddo wneud trefniadau amgen. Rhaid hysbysu'r sawl sy'n cael eu cadw a nodi hyn yn y cofnod cadw.



6.15 Os bydd cyfreithiwr yn cyrraedd yr orsaf er mwyn gweld person penodol, rhaid hysbysu'r person hwnnw, oni bai fod Atodiad B yn berthnasol, os yw'n cael ei gyfweld neu beidio, a dylid gofyn iddo a hoffai weld y cyfreithiwr. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os yw'r sawl sy'n cael eu cadw wedi gwrthod cyngor cyfreithiol neu, ar ôl gofyn amdano, wedi cytuno i gael eu cyfweld heb gael cyngor. Rhaid nodi presenoldeb y cyfreithiwr a phenderfyniad y sawl sy'n cael eu cadw, yn y cofnod cadw.

***(b) Dogfennau***

6.16 Dylid cofnodi unrhyw gais am gyngor cyfreithiol a'r camau i'w cymryd.

6.17 Os bydd y sawl sy'n cael eu cadw yn gofyn am gyngor cyfreithiol ac os cychwynnir cyfweliad naill ai yn absenoldeb cyfreithiwr neu ei gynrychiolydd, neu os bu'n rhaid iddynt adael y cyfweliad yna cofnodir hynny yng nghofnod y cyfweliad.

***Nodiadau arweiniad***

*6A Wrth ystyried a yw paragraff 6.6(b) yn berthnasol, dylai'r swyddog, os yw hynny'n ymarferol, ofyn i'r cyfreithiwr amcangyfrif faint o amser y bydd hi'n cymryd iddo gyrraedd yr orsaf a pherthnasu hyn gyda'r amser a ganiateir i gadw'r sawl sy'n cael eu cadw, yr amser o'r dydd (h.y. a yw'r cyfnod gorffwys o dan baragraff 12.2 ar fin cychwyn) a gofynion ymchwiliadau eraill. Os yw'r cyfreithiwr ar ei ffordd neu'n mynd i gychwyn yn syth, ni fydd yn briodol fel arfer i gychwyn cyfweliad cyn iddo gyrraedd. Os yw'n ymddangos yn angenrheidiol cychwyn cyfweliad cyn i'r cyfreithiwr gyrraedd, dylid rhoi syniad iddo o ba mor hir y gallai'r heddlu aros cyn bod 6.6(b) yn berthnasol er mwyn sicrhau bod cyfle i wneud trefniadau i rywun arall ddarparu cyngor cyfreithiol.*

*6B Dylid rhoi cyfle i'r sawl sy'n cael eu cadw ac sy'n gofyn am gyngor cyfreithiol, i ymgynghori â chyfreithiwr penodol neu gyfreithiwr arall o gwmni'r cyfreithiwr hwnnw neu'r cyfreithiwr ar ddyletswydd. Os na fydd cyngor ar gael yn y modd hwn, neu os nad yw'n dymuno ymgynghori â'r cyfreithiwr ar ddyletswydd, dylid rhoi cyfle i'r sawl sy'n cael*

*eu cadw, ddewis cyfreithiwr o restr o'r rhai sy'n fodlon rhoi cyngor cyfreithiol. Os na fydd y cyfreithiwr ar gael, gallant ddewis hyd at ddau arall. Os na fydd yr ymdrechion hyn yn llwyddo, gall swyddog y ddalfa ganiatáu ymdrechion pellach hyd nes cysylltir â chyfreithiwr a bod y cyfreithiwr hynny yn cytuno darparu cyngor cyfreithiol. Ar wahân i'r dyletswyddau hyn, ni ddylai swyddog gynghori'r sawl sydd dan amheuaeth ynghylch unrhyw gwmni o gyfreithwyr arbennig.*

6C *Ni Ddefnyddiwyd hwn*

6D *Mae hawl gan y sawl sy'n cael eu cadw, i gael cyngor cyfreithiol yn rhad ac am ddim ac i gael eu cynrychioli gan gyfreithiwr. Unig rôl y cyfreithiwr yng ngorsaf yr heddlu yw amddiffyn a hybu hawliau cyfreithiol ei gleient. Ar brydiau, efallai y bydd hyn yn golygu rhoi cyngor sy'n golygu bod cleient yn osgoi rhoi tystiolaeth sy'n cryfhau achos yr erlyniad. Gall y cyfreithiwr ymyrryd er mwyn gofyn am fanylion, herio cwestiwn amhriodol a ofynnir i'w gleient neu'r ffordd y gofynnir y cwestiwn, cynghori ei gleient i beidio ag ateb cwestiynau arbennig, neu os yw'n dymuno, rhoi cyngor cyfreithiol pellach i'w gleient. Mae paragraff 6.9 yn berthnasol yn unig os yw dull gweithredu neu ymddygiad y cyfreithiwr yn atal neu'n rhwystro cwestiynau cywir rhag cael eu gofyn i'r sawl sydd dan amheuaeth mewn ffordd afresymol, neu gofnodi ymateb y sawl sydd dan amheuaeth. Mae enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol yn cynnwys ateb cwestiynau ar ran y sawl sydd dan amheuaeth neu ddarparu atebion ysgrifenedig er mwyn i'r sawl sydd dan amheuaeth eu dyfynnu.*

6E *Rhaid i swyddog sy'n penderfynu gwahardd cyfreithiwr fod mewn sefyllfa i fodloni'r llys bod y penderfyniad a wnaethpwyd, yn gywir. Er mwyn gwneud hyn, efallai y bydd angen iddo fod yn dyst i'r hyn sy'n digwydd.*

6F *Os yw swyddog o safle arolygydd o leiaf, o'r farn bod cyfreithiwr arbennig neu gwmni penodol o gyfreithwyr dro ar ôl tro yn anfon cynrychiolwyr ar eu cyfnod prawf, nad ydynt yn addas i ddarparu cyngor cyfreithiol, dylai hysbysu swyddog o safle uwch-arolygydd o leiaf, a allai fod yn dymuno trafod y mater gyda Chymdeithas y Cyfreithwyr*

6G *Yn unol â chyfyngiadau Atodiad B, gall cyfreithiwr gynghori mwy nag un cleient mewn ymchwiliad os yw'n dymuno. Mae unrhyw wrthdaro o ran buddiannau yn fater i'r cyfreithiwr dan ei gôd ymddygiad proffesiynol. Os, fodd bynnag, y gallai aros am un cyfreithiwr i roi cyngor i un cleient, arwain at oedi afresymol wrth geisio cyfweld un arall, gallai darpariaethau paragraff 6.6(b) fod yn berthnasol.*

6H *Yn ogystal â phoster yn Saesneg, dylid dangos poster neu bosteri sy'n cynnwys cyfieithiadau Cymraeg, y prif ieithoedd ethnig lleiafrifol a'r prif ieithoedd Ewropeaidd ble bynnag y byddent o gymorth a phan fo hynny'n ymarferol.*

6I *Mae paragraff 6.6(d) yn gofyn i swyddog o safle arolygydd neu uwch, awdurdodi i barhau*

*cyfweliad pan fo'r sawl sy'n cael eu cadw a oedd yn dymuno cael cyngor cyfreithiol, yn newid eu meddwl. Gellir rhoi caniatâd o'r fath dros y ffôn, os yw'r swyddog awdurdodi wedi'i fodloni ynghylch rheswm y sawl sy'n cael eu cadw dros newid eu meddwl a'i fod wedi'i fodloni ei bod yn briodol parhau â'r cyfweliad yn yr amgylchiadau hynny.*

*6J* *Pan fo'r sawl sy'n cael eu cadw yn ymarfer eu hawl i gael cyngor cyfreithiol trwy ymgynghori neu gyfathrebu gyda cyfreithiwr, rhaid caniatáu iddynt wneud hynny'n breifat. Mae'r hawl hon i ymgynghori neu gyfathrebu yn breifat yn hawl sylfaenol. Ac eithrio'r hyn a ganiateir gan Ddeddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 8, paragraff 9, os cyfaddawdir ar y gofyniad ynghylch preifatrwydd oherwydd y gallai rhywun arall glywed, gwrando neu ddarllen yr hyn a ddywedir neu'r hyn a ysgrifennir gan y sawl sy'n cael eu cadw neu gan y cyfreithiwr, at ddiben rhoi a chael cyngor cyfreithiol, heb ganiatâd y sawl sy'n cael eu cadw, bydd yr hawl hon wedi cael ei gwadu. Pan fo'r sawl sy'n cael eu cadw yn dewis siarad gyda chyfreithiwr dros y ffôn, dylid rhoi cyfle iddynt wneud hynny yn breifat oni bai fod hynny'n anymarferol oherwydd cynllun y man cadw neu leoliad y ffonau. Fodd bynnag, fel arfer, disgwylir i'r cyfleusterau fod ar gael ym mhob gorsaf heddlu, oni bai eu bod yn cael eu defnyddio, er mwyn galluogi unigolion yn y ddalfa i siarad â chyfreithiwr yn breifat naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.*

*6K* *Nid oes rhaid i'r sawl sy'n cael eu cadw roi rhesymau dros wrthod cyngor cyfreithiol ac ni ddylid ceisio'u darbwyllo i wneud hynny.*

## 7 Dinasyddion gwledydd annibynnol y Gymanwlad neu wledydd tramor

### *(a) Gweithredu*

7.1 Gall unrhyw ddinesydd o un o wledydd annibynnol y Gymanwlad neu unrhyw ddinesydd gwlad dramor, gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon, gyfathrebu â'r Uchel Gomisiwn, y Llysgenhadaeth neu'r Gonswliaeth briodol ar unrhyw adeg. Rhaid hysbysu'r sawl sy'n cael eu cadw cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol:

- o'r hawl yma;
- o'u hawl, os ydynt yn dymuno, i rywun gysylltu â'u Huchel Gomisiwn, eu Llysgenhadaeth neu eu Conswlaeth, i'w hysbysu o'u lleoliad a'r rhesymau dros eu cadw. Dylid ymateb i gais o'r fath cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

7.2 Os yw'r sawl sy'n cael eu cadw yn ddinesydd gwlad, y ceir cytundeb neu gonfensiwn consylaidd dwyochrog gyda hi, sy'n mynnu bod angen hysbysu adeg arestio rhywun o'r wlad honno, yna hysbysir Uchel Gomisiwn, Llysgenhadaeth neu Gonswliaeth briodol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol, yn unol â *pharagraff 7.4*. Mae'r gwledydd y mae hyn yn berthnasol iddynt ar 1 Ebrill 2003 wedi eu rhestru yn *Atodiad F*.

7.3 Gall swyddogion consylaidd ymweld â'u dinasyddion yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa er

mwyn siarad â hwy ac, os oes angen, trefnu cyngor cyfreithiol ar eu cyfer. Cynhelir ymweliadau o'r fath pan na fydd swyddog yr heddlu yn bresennol.

7.4 Er gwaethaf darpariaethau confensiynau consylaidd, os yw'r sawl sy'n cael eu cadw yn ffoadur gwleidyddol, boed hynny am resymau'n ymwneud â hil, cenedligrwydd, barn wleidyddol neu grefydd, neu os yw'n ceisio lloches gwleidyddol, ni hysbysir swyddogion consylaidd bod un o'u dinasyddion wedi cael eu harestio ac ni chânt weld gwybodaeth amdanynt, oni bai fod y sawl sy'n cael eu cadw yn gofyn yn benodol iddynt gael gweld gwybodaeth o'r fath.

***(b) Dogfennau***

7.5 Gwneir cofnod pan hysbysir y sawl sy'n cael eu cadw, o'u hawliau o dan yr adran hon ac unrhyw gyfathrebu gydag Uchel Gomisiwn, Llysgenhadaeth neu Gonswliaeth.

***Nodyn arweiniad***

*7A Ni ellir ymyrryd ag ymarfer yr hawliau yn yr adran hon, er bod Atodiad B yn berthnasol.*

**8 Amodau cadw**

***(a) Gweithredu***

8.1 Cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, ni ddylid cadw mwy nag un person ym mhob cell.

8.2 Rhaid sicrhau bod y celloedd a ddefnyddir yn cael eu gwresogi, eu glanhau a'u hawyru'n ddigonol. Rhaid eu goleuo'n ddigonol a rhaid gwanhau'r golau yn gyson â diogelwch, er mwyn galluogi pobl sy'n cael eu cadw i gysgu yn ystod y nos. Ni ddefnyddir unrhyw gyfyngiadau ychwanegol mewn cell sydd dan glo oni bai fod yn rhaid gwneud hynny, a wedyn, dim ond offer cyfyngu a gymeradwywyd gan y Prif Swyddog a ganiateir, sy'n rhesymol ac yn angenrheidiol dan yr amgylchiadau, gan ystyried ymddygiad y sawl sy'n cael eu cadw ac er mwyn ceisio sicrhau eu diogelwch a diogelwch eraill. Os yw'r sawl sy'n cael eu cadw yn fyddar, os oes anhwylder meddwl arnynt neu os ydynt fel arall yn agored i niwed meddyliol, rhaid cymryd gofal arbennig wrth benderfynu a ddylid defnyddio unrhyw fath o gyfyngiadau a gymeradwywyd.

8.3 Bydd blancedi, matresi, gobennydd a dillad gwely arall a ddefnyddir, o ansawdd rhesymol ac mewn cyflwr glân. Gweler *Nodyn 8A*

8.4 Rhaid darparu toiledau a chyfleusterau ymolchi.

8.5 Os oes angen diosg dillad y sawl sy'n cael eu cadw at ddibenion ymchwilio, neu oherwydd rhesymau'n ymwneud â hylendid, iechyd neu er mwyn eu glanhau, darperir dillad glân,

cyffyrddus ac o safon rhesymol, yn eu lle. Ni ellir cyfweld y sawl sy'n cael eu cadw oni bai eu bod wedi cael cynnig dillad digonol.

8.6 Dylid cynnig o leiaf dau bryd ysgafn ac un prif bryd mewn unrhyw gyfnod 24 awr. Gweler *Nodyn 8B*. Dylid darparu diod gyda phrydau a rhwng prydau os gwneir cais rhesymol amdanynt. Pan fo angen, gofynnir am gyngor y gweithiwr iechyd proffesiynol priodol, *gweler Nodyn 9A*, ynghylch materion meddygol a diet. Cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, bydd y prydau a ddarperir yn cynnig diet amrywiol, gan fodloni unrhyw anghenion diet penodol, neu gredoau crefyddol a allai fod gan y sawl sy'n cael eu cadw. Yn ôl disgresiwn swyddog y ddalfa, gall teulu neu gyfeillion y sawl sy'n cael eu cadw ddarparu prydau iddynt, a thalu amdanynt. Gweler *Nodyn 8A*

8.7 Cynigir cyfnodau byr o ymarfer corff yn yr awyr agored bob dydd, os yw hynny'n ymarferol.

8.8 Ni ddylid rhoi person ifanc mewn cell heddlu oni bai nad oes unrhyw safle diogel arall ar gael ac os yw swyddog y ddalfa o'r farn nad yw hi'n ymarferol ei oruchwylio os nad yw'n cael ei roi mewn cell, neu bod cell yn rhoi lle mwy cyffyrddus iddo na man diogel arall yn yr orsaf. Ni ellir rhoi person ifanc mewn cell gydag oedolyn sy'n cael ei gadw.

***(b) Dogfennau***

8.9 Rhaid cadw cofnod o ddillad a phrydau a gynigir.

8.10 Os rhoddir person ifanc mewn cell, rhaid cofnodi'r rheswm dros wneud hynny.

8.11 Cofnodir y cam o ddefnyddio unrhyw gyfyngiadau ar y sawl sy'n cael eu cadw mewn cell, y rhesymau dros wneud hynny ac, os yw hynny'n briodol, y trefniadau i oruchwylio'r sawl sy'n cael eu cadw ymhellach ar ôl eu cyfyngu. Gweler *paragraff 3.9*

***Nodiadau arweiniad***

*8A Mae'r ddarpariaeth ym mharagraff 8.3 ac 8.6 yn arbennig o bwysig yn achos person a gedwir o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000, mewnfudwyr a gedwir ac eraill y mae'n debygol y cânt eu cadw am gyfnod estynedig. Wrth benderfynu a ddylid caniatáu i deuluoedd neu gyfeillion ddarparu prydau, mae gan swyddog y ddalfa yr hawl i ystyried y risg o eitemau'n cael eu cuddio mewn unrhyw fwyd neu becyn, a dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swyddog o dan Ddeddfwriaeth trin bwyd.*

*8B Cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, dylid cynnig prydau ar adegau prydau penodol, neu ar adegau eraill sy'n ystyried pryd gafodd y sawl sy'n cael eu cadw, bryd o fwyd ddiwethaf.*

## 9 Gofal a thriniaeth pobl sy'n cael eu cadw

***(a) Cyffredinol***

C

9.1 Nid oes unrhyw beth yn yr adran hon yn atal yr heddlu rhag galw ar lawfeddyg yr heddlu neu, os yw hynny'n briodol, gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, i archwilio'r sawl sy'n cael eu cadw, at ddibenion cael tystiolaeth yn ymwneud ag unrhyw drosedd y mae'r sawl sy'n cael eu cadw dan amheuaeth o fod yn gysylltiedig ag ef. Gweler *Nodyn 9A*

9.2 Os gwneir cwyn gan y sawl sy'n cael eu cadw, neu ar eu rhan, ynghylch eu triniaeth ers iddynt gael eu harestio, neu os yw'n dod i'r amlwg y gallai'r sawl sy'n cael eu cadw, fod wedi cael eu trin yn anghywir, rhaid paratoi adroddiad cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol, i swyddog o safle arolygydd neu uwch, nad yw'n ymwneud â'r ymchwiliad. Os yw'r mater yn ymwneud ag achos posibl o ymosod, neu'r posibilrwydd y defnyddiwyd grym afresymol neu ddiangen, rhaid galw am weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

9.3 Dylid ymweld â'r sawl sy'n cael eu cadw o leiaf unwaith bob hanner awr. Os na nodwyd unrhyw risg y gellir fod wedi ei ragweld mewn asesiad risg, *gweler paragraffau 3.6-3.10*, nid oes angen deffro person sy'n cysgu. Yn unol â chyfarwyddiadau clinigol a roddwyd gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol, *gweler paragraff 9.13*, rhaid gwneud y canlynol yn achos y rhai yr amheuir eu bod yn feddw neu dan ddylanwad cyffuriau, neu wedi llyncu cyffuriau, *gweler* Nodyn 9CA, neu y mae lefel eu hymwybyddiaeth yn destun pryder:

- ymweld â nhw a'u deffro o leiaf bob hanner awr
- asesu eu cyflwr fel nodir yn *Atodiad H*
- a threfnu triniaeth glinigol ar eu cyfer os yw hynny'n briodol

Gweler *Nodiadau 9B, 9C* a *9H*

9.4 Pan wneir trefniadau i sicrhau sylw clinigol ar gyfer y sawl sy'n cael eu cadw, rhaid i swyddog y ddalfa sicrhau y darperir yr holl wybodaeth berthnasol a allai gynorthwyo wrth drin cyflwr y sawl sy'n cael eu cadw, i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cyfrifol. Mae hyn yn berthnasol os yw'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn gofyn am wybodaeth o'r fath neu beidio. Rhaid i unrhyw swyddog neu staff heddlu sydd â'r wybodaeth berthnasol, hysbysu swyddog y ddalfa cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

***(b) Sylw a thriniaeth glinigol***

9.5 Rhaid i swyddog y ddalfa sicrhau bod y sawl sy'n cael eu cadw yn cael sylw clinigol priodol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol os:

(a) yw hi'n ymddangos bod y person yn dioddef salwch corfforol; neu

(b) os yw wedi cael ei anafu; neu

(c) os yw'n ymddangos ei fod yn ddioddef anhwylder meddwl; neu

(d) os yw'n ymddangos bod angen sylw clinigol arno.

9.5A Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad yw'r sawl sy'n cael eu cadw yn gofyn am sylw clinigol ac os ydynt wedi cael sylw clinigol mewn rhywle arall eisoes neu beidio. Os yw'n ymddangos bod angen sylw brys arnynt, e.e. fel nodir yn Atodiad H, rhaid galw'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd ar gael neu ambiwlans yn syth.

9.5B Mae'n rhaid i swyddog y ddalfa *hefyd* ystyried yr angen am sylw clinigol fel nodwyd yn Nodyn Arweiniad 9C mewn perthynas â rhai sy'n dioddef effeithiau alcohol a chyffuriau.

9.6 Nid diben *paragraff 9.5* yw atal neu ohirio trosglwyddo person a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, adran 136, i'r ysbyty os oes angen. Gweler *Nodyn 9D*. Pan gynhelir asesiad dan y Ddeddf honno mewn gorsaf heddlu, *gweler paragraff 3.16*, rhaid i swyddog y ddalfa ystyried a ddylid galw am weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol i gynnal archwiliad clinigol cychwynnol o'r sawl sy'n cael eu cadw. Mae hwn yn arbennig o berthnasol pan fydd hi'n debygol y ceir oedi cyn i ymarferwr meddygol cymwys addas gyrraedd.

9.7 Os yw hi'n ymddangos i swyddog y ddalfa ei bod hi'n bosibl bod person sy'n cyrraedd yr orsaf ar ôl cael ei arestio, yn dioddef clefyd neu gyflwr heintus, neu os oes rhywun yn dweud hynny wrth swyddog y ddalfa, rhaid iddo gymryd camau rhesymol i ddiogelu iechyd y sawl sy'n cael eu cadw ac eraill yn yr orsaf. Wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd, rhaid gofyn am gyngor gweithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol. Gweler *Nodyn 9E*. Mae gan swyddog y ddalfa y disgresiwn i gadw'r person a'i eiddo ar wahân nes y ceir cyfarwyddiadau clinigol.

9.8 Os bydd y sawl sy'n cael eu cadw yn gofyn am archwiliad clinigol, rhaid galw ar weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol er mwyn asesu anghenion clinigol y sawl sy'n cael eu cadw. Os na ellir darparu cynllun gofal priodol a diogel, rhaid gofyn am gyngor llawfeddyg yr heddlu. Gall y sawl sy'n cael eu cadw ddewis ymarferwr meddygol i'w archwilio hefyd, a thalu amdano.

9.9 Os oes rhaid i'r sawl sy'n cael eu cadw gymryd neu ddefnyddio unrhyw feddyginiaeth er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddiadau clinigol a roddwyd iddynt cyn eu dwyn i'r ddalfa, rhaid i swyddog y ddalfa ymgynghori â'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol cyn defnyddio'r feddyginiaeth. Yn unol â chyfyngiadau *paragraff 9.10*, mae swyddog y ddalfa yn gyfrifol am gadw unrhyw feddyginiaeth yn ddiogel ac am sicrhau bod y sawl sy'n cael eu cadw, yn cael cyfle i gymryd neu ddefnyddio meddyginiaeth a gymeradwywyd neu y rhoddwyd cyfarwyddiadau iddynt ei chymryd. Nodir unrhyw ymgynghori o'r fath, a'i ganlyniad, yn y cofnod cadw.

C

9.10 Ni chaniateir i unrhyw swyddog heddlu roi cyffuriau a reolir a roddwyd ar bresgripsiwn meddygol, neu oruchwylio'r person yn eu rhoi i'w hunan, fel y mathau a'r ffurfiau a restrir yn Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 1985, Atodlen 2 neu 3. Yr unig adeg y gall y sawl sy'n cael eu cadw roi cyffuriau o'r fath i'w hunain, yw dan oruchwyliaeth yr ymarferwr meddygol cofrestredig sy'n awdurdodi y gellir eu defnyddio. Gellir dosbarthu cyffuriau a restrir yn Atodlen 4 neu 5 gan swyddog y ddalfa er mwyn i'r person eu rhoi i'w hunan os yw wedi ymgynghori â'r ymarferwr meddygol cofrestredig sydd wedi awdurdodi y gellir eu defnyddio, ac fe ellir gwneud hyn dros y ffôn, a phan fydd y ddwy ochr yn fodlon na fydd y weithred o'r person yn y ddalfa yn rhoi'r cyffuriau i'w hunan, yn golygu bod y person dan sylw, swyddogion yr heddlu nac unrhyw un arall, mewn perygl o gael niwed neu anaf.

9.11 Pan fo gweithiwyr gofal iechyd proffesiynol priodol yn rhoi cyffuriau neu feddyginiaethau eraill, neu'n goruchwylio unigolion yn eu cymryd eu hunain, rhaid i hyn gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch meddyginiaethau a chwmpas yr arfer fel y pennwyd gan eu corff proffesiynol perthnasol.

9.12 Os oes gan y sawl sy'n cael eu cadw, feddyginiaeth yn ymwneud â chyflwr ar y galon, clefyd siwgr, epilepsi neu gyflwr sy'n gallu bod yr un mor ddifrifol, neu os ydynt yn honni bod angen meddyginiaeth o'r fath arnynt, rhaid cael cyngor y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, hyd yn oed os na fydd *paragraff 9.5* o bosib yn berthnasol.

9.13 Pan elwir ar y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol yn unol â'r adran hon, i archwilio neu drin y sawl sy'n cael eu cadw, bydd swyddog y ddalfa yn gofyn eu barn am:

- unrhyw beryglon neu broblemau y bydd angen i'r heddlu eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch parhau i gadw'r person;
- pryd i gynnal cyfweliad os yw hynny'n berthnasol; a'r
- angen am ganllawiau sicrhau diogelwch.

9.14 Pan roddir cyfarwyddiadau clinigol gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol, ar lafar neu ar bapur, ac os oes gan swyddog y ddalfa unrhyw amheuon neu os yw'n ansicr ynghylch unrhyw agwedd ar y cyfarwyddiadau, bydd swyddog y ddalfa yn gofyn am eglurhad. Mae'n arbennig o bwysig bod y cyfarwyddiadau ynghylch amlder ymweliadau yn eglur, yn fanwl ac yn gallu cael eu gweithredu. Gweler *Nodyn 9F*.

### *(c) Dogfennau*

9.15 Rhaid cofnodi'r canlynol yn y cofnod cadw:

(a) y trefniadau a wneir i archwilio'r person gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol o dan *baragraff 9.2* ac unrhyw gŵyn a adroddir dan y paragraff hwnnw, ynghyd ag unrhyw sylwadau perthnasol gan swyddog y ddalfa;

(b) unrhyw drefniadau a wneir yn unol â *pharagraff 9.5*;

(c) unrhyw gais am archwiliad clinigol o dan *baragraff 9.8* ac unrhyw drefniadau a wnaethpwyd er mwyn ymateb i hyn;

(d) yr anaf, y salwch, y cyflwr neu'r rheswm arall a olygodd bod angen gwneud y trefniadau yn *(a)* i *(c)*, *gweler Nodyn 9G*;

(e) unrhyw gyfarwyddiadau a chyngor clinigol, gan gynnwys unrhyw esboniadau pellach a roddir i'r heddlu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol ynghylch gofal a thriniaeth y sawl sy'n cael eu cadw, yn ymwneud ag unrhyw un o'r trefniadau a wnaethpwyd yn *(a)* i *(c)*, *gweler Nodyn 9F*;

(f) os yw'n berthnasol, yr ymateb a gafwyd wrth geisio deffro person trwy ddefnyddio'r drefn yn *Atodiad H*, *gweler Nodyn 9H*.

9.16 Os na fydd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn cofnodi ei ganfyddiadau clinigol yn y cofnod cadw, rhaid i'r cofnod ddangos lle y cânt eu cofnodi. Gweler *Nodyn 9G*. Fodd bynnag, rhaid cofnodi gwybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer staff cadw, er mwyn sicrhau gofal a lles parhaus y sawl sy'n cael eu cadw, yn agored yn y cofnod cadw, *gweler paragraff 3.8* ac *Atodiad G*, *paragraff 7*.

9.17 Yn unol â gofynion *Adran 4*, bydd y cofnod cadw yn cynnwys:

- cofnod o'r holl feddygyniaeth a oedd gan y sawl sy'n cael eu cadw pan wnaethant gyrraedd gorsaf yr heddlu;
- nodyn ynghylch unrhyw feddyginiaeth o'r fath y maent honni bod ei hangen arnynt, ond nad oes ganddynt.

***Nodiadau arweiniad***

*9A Mae 'gweithiwr gofal iechyd proffesiynol' yn golygu person sydd â chymwysterau clinigol ac sy'n gweithio yng nghwmpas arfer a bennwyd gan ei gorff proffesiynol perthnasol. Mae penderfynu a yw gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn 'briodol' neu beidio, yn dibynnu ar amgylchiadau'r dyletswyddau a gyflawnir ganddo ar y pryd.*

*9B Pan fo modd, dylid ymweld ag unigolion ifanc ac unigolion sy'n agored i niwed yn feddyliol, yn fwy cyson yn ystod eu cyfnod cadw.*

C

9C *Gallai person sy'n ymddangos yn feddw neu sy'n ymddwyn yn annormal, fod yn sâl, yn dioddef effeithiau cyffuriau neu wedi cael eu hanafu, yn enwedig anaf i'r pen nad yw'n amlwg. Gallai person sydd angen neu sy'n ddibynnol ar gyffuriau arbennig, gan gynnwys alcohol, brofi effeithiau niweidiol o fewn cyfnod byr, o beidio â chael eu cyflenwad o gyffuriau. Dan yr amgylchiadau hyn, pan geir unrhyw amheuaeth, dylai'r heddlu ymateb ar fyrder trwy alw gweithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol neu ambiwlans. Nid yw paragraff 9.5 yn berthnasol i salwch na mân anafiadau nad oes angen rhoi sylw iddynt. Fodd bynnag, rhaid cofnodi pob salwch neu anaf o'r fath yn y cofnod cadw a rhaid datrys unrhyw amheuaeth trwy alw'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol.*

9CA *Byddai Paragraff 9.3 yn berthnasol i berson yn nalfa'r heddlu trwy orchymyn llys ynadon o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988, adran 152 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyffuriau 2005, adran 8) i hwyluso canfod tystiolaeth ar ôl cael eu cyhuddo o fod ym meddiant cyffuriau neu gyflenwi cyffuriau ac amheuaeth o fod wedi llyncu cyffuriau. Yn achos anghenion gofal iechyd rhywun sydd wedi llyncu cyffuriau, dylai swyddog y ddalfa yn amodol ar unrhyw gyfarwyddiadau clinigol, ystyried yr angen i ddeffro'r unigolyn bob hanner awr. Nid yw hyn yn dileu'r angen i ymweld yn rheolaidd â'r sawl sy'n cael eu cadw yn eu cell.*

9D *Pan fo hynny'n ymarferol, dylid gwneud trefniadau i'r sawl sy'n cael eu cadw er mwyn eu hasesu o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, adran 136, gael eu cludo i ysbyty. Ni cheir unrhyw bŵer dan y Ddeddf honno i drosglwyddo person a gedwir o dan adran 136 o un man diogel i fan diogel arall er mwyn ei asesu.*

9E *Mae'n bwysig parchu hawl person i breifatrwydd a rhaid cadw gwybodaeth am ei iechyd yn gyfrinachol a'i ddatgelu ar ôl cael ei ganiatâd neu'n unol â chyngor clinigol pan fo angen amddiffyn iechyd y sawl sy'n cael eu cadw neu iechyd eraill sy'n ymwneud ag ef.*

9F *Dylai swyddog y ddalfa geisio egluro cyfarwyddiadau bod angen arsylwi neu oruchwylio'r sawl sy'n cael eu cadw, yn gyson, a dylai ofyn i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol esbonio'n union pa gamau y mae angen eu cymryd er mwyn ymgorffori cyfarwyddiadau o'r fath.*

9G *Nid yw paragraffau 9.15 a 9.16 yn gofyn am gofnodi unrhyw wybodaeth am achos unrhyw anaf, salwch neu gyflwr yn y cofnod cadw os yw'n ymddangos ei fod yn gallu darparu tystiolaeth am drosedd.*

9H *Diben cofnodi ymatebion person wrth geisio'u deffro trwy ddefnyddio'r drefn yn Atodiad H, yw galluogi nodi unrhyw newid yn lefel ymwybyddiaeth y person, a threfnu triniaeth glinigol os yw hynny'n briodol.*

## 10 Rhybudd

### *(a) Pryd y mae'n rhaid rhoi rhybudd*

10.1 Rhaid rhoi rhybudd i berson pan fydd sail i amau ei fod wedi cyflawni trosedd, *gweler Nodyn 10A*, cyn ei holi ynghylch trosedd, neu ofyn cwestiynau pellach iddo os yw'r atebion yn sail i'w amau, os gellir defnyddio atebion neu ddistawrwydd y sawl sydd dan amheuaeth, (h.y. methu neu wrthod ag ateb neu ateb yn foddhaol) fel tystiolaeth mewn llys wrth erlyn. Ni fydd angen rhoi rhybudd i berson os oes angen gofyn y cwestiynau at ddibenion angenrheidiol eraill, e.e.:

(a) yn unig er mwyn dod i wybod pwy ydynt neu berchnogaeth unrhyw gerbyd;

(b) er mwyn cael gwybodaeth yn unol ag unrhyw ofyniad statudol perthnasol, *gweler paragraff 10.9*;

(c) er mwyn hyrwyddo cynnal chwiliad priodol ac effeithiol, e.e. er mwyn pennu'r angen i gynnal chwiliad wrth ymgymryd â phwerau atal a chwilio neu gael cydweithrediad wrth chwilio;

(d) er mwyn dilysu cofnod ysgrifenedig fel nodir ym *mharagraff 11.13*;

(e) wrth archwilio person yn unol â Deddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 7 a'r Côd Ymarfer ar gyfer Swyddogion Archwilio a gyhoeddwyd dan y Ddeddf honno, Atodlen 14, paragraff 6.

10.2 Pan fo person na chafodd ei arestio, yn cael ei rybuddio gyntaf, neu ei atgoffa ei fod wedi cael rhybudd, rhaid hysbysu'r person hwnnw *hefyd* ar yr un pryd, nad yw wedi cael ei arestio a'i fod yn rhydd i adael os yw'n dymuno. Gweler *Nodyn 10C*

10.3 Rhaid hysbysu person sy'n cael ei arestio, neu ei arestio ymhellach, ar yr adeg hwnnw, neu cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol wedi hynny, ei fod wedi cael ei arestio a'r rhesymau dros ei arestio, *gweler* paragraff 3.4, *Nodyn 10B a Côd G, paragraffau 2.2 a 4.3*.

10.4 Fel yn *Côd G, adran 3*, rhaid rhoi rhybudd i berson sy'n cael ei arestio, neu ei arestio ymhellach, oni bai:

(a) nad yw hi'n ymarferol gwneud hynny oherwydd ei gyflwr neu ei ymddygiad ar y pryd;

(b) fod rhybudd eisoes wedi'i rhoi iddo cyn ei arestio fel nodir ym *mharagraff 10.1*.

### *(b) Amodau'r rhybudd*

10.5 Dylai'r rhybudd, y mae'n rhaid ei roi:

(a) wrth arestio rhywun;

(b) ar bob achlysur arall cyn cyhuddo rhywun neu ei hysbysu y gallai gael ei erlyn, *gweler adran 16*,

C

ddilyn y ffurf canlynol, oni bai fod y cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd yn berthnasol, *gweler Atodiad C*:

*"Does dim rhaid i chi ddweud dim byd. Ond gall niweidio eich amddiffyniad os na fyddwch chi'n sôn, wrth gael eich holi, am rywbeth y byddwch chi'n dibynnu arno nes ymlaen yn y Llys. Gall unrhyw beth yr ydych yn ei ddweud gael ei roi fel tystiolaeth."*

*Gweler Nodyn 10G*

10.6 Mae *Atodiad C*, *paragraff 2* yn nodi amodau amgen y rhybudd i'w roi pan fo'r cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd, yn berthnasol.

10.7 Nid yw achosion o wyro ychydig ar eiriad unrhyw rybudd a roddir yn unol â'r Côd yma, yn golygu y torrir un o amodau'r Côd yma, ar yr amod bod ystyr y rhybudd perthnasol wedi'i ddiogelu. Gweler *Nodyn 10D*

10.8 Ar ôl unrhyw doriad wrth holi rhywun ar ôl rhoi rhybudd iddo, rhaid sicrhau bod y person a holir yn ymwybodol ei fod yn parhau i fod dan rybudd. Os ceir unrhyw amheuaeth, rhaid rhoi'r rhybudd perthnasol unwaith eto yn llawn ar ôl i'r cyfweliad ailgychwyn. Gweler *Nodyn 10E*

10.9 Er ei fod wedi cael ei rybuddio, os bydd person yn parhau i fethu â chydweithredu neu ateb cwestiynau arbennig a allai effeithio ar y ffordd y bydd yn cael ei drin, dylid hysbysu'r person o unrhyw oblygiadau perthnasol, ac na effeithir ar y goblygiadau hynny gan y rhybudd. Mae enghreifftiau'n cynnwys pan fo person yn gwrthod darparu:

- ei enw a'i gyfeiriad wrth ei gyhuddo, a allai olygu y bydd yn rhaid ei gadw;
- manylion a gwybodaeth yn unol â gofyniad statudol, e.e. o dan Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1988, a allai olygu trosedd neu olygu y gellir arestio'r person ymhellach.

### *(c) Rhybudd arbennig o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Drefn Gyhoeddus 1994, adrannau 36 a 37*

10.10 Pan fo'r sawl sydd dan amheuaeth yn cael eu cyfweld mewn gorsaf heddlu neu fan cadw awdurdodedig ar ôl eu harestio, ac yn methu ag ateb neu'n gwrthod ateb cwestiynau penodol, neu ateb yn foddhaol ar ôl rhoi rhybudd digonol iddynt, *gweler Nodyn 10F*, gall llys neu reithgor ddod i gasgliadau sy'n briodol o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, adrannau 36 a 37. Yr unig adeg y gellir dod i gasgliadau o'r fath yw:

(a) pan na fydd y cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd, *gweler Atodiad C*, yn berthnasol; ac

(b) os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn cael eu harestio gan heddwas ac yn methu esbonio neu'n gwrthod esbonio unrhyw wrthrychau, marciau neu sylweddau, neu farciau ar wrthrychau o'r fath a ganfyddwyd:

- gyda hwynt;
- yn, neu ar, eu dillad neu eu hesgidiau;
- yn eu meddiant fel arall; neu
- yn y man lle cawsant eu harestio;

(c) pan fydd heddwas wedi dod o hyd i'r sawl sydd dan amheuaeth mewn man neu oddeutu'r un adeg pryd yr honnwyd y cyflawnwyd y drosedd yr arestiwyd hwynt yn ei gylch, ac os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn methu neu'n gwrthod esbonio'u presenoldeb yno.

Pan fo'r cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd yn berthnasol, efallai y gofynnir i'r sawl sydd dan amheuaeth roi cyfrif am unrhyw un o'r materion yn *(b)* neu *(c)* ond ni fydd y rhybudd arbennig a ddisgrifiwyd ym *mharagraff 10.11* yn berthnasol, ac ni ddylid ei roi.

C

10.11 Er mwyn ffurfio casgliad pan fo'r sawl sydd dan amheuaeth yn methu neu'n gwrthod ateb cwestiwn ynghylch un o'r materion hyn neu'n methu neu wrthod â'i ateb yn foddhaol, rhaid hysbysu'r sawl sydd dan amheuaeth, mewn iaith gyffredin:

(a) o ba drosedd yr ymchwilir iddo;

(b) o ba ffaith y gofynnir iddynt ei hesbonio;

(c) y gallai'r ffaith hon fod oherwydd iddynt gymryd rhan wrth gomisiynu'r drosedd;

(d) y gallai llys ddod i gasgliad priodol os ydynt yn methu neu'n gwrthod esbonio'r ffaith hon;

(e) bod cofnod yn cael ei baratoi o'r cyfweliad ac y gellir ei ddefnyddio fel tystiolaeth pe bai achos yn deillio o'r mater.

***(d) Pobl ifanc a'r rhai sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol***

10.12 Os rhoddir rhybudd i berson ifanc neu rywun sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, yn absenoldeb yr oedolyn priodol, rhaid ailadrodd y rhybudd ym mhresenoldeb yr oedolyn.

C

***(e) Dogfennau***

10.13 Gwneir cofnod pan roddir rhybudd dan yr adran hon, naill ai yn llyfr poced y cyfwelydd neu yng nghofnod y cyfweliad.

***Nodiadau arweiniad***

*10A Rhaid bod peth sail resymol a gwrthrychol dros amau rhywun, wedi'i seilio ar ffeithiau hysbys neu wybodaeth sy'n berthnasol i'r tebygolrwydd bod y drosedd wedi cael ei gyflawni a bod y person a holir, wedi'i chyflawni.*

*10B Rhaid rhoi digon o wybodaeth i berson sy'n cael ei arestio er mwyn ei alluogi i ddeall y cyfyngwyd ar ei ryddid a'r rheswm dros ei arestio, e.e. pan fo person yn cael ei arestio dan amheuaeth o gyflawni trosedd, rhaid ei hysbysu ynghylch natur y drosedd yr amheuir iddo'i gyflawni, pryd a ble y'i cyflawnwyd. Rhaid hysbysu'r sawl sydd dan amheuaeth hefyd o'r rheswm neu'r rhesymau pam fod arestio yn angenrheidiol. Dylid osgoi iaith annelwig neu dechnegol.*

*10C Nid yw'r cyfyngiad ar ddod i gasgliadau oherwydd distawrwydd, gweler Atodiad C, paragraff 1, yn berthnasol ar gyfer person nad yw wedi cael ei gadw ac felly, na ellir ei atal rhag gofyn am gyngor cyfreithiol os yw'n dymuno gwneud hynny, gweler paragraff 3.21.*

*10D Os yw'n ymddangos nad yw person yn deall y rhybudd, rhaid i'r un sy'n ei roi ei esbonio yn ei eiriau ei hun.*

*10E Efallai y bydd angen dangos i'r llys na ddigwyddodd unrhyw beth yn ystod toriad cyfweliad neu rhwng cyfweliadau a ddylanwadodd ar dystiolaeth y sawl sydd dan amheuaeth, a gofnodwyd. Ar ôl toriad mewn cyfweliad neu ar ddechrau cyfweliad dilynol, dylai'r swyddog cyfweld roi crynodeb o'r rheswm dros y toriad a chadarnhau hynny gyda'r sawl sydd dan amheuaeth.*

*10F Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, adrannau 36 a 37, yn berthnasol i unigolion dan amheuaeth a arestiwyd gan heddwas neu swyddog Tollau Tramor a Chartref yn unig, a rhoddir y rhybudd perthnasol iddynt gan yr heddlu neu'r swyddog tollau sy'n eu harestio, neu sy'n ymchwilio i'r drosedd. Nid ydynt yn berthnasol i unrhyw gyfweliadau gyda'r rhai nad ydynt wedi cael eu harestio.*

*10G Nid oes unrhyw ran o'r Côd yma yn mynnu y dylid rhoi rhybudd neu ailadrodd rhybudd wrth hysbysu rhywun nad yw wedi cael ei arestio, y gellir ei erlyn am drosedd. Fodd bynnag, ni fydd llys barn yn gallu dod i unrhyw gasgliadau o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Drefn Gyhoeddus 1994, adran 34, os na roddwyd rhybudd i'r person.*

## 11 Cyfweliadau – cyffredinol

### *(a) Gweithredu*

11.1A Ystyr cyfweliad yw'r drefn o holi person ynghylch ei ymwneud neu amheuaeth o ymwneud â throsedd neu droseddau, y mae'n rhaid ei gynnal ar ôl rhoi rhybudd i'r person, o dan *baragraff 10.1*. Pan gyfwelir person, rhaid ei hysbysu o natur y drosedd, neu drosedd pellach. Nid yw trefniadau o dan Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1988, adran 7 neu Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992, adran 31, yn cyfeirio at gyfweld at ddiben y Côd yma.

11.1 Ar ôl penderfynu arestio person dan amheuaeth, ni ddylid ei gyfweld ynghylch y drosedd dan sylw mewn unrhyw fan ar wahân i orsaf heddlu neu fan cadw arall a awdurdodwyd, ac eithrio lle gallai'r oedi dilynol fod yn debygol o:

(a) arwain at:

- ymyrryd neu niweidio tystiolaeth sy'n gysylltiedig â throsedd;
- ymyrryd â phobl eraill, neu achosi niwed corfforol iddynt; neu
- olygu colled ddifrifol o ran eiddo, neu ddifrod difrifol i eiddo;

(b) arwain at hysbysu pobl arall sydd dan amheuaeth o gyflawni trosedd, ond nad ydynt hyd yn hyn wedi cael eu harestio am y drosedd yma; neu

(c) amharu ar y gwaith o adennill eiddo a gafwyd o ganlyniad i gomisiynu trosedd.

O dan unrhyw un o'r amgylchiadau hyn, bydd y gwaith cyfweld yn dod i ben unwaith y mae'r risg perthnasol wedi'i osgoi neu unwaith y gofynnir y cwestiynau angenrheidiol er mwyn ceisio osgoi'r risg hwnnw.

11.2 Yn union cyn cychwyn neu ailgychwyn unrhyw gyfweliad mewn gorsaf heddlu neu fan cadw arall awdurdodedig, dylai'r cyfwelydd atgoffa'r sawl sydd dan amheuaeth o'u hawl i gael cyngor cyfreithiol yn rhad ac am ddim ac y gellir gohirio'r cyfweliad er mwyn iddynt gael cyngor cyfreithiol, oni bai fod un o'r eithriadau ym *mharagraff 6.6* yn berthnasol. Y cyfwelydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl adegau o atgoffa'r sawl sydd dan amheuaeth yn cael eu cofnodi yng nghofnod y cyfweliad.

11.3 Ni Ddefnyddiwyd hwn

11.4 Ar ddechrau cyfweliad, bydd y cyfwelydd, ar ôl rhybuddio'r sawl sydd dan amheuaeth, *gweler* adran 10, yn sôn wrthynt am unrhyw ddistawrwydd neu ddatganiad arwyddocaol a ddigwyddodd ym mhresenoldeb ac yng nghlyw swyddog yr heddlu neu staff heddlu eraill, cyn ddechrau'r cyfweliad ac na soniwyd wrth y sawl sydd dan amheuaeth amdano yn ystod y cyfweliad blaenorol. Gweler Nodyn 11A. Bydd y cyfwelydd yn gofyn i'r sawl

C

sydd dan amheuaeth a ydynt yn cadarnhau neu'n gwadu'r datganiad neu'r distawrwydd blaenorol hwnnw ac a ydynt yn dymuno ychwanegu unrhyw beth.

11.4A Ystyr datganiad arwyddocaol yw datganiad y mae'n ymddangos y gellir ei ddefnyddio fel tystiolaeth yn erbyn y sawl sydd dan amheuaeth, yn arbennig, cyfaddefiad eu bod yn euog. Ystyr distawrwydd arwyddocaol yw methu neu wrthod ateb cwestiwn neu fethu neu wrthod ateb cwestiwn yn foddhaol ar ôl rhybuddio rhywun, a allai arwain, gan ystyried y cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd, *gweler Atodiad C*, at gasgliad o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, Rhan III.

11.5 Ni fydd unrhyw gyfwelydd yn ceisio cael atebion neu gael datganiad yn uniongyrchol trwy ormesu rhywun. Ac eithrio sefyllfa *paragraff 10.9*, ni fydd unrhyw gyfwelydd yn nodi, oni bai ei fod yn ateb cwestiwn uniongyrchol, y camau y bydd yr heddlu'n eu cymryd os bydd y person a holir yn ateb cwestiynau, yn gwneud datganiad neu'n gwrthod gwneud yr un o'r ddau. Os yw'r person yn gofyn yn uniongyrchol pa gamau a gymerir os bydd yn ateb cwestiynau, gwneud datganiad neu'n gwrthod gwneud yr un o'r ddau, fe all y cyfwelydd ddweud wrtho pa gamau y mae'r heddlu yn bwriadu eu cymryd ar yr amod bod y camau hynny'n briodol ac yn gyfiawn.

11.6 Rhaid i gyfweliad neu gyfweliad pellach gyda pherson ynghylch trosedd nad yw'r person hwnnw wedi cael ei gyhuddo o'i gyflawni, neu nad yw wedi cael gwybod y gallai gael ei erlyn yn ei gylch, ddod i ben:

(a) pan fo'r swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad wedi'i fodloni bod yr holl gwestiynau, y mae'n eu hystyried sy'n berthnasol er mwyn cael gwybodaeth gywir a dibynadwy am y drosedd, wedi cael eu gofyn i'r sawl sydd dan amheuaeth, mae hyn yn cynnwys rhoi'r cyfle i'r sawl sydd dan amheuaeth roi esboniad diniwed a gofyn cwestiynau er mwyn profi bod yr esboniad yn gywir a dibynadwy, e.e. er mwyn dileu unrhyw amwysedd neu egluro'r hyn a ddywedodd y sawl sydd dan amheuaeth;

(b) pan fo'r swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad wedi ystyried unrhyw dystiolaeth arall sydd ar gael; *a*

(c) pan fo'r swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad, neu yn achos person dan amheuaeth sy'n cael ei gadw, swyddog y ddalfa, *gweler* paragraff 16.1, o'r farn rhesymol bod digon o dystiolaeth i sicrhau cyfle realistig o gollfarnu'r person o gyflawni'r drosedd yma. Gweler Nodyn 11B.

Nid yw'r paragraff hwn yn atal swyddogion mewn achosion refeniw neu sy'n gweithredu dan ddarpariaethau atafaelu Deddf Cyfiawnder Troseddol 1998 neu Ddeddf Delio Mewn Cyffuriau 1994, rhag estyn gwahoddiad i unigolion dan amheuaeth i lenwi cofnod holi ac ateb ffurfiol ar ôl y daw'r cyfweliad i ben.

C

***(b) Cofnodion cyfweld***

11.7 (a) Rhaid gwneud cofnod cywir o bob cyfweliad, os cynhelir y cyfweliad mewn gorsaf heddlu neu beidio

(b) Rhaid i'r cofnod nodi lleoliad y cyfweliad, yr amser y mae'n cychwyn ac yn dod i ben, unrhyw doriad yn ystod y cyfweliad ac, yn unol â *pharagraff 2.6A*, enwau'r holl rai sy'n bresennol; a rhaid ei wneud ar y ffurflenni a ddarperir at y diben hwn neu yn llyfr poced y cyfwelydd neu'n unol â Chodau Ymarfer E neu F;

(c) Rhaid gwneud a chwblhau unrhyw gofnod ysgrifenedig yn ystod y cyfweliad, oni bai na fyddai hyn yn ymarferol neu y byddai'n amharu ar y cyfweliad, ac mae'n rhaid iddo fod naill ai'n gofnod gair am air o'r hyn a ddywedwyd neu, os nad yw hynny'n bosibl, cofnod o'r cyfweliad sy'n rhoi crynodeb digonol a chywir ohono.

11.8 Os na wneir cofnod ysgrifenedig yn ystod y cyfweliad, rhaid ei wneud cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ar ôl ei gwblhau.

11.9 Rhaid i'r un sy'n paratoi'r cofnodion cyfweld ysgrifenedig, wirio'r amser a'u llofnodi.

11.10 Os na chwblheir cofnod ysgrifenedig yn ystod y cyfweliad, rhaid cofnodi'r rheswm dros hyn yng nghofnod y cyfweliad.

11.11 Oni bai fod hynny'n anymarferol, rhoddir cyfle i'r un a gyfwelir ddarllen cofnod y cyfweliad a llofnodi ei fod yn gywir, neu nodi sut y mae'n ystyried ei fod yn anghywir. Os nad yw'r un a gyfwelwyd yn gallu darllen neu os yw'n gwrthod darllen y cofnod neu ei lofnodi, bydd yr uwch gyfwelydd yn ei ddarllen iddo ac yn gofyn a hoffai lofnodi ei fod yn gywir neu farcio neu nodi sut y mae'n anghywir yn ei farn ef. Bydd y cyfwelydd yn nodi'r hyn a ddigwyddodd yng nghofnod y cyfweliad. Gweler *Nodyn 11E*

11.12 Os yw'r oedolyn priodol neu gyfreithiwr y person yn bresennol yn ystod y cyfweliad, dylid rhoi'r cyfle iddynt ddarllen a llofnodi cofnod y cyfweliad neu unrhyw ddatganiad ysgrifenedig a gofnodwyd yn ystod y cyfweliad hefyd.

11.13 Gwneir cofnod ysgrifenedig o unrhyw sylwadau a wnaed gan y sawl sydd dan amheuaeth, gan gynnwys sylwadau na ofynnwyd amdanynt, sydd y tu allan i gyd-destun cyfweliad ond a allai fod yn berthnasol i'r drosedd. Rhaid i'r un a wnaeth gofnod o'r fath nodi'r amser a llofnodi'r cofnod. Pan fo hynny'n ymarferol, rhoddir cyfle i'r sawl sydd dan amheuaeth i ddarllen y cofnod hwnnw a llofnodi ei fod yn gywir neu nodi ym mha ffordd y maent yn ystyried fod y cofnod yn anghywir. Gweler *Nodyn 11E*

11.14 Rhaid cofnodi unrhyw achos o wrthod llofnodi cofnod y cyfweliad pan ofynnir i rywun wneud hynny, yn unol â'r Côd yma.

C

***(c) Pobl ifanc a'r rhai sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol***

11.15 Ni ddylid cyfweld person ifanc neu berson sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, am ei ymwneud neu amheuaeth o ymwneud â throsedd neu droseddau, neu ofyn iddo ddarparu neu lofnodi datganiad ysgrifenedig ar ôl ei rybuddio neu mewn cofnod y cyfweliad, os nad fydd yr oedolyn priodol yn bresennol, oni bai fod *paragraffau 11.1*, *11.18* i *11.20* yn berthnasol. Gweler *Nodyn 11C*

11.16 Yr unig adeg y gellir cyfweld pobl ifanc yn y man lle'u haddysgir, yw mewn amgylchiadau arbennig a phan fo'r pennaeth neu'r person a enwebwyd ar eu cyfer, yn cytuno. Dylid gwneud pob ymdrech i hysbysu'r rhiant(rhieni) neu'r person arall sy'n gyfrifol am les y person ifanc a'r oedolyn priodol, os yw hwn yn berson gwahanol, bod yr heddlu yn dymuno cyfweld y person ifanc, a dylid caniatáu amser rhesymol er mwyn galluogi'r oedolyn priodol i fynychu'r cyfweliad. Os byddai aros am yr oedolyn priodol yn golygu oedi afresymol, ac oni bai fod y person ifanc dan amheuaeth o gyflawni trosedd yn erbyn y sefydliad addysgol, gall y pennaeth neu'r un a enwebwyd, weithredu fel yr oedolyn priodol at ddibenion y cyfweliad.

11.17 Os bydd unrhyw oedolyn priodol yn bresennol yn ystod cyfweliad, fe'i hysbysir:

- na ddisgwylir iddo arsylwi yn unig; ac
- mai diben ei bresenoldeb yw:
  - ~ cynghori'r person a gyfwelir;
  - ~ arsylwi a gynhelir y cyfweliad yn gywir ac yn deg;
  - ~ hwyluso cyfathrebu gyda'r person a gyfwelir.

***(d) Y rhai dan amheuaeth sy'n agored i niwed – cyfweliadau brys mewn gorsafoedd heddlu***

11.18 Ni cheir cyfweld yr unigolion canlynol oni bai fod swyddog o safle uwch-arolygydd neu uwch o'r farn y byddai oedi yn arwain at y goblygiadau a nodir ym *mharagraff 11.1(a)* i *(c)*, a'i fod yn fodlon na fyddai'r cyfweliad yn niweidio cyflwr corfforol neu feddyliol y person yn sylweddol (*gweler* Atodiad G):

(a) person ifanc neu berson sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol os nad yw'r oedolyn priodol yn bresennol yn y cyfweliad;

(b) unrhyw un ac eithrio'r rhai a ddisgrifiwyd yn (a), y mae'n ymddangos yn ystod y cyfweliad, nad ydynt yn gallu:

- gwerthfawrogi arwyddocâd cwestiynau a'u hatebion; neu
- ddeall yr hyn sy'n digwydd oherwydd effeithiau diod, cyffuriau neu unrhyw salwch, anhwylder neu gyflwr;

(c) rhywun sy'n cael anhawster deall Saesneg neu sydd ag anabledd ar ei glyw, os na fydd cyfieithydd yn bresennol ar adeg y cyfweliad.



11.19 Ni all y cyfweliadau hyn barhau unwaith y ceir digon o wybodaeth er mwyn osgoi'r goblygiadau ym *mharagraff 11.1(a)* i *(c)*.

11.20 Gwneir cofnod o sail unrhyw benderfyniad i gyfweld person o dan *baragraff 11.18*.

***Nodiadau arweiniad***

*11A Nid yw paragraff 11.4 yn atal y cyfwelydd rhag sôn wrth berson dan amheuaeth am unrhyw ddistawrwydd neu ddatganiad arwyddocaol yn nes ymlaen neu mewn cyfweliadau pellach.*

*11B Mae Côd Ymarfer Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliad Troseddol 1996, paragraff 3.4, yn nodi 'Wrth gynnal ymchwiliad, dylai'r ymchwilydd fwrw ymlaen â phob ymholiad rhesymol, os yw'r rhain yn awgrymu bod y sawl sydd dan amheuaeth yn euog neu beidio. Bydd yr hyn a fydd yn rhesymol yn dibynnu ar yr amgylchiadau arbennig.' Dylai pob cyfwelydd gofio hyn wrth benderfynu pa gwestiynau i'w holi mewn cyfweliad.*

*11C Er bod pobl ifanc neu bobl sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, yn aml yn gallu darparu tystiolaeth ddibynadwy, mewn amgylchiadau arbennig, gallant fod yn debygol o ddarparu gwybodaeth a allai fod yn annibynadwy, yn gamarweiniol neu'n arwain at rywun i'w hamau nhw, heb wybod na bwriadu gwneud hynny. Dylid cymryd gofal arbennig bob amser wrth holi person o'r fath, a dylai'r unigolyn priodol fod yn gysylltiedig â'r broses os ceir unrhyw amheuaeth ynghylch oedran, cyflwr meddyliol neu allu meddyliol y person dan sylw. Oherwydd risg tystiolaeth annibynadwy, mae'n bwysig hefyd cadarnhau unrhyw ffeithiau a gyfaddefir pan fo modd.*

*11D Ni ddylid arestio person ifanc yn y man lle'i haddysgir ac eithrio lle nad oes modd osgoi hyn. Pan fo person ifanc yn cael ei arestio yn y man lle'i haddysgir, rhaid hysbysu'r pennaeth neu'r un a enwebwyd ganddo.*

*11E Bydd datganiadau arwyddocaol a ddisgrifiwyd ym mharagraff 11.4 bob amser yn berthnasol i'r drosedd ac mae'n rhaid eu cofnodi. Pan fo'r sawl sydd dan amheuaeth yn cytuno darllen cofnodion cyfweliadau a sylwadau eraill a llofnodi eu bod yn gywir, dylid gofyn iddynt gymeradwyo'r cofnod trwy nodi, er enghraifft, 'Rwy'n cytuno bod hwn yn*

*gofnod cywir o'r hyn a ddywedwyd' ac ychwanegu ei lofnod. Os na fydd y sawl sydd dan amheuaeth yn cytuno â'r cofnod, dylai'r cyfwelydd gofnodi manylion unrhyw anghytundeb a gofyn i'r sawl sydd dan amheuaeth i ddarllen y manylion hyn a'u llofnodi er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchiad cywir o'r anghytundeb. Dylid cofnodi unrhyw achos o wrthod llofnodi.*

C

## 12 Cyfweliadau mewn gorsafoedd heddlu

### *(a) Gweithredu*

12.1 Os yw swyddog yr heddlu yn dymuno cyfweld neu wneud ymholiadau sy'n gofyn am bresenoldeb y sawl sy'n cael eu cadw, mae swyddog y ddalfa yn gyfrifol am benderfynu a ddylid trosglwyddo'r sawl sy'n cael eu cadw, i ofal y swyddog.

12.2 Ac eithrio'r amgylchiadau a nodir isod, rhaid neilltuo cyfnod parhaus o 8 awr o leiaf mewn unrhyw gyfnod 24 awr, er mwyn i'r sawl sy'n cael eu cadw orffwys, a lle na byddant yn cael eu holi, eu gorfodi i deithio a lle na fydd tarfu arnynt oherwydd yr ymchwiliad dan sylw. Dylai'r cyfnod hwn fod yn ystod y nos fel arfer neu ar unrhyw adeg priodol arall sy'n ystyried pryd y mae'r sawl sy'n cael eu cadw wedi cysgu neu orffwys ddiwethaf. Os yw'r sawl sy'n cael eu cadw yn cael eu harestio mewn gorsaf heddlu ar ôl mynd yno'n wirfoddol, bydd y cyfnod o 24 awr yn cychwyn o'r adeg y cawsant eu harestio ac nid yr adeg y cyrhaeddwydd gorsaf yr heddlu. Ni ellir ymyrryd ar y cyfnod na'i ohirio, ac eithrio lle:

(a) ceir sail resymol i gredu y byddai peidio â gohirio neu ymyrryd ar y cyfnod yn:

- (i) peri risg i bobl gael eu niweidio neu golled neu niwed difrifol i eiddo;
- (ii) oedi'r cam o ryddhau'r person o'r ddalfa yn ddiangen;
- (iii) niweidio canlyniad yr ymchwiliad fel arall;

(b) bydd y sawl sy'n cael eu cadw, eu hoedolyn priodol neu eu cynrychiolydd cyfreithiol yn gofyn i hynny ddigwydd;

(c) bydd angen gohirio neu ymyrryd er mwyn:

- (i) cydymffurfio â'r ymrwymiadau a'r dyletswyddau cyfreithiol sy'n codi dan *adan 15*;
- (ii) cymryd y camau angenrheidiol o dan *adran 9* neu'n unol â chyngor meddygol.

Os amharir ar y cyfnod yn unol ag *(a)*, rhaid caniatáu cyfnod newydd. Nid oes angen caniatáu cyfnod newydd pan amharir dan *(b)* a *(c)*.

12.3 Cyn cyfweld y sawl sy'n cael eu cadw, bydd swyddog y ddalfa, ar ôl ymgynghori gyda'r

swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol priodol yn ôl yr angen, yn asesu a yw'r sawl sy'n cael eu cadw yn ddigon da i'w cyfweld. Mae hyn yn golygu gweld ac ystyried y risg i gyflwr corfforol a meddyliol y sawl sy'n cael eu cadw o gynnal y cyfweliad a phennu pa gamau diogel y mae angen eu cymryd er mwyn galluogi i'r cyfweliad gael ei gynnal. Gweler *Atodiad G*. Ni fydd swyddog y ddalfa yn caniatáu i'r sawl sy'n cael eu cadw gael eu cyfweld os yw o'r farn y byddai'n peri niwed sylweddol i gyflwr corfforol neu feddyliol y sawl sy'n cael eu cadw. Bydd unigolion dan amheuaeth sy'n agored i niwed, a'r unigolion a restrir ym *mharagraff 11.18*, yn cael eu trin fel unigolion y ceir ychydig risg iddynt yn ystod cyfweliad bob amser, ac ni ellir cyfweld yr unigolion hyn ac eithrio yn unol â *pharagraffau 11.18* i *11.20*.

12.4 Cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, dylid cynnal cyfweliadau mewn ystafelloedd cyfweld wedi'u gwresogi, eu goleuo a'u hawyru'n ddigonol.

12.5 Gall y sawl sydd dan amheuaeth, yr awdurdodwyd eu cadw heb eu cyhuddo dan PACE, oherwydd bod angen eu cadw er mwyn eu cyfweld a chael tystiolaeth o'r drosedd y cawsant eu harestio am ei gyflawni, ddewis peidio ag ateb cwestiynau, ond nid oes angen i'r heddlu gael caniatâd neu gytundeb y sawl sydd dan amheuaeth i gael eu cyfweld at y diben hwn. Os bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn cymryd camau i atal eu hunain rhag cael eu holi neu gael eu holi ymhellach, e.e. trwy wrthod gadael eu cell neu wrthod mynd i ystafell gyfweld addas neu geisio gadael yr ystafell gyfweld, dylid eu hysbysu nad oes angen cael eu caniatâd neu eu cytundeb i gynnal y cyfweliad. Rhoddir rhybudd i'r sawl sydd dan amheuaeth fel yn *adran 10*, ac fe'u hysbysir y gellir cynnal y cyfweliad yn y gell pe baent yn methu neu'n gwrthod cydweithredu, ac y gellir defnyddio'r ffaith eu bod wedi methu neu wrthod cydweithredu, fel tystiolaeth. Yna, estynnir gwahoddiad i'r sawl sydd dan amheuaeth gydweithredu a mynd i'r ystafell gyfweld.

12.6 Ni fydd yn rhaid i'r bobl a holir neu'r rhai sy'n gwneud datganiadau, i sefyll ar eu traed.

12.7 Cyn cychwyn y cyfweliad, bydd pob cyfwelydd, yn unol â *pharagraff 2.6A*, yn nodi pwy ydyw ac unrhyw unigolion eraill sy'n bresennol yn y cyfweliad.

12.8 Dylid trefnu toriad yn ystod cyfweliadau ar adegau prydau bwyd neu ar adegau eraill sy'n ystyried pryd y mae'r un a gyfwelir wedi bwyta ddiwethaf. Darperir toriad byr am luniaeth oddeutu bob dwy awr, ond fe all y cyfwelydd ohirio toriad yn ôl ei ddisgresiwn os ceir sail resymol i gredu y byddai hynny'n:

(i) golygu:

- risg o niwed i bobl;
- colled neu ddifrod difrifol i eiddo;

(ii) golygu gohirio rhyddhau'r sawl sy'n cael eu cadw yn ddiangen;

(iii) niweidio canlyniad yr ymchwiliad fel arall.

Gweler *Nodyn 12B*

C

12.9 Os gwneir cwyn gan neu ar ran yr un a gyfwelir yn ystod y cyfweliad ynghylch darpariaethau'r Côd yma, dylai'r cyfwelydd:

(i) gofnodi hyn yng nghofnod y cyfweliad;

(ii) hysbysu swyddog y ddalfa, sydd wedyn yn gyfrifol am ddelio â'r gŵyn yn unol ag *adran 9*.

***(b) Dogfennau***

12.10 Rhaid gwneud cofnod o'r:

- amser pan na fydd y sawl sy'n cael eu cadw, yng ngofal swyddog y ddalfa, a'r rheswm dros hynny
- rheswm dros wrthod rhyddhau'r sawl sy'n cael eu cadw

12.11 Gwneir cofnod:

(a) o'r rhesymau pan nad oedd hi'n ymarferol defnyddio ystafell gyfweld; ac

(b) unrhyw gamau a gymerir fel nodir ym *mharagraff 12.5*.

Gwneir y cofnod yn y cofnod cadw neu'r cofnod y cyfweliad am gamau a gymerir pan gedwir cofnod y cyfweliad, a gwneir cyfeiriad byr ynghylch hyn yn y cofnod cadw.

12.12 Rhaid cofnodi unrhyw benderfyniad i ohirio toriad yn ystod cyfweliad, ynghyd â'r rhesymau dros wneud hyn, yng nghofnod y cyfweliad.

12.13 Ysgrifennir pob datganiad ysgrifenedig a wneir mewn gorsaf heddlu ar y ffurflenni a ddarparwyd at y diben hwn.

12.14 Ystyrir pob datganiad ysgrifenedig a wneir ar ôl rhybuddio rhywun, yn unol ag *Atodiad D*. Cyn y bydd rhywun yn gwneud datganiad ysgrifenedig ar ôl ei rybuddio mewn gorsaf heddlu, fe'u hatgoffir am eu hawl i gael cyngor cyfreithiol. Gweler *Nodyn 12A*

***Nodiadau arweiniad***

*12A Fel arfer, nid oes angen gofyn am ddatganiad ysgrifenedig os cafodd y cyfweliad ei gofnodi yn ysgrifenedig a'r cofnod wedi'i lofnodi'r cofnod yn unol â pharagraff 11.11 neu os cafodd recordiad sain neu weledol ei wneud o'r cyfweliad yn unol â Chôd E neu F. Fel*

*arfer, yr unig adeg y dylid gwneud datganiadau ar ôl rhybuddio rhywun yn yr amgylchiadau hyn, yw os bydd y person yn dymuno hynny. Gellir, fodd bynnag, gofyn i rywun a hoffent wneud datganiad o'r fath.*

*12B Fel arfer, dylai cyfnodau toriad i gael bwyd fod o leiaf 45 munud o hyd, a dylai toriad byrrach ar ôl dwy awr fod o leiaf 15 munud o hyd. Os bydd y cyfwelydd yn gohirio toriad yn unol â pharagraff 12.8 ac yn ymestyn y cyfweliad, dylid darparu toriad hirach. Os ceir cyfweliad byr, ac os ystyrir cynnal cyfweliad byr arall, gellir gostwng hyd y toriad os ceir sail resymol i gredu bod angen gwneud hyn oherwydd y goblygiadau ym mharagraff 12.8(i) i (iii).*

## 13 Cyfieithwyr

### *(a) Cyffredinol*

13.1 Mae prif swyddogion yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol wedi cael eu gwneud i ddarparu cyfieithwyr sydd â chymwysterau addas ar gyfer pobl:

- byddar;
- nad ydynt yn deall Saesneg.

Lle bynnag mae hynny'n bosib dylid defnyddio dehonglwyr a chyfieithwyr o Gofrestr Genedlaethol Cyfieithwyr Gwasanaethau Cyhoeddus (NRPSI) neu Gyfarwyddiadur Dehonglwyr Saesneg/Iaith Arwyddion Prydain Cyngor Hyrwyddo Cyfathrebu gyda Phobl Fyddar (CADCP).

### *(b) Ieithoedd tramor*

13.2 Oni bai fod *paragraffau 11.1*, *11.18* i *11.20* yn berthnasol, ni ddylid cyfweld rhywun os na fydd person yn bresennol sy'n gallu cyfieithu:

(a) os ydynt yn cael anhawster deall Saesneg;

(b) os na all y cyfwelydd siarad iaith y person;

(c) os yw'r person yn dymuno cael cyfieithydd yn bresennol.

13.3 Bydd y cyfwelydd yn sicrhau bod y cyfieithydd yn gwneud cofnod o'r cyfweliad ar y pryd yn iaith y person er mwyn ei ddefnyddio os gelwir ar y cyfieithydd i roi tystiolaeth, a dilysu ei fod yn gywir. Dylai'r cyfwelydd roi digon o amser i'r cyfieithydd nodi pob cwestiwn ac ateb ar ôl gofyn pob un, ateb pob un a chyfieithu pob un. Dylid rhoi'r cyfle i'r person ddarllen y cofnod neu gael rhywun i'w ddarllen iddo, a llofnodi ei fod yn gywir neu nodi sut y mae'n ystyried ei fod yn anghywir. Os bydd recordiad sain yn cael ei wneud o'r cyfweliad, bydd y trefniadau yng Nghôd E neu F yn berthnasol.

13.4 Yn achos person sy'n gwneud datganiad mewn iaith heblaw Saesneg i swyddog heddlu neu aelod arall o staff yr heddlu:

(a) bydd y cyfieithydd yn cofnodi'r datganiad yn yr iaith berthnasol;

(b) estynnir gwahoddiad i'r person ei lofnodi;

(c) bydd cyfieithiad Saesneg swyddogol yn cael ei baratoi maes o law.

***(c) Pobl fyddar a phobl sydd ag anawsterau lleferydd***

13.5 Os yw'n ymddangos bod person yn fyddar neu os oes amheuaeth ynghylch ei allu i glywed neu siarad, ni ddylid ei gyfweld yn absenoldeb cyfieithydd oni bai ei fod yn cytuno i gael ei gyfweld heb un neu os bydd *paragraffau 11.1*, *11.18* i *11.20* yn berthnasol.

13.6 Dylid galw am gyfieithydd *hefyd* os cyfwelir person ifanc ac os yw hi'n ymddangos bod y rhiant neu'r gwarcheidwad sy'n bresennol fel yr oedolyn priodol, yn fyddar neu os oes amheuaeth ynghylch ei allu i glywed neu siarad, oni bai ei fod yn cytuno ar bapur i'r cyfweliad fynd yn ei flaen heb un neu os bydd *paragraffau 11.1*, *11.18* i *11.20* yn berthnasol.

13.7 Bydd y cyfwelydd yn sicrhau bod y cyfieithydd yn cael darllen cofnod y cyfweliad a dilysu ei fod yn gywir os gofynnir i gyfieithydd roi tystiolaeth. Os bydd recordiad sain neu weledol yn cael ei wneud o'r cyfweliad, bydd y trefniadau yng Nghôd E neu F yn berthnasol.

***(d) Rheolau ychwanegol ar gyfer pobl a gedwir***

13.8 Dylid gwneud pob ymdrech rhesymol i sicrhau bod y sawl sy'n cael eu cadw yn deall y defnyddir arian cyhoeddus i dalu am gyfieithydd.

13.9 Os bydd paragraff 6.1 yn berthnasol, ac os na all y sawl sy'n cael eu cadw gyfathrebu â'r cyfreithiwr oherwydd anawsterau ieithyddol, neu oherwydd anawsterau gyda'u clyw neu eu lleferydd, rhaid galw am gyfieithydd. Pan fydd angen cyfieithu er mwyn cael cyngor cyfreithiol ni fydd y cyfieithydd yn swyddog heddlu neu'n aelod o'r staff heddlu. Ym mhob achos arall, yr unig adeg y gall swyddog heddlu neu staff heddlu gyfieithu, yw pan fydd y sawl sy'n cael eu cadw a'r oedolyn priodol, os yw hynny'n berthnasol, yn cytuno i hynny ar bapur neu os bydd recordiad sain neu weledol yn cael ei wneud o'r cyfweliad fel nodir yng Nghôd E neu F.

13.10 Pan na all swyddog y ddalfa gyfathrebu'n effeithiol gyda pherson a gyhuddir o gyflawni trosedd, y mae'n ymddangos ei fod yn fyddar neu lle ceir amheuaeth ynghylch ei allu i glywed, siarad neu ddeall Saesneg, rhaid gwneud trefniadau cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol i gyfieithydd esbonio'r drosedd ac unrhyw wybodaeth arall a roddir gan swyddog y ddalfa.

***(e) Dogfennau***

13.11 Rhaid cofnodi unrhyw gamau a gymerir i alw am gyfieithydd o dan yr adran hon ac unrhyw gytundeb i gael cyfweliad heb gyfieithydd.

**14 Holi – cyfyngiadau arbennig**

14.1 Os bydd un awdurdod heddlu yn arestio rhywun ar ran awdurdod heddlu arall ac os nad yw'r cyfnod cadw cyfreithiol gyda golwg ar y drosedd dan sylw, wedi cychwyn eto yn unol â PACE, adran 41, ni ellir gofyn unrhyw gwestiynau i'r person hynny ynghylch y drosedd yn ystod y cyfnod tosglwyddo o'r naill awdurdod heddlu i'r llall, ac eithrio er mwyn egluro unrhyw ddatganiad gwirfoddol a wnaed gan y person hwnnw.

14.2 Os bydd person yn cael ei gadw gan yr heddlu mewn ysbyty, ni ellir ei holi heb gytundeb meddyg cyfrifol. Gweler *Nodyn 14A*

***Nodyn arweiniad***

*14A Os holir rhywun yn yr ysbyty o dan baragraff 14.2, neu ar y ffordd i'r ysbyty neu o'r ysbyty, bydd y cyfnod holi dan sylw yn cyfrannu at gyfanswm y cyfnod cadw a ganiateir.*

**15 Adolygu ac ymestyn y cyfnod cadw**

***(a) Unigolion a gedwir dan PACE***

15.1 O dan PACE, adran 40, y swyddog adolygu sy'n gyfrifol am bennu o dro i dro os yw cyfnod cadw person, cyn neu ar ôl ei gyhuddo, yn parhau i fod yn angenrheidiol. Bydd y gofyniad hwn yn parhau trwy gydol y cyfnod cadw ac eithrio fel nodir ym *mharagraff 15.10*, rhaid i'r swyddog adolygu fod yn bresennol yn yr orsaf heddlu lle y cedwir y sawl sy'n cael eu cadw. Gweler *Nodiadau 15A* a *15B*

15.2 O dan PACE, adran 42, gall swyddog o safle uwch-arolygydd neu uwch, sy'n gyfrifol am yr orsaf sy'n cadw'r sawl sy'n cael eu cadw, roi awdurdod ar unrhyw adeg ar ôl yr ail adolygiad, i ymestyn y cyfnod hiraf posibl y gellir cadw'r person heb ei gyhuddo am hyd at 12 awr. Gellir awdurdodi ei gadw ymhellach heb ei gyhuddo gan lys ynadon yn unig, yn unol â PACE, adrannau 43 a 44. Gweler *Nodiadau 15C*, *15D* a *15E*

15.2A Mae Adran 42(1) PACE fel y'i diwygiwyd yn ymestyn y cyfnod hiraf posibl y gellir cadw rhywun am droseddau ditiadwy o 24 awr i 36 awr. Bydd cadw person ifanc neu berson sy'n feddyliol fregus yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos ac ar y canlynol:

(a) natur arbennig o fregus;

(b) y gofyniad cyfreithiol i ddarparu cyfle ar gyfer cyflwyniadau cyn dod i benderfyniad ynghylch ymestyn y cyfnod cadw;

(c) yr angen i ymgynghori ac ystyried barn unrhyw oedolyn priodol; ac

(d) unrhyw ddewisiadau amgen i gadw gan yr heddlu.

C

15.3 Cyn penderfynu a ddylid awdurdodi parhau i gadw rhywun, bydd y swyddog sy'n gyfrifol o dan *baragraffau 15.1* neu *15.2* yn rhoi cyfle i wneud cyflwyniadau ynghylch y cyfnod cadw i'r canlynol:

(a) y sawl sy'n cael eu cadw, oni bai yn achos adolygiad fel nodir ym *mharagraff 15.1*, fod y sawl sy'n cael eu cadw, yn cysgu;

(b) cyfreithiwr y sawl sy'n cael eu cadw os yw ar gael ar y pryd; a'r

(c) oedolyn priodol os yw ar gael ar y pryd.

15.3A Gall unigolion eraill sydd â diddordeb yn lles y sawl sy'n cael eu cadw, wneud cyflwyniadau yn ôl disgresiwn y swyddog awdurdodi.

15.3B Yn unol â *pharagraff 15.10*, gellir gwneud y cyflwyniadau ar lafar wyneb yn wyneb, neu dros y ffôn neu ar bapur. Gall y swyddog awdurdodi, fodd bynnag, wrthod â gwrando ar gyflwyniadau llafar gan y sawl sy'n cael eu cadw os yw'r swyddog o'r farn nad ydynt yn gymwys i wneud cyflwyniadau oherwydd eu cyflwr neu eu hymddygiad. Gweler *Nodyn 15C*

Cyn cynnal adolygiad neu bennu a ddylid ymestyn y cyfnod cadw hiraf posibl heb gyhuddo, rhaid i'r swyddog sy'n gyfrifol sicrhau yr atgoffir y sawl sy'n cael eu cadw, o'i hawl i gael cyngor cyfreithiol yn rhad ac am ddim, *gweler* paragraff 6.5, ac eithrio yn achos adolygiad pan fo'r person yn cysgu.

15.3C Mater i'r swyddog adolygu yw penderfynu a ddylid cynnal yr adolygiad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn neu trwy fideo-gynhadledd (*gweler* Nodyn 15G). Wrth bennu'r ffurf y dylid cynnal yr adolygiad, mae'n rhaid i'r swyddog adolygu roi ystyriaeth lawn i anghenion y sawl sydd yn y ddalfa. Dylid ystyried y budd o gynnal adolygiad wyneb yn wyneb bob tro, ar sail amgylchiadau unigol pob achos gan roi ystyriaeth benodol ychwanegol os yw'r person:

(a) yn berson ifanc (ac oed y person ifanc); neu

(b) yn fregus ei meddwl; neu

(c) wedi bod yn destun sylw meddygol am rywbeth mwy na salwch arferol; neu

(d) os oes yno faterion cyflwyniadol neu gymunedol ynghylch cadw'r person.

15.4 Cyn cynnal adolygiad neu bennu a ddylid ymestyn y cyfnod cadw hiraf posibl heb gyhuddo, rhaid i'r swyddog sy'n gyfrifol sicrhau yr atgoffir y sawl sy'n cael eu cadw, o'i hawl i gael cyngor cyfreithiol yn rhad ac am ddim, *gweler paragraff 6.5*, ac eithrio yn achos adolygiad pan fo'r person yn cysgu.

15.5 Ar ôl ystyried unrhyw gyflwyniadau, os bydd y swyddog yn penderfynu cadw'r person yn y ddalfa neu ymestyn y cyfnod hiraf posibl y gellir ei gadw heb ei gyhuddo, cofnodir unrhyw sylwadau a wneir gan y sawl sy'n cael eu cadw. Os bydd hynny'n berthnasol, hysbysir y swyddog sy'n gyfrifol o dan *baragraff 15.1* neu *15.2* o'r sylw cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol. Gweler *paragraffau 11.4* a *11.13* hefyd.

15.6 Ni chaiff unrhyw swyddog ofyn cwestiynau penodol i'r sawl sy'n cael eu cadw:

- ynghylch eu hymwneud ag unrhyw drosedd; neu
- ynghylch unrhyw sylwadau a wneir ganddynt:
  - ~ wrth iddynt gael y cyfle i wneud cyflwyniadau; neu
  - ~ wrth ymateb i benderfyniad i'w cadw neu ymestyn y cyfnod hiraf posibl y gellir eu cadw.

Gallai digwyddiad o'r fath gyfateb i gyfweliad dan amodau *paragraff 11.1A* a byddai felly'n destun y camau diogelu cysylltiedig a nodwyd yn *adran 11* ac, yn achos rhywun a gyhuddwyd, *paragraff 16.5*. Gweler *paragraff 11.13* hefyd.

15.7 Rhaid hysbysu'r sawl sy'n cael eu cadw, sy'n cysgu yn ystod yr adolygiad, *gweler paragraff 15.1*, ac yr awdurdodwyd y gelli parhau i'w cadw, o'r penderfyniad a'r rheswm dros hynny cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ar ôl iddo ddeffro.

### *(b) Pobl a gedwir o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000*

15.8 Mewn achosion o derfysgaeth:

(a) nodir pwerau a dyletswyddau'r swyddog adolygu yn Neddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 8, Rhan II;

(b) gall swyddog heddlu o safle uwch-arolygydd o leiaf, wneud cais i awdurdod cyfreithiol, am warant i gadw rhywun am gyfnod pellach o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 8, Rhan III.

### *(c) Adolygu cyfnod cadw dros y ffôn*

15.9 Mae PACE, adran 40A yn nodi nad oes angen i'r swyddog sy'n gyfrifol o dan adran 40

am adolygu cyfnod cadw person nad yw wedi cael ei gyhuddo, fynychu gorsaf yr heddlu sy'n cadw'r person, a'i fod yn gallu cynnal yr adolygiad dros y ffôn:

15.9A Mae darpariaethau PACE, adran 45A(2) yn datgan nad oes rhaid i'r swyddog sy'n gyfrifol o dan adran 40 am adolygu cadw person na chafodd ei gyhuddo, fynychu'r orsaf heddlu sy'n cadw'r person ac fe all gynnal yr adolygiad trwy gyfrwng cyfleusterau fideo-gynhadledd (Gweler Nodyn 15G).

15.9B Ni chaniateir adolygiad dros y ffôn lle ceir cyfleusterau ar gyfer adolygu trwy gyfrwng fideo-gynhadledd a lle mae'n ymarferol i'w defnyddio.

15.9C Fe all y swyddog adolygu benderfynu ar unrhyw adeg y dylid dirwyn yr adolygiad dros y ffôn neu trwy fideo-gynhadledd i ben ac y cynhelir yr adolygiad wyneb yn wyneb. Dylid nodi'r rheswm am hynny yng nghofnod y ddalfa.

Gweler *Nodyn 15F*

15.10 Pan gynhelir adolygiad dros y ffôn, bydd y swyddog adolygu yn gofyn i swyddog yn yr orsaf sy'n cadw'r person, i gyflawni ymrwymiadau'r swyddog hwnnw dan PACE adran 40 neu'r Côd yma trwy:

(a) baratoi unrhyw gofnod sy'n ymwneud â'r adolygiad yng nghofnod cadw'r sawl sy'n cael eu cadw;

(b) os yw hynny'n berthnasol, gwneud cofnod yn (a) ym mhresenoldeb y sawl sy'n cael eu cadw; a

(c) rhoi gwybodaeth i'r sawl sy'n cael eu cadw ynghylch yr adolygiad.

15.11 Pan gynhelir adolygiad dros y ffôn, bodlonir y gofyniad ym *mharagraff 15.3*:

(a) os oes cyfleusterau'n bodoli i drosglwyddo cyflwyniadau ysgrifenedig i'r swyddog adolygu yn syth, e.e. ffacs neu neges e-bost, trwy roi'r cyfle i'r sawl sy'n cael eu cadw wneud cyflwyniadau:

(i) ar lafar dros y ffôn; neu

(ii) ar bapur trwy ddefnyddio'r cyfleusterau hynny; ac

(b) ym mhob achos arall, trwy roi'r cyfle i'r sawl sy'n cael eu cadw wneud ei gyflwyniadau ar lafar dros y ffôn.

***(d) Dogfennau***

15.12 Y swyddog sy'n gyfrifol am sicrhau y nodir yr holl achosion o atgoffa a wneir o dan *baragraff 15.4* yn y cofnod cadw.

15.13 Cofnodir sail, a graddau, unrhyw oedi a geir wrth gynnal adolygiad.

15.14 Pan gynhelir adolygiad dros y ffôn, gwneir cofnod:

(a) o'r rheswm pam na wnaeth y swyddog adolygu fynychu'r orsaf a oedd yn cadw'r person;

(b) o leoliad y swyddog adolygu;

(c) y dulliau y gwnaethpwyd cyflwyniadau, ar lafar neu ar bapur, i'r swyddog adolygu, *gweler paragraff 15.11*.

C

15.15 Cedwir unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig.

15.16 Cyn gynted ag y bydd hynny'n ymarferol, gwneir cofnod o ganlyniad pob adolygiad neu benderfyniad i ymestyn y cyfnod cadw hiraf posibl heb gyhuddo, neu gais am warant i gadw rhywun gyfnod pellach neu ymestyn cyfnod cadw. Os bydd *paragraff 15.7* yn berthnasol, gwneir cofnod *hefyd* o'r adeg yr hysbyswyd y person a chan bwy. Os rhoddir awdurdod dan PACE, adran 42, bydd y cofnod yn nodi nifer yr oriau a'r munudau yr ymestynnir y cyfnod cadw neu ei ymestyn ymhellach. Os rhoddir gwarant i gadw rhywun ymhellach, neu ymestyn y cyfnod cadw, o dan adran 43 neu 44, bydd y cofnod yn nodi'r cyfnod cadw a awdurdodwyd gan y warant a'r dyddiad a'r amser y'i rhoddwyd.

***Nodiadau arweiniad***

*15A Ystyr swyddog adolygu at ddibenion:*

- *PACE, adrannau 40 a 40A, yn achos person a arestiwyd ond na gyhuddwyd, yw swyddog o safle arolygydd o leiaf ond nad yw'n ymwneud â'r ymchwiliad yn uniongyrchol ac, os yw person wedi cael ei arestio a'i gyhuddo, swyddog y ddalfa;*
- *Deddf Terfysgaeth 2000, yw swyddog nad yw'n ymwneud â'r ymchwiliad yn uniongyrchol ac o safle arolygydd o leiaf, ar gyfer adolygiadau cyn pen 24 awr o arestio'r sawl sy'n cael eu cadw, neu uwch-arolygydd ar gyfer pob adolygiad arall.*

*15B Dylid parhau i adolygu'r cyfnod y cedwir unigolion yn y ddalfa gan yr heddlu, nad ydynt yn rhwym i'r gofyniad adolygu statudol ym mharagraff 15.1, o dro i dro fel mater o arfer da. Gellir cynnal adolygiadau o'r fath gan swyddog o safle rhingyll neu uwch. Diben adolygiadau o'r fath yw sicrhau bod y pŵer arbennig a ddefnyddir i gadw'r sawl sy'n cael eu cadw, yn parhau i fod yn berthnasol, y cydymffurfir ag unrhyw amodau cysylltiedig a sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd i ddelio ag unrhyw newidiadau. Mae hyn yn cynnwys rhyddhau'r sawl sy'n cael eu cadw yn fuan pan na fydd y pŵer yn berthnasol mwyach, neu ei drosglwyddo os yw'r pŵer yn nodi bod angen mynd â'r sawl sy'n cael eu*

*cadw i rywle arall cyn gynted ag y gwneir y trefniadau angenrheidiol. Mae enghreifftiau'n cynnwys unigolion*

*(a) a arestiwyd dan warant oherwydd eu bod wedi methu cydymffurfio â'u mechnïaeth i ymddangos mewn llys;*

*(b) a arestiwyd o dan Ddeddf Mechnïaeth 1976, adran 7(3) am dorri amod mechnïaeth a roddir iddynt ar ôl eu cyhuddo;*

*(c) a gedwir yn y ddalfa gan yr heddlu at ddibenion ac am gyfnodau penodol o dan Ddeddf Trosedd (Dedfrydau) 1997, Atodlen 1;*

*(d) a ddedfrydir, neu garcharorion remand, a gedwir mewn gorsafoedd heddlu ar ran y Gwasanaeth Carchardai o dan Ddeddf Carcharu (Darpariaethau Dros Dro) 1980, adran 6;*

*(e) a gedwir er mwyn eu hatal rhag tor-heddwch;*

*(f) a gedwir mewn gorsafoedd heddlu ar ran y Gwasanaeth Mewnfudo.*

*(g) a gedwir trwy orchymyn llys ynadon o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988, adran 152 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyffuriau 2005, adran 8) i hwyluso canfod tystiolaeth ar ôl cael eu cyhuddo o fod ym meddiant cyffuriau neu gyflenwi cyffuriau ac amheuaeth o fod wedi llyncu cyffuriau.*

*Mae Deddf Llysoedd Ynadon 1980, adran 128 yn ei gwneud yn ofynnol yn statudol i adolygu'r cyfnod y cedwir unigolion yn y ddalfa gan yr heddlu trwy orchymyn llys. Diben hyn yw sicrhau bod y sawl sy'n cael eu cadw yn cael eu dwyn yn ôl i'r llys erbyn diwedd y cyfnod a awdurdodwyd gan y llys, neu pan fo'r angen i'r heddlu i'w cadw, yn dod i ben, p'un bynnag sy'n dod yn gyntaf.*

*15C Yn achos adolygu cyfnod cadw, ond nid ei ymestyn, ni fydd angen deffro'r sawl sy'n cael eu cadw ar gyfer yr adolygiad. Fodd bynnag, os yw hi'n debygol y bydd y sawl sy'n cael eu cadw yn cysgu, e.e. yn ystod cyfnod gorffwys a ganiateir fel nodir ym mharagraff 12.2, ar yr adeg hwyraf y caniateir cynnal adolygiad neu awdurdodiad i ymestyn y cyfnod cadw, dylai'r swyddog ddod â'r drefn ymlaen er mwyn galluogi'r sawl sy'n cael eu cadw i wneud cyflwyniadau, os yw'r ymrwymiadau cyfreithiol a'r cyfyngiadau amser yn caniatáu hynny. Rhaid i berson sy'n cael ei gadw, nad yw'n cysgu yn ystod yr adolygiad, fod yn bresennol pan gofnodir sail y penderfyniad i barhau i'w gadw, a rhaid ei hysbysu ar yr un pryd o'r sail hwn oni bai fod y swyddog adolygu o'r farn nad yw'r person yn gallu deall yr hyn a ddywedir, os yw'n dreisgar neu'n debygol o fod yn dreisgar neu os oes angen sylw meddygol brys arno.*

*15D Dylid gwneud cais i Lys Ynadon dan PACE, adran 43 neu 44 am warant i gadw rhywun am gyfnod hwy neu ei ymestyn cyfnod cadw, rhwng 10am a 9pm, ac os oes modd, yn*

*ystod oriau arferol y llys. Fel arfer, ni fydd hi'n ymarferol trefnu i lys eistedd yn arbennig y tu allan i'r oriau rhwng 10am a 9pm. Os yw hi'n ymddangos y bydd angen trefnu gwrandawiad arbennig y tu allan i oriau arferol y llys ond rhwng 10am a 9pm, dylid rhoi rhybudd i glerc yr ynadon a'i hysbysu o'r posibilrwydd hwn, yn ystod eisteddiad llys os yn bosib.*

*15E Ym mharagraff 15.2, mae'r swyddog sy'n gyfrifol am yr orsaf sy'n cadw'r sawl sy'n cael eu cadw, yn cynnwys uwch-arolygydd neu rhywun o statws uwch sydd, yn unol â pholisi gweithrediadol ei awdurdod heddlu neu reoliadau'r heddlu, yn gyfrifol am hyn dros dro pan nad yw'r deiliad tymor hir a benodwyd, ar ddyletswydd neu ar gael fel arall.*

*15F Nid yw darpariaethau PACE, adran 40A, sy'n caniatáu adolygiadau dros y ffôn, yn berthnasol er mwyn adolygu cyfnod cadw ar ôl cyhuddo gan swyddog y ddalfa, neu gynnal adolygiadau o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 8, Rhan II mewn achosion o derfysgaeth. Pan na fydd angen fideo gynadledda, maent yn caniatáu defnyddio ffôn i gynnal adolygiad o gyfnod cadw cyn cyhuddo. Rhaid cyflawni'r weithdrefn dan PACE, adran 42, trwy fod yno'n bersonol*

*15G Mae'r defnydd o gyfleusterau fideo-gynhadledd ar gyfer penderfyniadau ynghylch cadw yn y ddalfa o dan adran 45A, PACE yn ddarostyngedig i gyflwyno rheoliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol.*

## 16 Cyhuddo unigolion a gedwir

### *(a) Gweithredu*

16.1 Pan fo gan swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad sail resymol dros gredu nad oes digon o dystiolaeth i sicrhau ei bod yn realistig disgwyl collfarnu rhywun o gyflawni trosedd *gweler* paragraff 11.6, bydd yn cysylltu'n ddi-oed â swyddog y ddalfa, ac yn unol â'r amod canlynol, yn ei hysbysu ynghylch pwy fydd yn gyfrifol am ystyried a ddylid cyhuddo'r sawl sy'n cael eu cadw neu beidio. Gweler Nodiadau 11B ac 16A. Pan gedwir person oherwydd mwy nag un trosedd, caniateir oedi cyn hysbysu swyddog y ddalfa hyd nes bodlonir yr amodau uchod ar gyfer yr holl droseddau, ond *gweler* paragraff 11.6. Os yw'r sawl sy'n cael eu cadw yn berson ifanc, os oes ganddynt anhwylder meddwl neu os ydynt fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, bydd unrhyw gamau dilynol yn cael eu cymryd ym mhresenoldeb yr oedolyn priodol os yw'n bresennol ar y pryd. Gweler *Nodiadau 16B a 16C.*

16.1A Lle mae Arweiniad a gyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus o dan adran 37A yn weithredol, mae'n rhaid i swyddog y ddalfa gydymffurfio â'r arweiniad hynny wrth ystyried sut i weithredu wrth ddelio gyda'r sawl sy'n cael eu cadw. Gweler *Nodiadau 16AA a 16AB.*

16.1B Lle bydd swyddog y ddalfa wrth gydymffurfio ag Arweiniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau

C

Cyhoeddus yn penderfynu y dylid cyfeirio'r achos at Wasanaeth Erlyn y Goron er mwyn gwneud penderfyniad cyhuddo, dylid ymgynghori gydag erlynydd y Goron cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib. Os nad yw Erlynydd y Goron yn gallu gwneud penderfyniad cyhuddo ar y wybodaeth sydd ar gael ar y pryd, gellir rhyddhau'r sawl sy'n cael eu cadw yn ddigyhuddiad ac ar fechnïaeth (gydag amodau os oes angen) o dan adran 37(7)(a). mewn amgylchiadau o'r fath, dylid hysbysu'r sawl sy'n cael eu cadw eu bod yn cael eu rhyddhau er mwyn galluogir Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i wneud penderfyniad o dan adran 37B.

16.2 Pan gyhuddir y sawl sy'n cael eu cadw neu pan y'u hysbysir y gallent gael eu herlyn am drosedd, *gweler Nodyn 16B*, oni bai fod y cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd yn bodoli, *gweler Atodiad C*, rhoddir y rhybudd canlynol iddynt:

*"Does dim rhaid i chi ddweud dim byd. Ond gall niweidio eich amddiffyniad os na fyddwch chi'n sôn, yn awr, am rywbeth y byddwch chi'n dibynnu arno nes ymlaen yn y llys. Gall unrhyw beth yr ydych yn ei ddweud gael ei roi fel tystiolaeth."*

Mae *Atodiad C*, *paragraff 2* yn nodi amodau amgen y rhybudd i'w roi pan fo'r cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd, yn berthnasol.

16.3 Pan gyhuddir y sawl sy'n cael eu cadw, rhoddir rhybudd ysgrifenedig iddynt yn nodi manylion y drosedd ac, yn unol â *pharagraff 2.6A*, enw'r swyddog a chyfeirnod yr achos. Cyn belled ag y bo modd, nodir manylion y cyhuddiad mewn ffordd syml, ond bydd yn dangos *hefyd* yr union drosedd yn ôl y gyfraith y cyhuddir y sawl sy'n cael eu cadw ohoni. Bydd yr hysbysiad yn dechrau fel hyn:

*"Rydych chi'n cael eich cyhuddo o'r drosedd (o'r troseddau) a ddangosir isod."*

Os yw'r sawl sy'n cael eu cadw yn berson ifanc, os oes ganddo anhwylder meddwl neu os yw fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, dylid rhoi'r rhybudd i'r oedolyn priodol.

16.4 Ar ôl cyhuddo'r sawl sy'n cael eu cadw neu ar ôl eu hysbysu y gellid eu herlyn am gyflawni trosedd, os bydd swyddog yn dymuno dweud wrthynt am unrhyw ddatganiad ysgrifenedig neu gyfweliad gyda pherson arall yn ymwneud â throsedd o'r fath, bydd y sawl sy'n cael eu cadw, yn cael copi gwirioneddol o'r datganiad ysgrifenedig neu tynnir eu sylw at gynnwys cofnod y cyfweliad. Ni wneir unrhyw beth i geisio cael eu hymateb na'u sylwadau ac eithrio er mwyn:

(a) rhybuddio'r sawl sy'n cael eu cadw, *"Does dim rhaid i chi ddweud dim byd, ond gall unrhyw beth yr ydych yn ei ddweud gael ei roi fel tystiolaeth."*; ac

(b) atgoffa'r sawl sy'n cael eu cadw am eu hawl i gael cyngor cyfreithiol.

16.4A Os yw'r sawl sy'n cael eu cadw:

- yn methu darllen, gellir darllen y ddogfen iddynt
- yn berson ifanc, a chanddo anhwylder meddwl neu os yw fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, rhoddir copi i'r oedolyn priodol hefyd, neu tynnir ei sylw at gofnod y cyfweliad

16.5 Ni ellir cyfweld y sawl sy'n cael eu cadw am drosedd ar ôl eu cyhuddo o'i gyflawni, neu eu hysbysu y gellir eu herlyn am ei gyflawni, oni bai fod angen cynnal y cyfweliad:

- er mwyn atal neu leihau'r niwed neu golled i rywun arall, neu'r cyhoedd
- er mwyn dileu unrhyw amwysedd yn yr ateb neu'r datganiad blaenorol
- er budd cyfiawnder i'r sawl sy'n cael eu cadw, er mwyn iddynt gael gweld gwybodaeth yn ymwneud â'r drosedd sydd wedi ymddangos ers iddynt gael eu cyhuddo neu eu hysbysu y gallent gael eu herlyn, ac ermwyn iddynt roi eu sylwadau ar y wybodaeth yma

Cyn cynnal unrhyw gyfweliad o'r fath, bydd y cyfwelydd yn:

(a) rhybuddio'r sawl sy'n cael eu cadw, *"Does dim rhaid i chi ddweud dim byd, ond gall unrhyw beth yr ydych yn ei ddweud gael ei roi fel tystiolaeth."*;

(b) atgoffa'r sawl sy'n cael eu cadw am eu hawl i gael cyngor cyfreithiol.

Gweler *Nodyn 16B*

16.6 Rhaid cydymffurfio â darpariaethau *paragraffau 16.2* i *16.5* ym mhresenoldeb yr oedolyn priodol os yw eisoes yng ngorsaf yr heddlu. Os nad yw yng ngorsaf yr heddlu, rhaid cydymffurfio â'r darpariaethau hyn eto yn ei bresenoldeb ar ol iddo gyrraedd oni bai fod y sawl sy'n cael eu cadw wedi'u rhyddhau.

Gweler *Nodyn 16C*

16.7 Pan gyhuddir person ifanc o gyflawni trosedd a phan fo swyddog y ddalfa yn awdurdodi y dylid parhau i'w gadw ar ôl ei gyhuddo, rhaid i swyddog y ddalfa geisio gwneud trefniadau i'r person ifanc gael ei ddwyn i ofal awdurdod lleol neu gael ei gadw tan iddo ymddangos yn y llys oni bai fod swyddog y ddalfa yn tystio ei bod yn anymarferol gwneud hynny neu, yn achos person ifanc sy'n 12 oed o leiaf, nad oes lle diogel ar gael iddo, a bod risg i'r cyhoedd o niwed difrifol oherwydd y person ifanc hwnnw, yn unol â PACE, adran 38(6). Gweler *Nodyn 16D*

***(b) Dogfennau***

16.8 Gwneir cofnod o unrhyw beth a ddywedir gan y sawl sy'n cael eu cadw, ar ôl eu cyhuddo.

16.9 Cofnodir unrhyw gwestiynau a ofynnir yn ystod cyfweliad ar ôl cyhuddo rhywun, a'r atebion a roddir yn ymwneud â'r drosedd, yn llawn yn ystod y cyfweliad, ar ffurflenni at y diben hwnnw, a llofnodir y cofnod gan y sawl sy'n cael eu cadw neu, os bydd yn gwrthod, gan y cyfwelydd ac unrhyw un arall sy'n bresennol. Os gwneir recordiad sain neu weledol o'r atebion, bydd y trefniadau yng Nghôd E neu F yn berthnasol.

16.10 Os na fydd yn ymarferol gwneud trefniadau i drosglwyddo person ifanc i ofal awdurdod lleol fel nodir ym *mharagraff 16.7*, rhaid i swyddog y ddalfa gofnodi'r rhesymau am hynny a llenwi tystysgrif i'w chyflwyno gerbron y llys gyda'r person ifanc. Gweler *Nodyn 16D*

***Nodiadau arweiniad***

*16A Rhaid i swyddog y ddalfa ystyried dewisiadau amgen i erlyn o dan Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998, cerydd a rhybuddio sy'n berthnasol i bobl dan 18 oed, ac mewn arweiniad cenedlaethol ar rybuddio troseddwyr, ar gyfer pobl sy'n 18 oed a throsodd.*

*16AA Lle caiff person ei arestio o dan ddarpariaethau Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 sy'n caniatáu ailbrofi person ar ôl eu cael yn ddieuog o drosedd difrifol sydd yn drosedd gymwys a bennwyd yn Atodlen 5 y Ddeddf honno ac nad yw'n atal erlyn pellach yn rhinwedd adran 75(3) y Ddeddf honno, yna fe addasir darpariaethau cadw PACE gan wneud swyddog o safle uwch-arolygydd neu uwch nad yw wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r ymchwiliad yn gyfrifol am benderfynu a yw'r dystiolaeth yn ddigonol i gyhuddo'r person.*

*16AB Lle mae Arweiniad a gyhoeddir gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus o dan adran 37B yn weithredol, mae hawl gan swyddog y ddalfa sy'n penderfynu yn unol â'r Arweiniad bod yno dystiolaeth ddigonol i gyhuddo'r sawl a gedwir, i gadw'r person hynny am ddim hirach na'r hyn sy'n rhesymol angenrheidiol i benderfynu sut y dylid trin y person hynny o dan PACE, adran 37(7)(a) i (d), yn cynnwys ymgynghori gyda'r Erlynydd ar Ddyletswydd lle bo hynny'n briodol. Mae'r cyfnod yn ddarostyngedig i'r uchafswm cyfnod cadw cyn cyhuddo a bennwyd gan PACE, adrannau 41 i 44. Lle cyfeirir achos yn unol â'r Arweiniad at Wasanaeth Erlyn y Goron am benderfyniad, dylai swyddog y ddalfa sicrhau bod swyddog sy'n ymwneud â'r ymchwiliad yn anfon y wybodaeth a nodwyd yn yr Arweiniad at Wasanaeth Erlyn y Goron.*

*16B Nid yw rhoi rhybudd neu gyhoeddi'r Rhybudd o Fwriad i Erlyn sy'n ofynnol yn ôl Deddf Troseddwyr Traffig y Ffyrdd 1988, adran 1, yn golygu hysbysu'r sawl sy'n cael eu cadw y gellir eu herlyn am drosedd ac felly, nid yw'n rhwystro unrhyw holi pellach mewn perthynas â'r drosedd dan sylw*

*16C Nid oes unrhyw bŵer dan PACE i gadw person a gohirio camau gweithredu o dan baragraffau 16.2 i 16.5 yn unig er mwyn aros i'r oedolyn priodol gyrraedd. Ar ôl cyhuddo*

*rhywun, ni ellir gwrthod mechnïaeth iddo, neu ohirio ei ryddhau ar fechnïaeth, yn unig oherwydd nad yw'r unigolyn priodol ar gael, oni bai fod absenoldeb yr oedolyn hwnnw yn rhoi sail angenrheidiol i swyddog y ddalfa awdurdodi cadw ar ôl cyhuddo o dan PACE, adran 38.*

*16D Ac eithrio'r amgylchiadau ym mharagraff 16.7, nid yw ymddygiad na natur y drosedd a gyflawnir gan berson ifanc, yn sail i swyddog y ddalfa benderfynu ei bod hi'n anymarferol trefnu trosglwyddo'r person ifanc i ofal awdurdod lleol. Yn yr un modd, nid yw diffyg safleoedd diogel gan awdurdod lleol, yn golygu ei bod yn anymarferol trosglwyddo'r person ifanc. Ffactor yn unig yw'r ffaith a oes man diogel ar gael ar gyfer person ifanc sy'n 12 oed neu hŷn, pan na fyddai safle awdurdod lleol yn ddigonol i amddiffyn y cyhoedd rhag niwed difrifol ganddo. Mae'r ymrwymiad i drosglwyddo person ifanc i safle awdurdod lleol yr un mor berthnasol i berson ifanc a gyhuddir yn ystod y dydd, ag ar gyfer person ifanc a gedwir dros nos, yn amodol â gofyniad i ddod â'r person ifanc gerbron llys o dan PACE, adran 46.*

C

## 17 *Profi unigolion am bresenoldeb cyffuriau Dosbarth A penodedig*

### *(a) Gweithredu*

17.1 Mae'r adran hon o Côd C yn berthnasol yn unig mewn gorsafoedd heddlu dethol mewn ardaloedd heddlu lle mae'r darpariaethau ar gyfer profi am gyffuriau o dan adran 63B PACE (fel y'i diwygiwyd gan adran 5 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ac adran 7 Deddf Cyffuriau 2005) mewn grym a lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi hysbysiad i'r prif swyddog heddlu perthnasol bod trefniadau ar gyfer cymryd samplau wedi cael eu gwneud. Bydd hysbysiad o'r fath yn cynnwys naill ai ardal heddlu gyfan neu orsafoedd penodol o fewn ardal heddlu. Mae'r hysbysiad yn nodi a yw'r profi yn berthnasol i'r rhai a arestiwyd neu a gyhuddwyd neu sydd o dan 18 oed yn ôl yr angen a gall profi ddigwydd yn unig yng nghyswllt y personau a nodwyd felly yn yr hysbysiad. Ni ellir profi oni bai fod yr hysbysiad perthnasol wedi ei roi a heb ei dynnu nôl. Gweler *Nodyn 17F.*

17.2 Gellir cymryd sampl o wrin neu sampl amhersonol gan berson sy'n cael ei gadw gan yr heddlu ar gyfer dibenion canfod a oes yno unrhyw gyffur Dosbarth A penodedig yn ei gorff yn unig os ydynt wedi eu dwyn gerbron swyddog y ddalfa ac os yw:

(a) naill ai'r amod arestio, *gweler paragraff 17.3*, neu'r amod cyhuddo, *gweler paragraff 17.4* wedi eu cyflawni;

(b) yr amod oed, *gweler paragraff 17.5*, wedi'i gwrdd;

(c) yr amod hysbysu wedi'i gwrdd mewn perthynas â'r amod arestio, yr amod cyhuddo, neu'r amod oed, fel sy'n briodol. (Mae'n rhaid darparu'n benodol ar

gyfer profi ar gyhuddo a/neu arestio yn yr hysbysiad er mwyn i'r hawl fod yn gymwys. Ar ben hynny, mae'n rhaid i'r ffaith fod profi rhai dan 18 oed wedi'i awdurdodi gael ei ddarparu'n arbennig ar ei gyfer yn yr hysbysiad cyn i'r hawl i brofi unigolion o'r fath fod yn gymwys.). *Gweler paragraff 17.1*; ac os

(d) swyddog heddlu wedi gwneud cais i'r person dan sylw roi'r sampl (yr amod gwneud cais).

17.3 Mae'r amod arestio wedi'i gwrdd lle mae'r sawl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa:

(a) wedi eu harestio am drosedd ysgogol, *gweler Nodyn 17E*, ond heb eu cyhuddo o'r trosedd hwnnw; neu

(b) wedi eu harestio am unrhyw drosedd arall ond heb eu cyhuddo o'r trosedd hwnnw a bod swyddog heddlu o safle arolygydd neu uwch, â sail resymol i amau bod eu camddefnydd o unrhyw gyffur Dosbarth A penodol wedi achosi neu gyfrannu at y trosedd, wedi awdurdodi cymryd y sampl.

17.4 Mae'r amod cyhuddo wedi'i gwrdd lle mae'r sawl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa:

(a) wedi eu cyhuddo o drosedd ysgogol, neu

(b) wedi eu cyhuddo o unrhyw drosedd arall, a bod swyddog heddlu o safle arolygydd neu uwch, â sail resymol i amau bod eu camddefnydd o unrhyw gyffur Dosbarth A penodol gan y sawl sy'n cael ei gadw wedi achosi neu gyfrannu at y trosedd, wedi awdurdodi cymryd y sampl.

17.5 Mae'r amod oedran wedi'i gwrdd lle:

(a) yn achos sawl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa a arestiwyd ond na chyhuddwyd fel ym *mharagraff 17.3*, os ydynt yn 18 oed neu'n hŷn;

(b) yn achos sawl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa a gyhuddwyd fel ym *mharagraff 17.4*, os ydynt yn 14 oed neu'n hŷn.

17.6 Cyn gofyn am sampl gan y person dan sylw, mae'n rhaid i swyddog:

(a) ei hysbysu mai diben cymryd y sampl yw profi am gyffuriau o dan PACE. Diben hyn yw canfod a oes cyffur Dosbarth A penodedig yn bresennol yn ei gorff;

(b) ei rybuddio os bydd, yn dilyn cais o'r fath, yn gwrthod heb reswm da â darparu sampl y gellir ei erlyn;

(c) lle awdurdodwyd cymryd sampl gan arolygydd neu uwch yn unol â pharagraffau 17.3(b) neu 17.4(b) uchod, ei hysbysu bod awdurdod wedi'i roi a'r sail dros ganiatáu hynny;

(d) ei atgoffa o'r hawliau canlynol, y gellir eu gweithredu ar unrhyw adeg o'r cyfnod yn y ddalfa:

(i) yr hawl i roi gwybod i rywun arall ei fod wedi cael ei arestio [*gweler* adran 5];

(ii) yr hawl i ymgynghori'n breifat gyda chyfreithiwr a bod cyngor cyfreithiol am ddim ar gael [*gweler* adran 6]; a'r

(iii) hawl i gael gweld y Codau Ymarfer hyn [*gweler* adran 3].

C

17.7 Yn achos person nad yw wedi cyrraedd 17 oed ni all y canlynol ddigwydd ac eithrio ym mhresenoldeb oedolyn priodol (*gweler* Nodyn 17G)

(a) gwneud cais am sampl o dan baragraff 17.2(d) uchod;

(b) rhoi rhybudd a'r wybodaeth o dan baragraff 17.6 uchod; a

(c) chymryd y sampl.

17.8 Gellir rhoi'r awdurdod gan swyddog o safle arolygydd neu uwch o fewn *paragraff 17.3 (b)* neu 17.4(b) ar lafar neu yn ysgrifenedig, ond os yw'n cael ei roi ar lafar, mae'n rhaid ei gadarnhau cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib.

17.9 Os cymerir sampl gan y sawl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa a gafodd eu harestio am drosedd ond heb eu cyhuddo fel ym *mharagraff 17.3*, ni ellir cymryd sampl pellach yn ystod yr un cyfnod di-dor o gael eu cadw. Os yn ystod yr un cyfnod y bydd yr amod cyhuddo yn cael ei gwrdd yng nghyswllt y person hynny a gedwir yn y ddalfa, yna bydd y sampl a gymerwyd yn cael ei drin fel un a gymerwyd yn rhinwedd cwrdd â'r amod cyhuddo, *gweler paragraff 17.4*.

17.10 Gellir cadw rhywun a gedwir yn y ddalfa ac y cymerir sampl ganddynt am hyd at chwe awr o adeg cyhuddo os yw swyddog y ddalfa o'r farn resymol bod cadw'r person hwnnw yn angenrheidiol er mwyn galluogi cymryd sampl. Lle mae'r amod arestio wedi'i gwrdd, gellir parhau i gadw rhywun a gedwir yn y ddalfa y mae swyddog y ddalfa wedi penderfynu ei ryddhau yn ddigyhuddiad ar fechnïaeth, ond ni ellir gwneud hynny y tu hwnt i 24 awr o'r amser perthnasol (fel y'i diffiniwyd yn adran 41(2) PACE), i alluogi cymryd sampl.

17.11 Yn achos sawl sy'n cael ei gadw, os bydd yr amod arest ond nid yr amod cyhuddo wedi'i gwrdd mewn perthynas ag ef, *gweler paragraffau 17.3 a 17.4*, ac y dylid ei ryddhau cyn y gellid cymryd sampl, oni bai ei fod wedi parhau i gael ei gadw o ganlyniad i gael ei arestio am drosedd pellach nad yw'n cwrdd â'r amod arestio, gall sampl arall gael ei gymryd oddi wrtho unrhyw bryd o fewn 24 awr iddo gael ei arestio an y trosedd sy'n cwrdd â'r amod arestio.

**(b) Dogfennau**

17.12 Mae'n rhaid cofnodi'r canlynol yng nghofnod y ddalfa:

(a) yr awdurdodiad a'r sail dros amheuaeth os cymerir sampl yn dilyn awdurdodi hynny gan swyddog o safle arolygydd neu uwch;

(b) rhoi'r rhybudd o ganlyniadau methu darparu sampl;

(c) yr amser y rhoddwyd y sampl.

(d) amser y cyhuddiad neu, lle dibynnir ar yr amod arestio, ar adeg yr arestiad a, lle mae hynny'n berthnasol, y ffaith bod sampl wedi'i gymryd ar ôl yr arestiad ond cyn cyhuddo i'w drin fel un a gymerwyd yn rhinwedd yr amod cyhuddo, lle cafodd yr amod ei gwrdd yn yr un cyfnod o gadw di-dor. Gweler *paragraff 17.9*

**(c) Cyffredinol**

17.13 Dim ond person a ragnodwyd sy'n cael cymryd sampl. Gweler *Nodyn 17C*.

17.14 Ni ellir defnyddio grym i gymryd unrhyw sampl ar gyfer dibenion profi am gyffuriau.

17.15 Mae gan y termau "cyffur Dosbarth A" a "camddefnyddio" yr un ystyron a'r hyn a geir yn Neddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971. Mae gan "penodol" (mewn perthynas â chyffur Dosbarth A) a "trosedd ysgogol" yr un ystyron a'r hyn a geir yn Rhan III Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000.

17.16 Gyda golwg ar unrhyw samplau a gymerir:

(a) ni ellir defnyddio sampl o'r fath ar gyfer unrhyw ddiben ac eithrio canfod a oes gan y person dan sylw gyffur Dosbarth A penodedig yn bresennol yn ei gorff; ac

(b) mae'n rhaid cadw sampl o'r fath nes i'r person dan sylw wneud ei ymddangosiad cyntaf gerbron y llys.

**(d) Asesiad o gamddefnyddio cyffuriau**

17.17 O dan ddarpariaethau Rhan 3 Deddf Cyffuriau 2005, lle mae'r sawl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa wedi profi'n bositif am gyffur Dosbarth A penodol o dan adran 63B PACE fe all swyddog heddlu, ar unrhyw adeg cyn rhyddhau'r person o'r orsaf heddlu, osod gofyniad arnynt i fynychu asesiad cychwynnol o'u camddefnydd o gyffuriau gan berson cymwys addas ac aros yno tan ddiwedd yr asesiad. Gellir gosod y gofyniad yma yn unig os:

(a) yw'r person wedi cyrraedd 18 oed

(b) rhoddwyd hysbysiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r prif swyddog heddlu bod trefniadau ar gyfer cynnal asesiadau cychwynnol wedi eu gwneud ar gyfer y rhai y cymerwyd samplau ar gyfer profi oddi wrthynt yn yr orsaf heddlu lle mae'r person yn cael ei gadw yn y ddalfa.

17.18 Wrth osod gofyniad i fynychu asesiad cychwynnol mae'n rhaid i'r swyddog heddlu:

(a) hysbysu'r person o'r amser a'r lleoliad y cynhelir yr asesiad cychwynnol;

(b) esbonio y bydd y wybodaeth yma'n cael ei chadarnhau yn ysgrifenedig; a

(c) rhybuddio'r person y gallai ef/hi wynebu erlyniad os yw'n methu heb reswm da, mynychu'r asesiad cychwynnol ac aros yno tan ddiwedd yr asesiad

17.19 Lle mae swyddog heddlu wedi gosod gofyniad i fynychu asesiad cychwynnol yn unol â pharagraff 17.17, mae'n rhaid iddo/iddi, cyn rhyddhau'r person o'r ddalfa, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person sy'n:

(a) cadarnhau ei bod yn ofynnol iddo/iddi fynychu ac aros tan ddiwedd yr asesiad; a

(b) chadarnhau'r wybodaeth ac ailadrodd y rhybudd y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 17.18

17.20 Mae'n rhaid cofnodi'r canlynol yng nghofnod y ddalfa:

(a) Bod y gofyniad i fynychu asesiad cychwynnol wedi'i osod; a

(b) Bod y wybodaeth, esboniad, rhybudd a hysbysiad a roddwyd yn unol â pharagraffau 17.17 a 17.19.

17.21 Lle rhoddwyd hysbysiad yn unol â pharagraff 17.19, fe all swyddog heddlu roi hysbysiad ysgrifenedig pellach i'r person sy'n rhoi gwybod iddo/iddi am unrhyw newid yn amser neu leoliad yr asesiad cychwynnol ac sy'n ailadrodd y rhybudd y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 17.18(c).

17.22 Mae Rhan 3 Deddf Cyffuriau 2005 *hefyd* yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion heddlu i ystyried unrhyw arweiniad a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yng nghyswllt y darpariaethau ar gyfer asesu.

***Nodiadau arweiniad***

*17A Wrth rybuddio person sy'n cael cais i ddarparu sampl wrin neu sampl amhersonol yn unol â pharagraff 17.6(b), gellir defnyddio'r ffurf ganlynol o eiriau:*

*"Does dim rhaid i chi roi sampl, ond mae'n rhaid i mi eich rhybuddio y byddwch chi'n cyflawni trosedd os byddwch chi'n methu neu yn gwrthod gwneud hynny heb reswm da, ac y gellir, oherwydd hynny, eich carcharu, eich dirwyo, neu'r ddau."*

C

17B *Mae'n rhaid i sampl fod yn ddigonol ac addas. Mae sampl digonol yn ddigonol o ran maint ac ansawdd i alluogi gwneud dadansoddiad profi am gyffuriau. Mae sampl addas sydd o'i natur, yn addas ar gyfer math arbennig o ddadansoddiad cyffuriau.*

17C *Mae person a ragnodwyd ym mharagraff 17.13 yn golygu rhywun a ragnodwyd mewn rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 63B(6) Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 1984. [Mae'r rheoliadau ar hyn o bryd wedi eu cynnwys yn rheoliad SI 2001 Rhif 2645, Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 1984. Rheoliadau (Profi Personau sy'n Cael Eu Cadw gan yr Heddlu am Gyffuriau) (Personau a Ragnodwyd) 2001.]*

17D *Mae cadw'r sampl ym mharagraff 17.16(b) yn caniatáu ar gyfer anfon y sampl i'w brofi a'i ddadansoddi os yw'r sawl sy'n cael ei gadw yn cwestiynu'r prawf. Ond ni ellir defnyddio samplau o'r fath, a 'r wybodaeth a geir ohonynt, wedi hynny wrth ymchwilio i unrhyw drosedd neu fel tystiolaeth yn erbyn y person y cymerwyd samplau ganddynt.*

17E *Mae troseddau ysgogol yn cynnwys:*

1. *Troseddau o dan ddarpariaethau canlynol Deddf Dwyn 1968:*

   *adran 1 (dwyn)*

   *adran 8 (lladrad)*

   *adran 9 (byrgleriaeth)*

   *adran 10 (byrgleriaeth ddwys)*

   *adran 12 (cymryd cerbyd modur neu gerbyd teithio arall heb awdurdod)*

   *adran 12A (dwysgipio cerbyd)*

   *adran 15 (meddiannu eiddo trwy dwyll)*

   *adran 22 (trin nwyddau a gafodd eu dwyn)adran 25 (mynd ag offer yn barod i ddwyn ac ati)*

2. *Troseddau o dan ddarpariaethau canlynol Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, oscyflawnir trosedd mewn perthynas â chyffur Dosbarth A penodedig:*

   *adran 4 (cyfyngu ar gynhyrchu a chyflenwi cyffur rheoledig)*

   *adran 5(2) (bod ym meddiant cyffur rheoledig)*

   *adran 5(3) (bod ym meddiant cyffur rheoledig gyda'r bwriad o gyflenwi)*

3. *Trosedd o dan adran 1(1) Deddf Ymgeisiau Troseddol 1981 os cyflawnir yng*

*nghyswllt trosedd o dan unrhyw un o ddarpariaethau canlynol Deddf Dwyn 1968:*

*adran 1 (dwyn)*

*adran 8 (lladrad)*

*adran 9 (byrgleriaeth)*

*adran 15 (derbyn eiddo trwy dwyll)*

*adran 22 (trin nwyddau a gafodd eu dwyn)*

*4. Troseddau o dan ddarpariaethau canlynol Deddf Crwydradaeth 1824:*

*adran 3 (cardota)*

*adran 4 (cardota parhaus)*

*17F Mae'r pŵer i gymryd samplau yn ddarostyngedig i hysbysiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol bod trefniadau priodol ar gyfer cymryd samplau wedi'i wneud ar gyfer ardal yr heddlu gyfan neu ar gyfer yr orsaf heddlu benodol dan sylw pa un bynnag o'r canlynol a nodir yn yr hysbysiad:*

*(a) unigolion y mae'r amod arestio wedi'I gyflawni mewn perthynas â hwy;*

*(b) unigolion y mae'r amod cyhuddo wedi'I gyflwani mewn perthynas â hwy;*

*(c) unigolion nad ydynt eto yn 18 oed.*

*Nodyn: Bernir bod hysbysiad wedi'i roi at ddibenion yr amod cyhuddo mewn perthynas ag ardal heddlu, os oedd profi (ar gyhuddo) o dan adran 63B(2) PACE yn weithredol yn union cyn y daeth adran 7 Deddf Cyffuriau 2005 i rym; ac ar gyfer dibenion yr amod oedran, mewn perthynas ag ardal heddlu neu orsaf heddlu, os oedd hysbysiad bod trefniadau wedi eu gwneud ar gyfer cymryd samplau oddi wrth unigolion o dan 18 oed (rhai rhwng 14-17) wedi eu rhoi a heb eu tynnu yn ôl, yn union cyn y diwrnod hwnnw.*

*17G Mae oedolyn priodol ym mharagraff 17.5 yn golygu -*

*(a) rhiant neu warcheidwad y person neu, os yw yng ngofal awdurdod lleol neu gorff/mudiad gwirfoddol, person sy'n cynrychioli'r awdurdod neu'r corff/mudiad hynny; neu*

*(b) yn Lloegr, gweithiwr cymdeithasol awdurdod lleol neu, yng Nghymru, gweithiwr cymdeithasol adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol ; neu*

*(c) os nad oes unrhyw berson sy'n dod o dan (a) neu (b) uchod, unrhyw berson cyfrifol 18 oed neu hŷn nad yw'n swyddog heddlu neu'n berson a gyflogir gan yr heddlu.*

C

## ATODIAD A – NOETH-CHWILIADAU AC ARCHWILIADAU PERSONOL

### A Chwiliad personol

1. Mae chwiliad personol yn cynnwys archwiliad corfforol o agorfeydd corff rhywun ac eithrio'r geg. Mae natur ymwthgar archwiliadau o'r fath yn golygu na ddylid byth ddibrisio'r risgiau gwirioneddol a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig ag archwiliadau personol.

***(a) Gweithredu***

2. Gellir archwilio agorfeydd y corff ac eithrio'r geg yn unig:

   (a) os bydd swyddog o safle arolygydd neu uwch, â sail resymol i gredu bod y person wedi cuddio'r canlynol arnynt eu hunain:

      (i) unrhyw beth y gallent ei ddefnyddio i achosi niwed corfforol i'w hunain neu eraill yn yr orsaf; neu

      (ii) cyffuriau Dosbarth A y maent yn bwriadu ei gyflenwi i rywun arall neu eu hallforio

   ac os oes gan y swyddog sail rhesymol i gredu maichwiliad personol yw'r unig ffordd o dynnu'r eitemau hynny; ac

   (b) os yw'r archwiliad yn digwydd o dan baragraff 2(a)(ii) (archwiliad trosedd cyffuriau), lle cafwyd caniatâd priodol ysgrifenedig y sawl sy'n cael eu cadw.

2A. Cyn i'r chwiliad gychwyn mae'n rhaid i swyddog heddlu, swyddog cadw dynodedig neu swyddog staff y ddalfa, hysbysu'r sawl sy'n cael eu cadw:

   (a) bod awdurdod wedi'i roi i gynnal y chwiliad;

   (b) ar ba sail yr awdurdodwyd y chwiliad a'r sail dros gredu na ellir tynnu'r eitem heb gynnal chwiliad personol.

2B. Cyn y gofynnir i'r sawl sy'n cael eu cadw i roi caniatâd priodol am chwiliad o dan baragraff 2(a)(ii) (chwiliad yn gysylltiedig â throsedd cyffuriau), mae'n rhaid eu rhybuddio os gwrthodant heb achos da y gallai hynny niweidio eu hachos pe bai'r achos yn dod gerbron llys, *gweler* Nodyn A6. Gellir rhoi'r rhybudd hyn gan swyddog heddlu neu aelod o staff yr heddlu. Mae'n rhaid atgoffa rhywun sy'n cael eu cadw sydd heb gynrychiolaeth cyfreithiol, o'u hawl i gyngor cyfreithiol am ddim, *gweler* Côd C, paragraff 6.5, gan nodi hynny yng nghofnod y ddalfa.

3. Yr unig rai a all gyflawni chwiliad personol yw ymarferwr meddygol cofrestredig neu

nyrs gofrestredig, oni bai fod swyddog o safle arolygydd o leiaf, o'r farn nad yw hyn yn ymarferol a bod y chwiliad i'w gynnal o dan baragraff *2(a)(i)*, lle gall swyddog heddlu gyflawni'r chwiliad. Gweler *Nodiadau A1 i 5*

3A. Yr unig adeg y dylid ystyried unrhyw fwriad i gynnal chwiliad o dan baragraff *2(a)(i)* gan rywun nad yw'n ymarferwr meddygol cofrestredig neu'n nyrs gofrestredig, yw pan nad oes dewis arall ar gael a phan fo'r swyddog awdurdodi yn fodlon bod y risg o adael i'r eitem barhau gyda'r sawl sy'n cael eu cadw, yn fwy na'r risg o'i dynnu oddi yno. Gweler *Nodiadau A1 i A5*



4. Gellir cynnal chwiliad personol dan:

- *baragraff 2(a)(i)* mewn ysbyty, meddygfa, adeilad meddygol arall neu orsaf heddlu yn unig
- *paragraff 2(a)(i)* mewn ysbyty, meddygfa neu adeilad meddygol arall ac mae'n rhaid i ymarferwr meddygol cofrestredig neu nyrs cofrestredig gynnal chwiliad o'r fath

5. Rhaid cynnal chwiliad personol ar berson ifanc neu berson sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, mewn gorsaf heddlu ym mhresenoldeb oedolyn priodol o'r un rhyw, oni bai fod y sawl sy'n cael eu cadw yn gofyn yn benodol am oedolyn arbennig o'r rhyw arall sydd ar gael yn hwylus. Yn achos person ifanc, gellir cynnal y chwiliad yn absenoldeb yr oedolyn priodol os yw'r person ifanc yn datgan ym mhresenoldeb yr oedolyn priodol, nad yw'n dymuno i'r oedolyn fod yn bresennol yn ystod y chwiliad a bod yr oedolyn yn cytuno. Gwneir cofnod o benderfyniad y person ifanc ac fe'i llofnodir gan yr oedolyn priodol.

6. Pan gynhelir chwiliad personol o dan *baragraff 2(a)(i)* gan swyddog heddlu, rhaid i'r swyddog fod o'r un rhyw â'r sawl sy'n cael eu cadw. Rhaid i o leiaf ddau berson, ac eithrio'r sawl sy'n cael eu cadw, fod yn bresennol yn ystod yr archwiliad. Yn unol â *pharagraff 5*, ni ddylai unrhyw un o'r rhyw arall nad yw'n ymarferwr meddygol neu'n nyrs, fod yn bresennol, ac ni fydd unrhyw un nad oes angen iddynt fod yno, yn bresennol ychwaith. Cynhelir y chwiliad gan ystyried pa mor sensitif ac agored i niwed yw'r sawl sy'n cael eu cadw.

### *(b) Dogfennau*

7. Yn achos archwiliad personol, cofnodir ycanlynol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol, yng nghofnod y ddalfa y sawl sy'n cael eu cadw:

(a) ar gyfer archwiliadau o dan paragraffau 2(a)(i) a (ii).

- yr awdurdodiad i gynnal y chwiliad

C

- y sail dros roi'r awdurdodiad
- y sail dros gredu na ellid tynnu'r eitem heb gynnal chwiliad personol
- pa rannau o gorff y sawl sy'n cael eu cadw a archwiliwyd
- pwy gynhaliodd yr archwiliad
- pwy oedd yn bresennol
- y canlyniad.

(b) ar gyfer archwiliadau o dan baragraff 2(a)(ii):

- yr awdurdod i gynnal yr archwiliad;
- sail y swyddog dros awdurdodi hynny;
- rhoi'r rhybudd sy'n ofynnol gan baragraff 2B;
- y ffaith bod caniatâd priodol wedi'i roi neu (yn unol â'r hyn ddigwyddodd) ei wrthod, ac os gwrthodwyd caniatâd y rheswm a roddwyd am hynny (os rhoddwyd un).

8. Os cynhelir chwiliad personol gan swyddog heddlu, rhaid cofnodi'r rheswm pam yr oedd hi'n anymarferol i ymarferwr meddygol cofrestredig neu nyrs gofrestredig, ei gynnal.

**B Noeth-chwiliad**

9. Mae noeth-chwiliad yn golygu chwiliad lle bydd mwy na dillad allanol yn cael eu diosg. Yn y Côd yma, mae dillad allanol yn cynnwys esgidiau a sanau.

***(a) Gweithredu***

10. Yr unig adeg y gellir cynnal noeth-chwiliad yw os bernir bod angen ei gynnal er mwyn cael gafael ar eitem na fyddai gan y sawl sy'n cael eu cadw, hawl i'w gadw, a phan fo'r swyddog o'r farn rhesymol y gallai'r sawl sy'n cael eu cadw, fod wedi cuddio eitem o'r fath. Ni chynhelir noeth-chwiliadau dan y drefn arferol os na cheir unrhyw reswm dros gredu bod eitemau wedi cael eu cuddio.

**Cynnal noeth-chwiliadau**

11. Pan gynhelir noeth-chwiliadau:

(a) rhaid i swyddog yr heddlu sy'n cynnal noeth-chwiliad fod o'r un rhyw â'r sawl sy'n cael eu cadw;

(b) cynhelir y noeth-chwiliad mewn man lle na all unrhyw un arall nad oes angen iddynt fod yn bresennol, nac unrhyw un o'r rhyw arall ac eithrio oedolyn priodol y mae'r sawl sy'n cael eu cadw wedi gofyn yn benodol iddynt fod yn bresennol, weld y sawl sy'n cael eu cadw;

(c) ac eithrio mewn achosion brys, pan fo risg o berygl difrifol i'r sawl sy'n cael eu cadw neu i eraill, pan fo noeth-chwiliad yn golygu y bydd rhannau preifat o'r corff yn y golwg, rhaid i o leiaf ddau berson fod yn bresennol ar wahân i'r sawl sy'n cael eu cadw, ac os yw'r person dan sylw yn berson ifanc neu os oes ganddo anhwylder meddwl neu os yw fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, rhaid i un o'r oedolion fod yn oedolyn priodol y person dan sylw. Ac eithrio mewn achosion brys megis y rhai a nodir uchod, gellir cynnal chwiliad ar berson ifanc yn absenoldeb yr oedolyn priodol os yw'r person ifanc yn datgan ym mhresenoldeb yr oedolyn priodol, nad yw'n dymuno i'r oedolyn fod yn bresennol yn ystod y chwiliad a bod yr oedolyn yn cytuno. Gwneir cofnod o benderfyniad y person ifanc ac fe'i llofnodir gan yr oedolyn priodol. Caniateir i fwy na dau berson fod yn bresennol, ac eithrio'r oedolyn priodol, yn yr amgylchiadau mwyaf eithriadol yn unig;

(d) cynhelir y chwiliad gan ystyried pa mor sensitif ac agored i niwed yw'r sawl sy'n cael eu cadw yn yr amgylchiadau hyn, a gwneir pob ymdrech resymol i sicrhau cydweithrediad y sawl sy'n cael eu cadw a lleihau unrhyw embaras gymaint ag y bo modd. Fel arfer, ni fydd yn rhaid i unigolion a gedwir ac y cynhelir chwiliad arnynt, ddiosg eu holl dillad ar yr un pryd, e.e. dylid caniatáu i berson dynnu dillad o'r canol i fyny a'u hail wisgo, cyn diosg unrhyw ddillad pellach;

(e) efallai y bydd yn rhaid i'r sawl sy'n cael eu cadw ddal eu breichiau i fyny neu sefyll gyda'u coesau ar led a phlygu ymlaen os oes angen gwneud hynny i gynorthwyo'r chwiliad, er mwyn cynnal chwiliad gweledol o'r mannau cenhedlol a rhefrol, ar yr amod na chyffyrddir ag unrhyw un o agorfeydd y corff;

(f) os gwelir unrhyw eitemau, gofynnir i'r sawl sy'n cael eu cadw, eu rhoi i'r heddlu. Os ceir unrhyw eitemau mewn unrhyw un o agorfeydd y corff, ac eithrio'r geg, ac os bydd y sawl sy'n cael eu cadw yn gwrthod eu rhoi i'r heddlu, rhaid cynnal chwiliad personol er mwyn cael gafael arnynt, ac mae'n rhaid cynnal chwiliad personol o'r fath yn unol â *Rhan A*;

(g) cynhelir noeth-chwiliad mor gyflym ag y bo modd, gan roi'r cyfle i'r sawl sy'n cael eu cadw i wisgo cyn gynted ag y bydd y chwiliad wedi'i gwblhau.

***(b) Dogfennau***

12. Gwneir cofnod yn y cofnod cadw y cynhaliwyd noeth-chwiliad, gan gynnwys y rheswm

pam yr ystyriwyd bod angen ei gynnal, y rhai oedd yn bresennol ac unrhyw ganlyniad.

***Nodiadau arweiniad***

*A1 Cyn awdurdodi unrhyw chwiliad personol, rhaid i'r swyddog awdurdodi wneud pob ymdrech rhesymol i berswadio'r sawl sy'n cael eu cadw, i roi'r eitem iddo heb orfod cynnal archwiliad. Os bydd y sawl sy'n cael eu cadw yn cytuno, dylid gofyn i ymarferwr meddygol cofrestredig neu nyrs gofrestredig i asesu'r risgiau cysylltiedig pan fo modd a bod yn bresennol, os oes angen er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n cael eu cadw.*

*A2 Os na fydd y sawl sy'n cael eu cadw yn cytuno rhoi'r eitem i'r swyddog heb orfod cynnal archwiliad, rhaid i'r swyddog awdurdodi adolygu'r holl ffactorau perthnasol yn ofalus cyn awdurdodi chwiliad personol. Yn arbennig, rhaid i'r swyddog ystyried a yw'r rhesymau dros gredu y gallai eitem fod wedi cael ei guddio, yn rhesymol.*

*A3 Os rhoddir awdurdod i gynnal chwiliad o dan baragraff 2(a)(i), ymgynghorir ag ymarferwr meddygol cofrestredig neu nyrs gofrestredig lle bynnag y bo modd. Dylid rhagdybio y cynhelir y chwiliad gan ymarferwr meddygol cofrestredig neu nyrs gofrestredig ac mae'n rhaid i'r swyddog awdurdodi wneud pob ymdrech rhesymol i ddarbwyllo'r sawl sy'n cael eu cadw i ganiatáu i'r ymarferwr meddygol neu'r nyrs i gynnal yr archwiliad.*

*A4 Yr unig adeg y dylid awdurdodi heddwas i gynnal chwiliad yw pan na fydd dewis arall a phan fo pob llwybr arall wedi methu. Dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r swyddog awdurdodi fod yn fodlon y gallai'r sawl sy'n cael eu cadw, ddefnyddio'r eitem ar gyfer un neu fwy o'r dibenion ym mharagraff 2(a) neu fwy, a bod yr anaf corfforol a achosir, yn debygol o fod yn ddigon difrifol i gyfiawnhau awdurdodi heddwas i gynnal yr archwiliad.*

*A5 Os yw swyddog yn amau a ddylai awdurdodi chwiliad personol gan heddwas, dylai'r swyddog ofyn am gyngor swyddog o safle uwch-arolygydd neu uwch.*

*A6 Wrth rybuddio'r sawl sy'n cael eu cadw y gofynnir iddynt am eu caniatâd i chwiliad personol yn gysylltiedig â throsedd cyffuriau, fel ym mharagraff 2B, gellir defnyddio'r ffurf ganlynol o eiriau:*

*"Nid oes rhaid i chi roi caniatâd i gael eich archwilio, ond mae'n rhaid i mi eich rhybuddio os gwrthodwch heb reswm da, y gallai eich penderfyniad i wrthod wneud niwed i'ch achos pe bai'n dod gerbron llys."*

C

## ATODIAD B – GOHIRIO WRTH HYSBYSU RHYWUN EI FOD YN CAEL EI ARESTIO NEU ROI'R CYFLE IDDO GAEL CYNGOR CYFREITHIOL

### A Pobl a gedwir dan PACE

1. Gellir gohirio ymarfer yr hawliau yn *Adran 5* neu *Adran 6*, neu'r ddau, os yw'r person sy'n cael ei gadw gan yr heddlu yn y ddalfa, fel yn PACE, adran 118(2), mewn cysylltiad â throsedd dditiadwy, os nad yw wedi cael ei gyhuddo eto o gyflawni trosedd a bod gan swyddog o safle uwch-arolygydd neu uwch, neu safle arolygydd neu uwch yn unig ar gyfer yr hawliau yn *Adran 5*, sail resymol dros gredu y bydd eu hymarfer yn:

    (i) arwain at:

    - ymyrryd â thystiolaeth sy'n ymwneud â throsedd dditiadwy, neu niweidio tystiolaeth o'r fath; neu
    - ymyrryd â phobl arall, neu beri niwed corfforol iddynt; neu

    (ii) arwain at hysbysu eraill yr amheuir iddynt gyflawni trosedd dditiadwy, ond nad ydynt wedi cael eu harestio hyd yma; neu

    (iii) amharu ar y gwaith o adennill eiddo a gafwyd o ganlyniad i gomisiynu trosedd o'r fath.

2. Gellir oedi'r hawliau hyn *hefyd* os oes gan y swyddog sail resymol i gredu'r canlynol:

    (i) bod y sawl a gadwyd am drosedd dditiadwy wedi ymelwa o'i ymddygiad troseddol (penderfynwyd yn unol â Rhan 2 Deddf Elw Troseddau 2002), a

    (ii) bydd arfer y naill neu'r llall o'r yr hawliau hynny yn amharu ar adennill gwerth yr eiddo sy'n cyfateb i'r ymelwa hynny.

3. Yr unig adeg y gellir rhoi awdurdod i ohirio hawl y sawl sy'n cael eu cadw i gysylltu â chyfreithiwr, yw pan fo gan y swyddog awdurdodi sail resymol dros gredu y bydd y cyfreithiwr y mae'r sawl sy'n cael eu cadw wedi'i ddewis i ymgynghori ag ef, yn trosglwyddo neges gan y sawl sy'n cael eu cadw, neu'n ymddwyn mewn unrhyw ffordd arall a fyddai'n arwain at unrhyw un o'r goblygiadau a nodir o dan *baragraffau 1* neu *2*, yn anfwriadol neu fel arall. Dan yr amgylchiadau hyn, rhaid rhoi'r cyfle i'r sawl sy'n cael eu cadw, ddewis cyfreithiwr arall. Gweler *Nodyn B3*

4. Os bydd y sawl sy'n cael eu cadw yn dymuno gweld cyfreithiwr, ni ellir gwrthod mynediad at gyfreithiwr ar y sail y gallai gynghori'r sawl sy'n cael eu cadw i beidio ag ateb cwestiynau neu os gofynnwyd i'r cyfreithiwr fynychu gorsaf yr heddlu gan rywun arall yn gyntaf. Yn yr achos olaf, rhaid hysbysu'r sawl sy'n cael eu cadw, bod y cyfreithiwr wedi

dod i orsaf yr heddlu ar gais rhywun arall, a rhaid gofyn iddynt lofnodi'r cofnod cadw er mwyn nodi a ydynt yn dymuno gweld cyfreithiwr neu beidio.

5. Nid yw'r ffaith y gellir bodloni'r amodau dros oedi hysbysu rhywun ei fod yn cael ei arestio, yn golygu yn awtomatig bod yr amodau dros oedi gael mynediad at gyngor cyfreithiol *hefyd* wedi cael eu bodloni.

6. Gellir gohirio'r hawliau hyn yn unig cyn belled ag y bo'r rhesymau'n bodoli ac nid am dros 36 awr mewn unrhyw achos ar ôl yr amser perthnasol fel nodir yn PACE, adran 41. Os na fydd y rhesymau'n bodoli mwyach yn ystod y cyfnod hwn, rhaid gofyn i'r sawl sy'n cael eu cadw cyn gynted ag y bo modd, a yw'n dymuno ymarfer y naill hawl neu'r llall, rhaid nodi hyn yn y cofnod cadw, a chymryd camau yn unol ag adran berthnasol y Côd.

7. Rhaid rhoi caniatâd i berson a gedwir i ymgynghori â chyfreithiwr am gyfnod rhesymol cyn unrhyw wrandawiad llys.

**B Pobl a gedwir o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000**

8. Gellir gohirio gweithredu'r hawliau a nodir yn *adran 5* neu *6* os cedwir y person o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000, adran 41 neu Atodlen 7, os nad yw wedi cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd eto ac os oes gan swyddog o safle uwch-arolygydd neu uwch, sail resymol dros gredu y bydd gweithredu y naill neu'r llall o'r ddwy hawl yn:

(i) arwain at:

- ymyrryd â thystiolaeth sy'n ymwneud â throsedd dditiadwy, neu niweidio tystiolaeth o'r fath; neu
- ymyrryd â phobl eraill, neu beri niwed corfforol iddynt; neu

(ii) arwain at hysbysu eraill yr amheuir iddynt gyflawni trosedd dditiadwy, ond nad ydynt wedi cael eu harestio eto; neu

(iii) amharu ar y gwaith o adennill eiddo:

- a gafwyd o ganlyniad i gomisiynu trosedd o'r fath; neu
- pan ellir gwneud gorchymyn fforffedu amdano dan adran 23 y Ddeddf honno;

(iv) arwain at amharu ar y gwaith o gasglu gwybodaeth am y weithred o gomisiynu, paratoi neu achosi achosion terfysgol; neu

(v) trwy rybuddio unrhyw un arall, ei gwneud hi'n fwy anodd atal digwyddiad terfysgol neu sicrhau bod unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r weithred o gomisiynu, paratoi neu achosi digwyddiad terfysgol, yn cael ei ddal, ei erlyn neu ei ddyfarnu'n euog.

9. Gellir gohirio'r hawliau hyn *hefyd* os oes gan y swyddog sail resymol dros gredu bod:

   (i) y sawl sy'n cael eu cadw wedi ymelwa o'i ymddygiad troseddol (penderfynwyd yn unol â Rhan 2 Deddf Elw Troseddau 2002), a

   (ii) y bydd gweithredu'r naill hawl neu'r llall yn amharu ar y gwaith o adennill gwerth yr ymelwa hynny.

10. Yn yr achosion hyn, bydd *paragraffau 3 (gan ystyried y goblygiadau a nodir ym mharagraffau 8 a 9)*, *4* a *5* yn berthnasol.

11. Gellir gohirio'r hawliau hyn cyn belled ag y bo angen eu gohirio, ond ni ellir eu gohirio am fwy na 48 awr ar ôl arestio rhywun o dan adran 41, neu o ddechau ei chwiliad os yw'n cael ei gadw o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 7 wrth ei arestio o dan adran 41. Os na fydd y sail uchod yn parhau i fod yn berthnasol yn ystod yr adeg hwn, rhaid gofyn i'r sawl sy'n cael eu cadw cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol, a yw'n dymuno ymarfer y naill hawl neu'r llall, gan nodi'r deunydd angenrheidiol yn y cofnod cadw a chymryd camau yn unol ag adran berthnasol y Côd yma.

12. Yn yr achos hwn, bydd *paragraff 7* yn berthnasol.

## C Dogfennau

13. Cofnodir y sail dros weithredu dan yr Atodiad hwn a hysbysir y sawl sy'n cael eu cadw amdani cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

14. Rhaid cofnodi unrhyw ateb a roddir gan y sawl sy'n cael eu cadw o dan *baragraffau 6* neu *11* a gofyn i'r sawl sy'n cael eu cadw gymeradwyo'r cofnod o ran a yw'n dymuno cael cyngor cyfreithiol ar yr adeg yma neu beidio.

## D Rhybudd a rhybuddion arbennig

15. Pan gyfwelir person dan amheuaeth sy'n cael ei gadw mewn gorsaf heddlu yn ystod unrhyw gyfnod lle gohiriwyd mynediad at gyngor cyfreithiol dan yr Atodiad hwn, ni all y llys na'r rheithgor ddod i gasgliadau niweidiol am ddistawrwydd y person hwnnw.

***Nodiadau arweiniad***

*B1 Hyd yn oed os bydd Atodiad B yn berthnasol yn achos person ifanc, neu rywun sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed meddyliol, dylid cymryd unrhyw gamau i hysbysu'r oedolyn priodol a'r person sy'n gyfrifol am les person ifanc os yw hwnnw'n rhywun gwahanol, fel nodir ym mharagraff 3.13 a 3.15.*

C

*B2 Yn achos dinasyddion gwledydd y Gymanwlad a dinasyddion gwledydd tramor, gweler Nodyn 7A.*

*B3 Mae penderfyniad i ohirio mynediad at gyfreithiwr penodol, yn debygol o fod yn ddigwyddiad prin ac yn cael ei wneud pan gellir dangos bod y sawl sydd dan amheuaeth yn gallu camarwain y cyfreithiwr hwnnw a bod mwy na risg sylweddol y bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn llwyddo i beri gwybodaeth i gael ei throsglwyddo a fydd yn arwain at un neu fwy o'r canlyniadau a nodwyd.*

C

## ATODIAD C – CYFYNGIAD AR DDOD I GASGLIADAU NIWEIDIOL OHERWYDD DISTAWRWYDD A THELERAU'R RHYBUDD PAN FO'R CYFYNGIAD YN BERTHNASOL

***(a) Y cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd***

1. Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, adrannau 34, 36 a 37, fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999, adran 58, yn disgrifio'r amodau lle gellir dod i gasgliadau niweidiol pan fo person yn methu neu'n gwrthod dweud unrhyw beth am ei ymwneud â'r drosedd wrth gael ei gyfweld, ar ôl cael ei gyhuddo neu ei hysbysu y gallai gael ei erlyn. Mae'r darpariaethau hyn yn ddibynnol ar gyfyngiad blaenaf ynghylch gallu llys neu reithgor i ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd person. Mae'r cyfyngiad hwn yn berthnasol i:

   (a) unrhyw un sy'n cael ei gadw mewn gorsaf heddlu, *gweler Nodyn 10C* sydd wedi, cyn cael ei gyfweld, *gweler adran 11*, neu gael ei gyhuddo neu ei hysbysu y gellir ei erlyn, *gweler adran 16*:

      (i) sydd wedi gofyn am gyngor cyfreithiol, *gweler adran 6*, *paragraff 6.1*;

      (ii) na chafodd gyfle i ymgynghori â chyfreithiwr, gan gynnwys y cyfreithiwr ar ddyletswydd, fel nodir yn y Côd yma; ac

      (iii) nad yw wedi newid ei feddwl ynghylch cael cyngor cyfreithiol, *gweler adran 6*, *paragraff 6.6(d)*

   Sylwer bydd yr amod yn (ii) yn

   ~ berthnasol pan fydd person sy'n cael ei gadw ac sydd wedi gofyn am gyngor cyfreithiol, yn cael ei gyfweld cyn siarad â chyfreithiwr fel nodir yn *adran 6*, *paragraff 6.6(a)* neu *(b)*.

   ~ amherthnasol os bydd y person sy'n cael ei gadw yn penderfynu peidio gofyn am y cyfreithiwr ar ddyletswydd, *gweler adran 6*, *paragraffau 6.6(c)* a *(d)*.

   (b) unrhyw berson a gyhuddwyd o gyflawni trosedd, neu a hysbyswyd y gellir ei erlyn am gyflawni trosedd, sydd:

      (i) wedi cael gwybod am ddatganiad ysgrifenedig a wnaethpwyd gan berson arall neu gynnwys cyfweliad gyda pherson arall sy'n berthnasol i'r drosedd dan sylw, *gweler adran 16*, *paragraffau 16.4*;

      (ii) yn cael ei gyfweld ynghylch y drosedd dan sylw, *gweler adran 16*, *paragraff 16.5*; neu

(iii) sy'n gwneud datganiad ysgrifenedig ynghylch y drosedd dan sylw, *gweler Atodiad D paragraffau 4* a *9*.

***(b) Amodau'r rhybudd pan fo'r cyfyngiad yn berthnasol***

2. Pan fo gofyniad i roi rhybudd yn codi ar adeg pan fo'r cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd yn berthnasol, bydd y rhybudd fel a ganlyn:

*"Does dim rhaid i chi ddweud dim byd, ond gall unrhyw beth yr ydych chi'n ei ddweud gael ei roi fel tystiolaeth."*

3. Pan fo'r cyfyngiad naill ai'n dechrau dod i rym neu'n gorffen bod yn berthnasol ar ôl rhoi rhybudd eisoes, defnyddir y termau priodol i ailrybuddio'r person. Esbonnir y sefyllfa sydd wedi newid ynghylch dod i gasgliadau niweidiol ac nad yw'r rhybudd blaenorol yn berthnasol mwyach, i'r sawl sy'n cael eu cadw, *hefyd* mewn iaith gyffredin. Gweler *Nodyn C2*

***Nodiadau arweiniad***

*C1 Nid yw'r cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd, yn berthnasol i berson nad yw wedi cael ei gadw ac na ellir felly ei atal rhag gofyn am gyngor cyfreithiol os yw'n dymuno, gweler paragraffau 10.2 a 3.15.*

*C2 Awgrymir y canlynol fel fframwaith er mwyn helpu i esbonio'r newidiadau yn y sefyllfa gyda golwg ar ddod i gasgliadau niweidiol os bydd y cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd:*

*(a) yn cychwyn bod yn berthnasol:*

*"Dyw'r rhybudd a gafodd ei roi i chi yn gynharach ddim yn berthnasol mwyach. Mae hyn oherwydd eich bod chi, ar ôl cael y rhybudd hwnnw:*

*(i) wedi gofyn am gael siarad gyda chyfreithiwr ond heb gael cyfle eto i siarad gyda chyfreithiwr; Gweler paragraff 1(a); neu*

*(ii) wedi cael eich cyhuddo o/wedi cael eich hysbysu y gellir eich erlyn. Gweler paragraff 1(b).*

*"Mae hyn yn golygu o hyn ymlaen na ellir dod i gasgliadau niweidiol yn y llys ac na fydd eich amddiffyniad yn cael ei niweidio, dim ond oherwydd eich bod chi'n dewis peidio â dweud dim byd. Gwrandewch yn ofalus, os gwelwch yn dda, ar y rhybudd rwy'n mynd i'w roi i chi oherwydd hwn fydd yn berthnasol o hyn ymlaen. Byddwch chi'n gweld na fydd yn dweud dim byd am niwed yn cael ei wneud i'ch amddiffyniad."*

*(b)* *yn peidio bod yn berthnasol cyn neu ar yr adeg y cyhuddir y person neu ei hysbysir y gellir ei erlyn, gweler paragraff 1(a);*

*"Dyw'r rhybudd a gafodd ei roi i chi yn gynharach ddim yn berthnasol mwyach. Mae hyn oherwydd eich bod chi, ar ôl cael y rhybudd hwnnw, wedi cael cyfle i siarad gyda chyfreithiwr. Gwrandewch yn ofalus, os gwelwch yn dda, ar y rhybudd rwy'n mynd i'w roi i chi oherwydd hwnnw fydd yn berthnasol o hyn ymlaen. Mae'n esbonio sut y gall eich amddiffyniad gael ei effeithio os byddwch chi'n dewis peidio â dweud dim byd."*

C

**Atodiad D – Datganiadau ysgrifenedig ar ôl rhoi Rhybudd**

***(a) A ysgrifennir gan y person a rybuddiwyd***

1. Estynnir gwahoddiad i berson ysgrifennu'r hyn y mae'n dymuno'i ddweud bob amser.

2. Gofynnir i berson nad yw wedi cael ei gyhuddo o unrhyw drosedd, neu ei hysbysu y gellir ei erlyn am unrhyw drosedd, y mae'r datganiad y mae'n dymuno'i ysgrifennu yn ymwneud â hi:

   (a) oni bai y gwneir y datganiad ar adeg pan fo'r cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd yn berthnasol, *gweler Atodiad C*, i ysgrifennu a llofnodi'r canlynol cyn ysgrifennu'r hyn y mae'n dymuno'i ddweud:

   *"Rwy'n gwneud y datganiad hwn o'm gwirfodd. Rwy'n deall nad oes rhaid i mi ddweud dim byd ond y gall niweidio fy amddiffyniad os na fyddaf yn sôn, wrth gael fy holi, am rywbeth y byddaf yn dibynnu arno nes ymlaen yn y llys. Gall y datganiad hwn gael ei roi fel tystiolaeth.";*

   (b) os gwneir y datganiad ar adeg pan fo'r cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd yn bodoli, i ysgrifennu a llofnodi'r canlynol cyn ysgrifennu'r hyn y mae'n dymuno'i ddweud;

   *"Rwy'n gwneud y datganiad hwn o'm gwirfodd. Rwy'n deall nad oes rhaid i mi ddweud dim byd. Gall y datganiad hwn gael ei roi fel tystiolaeth."*

3. Gofynnir i berson, pan yw'n cael ei gyhuddo neu ei hysbysu y gellir ei erlyn am unrhyw drosedd, a'i fod yn gofyn am gael gwneud datganiad sy'n ymwneud ag unrhyw drosedd o'r fath ac dymuno'i ysgrifennu:

   (a) oni bai fod y cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd, *gweler* Atodiad A, yn berthnasol pan gafodd ei gyhuddo neu ei hysbysu y gellir ei erlyn, i ysgrifennu a llofnodi'r canlynol cyn ysgrifennu'r hyn y mae'n dymuno'i ddweud:

   *"Rwy'n gwneud y datganiad hwn o'm gwirfodd. Rwy'n deall nad oes rhaid i mi ddweud dim byd ond y gall niweidio fy amddiffyniad os na fyddaf yn sôn, wrth gael fy holi, am rywbeth y byddaf yn dibynnu arno nes ymlaen yn y llys. Gall y datganiad hwn gael ei roi fel tystiolaeth.";*

   (b) os oedd y cyfyngiad ar ddod i gasgliadau oherwydd distawrwydd yn berthnasol pan gafodd ei gyhuddo neu ei hysbysu y gellir ei erlyn, i ysgrifennu a llofnodi'r canlynol cyn ysgrifennu'r hyn y mae'n dymuno'i ddweud:

   *"Rwy'n gwneud y datganiad hwn o'm gwirfodd. Rwy'n deall nad oes rhaid i mi ddweud dim byd. Gall y datganiad hwn gael ei roi fel tystiolaeth."*

4. Pan fydd person, sydd eisoes wedi cael ei gyhuddo neu ei hysbysu y gellir ei erlyn am gyflawni unrhyw drosedd, yn gofyn am gael gwneud datganiad sy'n ymwneud ag unrhyw drosedd o'r fath ac yn dymuno'i ysgrifennu, gofynnir iddo ysgrifennu a llofnodi'r canlynol cyn ysgrifennu'r hyn y mae'n dymuno'i ddweud:

   *"Rwy'n gwneud y datganiad hwn o'm gwirfodd. Deallaf nad oes rhaid i mi ddweud dim byd. Gall y datganiad hwn gael ei roi fel tystiolaeth."*

5. Caniateir i unrhyw berson sy'n ysgrifennu ei ddatganiad, wneud hynny heb anogaeth, ac eithrio lle gall swyddogion yr heddlu neu staff heddlu eraill ei hysbysu pa faterion sy'n faterol neu gwestiynu unrhyw amwysedd yn y datganiad.

***(b) A ysgrifennir gan swyddog heddlu neu aelod o staff yr heddlu***

6. Os bydd person yn dweud ei fod yn dymuno i rywun ysgrifennu'r datganiad ar ei ran, bydd swyddog heddlu neu aelod arall o staff yr heddlu yn ei ysgrifennu ar ei ran.

7. Os na chyhuddwyd y person, neu ei hysbysu y gellir ei erlyn am unrhyw drosedd y mae'r datganiad y mae'n dymuno'i wneud yn berthnasol iddo, cyn dechrau, gofynnir iddo lofnodi, neu wneud ei farc, ger y canlynol:

   (a) oni bai fod y datganiad yn cael ei wneud ar adeg pan fo'r cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd yn berthnasol, *gweler Atodiad C*:

   *"Rwyf i, ......................., yn dymuno gwneud datganiad. Rwyf am i rywun ysgrifennu yr hyn rwy'n ei ddweud. Rwy'n deall nad oes rhaid i mi ddweud dim byd ond y gall niweidio fy amddiffyniad os na fyddaf yn sôn, wrth gael fy holi, am rywbeth y byddaf yn dibynnu arno nes ymlaen yn y llys. Gall y datganiad hwn gael ei roi fel tystiolaeth.";*

   (b) os gwneir y datganiad ar adeg pan fo'r cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd yn bodoli:

   *"Rwyf i, ......................., yn dymuno gwneud datganiad. Rwyf am i rywun ysgrifennu yr hyn rwy'n ei ddweud. Rwy'n deall nad oes rhaid i mi ddweud dim byd. Gall y datganiad hwn gael ei roi fel tystiolaeth."*

8. Ar ôl ei gyhuddo, neu ei rybuddio y gellir ei erlyn am unrhyw drosedd o'r fath, os bydd y person yn gofyn am gael gwneud datganiad sy'n ymwneud ag unrhyw drosedd o'r fath, gofynnir iddo lofnodi, neu roi ei farc, ger y canlynol cyn cychwyn:

   (a) oni bai fod y cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd yn berthnasol, *gweler Atodiad C*, pan gafodd ei gyhuddo neu ei hysbysu y gellir ei erlyn:

C

*"Rwyf i, ........................, yn dymuno gwneud datganiad. Rwyf am i rywun ysgrifennu yr hyn rwy'n ei ddweud. Rwy'n deall nad oes rhaid i mi ddweud dim byd ond y gall niweidio fy amddiffyniad os na fyddaf yn sôn, wrth gael fy holi, am rywbeth y byddaf yn dibynnu arno nes ymlaen yn y llys. Gall y datganiad hwn gael ei roi fel tystiolaeth.";*

(b) os yw'r cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd yn berthnasol pan gafodd ei gyhuddo neu ei hysbysu y gellir ei erlyn:

*"Rwyf i, ........................, yn dymuno gwneud datganiad. Rwyf am i rywun ysgrifennu yr hyn rwy'n ei ddweud. Rwy'n deall nad oes rhaid i mi ddweud dim byd. Gall y datganiad hwn gael ei roi fel tystiolaeth."*

9. Ar ôl ei gyhuddo neu ei hysbysu y gellir ei erlyn am unrhyw drosedd, os bydd person yn gofyn am gael gwneud datganiad sy'n ymwneud ag unrhyw drosedd o'r fath, gofynnir iddo lofnodi, neu wneud ei farc gerllaw y canlynol cyn cychwyn:

*"Rwyf i, ........................, yn dymuno gwneud datganiad. Rwyf am i rywun ysgrifennu yr hyn rwy'n ei ddweud. Rwy'n deall nad oes rhaid i mi ddweud dim byd. Gall y datganiad hwn gael ei roi fel tystiolaeth."*

10. Rhaid i'r person sy'n ysgrifennu datganiad nodi neu gofnodi'r union eiriau a ddywedir gan y person sy'n ei wneud ac ni ddylai ei olygu na'i aralleirio. Rhaid cofnodi unrhyw gwestiynau angenrheidiol, e.e. er mwyn ei wneud yn fwy dealladwy, a'r atebion a roddir, ar ffurflen y datganiad ar yr un pryd.

11. Ar ôl gorffen ysgrifennu datganiad, gofynnir i'r person a'i ysgrifennodd i'w ddarllen a gwneud unrhyw gywiriadau, addasiadau neu ychwanegiadau y mae'n dymuno eu gwneud. Ar ôl iddo orffen ei ddarllen, gofynnir iddo ysgrifennu a llofnodi neu wneud ei farc ger y dystysgrif ganlynol ar ddiwedd y datganiad:

*"Rwyf wedi darllen y datganiad uchod ac rwyf wedi gallu cywiro, newid neu ychwanegu unrhyw beth yr oeddwn yn dymuno. Mae'r datganiad hwn yn wir. Rwyf wedi ei wneud o'm gwirfodd."*

12. Os na all y person sy'n gwneud y datganiad ddarllen, neu os yw'n gwrthod ei ddarllen, neu ysgrifennu'r dystysgrif y soniwyd amdani uchod ar ei ddiwedd neu ei llofnodi, bydd y person a ysgrifennodd y datganiad yn ei ddarllen iddo ac yn gofyn iddo a hoffai gywiro, addasu neu ychwanegu unrhyw beth, a llofnodi neu roi ei farc ar y diwedd. Bydd y person sy'n ysgrifennu'r datganiad yn tystio ar y datganiad ei hun, yr hyn a ddigwyddodd.

## ATODIAD E – CRYNODEB O'R DARPARIAETHAU AR GYFER POBL SYDD AG ANHWYLDER MEDDWL NEU SYDD FEL ARALL YN AGORED I NIWED YN FEDDYLIOL

1. Os yw swyddog yn amau, neu'n cael gwybod mewn ffordd ddidwyll, y gallai fod anhwylder meddwl ar berson o unrhyw oedran, neu ei fod fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, neu os nad yw'n gallu deall arwyddocâd cwestiynau neu eu hatebion yn feddyliol, gellir trin y person hwnnw fel rhywun sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol at ddibenion y Côd yma. Gweler *paragraff 1.4*

2. Yn achos person sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, mae'r 'oedolyn priodol' yn golygu:

   (a) perthynas, gwarcheidwad neu berson arall sy'n gyfrifol am ei ofal neu ei warchod;

   (b) rhywun sydd â phrofiad o ddelio â phobl sydd ag anhwylder meddwl neu sy'n agored i niwed yn feddyliol, ond nad yw'n swyddog o'r heddlu nac yn cael ei gyflogi gan yr heddlu;

   (c) os nad yw'n un o'r rhain, dylai fod yn oedolyn cyfrifol arall sy'n 18 oed neu'n hŷn nad yw'n swyddog o'r heddlu nac yn cael ei gyflogi gan yr heddlu.

   Gweler *paragraff 1.7(b)* a *Nodyn 1D*

3. Os bydd swyddog y ddalfa yn awdurdodi cadw person sy'n agored i niwed yn feddyliol neu y mae'n ymddangos ei fod yn ddioddef anhwylder meddwl, rhaid i swyddog y ddalfa hysbysu'r oedolyn priodol o sail y penderfyniad i'w gadw cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol, a lleoliad y person, a gofyn i'r oedolyn ddod i orsaf yr heddlu i'w gweld. Os:

   - yw'r oedolyn priodol eisoes yn yr orsaf pan roddir y wybodaeth fel ym *mharagraffau 3.1* i *3.5* rhaid rhoi'r wybodaeth tra byddant yno

   - nad yw'r oedolyn priodol yn yr orsaf pan gydymffurfir â darpariaethau *paragraffau 3.1* i *3.5*, rhaid cydymffurfio â'r darpariaethau hyn unwaith eto yn eu presenoldeb pan fyddant yn cyrraedd.

   Gweler *paragraffau 3.15* i *3.17*

4. Ar ôl ei hysbysu o'i hawl i gael cyngor cyfreithiol, os bydd yr oedolyn priodol yn ystyried y dylid cymryd cyngor cyfreithiol, bydd darpariaethau *adran 6* yn berthnasol fel pe byddai'r person sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, wedi gofyn am gyngor cyfreithiol. Gweler *paragraff 3.19* a *Nodyn E1*

5. Rhaid i swyddog y ddalfa sicrhau y rhoddir sylw clinigol priodol i berson cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol os yw hi'n ymddangos bod y person yn dioddef anhwylder meddwl neu mewn achosion brys, ffonio'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol agosaf

C

neu ambiwlans. Nid diben y darpariaethau hyn yw oedi trosglwyddo'r sawl sy'n cael eu cadw i fan diogel o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, adran 136 os yw hwnnw'n berthnasol. Os gwneir asesiad dan y Ddeddf honno mewn gorsaf heddlu, rhaid i swyddog y ddalfa ystyried a ddylid galw am weithiwr gofal iechyd proffesiynol i gynnal chwiliad cychwynnol o'r sawl sy'n cael eu cadw. Gweler *paragraff 9.5* a *9.6*

6. Mae'n hollbwysig bod person sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol ac a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, adran 136, yn cael ei asesu cyn gynted ag y bo modd. Os cynhelir yr asesiad hwnnw mewn gorsaf heddlu, dylid galw am weithiwr cymdeithasol wedi'i gymeradwyo ac ymarferwr meddygol cofrestredig i'r orsaf cyn gynted ag y bo modd er mwyn cyfweld ac archwilio'r sawl sy'n cael eu cadw. Ar ôl cyfweld ac archwilio'r sawl sy'n cael eu cadw ac ar ôl gwneud trefniadau i'w trin neu ofalu amdanynt, ni ellir ei gadw mwyach o dan adran 136. Dylid rhyddhau'r sawl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn syth os daw ymarferwr meddygol cofrestredig i'r casgliad, ar ôl ei archwilio, nad oes ganddynt anhwylder meddygol yn ôl y Ddeddf. Gweler *paragraff 3.16*

7. Os rhoddir rhybudd i berson sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, pan na fydd yr oedolyn priodol yn bresennol, rhaid ailadrodd y rhybudd ym mhresenoldeb yr oedolyn priodol. Gweler *paragraff 10.12*

8. Ni ddylid cyfweld person sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed, na gofyn iddo ddarparu neu lofnodi datganiad ysgrifenedig os na fydd yr oedolyn priodol yn bresennol, oni bai fod darpariaethau *paragraffau 11.1* neu *11.8* i *11.20* yn berthnasol. Ni ellir holi ymhellach yn yr amgylchiadau hyn os na fydd oedolyn priodol yn bresennol unwaith y ceir gwybodaeth ddigonol i osgoi'r risg. Gwneir cofnod o sail unrhyw benderfyniad i ddechrau cyfweld yn yr amgylchiadau hyn. Gweler *paragraffau 11.1, 11.15* a *11.18* i *11.20*

9. Os yw'r oedolyn priodol yn bresennol mewn cyfweliad, fe'i hysbysir na ddisgwylir iddo arsylwi yn unig, ac mai diben ei bresenoldeb yw:

- cynghori'r sawl a gyfwelir
- arsylwi a gynhelir y cyfweliad yn gywir ac yn deg neu beidio
- hwyluso cyfathrebu gyda'r sawl a gyfwelir

Gweler *paragraff 11.17*

10. Os bydd swyddog adolygu neu uwch-arolygydd yn adolygu cyfnod cadw person sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, rhaid rhoi cyfle i'r oedolyn priodol, os yw ar gael ar y pryd, i wneud cyflwyniadau i'r swyddog ynghylch yr angen i barhau i'w gadw. Gweler *paragraff 15.3*

11. Os bydd swyddog y ddalfa yn cyhuddo person sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, o gyflawni trosedd neu os yw'n cymryd unrhyw gamau priodol pan geir digon o dystiolaeth i erlyn, rhaid gwneud hyn ym mhresenoldeb yr oedolyn priodol. Rhaid rhoi'r hysbysiad ysgrifenedig sy'n cynnwys unrhyw gyhuddiad i'r oedolyn priodol. Gweler *paragraffau 16.1* i *16.4A*

12. Yr unig adeg y gellir cynnal chwiliad personol neu noeth-chwiliad o berson sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, yw pan fydd yr oedolyn priodol o'r un rhyw yn bresennol, oni bai fod y sawl sy'n cael eu cadw yn gofyn yn benodol am bresenoldeb oedolyn arbennig o ryw gwahanol. Gellir cynnal noeth-chwiliad yn absenoldeb oedolyn priodol mewn achosion o argyfwng yn unig pan geir risg o niwed difrifol i'r sawl sy'n cael eu cadw neu i eraill. Gweler *Atodiad A, paragraffau 5* ac *11(c)*

13. Rhaid cymryd gofal arbennig wrth benderfynu a ddylid defnyddio unrhyw fath arall o gyfyngiadau a gymeradwywyd ar berson sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, mewn cell wedi'i chloi. Gweler *paragraff 8.2*

***Nodiadau arweiniad***

*E1* *Diben y ddarpariaeth ym mharagraff 3.19 yw amddiffyn hawliau person sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, nad yw'n deall arwyddocâd yr hyn a ddywedir wrtho. Os yw'r sawl sy'n cael eu cadw yn dymuno manteisio ar yr hawl i gael cyngor cyfreithiol, dylid cymryd y camau priodol ac ni ddylid gohirio hyn nes i'r oedolyn priodol Atodiad H – Person sy'n cael ei gadw: Rhestr Arsylwi*

*E2* *Er bod pobl sydd ag anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol yn aml ym methu â darparu tystiolaeth ddibynadwy, gallant, yn ddiarwybod iddynt neu heb ddymuno gwneud hynny, fod yn debygol o ddarparu gwybodaeth a allai fod yn annibynadwy, yn gamarweiniol neu'n hunangyhuddol mewn rhai amgylchiadau. Dylid cymryd gofal arbennig bob amser wrth holi person o'r fath, a dylid cynnwys yr oedolyn priodol os ceir unrhyw amheuaeth ynghylch cyflwr neu allu meddyliol person. Oherwydd risg tystiolaeth annibynadwy, mae'n bwysig cadarnhau unrhyw ffeithiau a gyfaddefir pan fo modd.*

*E3* *Oherwydd y risgiau y cyfeiriwyd atynt yn Nodyn E2, y mae presenoldeb yr oedolyn priodol i fod i'w lleihau gymaint ag y bo modd, dylai swyddogion o safle uwch-arolygydd neu uwch, awdurdodi cychwyn cyfweliad yn absenoldeb yr oedolyn priodol mewn amgylchiadau arbennig yn unig, yn ôl eu disgresiwn, os oes angen osgoi risg uniongyrchol o niwed difrifol. Gweler paragraffau 11.1, 11.18 i 11.20*

## ATODIAD F – GWLEDYDD Y CEIR CYTUNDEBAU NEU GONFENSIYNAU CONSYLAIDD DWYOCHROG GYDA NHW SY'N GOFYN AM HYSBYSU RHYWUN PAN FO'U DINASYDDION YN CAEL EU HARESTIO A'U CADW, AC SYDD MEWN GRYM AR 1 EBRILL 2003



Armenia
Awstria
Azerbaijan
Belarus
Gwlad Belg
Bosnia-Herzegovina
Bwlgaria
Tsieina*
Croatia
Gweriniaeth Ciwba
Y Weriniaeth Tsiec
Denmarc
Yr Aifft
Ffrainc
Georgia
Gweriniaeth Ffederal yr Almaen
Groeg
Hwngari
Yr Eidal
Siapan
Kazacstan
Macedonia
Mecsico
Moldova
Mongolia
Norwy
Gwlad Pwyl
Romania
Rwsia
Slofacia
Slofenia
Sbaen
Sweden
Tajicistan
Twrcmenistan
Wcráin
UDA
Wsbecistan
Iwgoslafia

* Rhaid i'r heddlu hysbysu swyddogion Tsieineaidd pan gaiff rhywun ei arestio/cadw yn rhanbarth consylaidd Manceinion yn unig. Mae hwn yn cynnwys Derbyshire, Durham, Greater Manchester, Lancashire, Merseyside, Gogledd, De a Gorllewin Yorkshire a Tyne and Wear.

## ATODIAD G – A YW PERSON MEWN CYFLWR I'W GYFWELD

1. Mae'r Atodiad hwn yn cynnwys arweiniad cyffredinol i helpu swyddogion heddlu a gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i asesu a allai'r sawl sy'n cael eu cadw fod mewn risg yn ystod cyfweliad.

2. Gallai'r sawl sy'n cael eu cadw fod mewn risg mewn cyfweliad os ystyrir:

   (a) y gallai cynnal y cyfweliad niweidio cyflwr corfforol neu feddyliol y sawl sy'n cael eu cadw, yn sylweddol;

   (b) y **gallai** unrhyw beth a ddywedir gan y sawl sy'n cael eu cadw yn ystod y cyfweliad, ynghylch eu cyswllt neu eu cyswllt tybiedig â'r drosedd y maent yn cael eu cyfweld yn ei gylch, gael ei ystyried yn annibynadwy mewn achos llys dilynol oherwydd eu cyflwr corfforol neu feddyliol.

3. Wrth asesu a ddylid cyfweld y sawl sy'n cael eu cadw, rhaid ystyried y canlynol:

   (a) sut allai cyflwr corfforol neu feddyliol y sawl sy'n cael eu cadw, effeithio ar eu gallu i ddeall natur a diben y cyfweliad, deall yr hyn a ofynnir iddynt a gwerthfawrogi arwyddocâd unrhyw atebion a roddir a gwneud penderfyniadau rhesymegol ynghylch a ydynt yn dymuno dweud unrhyw beth;

   (b) y graddau y gellir effeithio ar atebion y sawl sy'n cael eu cadw gan eu cyflwr corfforol neu feddyliol, yn hytrach na chynrychioli esboniad rhesymegol a chywir o'u hymwneud â'r drosedd;

   (c) sut y gallai natur y cyfweliad, a allai gynnwys cwestiynau arbennig o dreiddgar, effeithio ar y sawl sy'n cael eu cadw.

4. Mae'n hanfodol bod y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yr ymgynghorir â hwy, yn ystyried gallu swyddogaethol y sawl sy'n cael eu cadw yn hytrach na dibynnu ar ddiagnosis meddygol yn unig, e.e. mae'n bosibl ei bod yn addas cyfweld person sydd â salwch meddwl difrifol.

5. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gynnig cyngor ar yr angen i oedolyn priodol fod yn bresennol, a fydd angen ailasesu a yw'r person mewn cyflwr i gael ei gyfweld os bydd y cyfweliad yn cael ei gynnal dros gyfnod penodol, ac a fydd angen barn arbenigol bellach.

6. Pan fydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn nodi risgiau, dylid gofyn iddynt fesur y risgiau. Dylent hysbysu swyddog y ddalfa:

   - a yw cyflwr y person:

     ~ yn debygol o wella

~ yn gofyn am driniaeth neu'n gallu cael ei wella gan driniaeth; a

- nodi pa mor hir y gallai ei gymryd i welliant o'r fath ddigwydd

7. Rôl y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yw ystyried y risgiau a chynghori swyddog y ddalfa o ganlyniad yr ystyriaeth honno. Dylid nodi penderfyniad y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ac unrhyw gyngor neu argymhellion a wneir, ar bapur, a dylai fod yn rhan o'r cofnod cadw.

8. Ar ôl i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ddarparu'r wybodaeth honno, rhaid i swyddog y ddalfa benderfynu a ddylai ganiatáu i'r cyfweliad fynd yn ei flaen ac os dylid parhau â'r cyfweliad, penderfynu pa gamau diogel y mae angen eu cymryd. Nid oes unrhyw beth i atal darparu camau diogel yn ychwanegol i'r rhai sy'n angenrheidiol o dan y Côd. Gallai enghraifft olygu gofyn i weithiwr gofal iechyd proffesiynol fod yn bresennol yn ystod y cyfweliad, yn ogystal â'r oedolyn priodol, er mwyn monitro cyflwr y person yn gyson a sut mae'r cyfweliad yn effeithio ar ei gyflwr.

## ATODIAD H – PERSON SY'N CAEL EI GADW: RHESTR ARSYLWI

1. Os bydd y person sy'n cael ei gadw yn methu â bodloni unrhyw un o'r meini prawf canlynol, rhaid galw am weithiwr gofal iechyd proffesiynol neu ambiwlans.

2. Wrth asesu lefel ei ymateb corfforol, dylech ystyried:

   Ymateb corfforol – a ellir ei ddeffro?

   - ewch i mewn i'r gell
   - dywedwch ei enw
   - ysgwydwch y person yn ysgafn

   Ymateb i gwestiynau – a yw'n gallu rhoi atebion priodol i gwestiynau megis:

   - Beth yw eich enw?
   - Ble ydych chi'n byw?
   - Ble ydych chi'n credu ydych chi?

   Ymateb i orchmynion – a yw'n gallu ymateb yn briodol i orchmynion megis:

   - Agorwch eich llygaid!
   - Côdwch un fraich, a'r fraich arall nawr!

3. Cofiwch ystyried posibilrwydd neu bresenoldeb mathau eraill o salwch, anafiadau neu gyflyrau meddyliol, oherwydd efallai bod person sy'n gysglyd ac arogl alcohol arno, yn dioddef o'r canlynol hefyd:

   - Clefyd siwgr
   - Epilepsi
   - Anaf i'r pen
   - Dan ddylanwad cyffuriau neu wedi cymryd gorddos o gyffuriau
   - Strôc

C

**ATODIAD I**

HEB EI DDEFNYDDIO

**ATODIAD J**

HEB EI DDEFNYDDIO

## ATODIAD K - SGANIAU UWCHSAIN A PHELYDR-X

### (a) Gweithredu

1. Mae PACE, adran 55A yn caniatáu tynnu llun pelydr-x neu sgan uwchsain (neu'r ddau) o rywun a gafodd ei arestio ac sydd yn nalfa'r heddlu os:

   (a) awdurdodir hynny gan swyddog o safle arolygydd neu uwch sydd â sail resymol i gredu bod y sawl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa:

      (i) o bosib wedi llyncu cyffur Dosbarth A; ac

      (ii) wedi bod ym meddiant cyffur Dosbarth A gyda'r bwriad o'i gyflenwi i rywunarall neu ei allforio; a

   (b) bod y sawl sy'n cael eu cadw wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig priodol

2. Cyn tynnu llun pelydr-x neu sgan uwchsain, mae'n rhaid i swyddog heddlu, swyddog cadw dynodedig neu swyddog staff y ddalfa ddweud wrth y sawl sy'n cael eu cadw:

   (a) bod awdurdod wedi'i roi; a

   (b) sail y swyddog dros awdurdodi hynny.

3. Cyn y gofynnir i'r sawl sy'n cael eu cadw i roi caniatâd priodol am lun pelydr-x neu sgan uwchsain, mae'n rhaid eu rhybuddio os gwrthodant heb achos da y gallai hynny niweidio eu hachos pe bai'r achos yn dod gerbron llys, *gweler* Nodiadau K1 a K2. Gellir rhoi'r rhybudd hyn gan swyddog heddlu neu aelod o staff yr heddlu. Mae'n rhaid atgoffa rhywun sy'n cael eu cadw sydd heb gynrychiolaeth cyfreithiol, o'u hawl i gyngor cyfreithiol am ddim, *gweler* Côd C, paragraff 6.5, gan nodi hynny yng nghofnod y ddalfa.

4. Gellir tynnu llun pelydr-x neu sgan uwchsain gan ymarferydd meddygol cofrestredig neu nyrs cofrestredig yn unig, a gellir gwneud hynny yn unig mewn ysbyty, meddygfa neu fangre meddygol arall.

### (b) Dogfennau

5. Cofnodir y canlynol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol yng nghofnod y ddalfa y sawl sy'n cael eu cadw:

   (a) yr awdurdodiad i dynnu llun pelydr-x neu sgan uwchsain (neu'r ddau);

   (b) y sail dros awdurdodi;

   (c) rhoi'r rhybudd sy'n ofynnol ym mharagraff 3; a'r

   (d) ffaith bod caniatâd priodol wedi'i roi neu (yn unol â'r hyn ddigwyddodd) ei wrthod,

ac os gwrthodwyd caniatâd y rheswm a roddwyd am hynny (os rhoddwyd un); ac

(e) os bwriedir tynnu llun pelydr-x neu sgan uwchsain:

- ymhle gwnaed hynny
- pwy wnaeth hynny
- pwy oedd yn bresennol
- y canlyniad

6. Mae paragraffau 1.4 - 1.7 o'r Cod yma yn berthnasol a dylai oedolyn priodol fod yn bresennol pan geisir caniatâd i weithredu unrhyw weithdrefn o dan yr Atodiad hwn.

**Nodiadau Arweiniad**

K1 Os rhoddir awdurdod i dynnu llun pelydr-x neu sgan uwchsain (neu'r ddau), dylid rhoi ystyriaeth i ofyn i ymarferydd meddygol cofrestredig neu nyrs gofrestredig i egluro i'r sawl sy'n cael eu cadw beth a olygir ac er mwyn lleihau unrhyw bryderon a allai fod gan y sawl sy'n cael eu cadw ynghylch effaith tynnu llun pelydr-x neu sgan uwchsain arnynt. Os na roddir caniatâd priodol, fe allai tystiolaeth o'r eglurhad, pe bai'r achos yn dod gerbron llys, fod yn berthnasol wrth bennu a oedd gan y sawl sy'n cael eu cadw reswm da dros wrthod.

K2 Wrth rybuddio'r sawl sy'n cael eu cadw y gofynnir iddynt ganiatáu tynnu llun pelydr-x neu sgan uwchsain (neu'r ddau), fel ym mharagraff 3, gellir defnyddio'r ffurf ganlynol o eiriau:

*"Does dim rhaid i chi ganiatáu cymryd sgan uwchsain neu belydr-x (neu'r ddau) arnoch, ond mae'n rhaid i mi eich rhybuddio os byddwch chi'n gwrthod gwneud hynny heb reswm da, fe allai hynny niweidio eich achos pe bai'n dod gerbron llys."*

C

**Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984**

# Côd D

D

## Côd Ymarfer yn ymwneud ag adnabod pobl gan swyddogion yr heddlu

### Cychwyniad – Trefniadau Trosiannol

Mae'r côd hwn yn weithredol mewn perthynas ag unrhyw weithdrefn adnabod sy'n digwydd ar ôl hanner nos ar 31 Rhagfyr 2005.

D

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Côd Ymarfer hwn yn ymwneud â'r prif ddulliau a ddefnyddir gan yr heddlu i adnabod pobl mewn cysylltiad ag ymchwiliadau i droseddau a chadw cofnodion troseddol sy'n gywir a dibynadwy.

1.2 Mae adnabod gan dystion yn codi, e.e. os yw'r troseddwr yn cael ei weld yn cyflawni trosedd a thyst yn cael cyfle i nodi pwy ydyw trwy fideo, rhes adnabod neu ddull cyffelyb. Bwriad y gweithdrefnau yw:

- profi gallu'r tyst i adnabod y person a welwyd ganddynt ar achlysur blaenorol
- diogelu rhag camadnabod.

Tra bo'r Côd hwn yn canolbwyntio ar weithdrefnau adnabod gweledol, nid yw'n rhwystro'r heddlu rhag defnyddio gweithdrefnau adnabod sain megis "rhes adnabod llais", lle bernir bod hynny'n briodol.

1.3 Mae adnabod trwy olion bysedd yn berthnasol pan fo olion bysedd person yn cael eu cymryd i:

- gymharu ag olion bysedd a ganfuwyd ar safle'r drosedd
- gwirio a phrofi dedfrydau
- cynorthwyo i ganfod pwy yw person.

1.3A Mae adnabod trwy ddefnyddio olion esgidiau yn berthnasol pan gymerir olion esgidiau person i gymharu gydag olion a ganfuwyd ar safle'r drosedd.

1.4 Mae adnabod trwy samplau corfforol ac olion yn golygu cymryd samplau megis gwaed neu wallt i greu proffil DNA i'w gymharu â deunyddiau a gafwyd ar safle'r drosedd, neu ar ddioddefwr.

1.5 Mae cymryd ffotograff o bobl a arestiwyd yn berthnasol i gofnodi a gwirio enwau a lleoli ac olrhain pobl sy'n:

- cael eu hamau o gyflawni troseddau
- torri mechnïaeth.

1.6 Mae dull arall o adnabod yn golygu chwilio'r sawl sy'n cael eu cadw am farciau megis tatŵs neu greithiau a all fod o gymorth i ganfod eu henw neu ganfod a ydynt wedi cyflawni trosedd.

1.7 Bwriad darpariaethau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a'r Côd hwn yw sicrhau fod olion bysedd, samplau, olion a ffotograffau'n cael eu cymryd, eu defnyddio

a'u cadw, a bod dulliau adnabod yn cael eu defnyddio'n unig pan ellir eu cyfiawnhau a'u bod yn angenrheidiol i atal, canfod neu archwilio trosedd. Os na chedwir at y darpariaethau hyn, fe all y defnydd o'r gweithdrefnau perthnasol mewn achosion arbennig ddod dan amheuaeth.

## 2 Cyffredinol

2.1 Mae'n rhaid i'r Côd Ymarfer yma fod ar gael yn hwylus ar gyfer dibenion ymgynghori gan:

- swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu
- pobl yn y ddalfa
- aelodau'r cyhoedd

D

2.2 Mae darpariaethau'r Côd hwn:

- yn cynnwys *Atodiadau*
- ond nid ydynt yn cynnwys y *Nodiadau Arweiniad*.

2.3 Mae Côd C, paragraff 1.4, sy'n ymwneud â pherson a all fod yn dioddef anhwylder meddwl neu fel arall yn agored i niwed yn feddyliol a'r *Nodiadau arweiniad* sy'n berthnasol i'r darpariaethau hynny yn berthnasol i'r Côd hwn.

2.4 Mae Côd C, paragraff 1.5, sy'n ymwneud â pherson sy'n ymddangos ei fod o dan 17 oed yn berthnasol i'r Côd hwn.

2.5 Mae Côd C, paragraff 1.6, sy'n ymwneud â pherson sy'n ymddangos yn ddall, bod nam difrifol ar eu golwg, eu bod yn fyddar, yn methu â darllen neu siarad neu fod ganddynt drafferthion ar lafar oherwydd nam ar eu lleferydd yn berthnasol i'r Côd hwn.

2.6 Yn y Côd hwn:

- mae 'oedolyn priodol' yn golygu yr un fath ag yng Nghôd C, paragraff 1.7,
- mae 'cyfreithiwr' yn golygu yr un fath ag yng Nghôd C, paragraff 6.12.

ac mae'r *Nodiadau arweiniad* sy'n berthnasol i'r darpariaethau hynny yn berthnasol i'r Côd hwn.

2.7 Mae cyfeiriadau at swyddog y ddalfa yn cynnwys y rhai sy'n cyflawni swyddogaethau swyddog y ddalfa *gweler paragraff 1.9* Côd C

2.8 Pan wneir cofnod o unrhyw weithred sy'n gofyn am awdurdod swyddog o safle arbennig o dan y Côd hwn, yn unol â *pharagraff 2.18*, rhaid cofnodi enw a safle'r swyddog.

2.9 Pan fo'r Côd yma yn gofyn am awdurdod neu gytundeb swyddog o safle arolygydd neu

uwch-arolygydd o leiaf, ymlaen llaw, fe all rhingyll neu brif arolygydd a awdurdodwyd i gyflawni swyddogaethau'r safle uwch o dan PACE, adran 107, roi'r awdurdod hwnnw.

2.10 Yn unol â *pharagraff 2.18*, rhaid i bob cofnod gael ei amseru a'i lofnodi gan y sawl sy'n gwneud y cofnod.

2.11 Rhaid gwneud cofnodion yng nghofnod y ddalfa, os na nodir yn wahanol. Mae cyfeiriadau at lyfrau poced yn cynnwys unrhyw lyfr adrodd swyddogol a ddosbarthwyd i swyddogion heddlu neu staff yr heddlu.

2.12 Os oes unrhyw weithdrefn yn y Côd hwn yn gofyn am ganiatâd person, nid yw cytundeb:

- person sy'n dioddef anhwylder meddwl neu fel arall yn agored i niwed yn feddyliol yn ddilys os nad yw'n cael ei roi ym mhresenoldeb oedolyn priodol
- plentyn yn ddilys os na cheir caniatâd rhiant neu warcheidwad hefyd, os nad yw'r plentyn o dan 14 oed, pryd mae caniatâd ei riant neu warcheidwad yn ddigon ynddo'i hun. Os mai'r unig rwystr i ddull adnabod yn *adran 3* yw fod rhiant neu warcheidwad yn gwrthod rhoi ei ganiatâd neu fod ymdrechion rhesymol i'w gael wedi methu, gall y swyddog adnabod ddefnyddio'r darpariaethau ym *mharagraff 3.21*. Gweler *Nodyn 2A*

2.13 Os yw person yn ddall, â nam difrifol ar ei olwg neu'n methu darllen, bydd swyddog y ddalfa neu swyddog adnabod yn gwneud yn siŵr fod cyfreithiwr, perthynas, oedolyn priodol neu berson arall sy'n debyg o fod â diddordeb ynddo ac nad yw yn rhan o'r ymchwiliad ar gael i gynorthwyo i wirio unrhyw ddogfennau. Pan fo'r Côd yn gofyn am ganiatâd ysgrifenedig neu lofnod, fe ellir gofyn am lofnod y person sy'n cynorthwyo, os mai dyna ddymuniad y sawl sy'n cael ei gadw. Nid yw'r paragraff hwn yn gofyn am alw oedolyn priodol i gynorthwyo'n unig i wirio a llofnodi dogfennau ar ran person nad yw'n blentyn, neu sy'n dioddef anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol. (*gweler Nodyn 2B* a Chôd C *paragraff 3.15*).

2.14 Os oes unrhyw weithdrefn yn y Côd hwn yn gofyn am roi gwybodaeth i, neu gael gwybodaeth gan, y sawl sydd dan amheuaeth, mae'n rhaid rhoi neu gael yr wybodaeth ym mhresenoldeb oedolyn priodol os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn dioddef anhwylder meddwl, fel arall yn agored i niwed yn feddyliol neu'n blentyn. Os nad oes oedolyn priodol yn bresennol pan roddir neu y gofynnir am yr wybodaeth yn gyntaf, rhaid ailadrodd y weithdrefn ym mhresenoldeb oedolyn priodol ar ôl iddo gyrraedd. Os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn ymddangos yn fyddar neu os oes amheuaeth ynghylch ei allu i glywed, siarad neu ei allu i ddeall Saesneg, ac na ellir cyfathrebu'n effeithiol, mae'n rhaid rhoi neu geisio'r wybodaeth trwy gyfieithydd.

2.15 Rhaid i unrhyw weithdrefn yn y Côd hwn sy'n gofyn am gyfranogiad person sydd dan amheuaeth ac sy'n dioddef anhwylder meddwl, sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol neu'n blentyn, ddigwydd ym mhresenoldeb oedolyn priodol. Fodd bynnag, nid yw'r oedolyn i gael cymell tyst i adnabod y sawl sydd dan amheuaeth. Gweler Côd C paragraff 1.4

2.15A Rhaid i unrhyw weithdrefn yn y Côd hwn sy'n gofyn am gyfranogiad tyst sy'n dioddef anhwylder meddwl neu sy'n ymddangos felly, sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol neu'n blentyn, ddigwydd ym mhresenoldeb oedolyn priodol. Fodd bynnag, ni chaniateir i'r person cefnogol i gymell tyst i adnabod y sawl sydd dan amheuaeth. Gweler Nodyn 2AB.

D

2.16 Mae cyfeiriadau at:

- 'gymryd ffotograff', yn cynnwys y defnydd o unrhyw broses i gynhyrchu un ddelwedd weledol lonydd neu sy'n symud
- 'cymryd ffotograff o berson' i'w ddadansoddi'n briodol
- 'ffotograffau', 'ffilmiau', 'negatifau' a 'chopïau' yn cynnwys delweddau gweledol perthnasol wedi'u cofnodi, storio, neu atgynhyrchu trwy unrhyw gyfrwng
- 'dinistrio' yn cynnwys dileu data cyfrifiadurol sy'n gysylltiedig â delweddau o'r fath neu wneud mynediad i'r data hwnnw'n amhosibl.

2.17 Ar wahân i'r hyn a ddisgrifir, nid oes dim yn y Côd hwn yn effeithio ar bwerau a gweithdrefnau:

(i) ar gyfer gofyn am, a chymryd, samplau o anadl, gwaed ac wrin mewn cysylltiad â throseddau gyrru, ayyb, o dan ddylanwad diod, cyffuriau neu ormod o alcohol o dan:

- Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1988, adrannau 4 i 11
- Deddf Troseddau Moduro 1988, adrannau 15 a 16
- Deddf Cludiant a Gwaith 1992, adrannau 26 i 38;

(ii) o dan Ddeddf Mewnfudo 1971, Atodlen 2, paragraff 18; ar gyfer cymryd ffotograffau ac olion bysedd gan bobl a gedwir o dan y Ddeddf honno, Atodlen 2, paragraff 16 (Rheolau Gweinyddol megis Rheoli Mynediad ayyb.); ar gyfer cymryd olion bysedd yn unol â Deddf Mewnfudo a Lloches 1999; adrannau 141 a 142(3), neu ddulliau eraill o gasglu gwybodaeth am nodweddion corfforol allanol person y darperir ar eu cyfer gan y rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno, adran 144;

(iii) o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 8, ar gyfer cymryd ffotograffau, olion bysedd, olion croen, samplau corfforol neu olion gan bobl:

- a arestiwyd gan y Ddeddf honno, adran 41,
- a gadwyd er mwyn eu harchwilio o dan y Ddeddf honno, Atodlen 7, ac i'r sawl mae'r Côd Ymarfer a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno, Atodlen 14, paragraff 6, yn berthnasol ('y darpariaethau terfysgaeth')

Gweler *Nodyn 2C*;

(iv) ar gyfer cymryd ffotograffau, olion bysedd, olion croen, samplau corfforol neu olion gan bobl sydd wedi cael eu:

- harestio ar warantau a gyhoeddwyd yn yr Alban, gan swyddogion yn defnyddio pwerau o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, adran 136(2)
- arestio neu'u cadw heb warant gan swyddogion o heddlu'r Alban yn defnyddio eu pwerau i arestio neu gadw o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, adran 137(2), (pwerau arestio Traws Ffiniol ayyb.).

Noder: Yn yr achosion hyn, mae pwerau a dyletswyddau'r heddlu a hawliau'r person tra'i fod mewn gorsaf heddlu yng Nghymru neu Loegr yr un fath a phe bai'r person wedi ei arestio yn yr Alban gan swyddog heddlu Albanaidd.

D

2.18 Nid oes dim yn y Côd hwn yn gofyn am gofnodi neu ddatgelu enw'r swyddogion neu staff yr heddlu:

(a) mewn achos o ymholiadau sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad i derfysgaeth;

(b) os yw'r swyddogion neu staff yr heddlu yn credu'n rhesymol y byddai cofnodi neu ddatgelu eu henwau yn eu rhoi mewn perygl.

Yn yr achosion hyn, byddant yn defnyddio rhif warant neu rif adnabod arall ac enw eu swyddfa heddlu. Gweler *Nodyn 2D*

2.19 Yn y Côd yma mae:

(a) 'person dynodedig' yn golygu rhywun ar wahân i swyddog heddlu, a ddynodwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, Rhan 4, sydd â phwerau a dyletswyddau penodedig swyddogion heddlu a roddwyd iddynt neu a orfodwyd arnynt;

(b) unrhyw gyfeiriad at swyddog heddlu yn cynnwys person dynodedig sy'n gweithredu wrth ymarfer neu gyflawni'r pwerau a'r dyletswyddau a roddwyd iddynt neu a orfodwyd arnynt gan eu dynodiad.

2.20 Os yw'r pŵer a roddwyd i berson dynodedig:

(a) yn caniatáu defnyddio grym rhesymol pan y'i defnyddir gan swyddog heddlu, mae

gan y person dynodedig sy’n defnyddio’r pŵer yna yr un hawl i ddefnyddio grym;

(b) yn cynnwys pŵer i ddefnyddio grym i fynd mewn i unrhyw eiddo, ni all y person dynodedig ymarfer y pŵer yma ac eithrio:

(i) ym mhresenoldeb, ac o dan oruchwyliaeth, swyddog o’r heddlu; neu

(ii) ar gyfer dibenion:

- achub bywyd neu atal niwed corfforol; neu
- rhwystro difrod difrifol i eiddo.



2.21 Nid oes dim yn y Côd yma yn atal swyddog y ddalfa, neu swyddog arall y rhoddwyd gwarchodaeth o’r sawl sy’n cael eu cadw iddynt, rhag caniatáu i staff yr heddlu nad ydynt yn unigolion dynodedig i gynnal gweithdrefnau neu dasgau unigol yn yr orsaf heddlu, os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny. Fodd bynnag, mae'r swyddog yn dal yn gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau a'r tasgau'n cael eu cyflawni'n gywir, yn unol â'r Codau Ymarfer. Mae'n rhaid i unrhyw berson o'r fath fod yn:

(a) berson a gyflogir gan awdurdod heddlu sy'n cynnal gwasanaeth heddlu ac o dan reolaeth a chyfarwyddyd Prif Swyddog yr heddlu yna;

(b) yn gyflogedig gan berson y mae gan y gwasanaeth heddlu gytundeb â hwy ar gyfer cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phobl sy'n cael eu harestio neu sydd fel arall yn cael eu cadw yn y ddalfa.

2.22 Mae'n rhaid i unigolion dynodedig a staff yr heddlu eraill gadw mewn cof unrhyw ddarpariaethau perthnasol o'r Codau Ymarfer.

***Nodiadau arweiniad***

*2A Yn achos plentyn sydd yng ngofal awdurdod lleol neu sefydliad gwirfoddol, ar gyfer dibenion paragraff 2.12, gall y caniatâd sydd ei angen gan riant neu warcheidwad gael ei roi gan yr awdurdod lleol neu sefydliad gwirfoddol hwnnw. Yn achos plentyn, nid oes dim ym mharagraff 2.12 yn gofyn i riant, gwarcheidwad neu gynrychiolydd awdurdod lleol neu sefydliad gwirfoddol fod yn bresennol i roi eu caniatâd, os nad ydynt yn gweithredu fel yr oedolyn priodol o dan baragraffau 2.14 neu 2.15. Fodd bynnag, cyn gofyn am ganiatâd rhiant neu warcheidwad nad ydynt yn bresennol mae’n bwysig eu bod yn cael yr wybodaeth yn llawn. Rhaid iddynt gael yr un wybodaeth am y weithdrefn a’r rhan yr amheuir i’r plentyn ei chwarae yn y drosedd â’r plentyn a’r oedolyn priodol. Rhaid i’r rhiant neu warcheidwad gael cyfle hefyd i siarad â’r plentyn a’r oedolyn priodol os ydynt yn dymuno hynny. Cyn belled â bod y caniatâd yn seiliedig ar wybodaeth lawn ac nad ydyw yn cael ei dynnu’n ôl, gellir ei gael ar unrhyw adeg cyn gweithredu’r weithdrefn.*

*2AB Mae arweiniad i Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 " Sicrhau'r Dystiolaeth Orau mewn Achosion Troseddol" yn nodi y dylai person cefnogol cyn-achos llys fynd gyda thyst bregus yn ystod unrhyw weithdrefn adnabod. Dywedir na ddylai'r person cefnogol yma fod yn dyst (neu'n debygol o fod yn dyst) yn yr ymchwiliad.*

*2B Fe all pobl sydd â nam difrifol ar eu golwg neu'n methu darllen fod yn amharod i lofnodi dogfennau'r heddlu. Bwriad y dewis arall, h.y. eu cynrychiolydd yn llofnodi ar eu rhan, yw amddiffyn buddiannau'r heddlu yn ogystal â'r sawl sydd dan amheuaeth.*

*2C Gellir cymryd ffotograffau, samplau ac olion o bobl a gedwir dan ddarpariaethau terfysgaeth i gynorthwyo i benderfynu a ydynt yn rhan, neu wedi bod yn rhan, o weithredoedd terfysgol, yn ogystal â phan fo sail resymol dros amau iddynt chwarae rhan mewn trosedd arbennig.*

D

*2D Pwrpas paragraff 2.18(b) yw amddiffyn y rhai sy'n rhan o ymchwiliadau i droseddau trefnedig difrifol neu arestio unigolion treisgar pan fo gwybodaeth ddibynadwy y gall y rhai a arestiwyd neu eu cyd-droseddwyr fygwth neu achosi niwed i swyddogion. Lle ceir amheuaeth, dylid ymgynghori â swyddog o safle arolygwr neu uwch.*

## 3 Adnabod gan dystion

3.1 Bydd cofnod yn cael ei wneud o'r disgrifiad o'r sawl sydd dan amheuaeth fel y rhoddwyd ef gyntaf gan dyst posibl. Rhaid i'r cofnod hwn:

(a) gael ei wneud a'i gadw mewn dull sy'n caniatáu i fanylion o'r disgrifiad hwnnw gael eu cynhyrchu'n gywir ohono, mewn dull gweladwy ac eglur, y gellir eu rhoi i'r sawl sydd dan amheuaeth neu gyfreithiwr y sawl sydd dan amheuaeth yn unol â'r Côd hwn; ac

(b) os na nodir yn wahanol, gael ei wneud cyn i'r tyst gymryd rhan mewn unrhyw ddulliau adnabod o dan *baragraffau 3.5* i *3.10*, *3.21* neu *3.23*.

Pan fo hynny'n ymarferol, bydd copi o'r cofnod yn cael ei roi i'r sawl sydd dan amheuaeth neu eu cyfreithiwr cyn gweithredu unrhyw ddull adnabod o dan *baragraffau 3.5* i *3.10*, *3.21* neu *3.23*. Gweler *Nodyn 3E*

### *(a) Achosion pan nad yw'n wybyddus pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth*

3.2 Mewn achosion pan nad yw'n wybyddus pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth, gellir mynd â thystion i gymdogaeth neu le arbennig i weld a allant adnabod y person a welwyd ganddynt. Er na ellir rheoli nifer, oed, rhyw, hil, disgrifiad cyffredinol a math o ddillad y bobl eraill sy'n bresennol yn y lleoliad na'r ffordd mae unrhyw broses adnabod yn digwydd, bydd yr egwyddorion sy'n berthnasol i'r dulliau adnabod ffurfiol o dan *baragraffau 3.5* i *3.10* yn cael eu dilyn cyn belled â bod hynny'n ymarferol. Er enghraifft:

(a) lle mae'n ymarferol gwneud hynny, dylid gwneud cofnod o ddisgrifiad y tyst o'r sawl sydd dan amheuaeth fel nodir ym mharagraff 3.1(a), cyn gofyn i dyst adnabod rhywun;

(b) rhaid gochel rhag cyfeirio sylw'r tyst at unrhyw unigolyn os na ellir osgoi hynny ar ôl rhoi ystyriaeth i'r holl amgylchiadau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhwystr i ofyn i dyst edrych yn ofalus ar y bobl sydd o gwmpas ar y pryd neu edrych ar grŵp arbennig neu i gyfeiriad arbennig, os yw hynny'n ymddangos yn angenrheidiol i sicrhau nad yw'r tyst yn peidio â sylwi ar bobl bosibl i'w hamau am ei fod yn edrych i gyfeiriad arall a *hefyd* i alluogi tyst i wneud cymariaethau rhwng y sawl sydd dan amheuaeth ac eraill sydd yn yr ardal; Gweler *Nodyn 3F*

(c) pan fo mwy nag un tyst, dylid gwneud pob ymdrech i'w cadw ar wahân a dylid mynd â thystion i weld a allant adnabod person ar eu pennau eu hunain;

(d) unwaith y ceir gwybodaeth ddigonol i gyfiawnhau arestio unigolyn arbennig ar amheuaeth o ymwneud â throsedd, e.e., ar ôl i dyst gadarnhau ei fod wedi adnabod y sawl sydd dan amheuaeth, bydd y darpariaethau a nodir o baragraff 3.4 ymlaen yn berthnasol i unrhyw dystion eraill mewn perthynas â'r unigolyn hwnnw. Yn unol â *pharagraffau 3.12* a *3.13*, nid yw'n angenrheidiol i dyst sy'n cadarnhau iddo adnabod y sawl sydd dan amheuaeth gymryd rhan mewn dull adnabod arall;

(e) rhaid i'r swyddog neu'r aelod o staff yr heddlu sydd yng nghwmni'r tyst gofnodi, yn eu llyfr poced, sut y bu iddynt weithredu cyn gynted â phosibl ac mor fanwl â phosibl. Dylai'r cofnod gynnwys: dyddiad, amser a lleoliad yr achlysur perthnasol pryd yr honna'r tyst iddo weld y sawl sydd dan amheuaeth o'r blaen; ble y bu i'r tyst adnabod y sawl sydd dan amheuaeth; sut y bu iddo ei adnabod a'r amgylchiadau ar y pryd (e.e, pellter y tyst oddi wrth y sawl sydd dan amheuaeth, y tywydd a'r golau); a dynnwyd sylw'r tyst tuag at y sawl sydd dan amheuaeth; y rheswm dros hyn; ac unrhyw beth a ddywedwyd gan y tyst neu'r sawl sydd dan amheuaeth am yr adnabod neu'r ffordd y cafodd y dull adnabod ei weithredu.

3.3 Ni ddylid dangos ffotograffau, delweddau cyfrifiadurol neu argraff gyfansawdd gan artist neu argraffiadau neu luniau tebyg (yn cynnwys delweddau 'E-fit') i'r tyst os yw'r heddlu yn gwybod pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth a bod y tyst ar gael i adnabod trwy fideo, neu i adnabod mewn rhes neu grwp. Os nad yw'n wybyddus pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth, rhaid dangos delweddau o'r fath i dyst er mwyn iddo adnabod y sawl sydd dan amheuaeth yn unol ag *Atodiad E*.

***(b) Achosion pryd mae'n wybyddus pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth a phan fo'r sawl sydd dan amheuaeth ar gael***

D

D

3.4 Os yw'r heddlu'n gwybod pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth a'u bod ar gael, gellir defnyddio'r dulliau adnabod a nodir ym mharagraffau 3.5 i 3.10. Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at 'wybod' pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn golygu fod gan yr heddlu ddigon o wybodaeth i gyfiawnhau arestio person arbennig ar amheuaeth o ymwneud â'r drosedd. Ystyr bod y sawl sydd dan amheuaeth 'ar gael' yw eu bod ar gael yn syth neu y byddant ar gael o fewn cyfnod cymharol fyr, eu bod yn barod i gymryd rhan effeithiol yn o leiaf un o'r canlynol a'i bod yn ymarferol mynd ati i'w trefnu:

- adnabod trwy fideo;
- rhes adnabod; neu
- adnabod mewn grŵp.

***Adnabod trwy fideo***

3.5 Mae 'adnabod trwy fideo' yn golygu dangos delweddau symudol i dyst o'r sawl sydd dan amheuaeth, ynghyd â delweddau cyffelyb o eraill sy'n debyg i'r sawl sydd dan amheuaeth. Mae'n rhaid defnyddio delweddau symudol oni bai:

- fod y sawl sydd dan amheuaeth yn wybyddus ond nid ar gael (*gweler* paragraff 3.21 y Cod yma); neu
- yn unol â pharagraff 2A Atodiad A y Cod yma, nid yw'r swyddog adnabod yn ystyried bod modd atgynhyrchu nodwedd gorfforol neu nid yw'n bosib cuddio lleoliad y nodwedd ar ddelwedd o'r sawl sydd dan amheuaeth.

Yna fe all y swyddog adnabod benderfynu defnyddio adnabod trwy fideo ond gan ddefnyddio delweddau llonydd.

3.6 Rhaid i adnabod trwy fideo ddigwydd yn unol ag *Atodiad A*.

***Rhes adnabod***

3.7 Mae 'rhes adnabod' yn golygu fod y tyst yn gweld y sawl sydd dan amheuaeth mewn rhes gydag eraill sy'n debyg i'r sawl sydd dan amheuaeth.

3.8 Rhaid i resi adnabod ddigwydd yn unol ag *Atodiad B*.

***Adnabod mewn grŵp***

3.9 Mae 'adnabod mewn grŵp' yn golygu fod y tyst yn gweld y sawl sydd dan amheuaeth mewn grŵp anffurfiol o bobl.

3.10 Rhaid i adnabod mewn grŵp ddigwydd yn unol ag *Atodiad C*.

***Trefnu gweithdrefnau adnabod***

3.11 Ac eithrio'r darpariaethau ym mharagraff 3.19, bydd y trefniadau ar gyfer, a'r modd y cynhelir, y dulliau adnabod ym mharagraffau 3.5 i 3.10 a'r amgylchiadau pryd mae'n rhaid cynnal dull adnabod yn gyfrifoldeb swyddog nad yw'n is ei safle nag arolygydd nad ydyw yn rhan o'r ymchwiliad, 'y swyddog adnabod'. Os na nodir yn wahanol, gall y swyddog adnabod ganiatáu i swyddog arall neu staff yr heddlu, *gweler* paragraff 2.21, wneud y trefniadau, a chynnal, unrhyw un o'r dulliau adnabod hyn. Wrth ddirprwyo'r dulliau adnabod hyn, rhaid i'r swyddog adnabod allu goruchwylio'n effeithiol ac un ai ymyrryd neu fod ar gael i roi cyngor. Ni ddylai swyddog nag unrhyw berson arall sy'n rhan o'r ymchwiliad i'r achos yn erbyn y sawl sydd dan amheuaeth, y tu hwnt i ofynion y dulliau adnabod, gymryd rhan yn y dulliau adnabod hyn na gweithredu fel swyddog adnabod. Nid yw hyn yn rhwystro'r swyddog adnabod rhag ymgynghori â'r swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad i benderfynu pa ddull adnabod i'w ddefnyddio. Pan fo angen defnyddio dull adnabod, o ran tegwch i dystion a'r sawl sydd dan amheuaeth, dylid gwneud hynny cyn gynted â phosibl

D

***Amgylchiadau pan fo rhaid cynnal gweithdrefn adnabod***

3.12 Pryd bynnag:

(i) y mae tyst wedi adnabod y sawl sydd dan amheuaeth neu'n honni ei fod wedi eu hadnabod cyn cynnal unrhyw un o'r dulliau adnabod a nodir ym mharagraffu 3.5 i 3.10; neu

(ii) fod tyst ar gael, sy'n datgan gallu i adnabod y sawl sydd dan amheuaeth, neu pan fo cyfle rhesymol iddo allu gwneud hynny, ac nad yw wedi cael cyfle i adnabod y sawl sydd dan amheuaeth trwy unrhyw un o'r dulliau adnabod a nodir ym mharagraffau 3.5 i 3.10,

a bod y sawl sydd dan amheuaeth yn dadlau nad ef yw'r person yr honna'r tyst iddo ei weld, cynhelir dull adnabod os nad yw hynny'n anymarferol neu os na fyddai o unrhyw fudd i brofi neu wrthbrofi fod y sawl sydd dan amheuaeth wedi cyflawni'r drosedd. Er enghraifft, pan nad oes dadl fod y sawl sydd dan amheuaeth yn gyfarwydd i'r tyst sy'n honni iddo ei weld yn cyflawni'r drosedd.

3.13 Gellir cynnal dull o'r fath *hefyd* os yw'r swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad o'r farn y byddai hynny o fudd.

***Dewis dull adnabod***

3.14 Os oes dull adnabod i'w gynnal, oherwydd paragraff 3.12, i gychwyn bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn cael cynnig adnabod trwy fideo, oni bai fod

(a) adnabod trwy fideo yn anymarferol; neu

(b) bod rhes adnabod yn ymarferol a mwy addas nag adnabod trwy fideo; neu fod

(c) paragraff 3.16 yn berthnasol.

Bydd y swyddog adnabod a'r swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad yn ymgynghori â'i gilydd er mwyn penderfynu pa ddewis i'w gynnig. Efallai na fydd rhes adnabod yn ymarferol oherwydd ffactorau'n ymwneud â'r tystion, megis eu nifer, cyflwr eu hiechyd, gallu i fod ar gael a threfniadau teithio. Byddai adnabod trwy fideo'n fwy addas fel arfer pe gellid ei drefnu a'i gwblhau ynghynt na rhes adnabod.

D

3.15 Gofynnir i'r sawl sydd dan amheuaeth sy'n gwrthod y dull adnabod cyntaf a gynigir iddynt nodi eu rheswm dros wrthod a gallant gael cyngor eu cyfreithiwr ac/neu oedolyn priodol os ydyw yn bresennol. Caniateir i'r sawl sydd dan amheuaeth, cyfreithiwr ac/neu oedolyn priodol gyflwyno achos dros ddefnyddio dull arall. Dylid gwneud cofnod o'r rhesymau dros wrthod ac unrhyw achos a gyflwynir. Wedi ystyried unrhyw resymau a roddir, a'r achos a gyflwynir, bydd y swyddog adnabod, os yw hynny'n briodol, yn trefnu i'r sawl sydd dan amheuaeth gael dewis arall sy'n addas ac ymarferol ym marn y swyddog. Os bydd y swyddog yn penderfynu nad yw cynnig dull adnabod arall yn addas ac ymarferol bydd y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw'n cael eu cofnodi.

3.16 Fe all adnabod mewn grŵp gael ei gynnig yn gyntaf os yw'r swyddog yng ngofal yr ymchwiliad o'r farn ei bod yn fwy addas nac adnabod trwy fideo neu res adnabod a bod y swyddog adnabod yn ei ystyried yn ymarferol i'w drefnu.

***Rhybudd i'r sawl sydd dan amheuaeth***

3.17 Os nad yw *paragraff 3.20* yn berthnasol, cyn trefnu adnabod trwy fideo, rhes adnabod neu adnabod mewn grŵp, dylid egluro'r canlynol wrth y sawl sydd dan amheuaeth:

(i) pwrpas yr adnabod trwy fideo, rhes adnabod neu adnabod mewn grŵp;

(ii) eu hawl i gyngor cyfreithiol am ddim; *gweler* Côd C, paragraff 6.5;

(iii) y dull cywir o'i gynnal, yn cynnwys eu hawl i gael cyfreithiwr neu ffrind yn bresennol;

(iv) nad oes rhaid iddynt gytuno i na chydweithredu ag adnabod trwy fideo, rhes adnabod neu adnabod mewn grŵp;

(v) os nad ydynt yn cytuno i, ac yn cydweithredu ag, adnabod trwy fideo, rhes adnabod neu adnabod mewn grŵp, gall y ffaith iddynt wrthod gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth mewn unrhyw achos diweddarach a gall yr heddlu barhau yn y dirgel heb eu caniatâd neu wneud trefniadau eraill i brofi a all tyst eu hadnabod, *gweler paragraff 3.21;*

(vi) a oes delweddau eisoes wedi eu cymryd ohonynt ar gyfer adnabod trwy fideo, *gweler paragraff 3.20*, ac os felly, eu bod yn cydweithredu er mwyn cael delweddau eraill addas i'w defnyddio yn eu lle;

(vii) y trefniadau arbennig ar gyfer plant, os yw hynny'n briodol;

(viii) y trefniadau arbennig ar gyfer pobl sy'n dioddef anhwylder meddwl neu fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, os yw hynny'n briodol;

(ix) os ydynt yn newid eu hymddangosiad yn sylweddol rhwng cael cynnig dull adnabod ac unrhyw ymgais i gynnal dull adnabod, fe ellir defnyddio hyn fel tystiolaeth os bydd yr achos yn mynd gerbron llys, ac yna fe all y swyddog adnabod ystyried dulliau eraill o adnabod, *gweler paragraff 3.21* a *Nodyn 3C*;

(x) y gellir cymryd delwedd symudol neu ffotograff ohonynt wrth iddynt gymryd rhan mewn dull adnabod;

(xi) a gafodd y tyst, cyn i pwy oedd y sawl sydd dan amheuaeth ddod yn wybyddus, weld ffotograff, delwedd gyfrifiadurol neu argraff gyfansawdd gan artist neu argraff neu lun tebyg gan yr heddlu, *gweler Nodyn 3B;*

(xii) os ydynt yn newid eu hymddangosiad cyn rhes adnabod, efallai na fydd hi'n ymarferol trefnu un ar y diwrnod hwnnw nac unrhyw ddiwrnod wedi hynny ac, oherwydd y newid mewn ymddangosiad, fe all y swyddog adnabod ystyried dulliau eraill o adnabod, Gweler *Nodyn 3C;*

(xiii) y byddant hwy neu eu cyfreithiwr yn cael manylion am y disgrifiad o'r sawl sydd dan amheuaeth fel y rhoddwyd ef gyntaf gan unrhyw dystion sydd i fynychu'r adnabod trwy fideo, rhes adnabod, adnabod mewn grŵp neu'r cyfwynebiad, *gweler* paragraff 3.1.

3.18 Rhaid i'r wybodaeth hon *hefyd* gael ei chofnodi mewn rhybudd ysgrifenedig i'r sawl sydd dan amheuaeth. Rhaid i'r sawl sydd dan amheuaeth gael cyfle rhesymol i ddarllen y rhybudd, ac wedi hynny, dylid gofyn iddynt lofnodi ail gopi i nodi a ydynt yn barod i gydweithredu â gwneud fideo neu gymryd rhan mewn rhes adnabod neu adnabod mewn grŵp. Dylai'r copi llofnodedig gael ei gadw gan y swyddog adnabod.

3.19 Gall dyletswyddau'r swyddog adnabod o dan *baragraffau 3.17* a *3.18* gael eu cyflawni gan swyddog y ddalfa neu swyddog arall nad ydyw yn rhan o'r ymchwiliad os:

(a) oes bwriad i ryddhau'r sawl sydd dan amheuaeth er mwyn trefnu a chynnal gweithdrefn adnabod ac os nad oes arolygydd ar gael i weithredu fel swyddog adnabod, *gweler* paragraff 3.11, cyn i'r sawl sydd dan amheuaeth adael yr orsaf; neu

(b) os bwriedir cadw'r sawl sydd dan amheuaeth yn nalfa'r heddlu tra bo'r weithdrefn yn cael ei threfnu a'i chynnal ac os byddai aros am arolygydd i weithredu fel swyddog adnabod, *gweler* paragraff 3.11, achosi oedi afresymol i'r ymchwiliad.

Bydd y swyddog dan sylw yn hysbysu'r swyddog adnabod o'r hyn a wnaed ac yn rhoi iddo gopi llofnodedig o'r rhybudd. Gweler *Nodyn 3C*

D

3.20 Os yw'r swyddog adnabod a'r swyddog yng ngofal yr ymchwiliad yn amau, ar sail resymol, y byddai'r sawl sydd dan amheuaeth, o gael yr wybodaeth a'r rhybudd fel ym *mharagraffau 3.17* a *3.18*, yn cymryd camau i osgoi cael eu gweld gan y tyst mewn dull adnabod, gall y swyddog adnabod drefnu i gael ddelweddau o'r sawl sydd dan amheuaeth sy'n addas i'w defnyddio i adnabod trwy fideo cyn rhoi'r wybodaeth a'r rhybudd. Os oes delweddau o'r sawl sydd dan amheuaeth yn cael eu cymryd yn yr amgylchiadau hyn fe all y sawl sydd dan amheuaeth, ar gyfer pwrpas y dull adnabod trwy fideo, gydweithredu er mwyn darparu delweddau eraill addas i'w defnyddio yn eu lle, *gweler paragraff 3.17(vi)*.

### *(c) Achosion pryd mae'n wybyddus pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth ond nid yw ar gael*

3.21 Pryd mae'r sawl sydd dan amheuaeth yn wybyddus ond nid yw ar gael neu mae wedi peidio â bod ar gael, *gweler paragraff 3.4*, gall y swyddog adnabod wneud trefniadau ar gyfer adnabod trwy fideo (*gweler* Atodiad A). Os yw hynny'n angenrheidiol gall y swyddog adnabod ddilyn y dulliau cywir ar gyfer adnabod trwy fideo ond defnyddio delweddau **llonydd**. Gellir defnyddio unrhyw ddelweddau symudol neu lonydd ac os yw hynny'n angenrheidiol gellir eu cael trwy ddulliau dirgel. Fel arall, fe all y swyddog adnabod wneud trefniadau ar gyfer adnabod mewn grŵp. Gweler *Nodyn 3D*. Gellir defnyddio'r darpariaethau hyn ar gyfer plant *hefyd* pan fo rhiant neu warcheidwad yn gwrthod rhoi ei ganiatâd neu fod ymdrechion rhesymol i gael y caniatâd hwnnw yn methu. (*gweler paragraff 2.12*)

3.22 Dylid cyfyngu unrhyw weithredu dirgel i'r hyn sy'n angenrheidiol i brofi gallu'r tyst i adnabod y sawl sydd dan amheuaeth.

3.23 Fe all y swyddog adnabod drefnu i'r sawl sydd dan amheuaeth ddod wyneb yn wyneb â'r tyst os nad yw'r un o'r dewisiadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 3.5 i 3.10 neu 3.21 yn ymarferol. Mewn 'cyfwynebiad' mae'r sawl sydd dan amheuaeth yn dod i gysylltiad uniongyrchol â'r tyst. Nid oes rhaid wrth ganiatâd y sawl sydd dan amheuaeth er mwyn cael cyfwynebiad. Rhaid i gyfwynebiadau ddigwydd yn unol ag Atodiad D.

3.24 Nid yw'r gofynion ar gyfer rhoi gwybodaeth i, neu gael gwybodaeth gan, y sawl sydd dan amheuaeth neu roi cyfle i'r sawl sydd dan amheuaeth weld delweddau cyn iddynt gael eu dangos i dyst, yn berthnasol os yw diffyg cydweithrediad y tyst yn rhwystr i'r gweithredu angenrheidiol.

***(d) Dogfennau***

3.25 Gwneir cofnod o'r adnabod trwy fideo, rhes adnabod, adnabod mewn grŵp neu gyfwynebiad ar y ffurflenni pwrpasol.

3.26 Os nad yw'r swyddog adnabod yn ei hystyried hi'n ymarferol i adnabod trwy fideo neu res adnabod yn unol â chais y sawl sydd dan amheuaeth, bydd y rhesymau'n cael eu cofnodi a'u hegluro i'r sawl sydd dan amheuaeth.

3.27 Gwneir cofnod o fethiant neu wrthodiad person i gydweithredu ag adnabod trwy fideo, rhes adnabod ac, os yw hynny'n berthnasol, y seiliau dros gael delweddau'n unol â *pharagraff 3.20*.



***(e) Dangos ffilmiau a ffotograffau o ddigwyddiadau a gwybodaeth a ryddheir i'r cyfryngau***

3.28 Nid oes dim yn y Côd hwn yn gwahardd dangos ffilmiau neu ffotograffau i'r cyhoedd trwy'r cyfryngau cenedlaethol neu leol, neu i swyddogion yr heddlu er mwyn adnabod a chanfod y sawl sydd dan amheuaeth. Fodd bynnag, pan ddangosir deunyddiau o'r fath i dystion posibl, yn cynnwys swyddogion yr heddlu, *gweler Nodyn 3A*, er mwyn cael tystiolaeth adnabod, byddant yn cael eu dangos ar seiliau unigol er mwyn osgoi unrhyw bosibilrwydd o gydgynllwynio, a chyn belled â phosibl, bydd y dangos yn dilyn egwyddorion adnabod trwy fideo os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn wybyddus, *gweler Atodiad A*, neu adnabod trwy ffotograffau os nad yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn wybyddus, *gweler Atodiad E*.

3.29 Pan wneir darllediad neu gyhoeddiad, *gweler paragraff 3.28*, bydd copi o'r deunydd perthnasol a ryddhawyd i'r cyfryngau er mwyn adnabod neu ganfod y sawl sydd dan amheuaeth, yn cael ei gadw. Bydd y sawl sydd dan amheuaeth neu eu cyfreithiwr yn cael gweld unrhyw ddeunydd o'r fath cyn cynnal unrhyw ddulliau adnabod o dan *baragraffau 3.5* i *3.10*, *3.21* neu *3.23*, cyn belled â bod hynny'n ymarferol ac nad yw'n debygol o oedi'r ymchwiliad yn ormodol. Gofynnir i bob tyst sy'n rhan o'r dull adnabod, wedi iddo chwarae'i ran, a fu iddo weld unrhyw ddarllediad neu ffilmiau cyhoeddedig neu ffotograffau yn cyfeirio at y drosedd neu unrhyw ddisgrifiad o'r sawl sydd dan amheuaeth a dylid cofnodi'r atebion. Nid yw'r paragraff hwn yn amharu ar unrhyw amod arall o dan y Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliad Troseddol 1996, i gadw deunyddiau mewn cysylltiad ag ymchwiliadau troseddol.

***(f) Difrodi neu gadw ffotograffau a gymerwyd neu a ddefnyddiwyd mewn dulliau adnabod***

3.30 Mae PACE, adran 64A, *gweler paragraff 5.12*, yn darparu pwerau i gymryd ffotograffau o'r sawl sydd dan amheuaeth ac yn caniatáu i'r ffotograffau hyn gael eu defnyddio neu ddatgelu'n unig ar gyfer dibenion sy'n gysylltiedig ag atal neu ganfod troseddau, archwilio i droseddau neu gynnal erlyniadau gan, neu ar ran, yr heddlu neu awdurdodau

gorfodi'r ddeddf neu erlyn y tu mewn neu'r tu allan i'r Deyrnas Unedig neu weithredu dedfryd. Wedi iddynt gael eu defnyddio neu ddatgelu fel hyn, gellir eu cadw ond ni ellir ond eu defnyddio neu ddatgelu ar gyfer yr un dibenion.

3.31 Yn unol â pharagraff 3.33, rhaid i ffotograffau (a phob negatif a chopi), o'r sawl a amheuwyd na chafwyd eu cymryd yn unol â darpariaethau paragraff 5.12 ac a gymerwyd at ddibenion neu mewn cysylltiad â'r gweithdrefnau adnabod ym mharagraffau 3.5, 3.10, 3.21 neu 3.23, gael eu dinistrio os nad yw'r sawl sydd dan amheuaeth:

(a) yn cael eu cyhuddo o, neu'n cael eu hysbysu y gallant gael eu herlyn am, drosedd gofnodadwy;

(b) yn cael eu herlyn am drosedd gofnodadwy;

(c) yn cael rhybudd am drosedd gofnodadwy neu'n cael rhybudd neu gerydd yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 am drosedd gofnodadwy; neu'n

(d) rhoi caniatâd gwybodus, mewn ysgrifen, i'r ffotograffau neu ddelweddau gael eu cadw ar gyfer y dibenion a ddisgrifir ym *mharagraff 3.30*.

3.32 Pan fo *paragraff 3.31* yn gofyn am ddileu unrhyw ffotograff, rhaid rhoi'r cyfle i'r person fod yn dyst i'r dinistrio neu gael tystysgrif yn cadarnhau'r dinistrio os ydynt yn gofyn am un o fewn pum diwrnod i gael eu hysbysu fod y dinistrio yn ofynnol.

3.33 Nid oes dim ym *mharagraff 3.31* yn effeithio ar unrhyw ofynion ar wahân o dan y Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliad Troseddol 1996 i gadw deunydd mewn cysylltiad ag ymchwiliadau troseddol.

***Nodiadau arweiniad***

*3A Ac eithrio'r darpariaethau yn Atodiad E, paragraff 1, mae swyddog heddlu sy'n dyst ar gyfer dibenion y rhan hon o'r Côd yn atebol i'r un egwyddorion a dulliau o weithredu a thyst lleyg.*

*3B Pan fo tyst sy'n mynychu dull adnabod eisoes wedi gweld ffotograffau, neu wedi gweld delweddau cyfrifiadurol neu argraffiadau cyfansawdd artist, neu argraffiadau neu luniau tebyg, y swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad sy'n gyfrifol am roi gwybod hyn i'r swyddog adnabod.*

*3C Pwrpas paragraff 3.19 yw osgoi neu atal oedi wrth drefnu dulliau adnabod trwy alluogi'r wybodaeth a'r rhybuddion y gofynnir amdanynt, gweler is-baragraffau 3.17(ix) a 3.17(xii), i gael eu rhoi cyn gynted â phosibl.*

*3D Byddai paragraff 3.21 yn berthnasol pan fo person dan amheuaeth yn peidio bod ar gael*

*yn fwriadol er mwyn atal neu ddrysu trefniadau ar gyfer cael tystiolaeth adnabod. Mae hefyd yn berthnasol pan fo'r sawl sydd dan amheuaeth yn gwrthod neu'n methu cymryd rhan mewn adnabod trwy fideo, rhes adnabod neu adnabod mewn grŵp, neu'n gwrthod neu'n methu cymryd rhan yn yr unig ddewisiadau ymarferol ar y rhestr honno. Mae'n galluogi unrhyw ddelweddau addas o'r sawl sydd dan amheuaeth, symudol neu lonydd, sydd ar gael neu y gellir eu cael, i gael eu defnyddio mewn dull adnabod. Mae enghreifftiau yn cynnwys delweddau o'r ddalfa a systemau CCTV eraill a chofnodion cyfweliadau a recordiwyd yn weledol, gweler Cod F Nodyn 2D*

*3E Pan fo bwriad i ddangos ffotograffau i dyst yn unol ag Atodiad E, cyfrifoldeb y swyddog sydd yng ngofal yr ymchwiliad yw cadarnhau i'r swyddog sy'n gyfrifol am oruchwylio a chyfarwyddo'r dangos, fod y disgrifiad a roddwyd gyntaf gan y tyst o'r sawl sydd dan amheuaeth wedi ei gofnodi. Os nad yw'r disgrifiad hwn wedi ei gofnodi, rhaid gohirio'r dull cywir o weithredu o dan Atodiad E. Gweler Atodiad E paragraff 2.*

*3F Fe all derbynioldeb a gwerth y dystiolaeth adnabod a gafwyd wrth gynnal y weithdrefn o dan baragraff 3.2 gael ei beryglu os:*

*(a) tynnir sylw'r tyst at berson arbennig, cyn iddo gael ei adnabod; neu*

*(b) daw'n wybyddus pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth cyn cynnal y weithdrefn.*

## 4 Adnabod trwy olion bysedd ac olion esgidiau

### *(A) Cymryd olion bysedd ac olion esgidiau mewn cysylltiad ag ymchwiliad troseddol*

#### *(a) Cyffredinol*

4.1 Mae cyfeiriadau at 'olion bysedd' yn golygu unrhyw gofnod, wedi'i gynhyrchu trwy unrhyw ddull, o batrwm croen a nodweddion ffisegol eraill

(i) bysedd; neu

(ii) gledrau dwylo person.

#### *(b) Gweithredu*

4.2 Ni ellir cymryd olion bysedd person mewn cysylltiad ag ymchwiliad i drosedd ond os ydynt yn rhoi eu caniatâd neu os yw *paragraff 4.3* yn berthnasol. Os yw'r person mewn gorsaf heddlu rhaid i'r caniatâd fod yn ysgrifenedig.

4.3 Mae PACE, adran 61, yn darparu pwerau i gymryd olion bysedd heb ganiatâd gan unrhyw berson sydd dros ddeg oed:

D

(a) o dan adran 61(3), gan y sawl sy'n cael eu cadw mewn swyddfa heddlu o ganlyniad i'w arestio am drosedd gofnodadwy, *gweler* Nodyn 4A, ac na chymerwyd ei olion bysedd yng nghwrs ymchwiliad i'r drosedd oni bai nad yw'r olion bysedd a gymerwyd yn ffurfio set gyflawn o'u holion bysedd neu fod rhai, neu'r cyfan, o'r olion bysedd ddim o safon digon da i alluogi dadansoddiad boddhaol, cymharu na chyfateb.

(b) o dan adran 61(4), gan y sawl sy'n cael eu cadw mewn swyddfa heddlu sydd wedi cael eu cyhuddo o drosedd gofnodadwy, *gweler* Nodyn 4A, neu gael eu hysbysu eu bod am gael eu riportio am drosedd o'r fath os na chymerwyd ei olion bysedd yng nghwrs ymchwiliad i'r drosedd oni bai nad yw'r olion bysedd a gymerwyd yn ffurfio set gyflawn o'u holion bysedd neu fod rhai, neu'r cyfan, o'r olion bysedd ddim o safon digon da i alluogi dadansoddiad boddhaol, cymharu na chyfateb.

(c) o dan adran 61(4A), gan berson sydd wedi ei fechnïo i ymddangos mewn llys neu swyddfa heddlu os yw'r person:

(i) wedi ateb i fechnïaeth ar ran person y cymerwyd ei olion bysedd o'r blaen a bod sail resymol dros gredu nad ydynt yr un person; neu

(ii) wedi ateb i fechnïaeth ac yn honni ei fod yn berson gwahanol i'r person y cymerwyd ei olion bysedd o'r blaen;

ac yn y ddau achos, fod y llys neu swyddog o safle arolygydd neu uwch yn awdurdodi'r olion bysedd i gael eu cymryd yn y llys neu orsaf heddlu;

(d) o dan adran 61(6), gan berson sydd wedi cael ei:

(i) ddyfarnu'n euog o drosedd gofnodadwy;

(ii) rybuddio mewn cysylltiad â throsedd gofnodadwy y bu i'r person gyfaddef iddi ar adeg y rhybudd; neu

(iii) rybuddio neu geryddu o dan Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998, adran 65, am drosedd gofnodadwy.

4.4 Mae PACE, adran 27, yn darparu pwerau ar gyfer:

(a) gofyn i berson fel ym *mharagraff 4.3(d)* i fynychu gorsaf heddlu er mwyn rhoi eu holion bysedd os:

(i) nad yw'r person wedi cael ei gadw gan yr heddlu am y drosedd ac os na chymerwyd ei olion bysedd yn ystod yr ymchwiliad i'r drosedd honno; neu

(ii) nad yw'r olion bysedd a gymerwyd gan y person yn ystod yr ymchwiliad i'r

drosedd yn ffurfio set gyflawn neu nad yw peth, neu'r cyfan, o'r olion bysedd o safon digon da i alluogi dadansoddi boddhaol, cymharu neu gyfateb; ac

(b) arestio, heb warant, berson sy'n gwrthod cydymffurfio â'r cais.

Nodyn: Rhaid i'r cais gael ei wneud o fewn un mis i'r dyddiad pryd y cafodd y person ei ddedfrydu, rybuddio neu geryddu a rhaid i'r person gael cyfnod o 7 diwrnod o leiaf ar gyfer mynychu. Nid oes rhaid i'r cyfnod 7 diwrnod hwn fod yn ystod y mis a ganiateir ar gyfer gwneud y cais.

4.5 Gall olion bysedd person gael eu cymryd, fel uchod, yn electronig.

4.6 Gellir defnyddio grym rhesymol, os yw hynny'n angenrheidiol, i gymryd olion bysedd person heb ei ganiatâd o dan y pwerau ym *mharagraffau 4.3* a *4.4*.

4.7 Cyn y gellir cymryd olion bysedd gyda, neu heb ganiatâd fel uchod, rhaid hysbysu'r person:

(a) o'r rheswm fod ei olion bysedd yn cael eu cymryd;

(b) ar ba seiliau mae'r awdurdod perthnasol wedi cael ei roi os yw'r pŵer yw'r pwerau a grybwyllir ym mharagraff 4.3(c) yn berthnasol;

(c) y gall yr olion bysedd gael eu cadw a'u defnyddio mewn chwiliad yn erbyn olion bysedd eraill, *gweler Nodyn 4B*, os nad oes angen dinistrio'r olion bysedd yn unol ag *Atodiad F*, *Rhan (a)*; ac

(d) os oes angen dinistrio'r olion bysedd, y gall fod yn dyst i'r dinistrio yn unol â'r ddarpariaeth yn *Atodiad F, Rhan (a)*.

***(c) Dogfennau***

4.8 Rhaid gwneud cofnod cyn gynted â phosibl o'r rheswm dros gymryd olion bysedd person heb ei ganiatâd. Os defnyddir grym, gwneir cofnod o'r amgylchiadau a'r sawl sy'n bresennol.

4.9 Gwneir cofnod wedi i berson gael ei hysbysu o dan delerau *paragraff 4.7(c)*, o'r posibilrwydd y gall ei olion bysedd gael eu defnyddio mewn chwiliad.

***(B) Cymryd olion bysedd mewn cysylltiad ag ymholiadau mewnfudo***

***Gweithredu***

4.10 Gellir cymryd olion bysedd person ar gyfer dibenion ymholiadau'r Gwasanaeth Mewnfudo yn unol â phwerau a gweithdrefnau gwahanol i rai PACE ac sy'n gyfrifoldeb i'r Gwasanaeth Mewnfudo (nid yr heddlu), gyda chaniatâd ysgrifenedig y person yn unig



D

D

neu os yw *paragraff 4.11* yn berthnasol.

4.11 Rhoddir pwerau i'r heddlu a swyddogion mewnfudo gymryd olion bysedd heb ganiatâd ar gyfer y dibenion hyn o dan:

(a) Ddeddf Mewnfudo 1971, Atodlen 2, paragraff 18(2), pan fo hynny'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer adnabod person sy'n cael ei gadw o dan Ddeddf Mewnfudo 1971, Atodlen 2, paragraff 16 (Cadw person sy'n atebol i gael ei archwilio neu symud);

(b) Deddf Mewnfudo a Lloches 1999, adran 141(7)(a), gan berson sy'n methu ar ôl cyrraedd â dangos pasport dilys gyda ffotograff neu ryw ddogfen arall sy'n foddhaol i sefydlu pwy yw person ac i ba genedl mae'n perthyn, os nad yw'r swyddog mewnfudo o'r farn fod gan y person esgus rhesymol dros y methiant;

(c) Deddf Mewnfudo a Lloches 1999, adran 141(7)(b), gan berson y gwrthodwyd mynediad iddo i'r Deyrnas Unedig ond sydd wedi cael mynediad dros dro os oes gan y swyddog mewnfudo reswm dros amau y gall y person dorri amod a osodwyd arno mewn cysylltiad â'i arhosiad neu riportio i'r heddlu neu swyddog mewnfudo, a bod y penderfyniad yn cael ei gadarnhau gan brif swyddog mewnfudo;

(d) Deddf Mewnfudo a Lloches 1999, adran 141(7)(c), pan roddir cyfarwyddiadau i symud person:

- sydd wedi dod i'r wlad yn anghyfreithlon,
- sy'n atebol i gael ei symud o dan Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999, adran 10,
- sy'n destun gorchymyn alltudiaeth o'r Deyrnas Unedig.

(e) Deddf Mewnfudo a Lloches 1999, adran 141(7)(d), gan berson a arestiwyd o dan gyfreithiau mewnfudo'r Deyrnas Unedig o dan Ddeddf Mewnfudo 1971, Atodlen 2, paragraff 17;

(f) Deddf Mewnfudo a Lloches 1999, adran 141(7)(e), gan berson sydd wedi gwneud cais:

- am loches
- o dan Erthygl 3 o'r Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;

(g) Deddf Mewnfudo a Lloches 1999, adran 141(7)(f), gan berson sy'n ddibynnol ar rywun dod o dan (b) i (f) uchod.

4.12 Mae Deddf Mewnfudo a Lloches 1999, adran 142(3), yn rhoi pŵer i swyddog heddlu

neu swyddog mewnfudo i arestio, heb warant, person sy'n methu cydymffurfio ag amod a osodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i fynychu man arbennig i roi olion bysedd.

4.13 Cyn cymryd olion bysedd, gyda neu heb ganiatâd, rhaid hysbysu'r person:

(a) o'r rheswm pam fod eu holion bysedd yn cael eu cymryd;

(b) y bydd yr olion bysedd, a phob copi ohonynt, yn cael eu dinistrio yn unol ag *Atodiad F*, *Rhan B*.

4.14 Gellir defnyddio grym rhesymol, os yw hynny'n angenrheidiol, i gymryd olion bysedd person heb ei ganiatâd o dan y pwerau a nodir ym *mharagraff 4.11*.

4.15 Mae *paragraffau 4.1* a *4.8* yn berthnasol.



### *(C) Cymryd olion esgidiau mewn cyslltiad ag ymchwiliad troseddol*

#### *(a) Gweithredu*

4.16 Gellir cymryd olion esgidiau person ar gyfer dibenion ymchwilio i drosedd yn unig gyda chaniatâd y person neu os yw *paragraff 4.17* yn berthnasol. Os yw'r person mewn gorsaf heddlu mae'n rhaid i'r caniatâd fod yn ysgrifenedig.

4.17 Mae PACE, adran 61A, yn darparu pwerau i swyddog heddlu gymryd olion esgidiau heb ganiatâd gan unrhyw berson sydd dros ddeg oed sy'n cael ei gadw mewn gorsaf heddlu.

(a) o ganlyniad i'w arestio am drosedd gofnodadwy, *gweler* Nodyn 4A, neu os yw'r sawl sy'n cael eu cadw wedi eu cyhuddo o drosedd gofnodadwy, neu eu hysbysu y byddant yn cael eu riportio am drosedd o'r fath; ac.

(b) os na chymerwyd olion esgidiau yng nghwrs ymchwiliad i'r drosedd oni bai nad yw'r olion esgidiau a gymerwyd yn ffurfio set gyflawn o'u holion esgidiau neu fod yr olion esgidiau ddim o safon digon da i alluogi dadansoddiad boddhaol, cymharu na chyfateb (boed yn yr achos dan sylw neu yn gyffredinol).

4.18 Gellir defnyddio grym rhesymol, os yw hynny'n angenrheidiol, i gymryd olion esgidiau person heb ei ganiatâd o dan y pwerau a nodir ym *mharagraff 4.17*.

4.19 Cyn y gellir cymryd olion esgidiau gyda, neu heb ganiatâd fel uchod, rhaid hysbysu'r person:

(a) o'r rheswm fod ei olion esgidiau yn cael eu cymryd;

(b) y gall yr olion esgidiau gael eu cadw a'u defnyddio mewn chwiliad yn erbyn olion esgidiau eraill, *gweler Nodyn 4B*, os nad oes angen dinistrio'r olion yn unol ag *Atodiad F*, Rhan (a); ac

(c) os oes angen dinistrio'r olion esgidiau, y gall fod yn dyst i'r dinistrio yn unol â'r ddarpariaeth yn *Atodiad F, Rhan* (a).

***(b) Dogfennau***

4.20 Rhaid gwneud cofnod cyn gynted â phosibl o'r rheswm dros gymryd olion esgidiau person heb ei ganiatâd. Os defnyddir grym, gwneir cofnod o'r amgylchiadau a'r sawl sy'n bresennol.

4.21 Gwneir cofnod wedi i berson gael ei hysbysu o dan delerau *paragraff 4.19(b)*, o'r posibilrwydd y gall ei olion esgidiau gael eu defnyddio mewn chwiliad.

D

***Nodiadau arweiniad***

*4A Mae cyfeiriadau at 'droseddau cofnodadwy' yn y Cod hwn yn cyfeirio at y troseddau hynny y gall dedfrydau, rhybuddion a cheryddon gael eu cofnodi yng nghofnodion cenedlaethol yr heddlu. Gweler PACE, adran 27(4). Y troseddau cofnodadwy sy'n gyfredol ar adeg paratoi'r Cod hwn yw unrhyw droseddau sy'n ennyn dedfryd o garchar (beth bynnag fo'r cyfnod, neu oed y troseddwr neu'r ddedfryd a gafwyd) yn ogystal â throseddau nad ydynt yn ennyn carchar o dan Ddeddf Crwydradaeth Act 1824 adrannau 3 a 4 (cardota a chardota parhaus), Deddf Troseddau Stryd 1959, adran 1 (loetran at ddibenion puteinio), Deddf Traffig Ffyrdd 1988,adran 25 (ymyrryd â cherbydau ffordd), the Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, adran 167 (towtio am wasanaethau llogi ceir). Gyda'r bwriad o achosi gofid neu boen meddwl) ac eraill a restrir yn Rheoliadau Cofnodion Cenedlaethol yr Heddlu (Troseddau Cofnodadwy) 2000 fel y'i diwygiwyd*

*4B Gall olion bysedd, olion esgidiau neu samplau DNA (a'r wybodaeth sy'n deillio ohonynt) a gymerwyd gan berson a arestiwyd ar amheuaeth o fod yn gysylltiedig â throsedd gofnodadwy, neu a gyhuddwyd o drosedd o'r fath, neu a hysbyswyd ei fod am gael ei riportio am drosedd o'r fath, gael eu defnyddio mewn chwiliad. Mae hyn yn golygu y gall yr olion bysedd, olion esgidiau neu samplau DNA gael eu gwirio yn erbyn cofnodion eraill o olion bysedd, olion esgidiau neu samplau DNA a gedwir gan, neu ar ran, yr heddlu neu awdurdodau gweithredu'r gyfraith eraill o fewn, neu'r tu allan, i'r Deyrnas Unedig, neu a gedwir mewn cysylltiad ag, neu o ganlyniad i, ymchwiliad i drosedd y tu mewn neu'r tu allan i'r Deyrnas Unedig. Ni ellir ond defnyddio olion bysed, olion esgidiau neu samplau gan berson a gafodd ei amau o gyflawni trosedd gofnodadwy, mewn chwiliad os yw'r person hwnnw'n rhoi caniatâd ysgrifenedig. Mae'r canlynol yn enghraifft o ffurf sylfaenol y geiriau:*

*"Rwy'n cytuno i olion fy mysedd, olion fy esgidiau, a'm sampl DNA a gwybodaeth sy'n deillio ohoni gael eu cadw a'u defnyddio yn unig at bwrpasau sy'n perthyn i atal a chanfod trosedd, ymchwilio i drosedd neu gynnal erlyniad, naill ai'n genedlaethol neu'n rhyngwladol.*

*Rwy'n deall y gall olion fy mysedd, olion fy esgidiau neu'r sampl DNA gael eu cymharu â chofnodion olion bysedd, olion esgidiau a DNA eraill sy'n cael eu cadw naill gan neu ar ran awdurdodau gorfodi cyfraith perthnasol, naill ai'n genedlaethol neu'n rhyngwladol.*

*Rwy'n deall na fydd hi'n bosibl, unwaith y byddaf wedi rhoi fy nghytundeb i'r sampl olion bysedd, olion esgidiau neu DNA gael ei chadw a'i defnyddio, i mi dynnu'r cytundeb hwnnw yn ôl."*

*Gweler Atodiad F ynghylch cadw a defnyddio olion bysedd ac olion esgidiau a gymerwyd gyda chaniatâd at bwrpas dileu o'r ymchwiliad.*



## 5 Archwiliadau i sefydlu pwy yw person a chymryd ffotograffau

### *(A) Y sawl sy'n cael eu cadw mewn gorsafoedd heddlu*

### *(a) Chwilio neu archwilio'r sawl sy'n cael eu cadw mewn gorsafoedd heddlu*

5.1 Mae PACE, adran 54A (1), yn caniatáu i'r sawl sy'n cael eu cadw mewn gorsafoedd heddlu i gael eu chwilio neu eu harchwilio neu'r ddau, er mwyn sefydlu:

(a) a oes ganddynt unrhyw farciau, nodweddion neu anafiadau a fyddai'n awgrymu eu bod yn berson sy'n gysylltiedig â throsedd ac i gymryd ffotograff o unrhyw farciau adnabod, *gweler paragraff 5.5*; neu

(b) pwy ydynt, *gweler Nodyn 5A*.

Nid yw person a gedwir mewn swyddfa heddlu i'w chwilio o dan bŵer atal a chwilio, *gweler* Côd A, yn berson a gedwir ar gyfer dibenion y pwerau hyn.

5.2 Ni ellir cynnal chwiliad ac/neu archwiliad i ganfod marciau o dan adran 54A (1) (a) heb ganiatâd y sawl sy'n cael eu cadw, *gweler paragraff 2.12*, ond os yw swyddog o safle arolygydd o leiaf yn awdurdodi hynny pan fo caniatâd yn cael ei wrthod neu pan nad ydyw cael caniatâd yn ymarferol, *gweler Nodyn 5D*.

5.3 Ni ellir cynnal chwiliad ac/neu archwiliad i sefydlu pwy yw person o dan 54A (1) (b) heb ganiatâd y sawl sy'n cael eu cadw, *gweler paragraff 2.12*, ond os yw swyddog o safle arolygydd o leiaf yn awdurdodi hynny pan fo'r person sy'n cael ei gadw wedi gwrthod dweud pwy ydyw neu fod gan y swyddog awdurdodi sail resymol dros amau ei fod yn berson gwahanol i bwy mae'n honni bod.

5.4 Mae unrhyw farciau sy'n gymorth i sefydlu pwy yw'r sawl sy'n cael eu cadw, neu i adnabod person sy'n gysylltiedig â throsedd, yn farciau adnabod. Gellir cymryd ffotograffau o farciau o'r fath gyda chaniatâd, *gweler paragraff 2.12*; neu heb ganiatâd os yw'n cael ei wrthod neu os nad ydyw cael caniatâd yn ymarferol, *gweler Nodyn 5D*.

5.5 O dan adran 54A, ni ellir ond chwilio, archwilio a chymryd ffotograff o berson a gedwir gan swyddog heddlu o'r un rhyw.

5.6 Ni ellir ond defnyddio unrhyw ffotograffau o farciau adnabod o gymerwyd o dan adran 54A ar gyfer dibenion sy'n gysylltiedig ag atal neu ddatrys troseddau, archwilio i droseddau neu gynnal erlyniadau gan, neu ar ran, yr heddlu neu awdurdodau erlyn neu weithredu'r gyfraith eraill o fewn, a'r tu allan, i'r Deyrnas Unedig. Ar ôl ei ddefnyddio neu'i ddatgelu fel hyn, gellir cadw'r ffotograff ond ni ddylid ei ddefnyddio na'i ddatgelu ar wahân i'r dibenion hyn, *gweler Nodyn 5B*.

5.7 Nid yw'r pwerau, fel ym *mharagraff 5.1*, yn effeithio ar unrhyw ofynion ar wahân o dan Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliad Troseddol i gadw deunyddiau mewn cysylltiad ag ymchwiliadau troseddol.

5.8 Gall awdurdod i chwilio ac/neu archwilio ar gyfer y dibenion ym *mharagraffau 5.2* a *5.3* gael ei roi ar lafar neu'n ysgrifenedig. Os rhoddir ef ar lafar, rhaid i'r swyddog awdurdodi ei gadarnhau ar bapur cyn gynted â phosibl. Mae angen awdurdodiad gwahanol ar gyfer pob pwrpas sy'n berthnasol.

5.9 Os sefydlir bod person a gedwir yn amharod i gydweithredu digon i alluogi cynnal chwiliad ac/neu archwiliad neu ffotograff addas i gael ei gymryd, gall swyddog ddefnyddio grym rhesymol i:

(a) chwilio ac/neu archwilio'r sawl sy'n cael eu cadw heb eu caniatâd; a

(b) chymryd ffotograff o unrhyw farciau adnabod heb eu caniatâd.

5.10 Ni ddylai trylwyredd a graddau unrhyw chwiliad neu archwiliad a gynhelir yn unol â'r pwerau yn adran 54A fod yn fwy nag y mae'r swyddog yn ei ystyried yn angenrheidiol i gyflawni'r hyn sydd ei angen. Bydd unrhyw chwiliad neu archwiliad sy'n golygu diosg mwy na dillad allanol person yn cael ei gynnal yn unol â Chôd C, Atodiad A, paragraff 11.

5.11 Ni ellir cynnal chwiliad personol o dan y pwerau yn adran 54A.

***(b) Cymryd ffotograffau o'r sawl sy'n cael eu cadw mewn swyddfeydd heddlu a phobl eraill mewn mannau ar wahân i orsaf heddlu.***

5.12 O dan PACE, adran 64A, gall swyddog gymryd ffotograff o:

(a) unrhyw berson tra ei fod yn cael ei gadw mewn gorsaf heddlu; ac

(b) unrhyw berson sydd mewn man ar wahân i orsaf heddlu ac sydd wedi:

(i) ei arestio gan heddwas am drosedd;

(ii) ei gymryd i'r ddalfa gan heddwas ar ôl cael ei arestio am drosedd gan rywun ac eithrio heddwas;

(iii) ei wneud yn destun gofyniad i aros gyda swyddog cefnogaeth cymunedol o dan baragraff 2(3) neu (3B) Atodlen 4 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002;

(iv) derbyn hysbysiad o gosb gan heddwas mewn iwnifform o dan Bennod 1 Rhan 1 Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2001, hysbysiad o gosb gan heddwas o dan adran 444A Deddf Addysg 1996, neu hysbysiad o gosb sefydlog gan heddwas mewn iwnifform o dan adran 54 Deddf Troseddwyr Traffig y Ffyrdd 1988;

(v) derbyn hysbysiad mewn perthynas â throsedd cosb sefydlog perthnasol (o fewn ystyr paragraff 1 Atodlen 4 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002) gan swyddog cefnogaeth cymunedol yn rhinwedd dynodiad sy'n golygu bod y paragraff yn berthnasol iddo ef/hi; neu

(vi) dderbyn hysbysiad mewn perthynas â throsedd cosb sefydlog perthnasol (o fewn ystyr paragraff 1 Atodlen 5 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002) gan berson achrededig yn rhinwedd dynodiad sy'n golygu bod y paragraff yn berthnasol iddo ef/hi.

5.12A Gall ffotograffau a gymerir o dan PACE, adran 64A:

(a) gael eu cymryd gyda chaniatâd y person, neu heb ganiatâd os na roddir caniatâd neu os nad yw'n ymarferol cael eu caniatâd, *gweler Nodyn 5E*; a

(b) gael eu defnyddio neu eu datgelu yn unig ar gyfer dibenion sy'n ymwneud ag atal neu ganfod troseddu, ymchwilio i droseddau neu gynnal erlyniadau gan, neu ar ran, yr heddlu neu awdurdodau erlyn a gorfodi'r gyfraith eraill o fewn a'r tu allan i'r Deyrnas Unedig neu orfodi unrhyw ddedfryd neu orchymyn a wnaed gan lys wrth ddelio gyda throsedd. Ar ôl cael eu defnyddio neu eu datgelu fel hyn, gellir eu cadw ond ni ellir eu defnyddio neu eu datgelu ar gyfer unrhyw ddiben ac eithrio'r hyn a nodwyd uchod. Gweler *Nodyn 5B*.

5.13 Gall swyddog sy'n bwriadu cymryd ffotograff o berson a gedwir ofyn, ar gyfer y pwrpas hwn, i'r person ddiosg unrhyw eitem neu sylwedd a wisgir ar, neu dros, y cyfan, neu unrhyw ran, o'r pen neu wyneb. Os nad ydynt yn cydymffurfio â chais o'r fath, gall y swyddog ddiosg unrhyw eitem neu sylwedd.

5.14 Os sefydlir bod y sawl sy'n cael eu cadw yn amharod i gydweithredu digon i alluogi i ffotograff addas i gael ei gymryd ac os nad ydyw yn rhesymol ymarferol i gymryd y ffotograff yn ddirgel, gall y swyddog ddefnyddio grym rhesymol i:

(a) gymryd eu ffotograff heb eu caniatâd; ac

(b) ar gyfer pwrpas cymryd y ffotograff, diosg unrhyw eitem neu sylwedd a wisgir ar, neu dros, y cyfan, neu unrhyw ran, o'r pen neu wyneb y maent wedi gwrthod ei ddiosg pan ofynnwyd iddynt *gweler Nodyn 5F*.

5.15 Ar gyfer dibenion y Côd hwn, gellir cymryd ffotograff heb ganiatâd y person trwy wneud copi o ddelwedd a gymerwyd ohono ar unrhyw adeg ar system gamera wedi ei gosod unrhyw le yn swyddfa'r heddlu.

D

### *(c) Gwybodaeth sydd i'w rhoi*

5.16 Pan fo person yn cael ei chwilio, archwilio neu'n cael cymryd ei ffotograff o dan y darpariaethau fel ym *mharagraff 5.1* a *5.12*, neu ceir ffotograff ohono fel ym *mharagraff 5.15*, rhaid ei hysbysu:

(a) o bwrpas y chwiliad, archwiliad neu ffotograff;

(b) o'r sail dros roi'r awdurdod perthnasol, os yn berthnasol; a'r

(c) dibenion y gall y ffotograff gael ei ddefnyddio, datgelu neu'i gadw.

Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei rhoi cyn i'r chwiliad neu archwiliad gychwyn neu i'r ffotograff gael ei gymryd, os nad yw'r ffotograff yn:

(i) cael ei gymryd yn ddirgel;

(ii) cael ei gymryd fel ym *mharagraff 5.15*. Mewn achos o'r fath rhaid i'r person gael ei hysbysu cyn gynted â phosibl ar ôl i'r ffotograff gael ei gymryd.

### *(d) Dogfennau*

5.17 Rhaid gwneud cofnod pan fo'r sawl sy'n cael eu cadw yn cael eu chwilio, archwilio, neu pan fo ffotograff o'r person, neu unrhyw farciau adnabod arno, yn cael ei gymryd. Rhaid i'r cofnod gynnwys:

(a) enw, yn unol â pharagraff 2.18, o'r swyddog sy'n cynnal y chwiliad, archwiliad neu'n cymryd y ffotograff;

(b) pwrpas y chwiliad, archwiliad neu'r ffotograff a'r canlyniad;

(c) caniatâd y sawl sy'n cael eu cadw i'r chwiliad, archwiliad neu ffotograff, neu'r rheswm dros chwilio, archwilio neu gymryd ffotograff person heb ei ganiatâd;

(d) unrhyw awdurdod a roddir fel ym *mharagraffau 5.2* a *5.3*, y seiliau dros ei roi a'r swyddog awdurdodi.

5.18 Os defnyddir grym wrth chwilio, archwilio neu gymryd ffotograff yn unol â'r adran hon, fe wneir cofnod o'r amgylchiadau a'r rhai sy'n bresennol.

***(B) Personau mewn swyddfeydd heddlu nad ydynt yn cael eu cadw***

5.19 Pan fo sail resymol dros amau fod gan berson gysylltiad â throsedd, ond bod y person hwnnw yn swyddfa'r heddlu'n **wirfoddol** ac nid yn cael ei gadw, dylid gweithredu'r darpariaethau ym *mharagraffau 5.1* i *5.18*, yn unol â'r addasiadau yn y paragraffau canlynol.

5.20 Bydd cyfeiriadau at y 'person a gedwir' a'r pwerau a grybwyllir ym *mharagraff 5.1* sy'n cyfeirio'n unig at y sawl sy'n cael eu cadw mewn swyddfeydd heddlu yn cael eu hepgor.

D

5.21 Ni ellir defnyddio grym i:

(a) chwilio a/neu archwilio person er mwyn:

(i) canfod a oes ganddynt unrhyw farciau a fyddai'n awgrymu eu bod yn berson sy'n gysylltiedig â throsedd; neu

(ii) sefydlu pwy ydynt, *gweler Nodyn 5A*;

(b) cymryd ffotograffau o unrhyw farciau adnabod, *gweler paragraff 5.4*; neu

(c) gymryd ffotograff o'r person.

5.22 Yn unol â *pharagraff 5.24*, rhaid i ffotograffau o bersonau, neu ffotograffau o'r marciau adnabod na chaiff eu cymryd yn unol â darpariaethau a nodwyd ym mharagraffau 5.1 neu 5.12, gael eu dinistrio (ynghyd ag unrhyw negatifau a chopïau) os nad yw'r person:

(a) yn cael ei gyhuddo o, neu'n cael ei hysbysu y gall gael ei erlyn am, drosedd gofnodadwy;

(b) yn cael ei erlyn am drosedd gofnodadwy;

(c) yn cael rhybudd am drosedd gofnodadwy neu gael cerydd am drosedd gofnodadwy yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998; neu'n

(d) rhoi caniatâd gwybyddus, mewn ysgrifen, i'r ffotograff neu ddelwedd gael ei gadw/chadw fel ym *mharagraff 5.6*.

5.23 Pan fo *paragraff 5.22* yn gofyn am ddinistrio unrhyw ffotograff neu ddelwedd, rhaid rhoi cyfle i'r person fod yn dyst i'r dinistrio neu gael tystysgrif yn cadarnhau'r dinistrio cyn belled â'i fod yn gwneud cais am y dystysgrif o fewn pum diwrnod i gael ei hysbysu fod dinistrio'n angenrheidiol.

5.24 Nid oes dim ym *mharagraff 5.22* yn effeithio ar unrhyw ofynion ar wahân o dan Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliad Troseddol 1996 i gadw deunyddiau mewn cysylltiad ag ymchwiliadau troseddol.

***Nodiadau arweiniad***

*5A Mae'r amgylchiadau pryd y gellir cymryd olion bysedd i gynorthwyo i sefydlu pwy yw person yn cael eu disgrifio yn Adran 4.*

*5B Mae enghreifftiau o ddibenion sy'n gysylltiedig ag atal neu ddatrys troseddau, ymchwiliad i droseddau neu gynnal erlyniadau yn cynnwys:*

D

*(a) gwirio'r ffotograff yn erbyn ffotograffau eraill a gedwir mewn cofnodion neu mewn cysylltiad ag, neu o ganlyniad i, ymchwiliad i drosedd i sefydlu a ellir arestio'r person am droseddau eraill;*

*(b) pan fo'r person yn cael ei arestio ar yr un pryd â phobl eraill, neu ar adeg pryd mae'n debygol y bydd pobl eraill yn cael eu harestio, defnyddio'r ffotograff i gynorthwyo i sefydlu pwy gafodd ei arestio, ar ba adeg ac ymhle;*

*(c) pan nad yw'n wybyddus beth yw gwir enw person a phan na ellir ei ganfod yn rhwydd neu fod sail resymol dros amau a yw'r enw a'r manylion personol eraill a roddwyd gan berson yn enw a manylion personol cywir. Yn yr amgylchiadau hyn, defnyddio neu ddatgelu'r ffotograff i gynorthwyo i sefydlu pwy yw'r person neu benderfynu a ellir ei arestio am droseddau eraill, e.e., trwy ei wirio yn erbyn ffotograffau eraill a gedwir mewn cofnodion neu mewn cysylltiad ag, neu o ganlyniad i, ymchwiliad i drosedd;*

*(d) pan ei bod hi'n ymddangos y gall fod angen trefnu unrhyw ddull adnabod yn adran 3 ac y byddai ffotograff o'r person o gymorth;*

*(e) y gall fod angen rhyddhau person heb ei gyhuddo, ac os yw'n cael ei ryddhau:*

*(i) ar fechnïaeth i ymddangos mewn swyddfa heddlu, defnyddio'r ffotograff I gynorthwyo i gadarnhau pwy yw person wrth iddo ymddangos neu os yw'r person yn torri ei fechnïaeth, i gynorthwyo i'w arestio; neu*

*(ii) heb fechnïaeth, defnyddio'r ffotograff i gynorthwyo i gadarnhau pwy yw person neu i gynorthwyo i'w leoli er mwyn cyflwyno gwŷs iddo ymddangos mewn llys mewn achos troseddol;*

*(f) pan fo person wedi ateb i fechnïaeth mewn swyddfa heddlu a bod sail resymol dros amau mai ef yw'r person y rhoddwyd mechnïaeth iddo, defnyddio'r ffotograff i gynorthwyo i sefydlu neu gadarnhau pwy ydyw;*

*(g) pan fo person sydd wedi ei arestio ar warant yn honni ei fod yn berson gwahanol i'r person a enwir ar y warant ac y byddai ffotograff o gymorth i gadarnhau neu wrthbrofi'r honiad;*

*(h) pan fo person wedi ei gyhuddo o, ei riportio am, neu ei ddedfrydu am, drosedd gofnodadwy a phan nad oes eisoes gofnod o'i ffotograff o ganlyniad i (a) i (f) neu fod cofnod o'i ffotograff ond fod ei ymddangosiad wedi newid ers iddo gael ei gymryd a bod y person heb ei ryddhau eto neu ei ddwyn o flaen llys.*

*5C Nid oes pŵer i arestio person am drosedd gofnodadwy yn unig er mwyn cymryd ei ffotograff. Nid yw'r pŵer i gymryd ffotograffau yn yr adran hon ond yn berthnasol pan fo person yn y ddalfa o ganlyniad I weithredu pŵer arall, e.e. arestio i gymryd olion bysedd o dan PACE, adran 27.*

D

*5D Mae enghreifftiau o pan na fyddai hi'n ymarferol i gael caniatâd y sawl sy'n cael eu cadw, gweler paragraff 2.12, i chwilio, archwilio neu gymryd ffotograff o farc adnabod yn cynnwys:*

*(a) pan fo person yn feddw neu fel arall heb fod mewn cyflwr i roi caniatâd;*

*(b) pan fo sail resymol dros amau y byddai'r person, o fod yn ymwybodol fod chwiliad neu archwiliad i gael ei gynnal neu ffotograff o farc adnabod i gael ei gymryd, yn cymryd camau i atal hyn rhag digwydd, e.e. trwy ddefnyddio trais i wrthsefyll, gorchuddio neu guddio'r marc ayyb, ac na fyddai hi'n bosibl fel arall i gynnal chwiliad neu archwiliad neu i gymryd ffotograff o farc adnabod;*

*(c) yn achos plentyn, os na ellir cysylltu â'r rhiant neu warcheidwad mewn da bryd i alluogi'r chwiliad neu archwiliad i gael ei gynnal neu'r ffotograff i gael ei gymryd.*

*5E Mae enghreifftiau o pan na fyddai hi'n ymarferol i gael caniatâd person, gweler paragraff 2.12, i gymryd ffotograff yn cynnwys:*

*(a) pan fo person yn feddw neu fel arall heb fod mewn cyflwr i roi caniatâd;*

*(b) pan fo sail resymol dros amau y byddai'r person, o fod yn ymwybodol fod ffotograff addas i'w ddefnyddio neu ddatgelu ar gyfer y defnydd neu'r datgeliad a ddisgrifir ym mharagraff 5.6 i gael ei gymryd, yn cymryd camau i atal hyn rhag digwydd, e.e. trwy ddefnyddio trais i wrthsefyll, gorchuddio neu ystumio'r wyneb ayyb, ac na fyddai hi'n bosibl fel arall i gynnal chwiliad neu archwiliad neu i gymryd ffotograff o farc adnabod;*

*(c) pan fo angen cymryd ffotograff dirgel, er mwyn cael un addas; ac*

*(d) yn achos plentyn, os na ellir cysylltu â'r rhiant neu warcheidwad mewn da bryd i alluogi'r ffotograff i gael ei gymryd.*

5F *Mae'n rhaid ystyried yn ofalus cyn defnyddio grym rhesymol i gymryd ffotograff o'r sawl sydd dan amheuaeth. Er mwyn cael caniatâd a chydweithrediad y sawl sydd dan amheuaeth i ddiosg eitem o benwisg crefyddol er mwyn cymryd eu ffotograff fe ddylai heddwas ystyried yn amgylchiadau'r sefyllfa mai swyddog o'r un rhyw â'r unigolyn ddylai dynnu'r penwisg a thynnu'r ffotograff. Byddai'n briodol gwneud y camau uchod allan o olwg y cyhoedd.*

## 6 Adnabod trwy samplau corfforol ac olion

***(A) Cyffredinol***

D

6.1 Mae cyfeiriadau at:

(a) ‘sampl personol’ yn golygu ôl dannedd neu sampl o waed, semen neu unrhyw hylif meinweol arall, wrin, neu flew cedor, neu swab a gymerwyd o unrhyw ran o organau cenhedlu person neu o agorfa i gorff person ac eithrio’r geg;

(b) ‘sampl amhersonol’ yn golygu:

(i) sampl o wallt, ac eithrio blew cedor, sy’n cynnwys gwallt a dynnwyd o’r gwraidd, *gweler Nodyn 6A*;

(ii) sampl o gymerwyd o’r ewin neu o dan yr ewin;

(iii) swab a gymerwyd o unrhyw ran o gorff person ac eithrio rhan y byddai cymryd swab ohoni yn sampl personol;;

(iv) poer;

(v) ôl croen sy’n golygu unrhyw gofnod, ac eithrio ôl bys, mewn unrhyw ffurf ac a gynhyrchwyd trwy unrhyw ddull, o batrwm croen a nodweddion ffisegol eraill neu nodweddion cyfan, neu unrhyw ran o, droed person neu unrhyw ran arall o’r corff.

***(B) Gweithredu***

***(a) Samplau personol***

6.2 Mae PACE, adran 62, yn darparu y gellir cymryd samplau personol o dan:

(a) adran 62(1), gan berson a gedwir gan yr heddlu yn unig:

(i) os oes gan swyddog heddlu o safle arolygydd neu uwch sail resymol dros gredu y byddai ôl neu sampl o’r fath yn arwain at gadarnhau neu wrthbrofi

cysylltiad y sawl sydd dan amheuaeth â throsedd gofnodadwy, *gweler Nodyn 4A*, ac yn awdurdodi bod sampl i'w gymryd; a

(ii) gyda chaniatâd ysgrifenedig y sawl sydd dan amheuaeth;

(b) adran 62(1A), gan berson nad yw'n cael ei gadw gan yr heddlu ond y cymerwyd dau neu fwy o samplau amhersonol ganddo yn ystod ymchwiliad i drosedd a bod y samplau, er yn addas, heb fod yn ddigonol os:

(i) yw swyddog heddlu o safle arolygydd neu uwch yn awdurdodi bod sampl i'w gymryd; a

(ii) bod y person dan sylw yn rhoi ei ganiatâd ysgrifenedig. Gweler *Nodyn 6B a 6C*



6.3 Cyn gofyn i'r sawl sydd dan amheuaeth roi sampl personol, rhaid eu rhybuddio y bydd gwrthod heb reswm da, yn gallu gwneud drwg i'w hachos pe bai rhaid iddynt sefyll eu prawf, *gweler Nodyn 6D*. Os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn cael eu cadw gan yr heddlu a heb gynrychiolaeth gyfreithiol, rhaid eu hatgoffa *hefyd* o'u hawl i gyngor cyfreithiol am ddim, *gweler* Côd C, *paragraff 6.5*, a nodi'r atgoffâd yng nghofnod y ddalfa. Os yw *paragraff 6.2(b)* yn berthnasol a'r person yn mynychu swyddfa'r heddlu'n wirfoddol, bydd eu hawl i gyngor cyfreithiol am ddim fel yng Nghôd C, *paragraff 3.21* yn cael ei egluro wrthynt.

6.4 Dim ond deintydd cofrestredig all wneud ôl o ddannedd. Ni ellir cymryd samplau personol eraill, ac eithrio samplau o wrin, ond gan feddyg cofrestredig neu weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig.

***(b) Samplau amhersonol***

6.5 Ni ellir ond cymryd samplau amhersonol gyda chaniatâd ysgrifenedig y sawl sy'n cael eu cadw neu os yw paragraff 6.6 yn berthnasol.

6.6 (a) O dan adran 63(3), ni ellir cymryd sampl amhersonol heb ganiatâd ac mae'n rhaid i'r caniatâd hwnnw fod yn ysgrifenedig;

(aa) gellir cymryd sampl amhersonol oddi wrth berson heb ganiatâd priodol yn yr amgylchiadau canlynol:

(i) o dan adran 63(2A) lle mae'r person yn cael ei gadw gan yr heddlu o ganlyniad i'w arestio am drosedd cofnodadwy a lle na chymerwyd sampl amhersonol o'r un math ac o'r un rhan o'r corff yng nghwrs ymchwiliad i'r drosedd gan yr heddlu neu lle cymerwyd sampl o'r fath ond lle nad oedd y sampl yn ddigonol.

(ii) o dan adran 63 (3) (a) lle mae'r person yn cael ei gadw yn y ddalfa gan yr heddlu ar awdurdod llys a lle awdurdodir cymryd sampl gan swyddog o safle arolygydd o leiaf.

(b) o dan adran 63(3A), gan berson a gyhuddir o drosedd gofnodadwy neu a hysbysir y byddant yn cael eu riportio am drosedd o'r fath, a

(i) bod y person hwnnw heb roi sampl amhersonol yn ystod yr archwiliad; neu

(ii) os ydynt wedi rhoi sampl, ei fod wedi profi'n annigonol neu'n anaddas ar gyfer y dull hwn o ddadansoddi, *gweler Nodyn 6B*; neu

(c) o dan adran 63(3B), gan berson a gyhuddwyd o drosedd gofnodadwy ar ôl y dyddiad y daeth y ddarpariaeth hon i rym. Mae PACE, adran 63A, yn disgrifio ym mha amgylchiadau y gall swyddog heddlu ofyn i berson a gyhuddir o drosedd gofnodadwy fynychu swyddfa heddlu i roi samplau amhersonol.

6.7 Gellir defnyddio grym rhesymol, os yw hynny'n angenrheidiol, i gymryd samplau amhersonol gan berson heb eu caniatâd o dan y pwerau a nodwyd ym *mharagraff 6.6*.

6.8 Cyn y cymerir sampl personol gyda chaniatâd neu sampl amhersonol gyda, neu heb, ganiatâd, rhaid hysbysu'r person:

(a) o'r rheswm dros gymryd y sampl;

(b) ar ba sail y rhoddwyd yr awdurdod perthnasol;

(c) y gellir cadw'r sampl neu'r wybodaeth sy'n deillio o'r sampl ar gyfer chwiliad, *gweler Nodyn 6E*, os nad oes angen eu dinistrio fel yn *Atodiad F*, Rhan A.

6.9 Pan fo angen diosg dillad mewn amgylchiadau sy'n debyg o achosi anesmwythyd i'r person, ni fydd person o ryw arall yn bresennol, os nad ydyw yn feddyg cofrestredig neu weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig (ac eithrio yn achos plentyn, person sy'n dioddef anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol sy'n gofyn yn benodol am gael oedolyn priodol o ryw arall yn bresennol a'i fod ar gael yn hwylus), nac unrhyw un nad oes angen iddo fod yn bresennol. Fodd bynnag, yn achos plentyn, gellir diosg dillad yn absenoldeb oedolyn priodol ar yr amod fod y plentyn yn nodi, tra bo'r oedolyn yn bresennol, y byddai'n well ganddo iddo beidio bod yno a bod yr oedolyn yn cytuno â hyn.

***(c) Dogfennau***

6.10 Rhaid gwneud cofnod o'r rhesymau dros gymryd sampl neu ôl ac, os perthnasol, ei ddinistrio, cyn gynted â phosibl. Os defnyddir grym, gwneir cofnod o'r amgylchiadau a'r rhai hynny sy'n bresennol. Os rhoddir caniatâd ysgrifenedig i gymryd sampl neu ôl, rhaid gwneud cofnod ysgrifenedig o'r ffaith.

6.11 Rhaid gwneud cofnod o rybudd a roddir yn unol â *pharagraff 6.3*.

6.12 Gwneir cofnod o'r ffaith fod person wedi cael ei hysbysu fel ym *mharagraff 6.8(c)* y gall samplau gael eu defnyddio mewn chwiliad dyfaliadol.

***Nodiadau arweiniad***

*6A Pan fo samplau o flew yn cael eu cymryd ar gyfer pwrpas dadansoddiad DNA (yn hytrach nag am resymau eraill megis cyfatebiad gweledol), dylid caniatáu i'r sawl sydd dan amheuaeth ddewis rhesymol ynghylch o ba ran o'r corff y dylid cymryd y blew. Pan fo'r blew yn cael eu tynnu dylid eu tynnu yn unigol, os nad yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn dewis fel arall a ni ddylid cymryd mwy nag mae'r person sy'n eu tynnu yn eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer sampl digonol.*

*6B (a) Sampl annigonol yw un nad ydyw yn ddigonol o ran maint nac ansawdd ar gyfer dull dadansoddi arbennig, megis dadansoddiad DNA. Gall sampl hefyd fod yn annigonol os na ellir cael digon o wybodaeth ohono wrth ddadansoddi oherwydd colli, dinistrio, difrodi neu halogi'r sampl neu o ganlyniad i ymgais aflwyddiannus flaenorol i ddadansoddi.*

*(b) Sampl anaddas yw un sydd, wrth ei natur, yn anaddas ar gyfer dull dadansoddi arbennig.*

*6C Nid oes dim ym mharagraff 6.2 i rwystro cymryd samplau personol at ddibenion dileu o'r ymchwiliad gyda chaniatâd y person dan sylw ond dylid gweithredu darpariaethau paragraff 2.12 sy'n cyfeirio at swyddogaeth yr oedolyn priodol. Fodd bynnag, nid yw paragraff 6.2(b) yn berthnasol pan fo samplau amhersonol wedi eu cymryd eisoes o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 8, paragraff 10.*

*6D Wrth rybuddio person y gofynnir iddo ddarparu sampl personol fel ym mharagraff 6.3, gellir defnyddio'r geiriau canlynol:*

*"Does dim rhaid i chi roi'r sampl hon / adael i'r swab hwn neu'r ôl hwn gael ei gymryd, ond mae'n rhaid i mi eich rhybuddio y gall niweidio eich achos, os daw hwnnw i dreial, os byddwch yn gwrthod heb reswm da."*

*6E Gall olion bysedd neu sampl DNA a'r wybodaeth sy'n deillio ohonynt a gymerwyd gyda chaniatâd person a arestiwyd ar amheuaeth o fod yn gysylltiedig â throsedd gofnodadwy, neu a gyhuddwyd o drosedd o'r fath, neu a hysbyswyd y gall gael ei riportio am drosedd o'r fath, fod yn destun chwiliad dyfaliadol. Golyga hyn y gallant gael eu gwirio yn erbyn olion bysedd a chofnodion DNA eraill a gedwir gan, neu ar ran, yr heddlu ac awdurdodau gweithredu'r gyfraith eraill o fewn neu'r tu allan i'r Deyrnas Unedig neu eu cadw mewn cysylltiad ag, neu o ganlyniad i, ymchwiliad i drosedd o fewn neu'r tu allan i'r Deyrnas Unedig. Gall olion bysedd a samplau a gymerwyd gan unrhyw berson arall, e.e., person*

D

*yr amheuir iddo gyflawni trosedd gofnodadwy ond sydd heb gael ei arestio, ei gyhuddo na'i hysbysu a gall gael ei riportio o'i herwydd, fod yn destun chwiliad dyfaliadol ond os yw'r person yn rhoi caniatâd ysgrifenedig i'w olion bysedd gael eu defnyddio mewn chwiliad o'r fath. Mae'r canlynol yn enghraifft o ffurf sylfaenol y geiriau:*

*"Rwy'n cytuno i olion fy mysedd / fy sampl DNA a gwybodaeth sy'n deillio ohoni gael eu cadw a'u defnyddio yn unig at bwrpasau sy'n perthyn i atal a chanfod trosedd, ymchwilio i drosedd neu gynnal erlyniad, naill ai'n genedlaethol neu'n rhyngwladol.*

*Rwy'n deall y gall olion fy mysedd neu'r sampl hon gael eu cymharu â chofnodion olion bysedd / DNA eraill sy'n cael eu cadw naill gan neu ar ran awdurdodau gorfodi cyfraith perthnasol, naill ai'n genedlaethol neu'n rhyngwladol.*

*Rwy'n deall na fydd hi'n bosibl, unwaith y byddaf wedi rhoi fy nghytundeb i'r sampl hon gael ei chadw a'i defnyddio, i mi dynnu'r cytundeb hwnnw yn ôl."*

*Gweler Atodiad F ynghylch cadw a defnyddio olion bysedd a samplau a gymerwyd gyda chaniatâd at ddibenion dileu o'r ymchwiliad.*

*6F Ni ellir defnyddio samplau o wrin a samplau amhersonol a gymerwyd yn unol ag adrannau 3B a 63C PACE ar gyfer dibenion adnabod yn unol â'r Côd yma. Gweler Côd C nodyn arweiniad 17D.*

## ATODIAD A – ADNABOD TRWY FIDEO

### *(a) Cyffredinol*

1. Rhaid i'r trefniadau ar gyfer sicrhau set addas o ddelweddau i'w defnyddio wrth adnabod trwy fideo fod yn gyfrifoldeb i swyddog adnabod nad oes ganddo gysylltiad uniongyrchol â'r achos.

2. Rhaid i'r set o ddelweddau gynnwys y sawl sydd dan amheuaeth ac o leiaf wyth o bobl eraill sydd, cyn belled â phosibl, yn debyg i'r sawl sydd dan amheuaeth o ran oed, ymddangosiad cyffredinol a safle mewn bywyd. Dim ond un person o dan amheuaeth all ymddangos mewn unrhyw set os nad oes dau berson sy'n gymharol debyg o dan amheuaeth. Mewn achos o'r fath gellir eu dangos gyda'i gilydd gydag o leiaf ddeuddeg o bobl eraill.



2A Os oes gan y sawl sydd dan amheuaeth nodwedd gorfforol anarferol, e.e. craith ar ei wyneb, tatŵ neu steil neu liw gwallt trawiadol na ellir ei hatgynhyrchu ar y delweddau o'r bobl eraill, gellir cymryd camau i:

(a) cuddio'r fan lle mae'r nodwedd i'w gweld ar y delweddau o'r sawl sydd dan amheuaeth a'r bobl eraill; neu

(b) atgynhyrchu'r nodwedd ar y delweddau o'r bobl eraill.

Ar gyfer y dibenion hyn, gellir cuddio neu atgynhyrchu'r nodwedd yn electronig neu trwy ddull arall y gellir ei ddefnyddio'n ymarferol i sicrhau bod y delweddau o'r sawl sydd dan amheuaeth a'r bobl eraill yn ymdebygu i'w gilydd. Mae gan y swyddog adnabod y disgresiwn i ddewis a ddylid cuddio neu atgynhyrchu'r nodwedd a'r dull i'w ddefnyddio. Os disgrifiwyd nodwedd gorfforol anarferol gan y tyst, dylai'r swyddog adnabod , os yw hynny'n ymarferol, atgynhyrchu'r nodwedd. Os nad yw wedi'i disgrifio, mae'n bosib mai cuddio fyddai fwyaf priodol.

2B Os yw'r swyddog adnabod yn penderfynu y dylid cuddio neu atgynhyrchu nodwedd, yna bydd y rheswm am y penderfyniad yn cael ei gofnodi gan gofnodi *hefyd* a gafodd y nodwedd ei chuddio neu ei hatgynhyrchu.

2C Os yw'r tyst yn gofyn am gael gweld delwedd lle cuddiwyd neu atgynhyrchwyd nodwedd gorfforol anarferol heb i'r nodwedd gael ei chuddio neu ei hatgynhyrchu, yna gellir caniatáu'r tyst i wneud hynny.

3. Bydd y delweddau a ddefnyddir wrth gynnal adnabod trwy fideo, cyn belled â phosibl, yn dangos y sawl sydd dan amheuaeth a phobl eraill yn yr un safleoedd ac yn gwneud yr un dilyniant o symudiadau. Byddant *hefyd* yn dangos y sawl sydd dan amheuaeth a phobl eraill yn yr union un amgylchiadau os nad yw'r swyddog adnabod yn credu'n rhesymol:

(a) oherwydd fod y sawl sydd dan amheuaeth yn methu neu'n gwrthod cydweithredu neu resymau eraill, nad yw'n ymarferol i'r amgylchiadau fod yr union yr un fath; ac

(b) na fyddai gwahaniaethau yn yr amgylchiadau yn tynnu sylw'r tyst at ddelwedd unigol.

4. Bydd y rhesymau pan nad yw cael yr union un amgylchiadau yn ymarferol yn cael eu cofnodi ar ffurflenni a ddarperir ar gyfer y pwrpas.

5. Rhaid gwneud darpariaethau i bob person gael ei adnabod trwy rif.

6. Os bydd swyddogion heddlu yn cael eu dangos rhaid cuddio unrhyw rifau neu fathodynnau adnabod. Os bydd unrhyw garcharor yn cael ei ddangos, fel person a amheuir neu fel arall, yna dylai pob person a ddangosir, neu ddim un ohonynt, fod mewn dillad carchar.

D

7. Rhaid rhoi cyfle rhesymol i'r sawl sydd dan amheuaeth neu eu cyfreithiwr, ffrind neu oedolyn priodol weld set gyflawn o ddelweddau cyn iddynt gael eu dangos i unrhyw dyst. Os oes gan y sawl sydd dan amheuaeth wrthwynebiad rhesymol i'r set o ddelweddau neu unrhyw un sy'n cymryd rhan, gofynnir i'r sawl sydd dan amheuaeth nodi eu rhesymau dros wrthwynebu. Bydd camau'n cael eu cymryd, os yw hynny'n ymarferol, i gael gwared ar y seiliau dros wrthwynebu. Os nad yw hyn yn ymarferol, bydd y sawl sydd dan amheuaeth ac/neu eu cynrychiolydd yn cael gwybod pam na ellir ymateb i'w gwrthwynebiad a bydd y gwrthwynebiad, y rhesymau dros y gwrthwynebiad a pham na ellir ymateb iddo yn cael eu cofnodi ar ffurflenni a ddarparwyd ar gyfer y pwrpas.

8. Cyn y bydd y delweddau'n cael eu dangos yn unol â *pharagraff 7*, bydd y sawl sydd dan amheuaeth neu eu cyfreithiwr yn cael manylion am y disgrifiad cyntaf o'r sawl sydd dan amheuaeth gan unrhyw dystion sydd i fynychu'r adnabod trwy fideo. Pan fydd darllediad neu gyhoeddiad yn cael ei wneud, fel ym *mharagraff 3.28*, rhaid caniatáu *hefyd* i'r sawl sydd dan amheuaeth neu eu cyfreithiwr weld unrhyw ddeunydd a rhyddheir i'r cyfryngau gan yr heddlu gyda'r bwriad o adnabod neu ganfod y sawl sydd dan amheuaeth, cyn belled â bod hynny'n ymarferol ac na fyddai'n oedi'r ymchwiliad yn ormodol.

9. Bydd cyfreithiwr y sawl sydd dan amheuaeth, os yw hynny'n ymarferol, yn cael rhybudd rhesymol o'r amser a'r lle mae'r adnabod trwy fideo i gael ei gynnal er mwyn i gynrychiolydd allu bod yno ar ran y sawl sydd dan amheuaeth. Ni all y sawl sydd dan amheuaeth fod yn bresennol pan fo'r delweddau'n cael eu dangos i'r tyst(ion). Yn absenoldeb cynrychiolydd i'r sawl sydd dan amheuaeth, bydd y gwylio'n cael ei gofnodi ar fideo. Ni all unrhyw berson fod yn bresennol heb ganiatâd.

***(b) Cynnal yr adnabod trwy fideo***

10. Y swyddog adnabod sy'n gyfrifol am wneud y trefniadau priodol i sicrhau nad yw tystion, cyn iddynt weld y set o ddelweddau, yn gallu trafod yr achos, gweld unrhyw un o'r

delweddau i'w dangos, gweld, cael eu hatgoffa, o unrhyw ffotograff neu ddisgrifiad o'r sawl sydd dan amheuaeth neu unrhyw arwydd arall o bwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth, gyda'i gilydd na gwrando ar dyst sydd eisoes wedi gweld y deunydd. Ni ddylid trafod cyfansoddiad y set o ddelweddau gyda'r tystion a ni ddylid dweud wrthynt a oes tyst blaenorol wedi adnabod y sawl sydd dan amheuaeth.

11. Un tyst yn unig all weld y set o ddelweddau ar y tro. Yn syth cyn i'r delweddau gael eu dangos, dywedir wrth y tyst y gall y person a welwyd ganddynt ar achlysur blaenorol penodol ymddangos, neu beidio ag ymddangos, yn y delweddau a ddangosir iddynt ac os na allant adnabod rhywun yn bendant, dylent ddweud hynny. Bydd tystion yn cael eu cynghori y gallant ar unrhyw adeg, ofyn am gael gweld rhan arbennig o'r set o ddelweddau neu rewi delwedd arbennig i'w hastudio. At hynny, dylid hysbysu tystion nad oes cyfyngu ar faint o weithiau y gallant weld y set gyfan o ddelweddau neu unrhyw ran ohonynt. Fodd bynnag, dylid gofyn iddynt beidio â gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch presenoldeb y sawl a welwyd ganddynt yn y set o ddelweddau nes eu bod wedi gweld y set gyfan o leiaf ddwywaith.

D

12. Unwaith y bo'r tyst wedi gweld y set gyfan o ddelweddau o leiaf ddwywaith ac wedi nodi nad ydynt yn dymuno gweld y delweddau, nac unrhyw ran ohonynt, eto, fe ofynnir i'r tyst ddweud a yw'r person a welwyd ganddynt ar achlysur blaenorol penodol wedi ei ddangos ac, os felly, nodi pwy ydyw trwy rif y ddelwedd. Yna dangosir y ddelwedd honno i'r tyst er mwyn cadarnhau'r adnabod, *gweler paragraff 17*.

13. Rhaid gochel rhag cyfeirio sylw'r tyst at unrhyw ddelwedd unigol na rhoi unrhyw arwydd o pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth. Pan fo'r tyst eisoes wedi adnabod trwy ffotograffau, neu ddelweddau cyfrifiadurol neu argraff gyfansawdd gan artist neu argraff neu luniau tebyg, ni ddylid atgoffa'r tyst o ffotograff neu argraff gyfansawdd o'r fath unwaith y bo'r sawl sydd dan amheuaeth ar gael i'w adnabod trwy ddull arall yn unol a'r Côd hwn. Ni ddylid chwaith atgoffa'r tyst o unrhyw ddisgrifiad o'r sawl sydd dan amheuaeth.

14. Wedi'r dull adnabod, gofynnir i bob tyst a ydyw wedi gweld unrhyw ddarllediad neu ffilmiau cyhoeddedig, neu unrhyw ddisgrifiadau o'r sawl sydd dan amheuaeth sy'n gysylltiedig â'r drosedd a bydd eu hymateb yn cael ei gofnodi.

***(c) Diogelwch a dinistrio delweddau***

15. Bydd trefniadau'n cael eu gwneud i'r holl ddeunyddiau perthnasol sy'n cynnwys setiau o ddelweddau a ddefnyddiwyd ar gyfer dulliau adnabod penodol gael eu cadw'n ddiogel ac i gadw cyfrif o'u symudiadau. Yn benodol, ni ddylid caniatáu i unrhyw un nad yw'n gysylltiedig â'r ymchwiliad weld y deunydd cyn iddo gael ei ddangos i unrhyw dyst.

16. Fel sy'n briodol mae paragraff 3.30 neu 3.31 yn berthnasol ar gyfer dinistrio neu gadw setiau perthnasol o ddelweddau.

### *(d) Dogfennau*

17. Rhaid gwneud cofnod o bawb sy'n cymryd rhan yn, neu'n gweld, y set o ddelweddau y mae eu henwau'n hysbys i'r heddlu.

18. Rhaid gwneud cofnod o'r modd y cafodd yr adnabod trwy fideo gael ei gynnal ar ffurflenni a ddarparwyd ar gyfer y pwrpas. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw beth a ddywedwyd gan y tyst am unrhyw adnabod neu'r modd y cynhaliwyd y dull adnabod ac unrhyw reswm pan nad ydoedd yn ymarferol i gydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau Côd hwn sy'n llywodraethu'r modd y bydd yr adnabod trwy fideo yn cael ei gynnal.

D

## ATODIAD B – RHESI ADNABOD

***(a) Cyffredinol***

1. Rhaid rhoi cyfle rhesymol i'r sawl sydd dan amheuaeth gael cyfreithiwr neu ffrind yn bresennol, a gofynnir i'r sawl sydd dan amheuaeth nodi ar ail gopi o'r rhybudd a ydynt yn dymuno gwneud hynny a'i peidio.

2. Gall rhes adnabod gael ei chynnal un ai mewn ystafell gyffredin neu un wedi'i chyflenwi â sgrîn sy'n caniatáu i dystion weld aelodau o'r rhes adnabod heb gael eu gweld. Yr un yw'r gweithdrefnau ar gyfer cyfansoddiad a chynnal rhes adnabod yn y ddau achos, yn unol â *pharagraff 8* (ac eithrio na ellir cynnal rhes adnabod sy'n gwneud defnydd o sgrîn ond pan fo cyfreithiwr, ffrind neu oedolyn priodol sy'n gysylltiedig â'r sawl sydd dan amheuaeth yn bresennol neu fod y rhes adnabod yn cael ei chofnodi ar fideo).

3. Cyn y bydd y rhes adnabod yn cael ei chynnal, bydd y sawl sydd dan amheuaeth neu'u cyfreithiwr yn cael manylion o'r disgrifiad cyntaf o'r sawl sydd dan amheuaeth gan unrhyw dystion sy'n mynychu'r rhes adnabod. Pan fo darllediad neu gyhoeddiad yn cael ei wneud, fel ym *mharagraff 3.28*, dylid caniatáu *hefyd* i'r sawl sydd dan amheuaeth neu'u cyfreithiwr weld unrhyw ddeunydd a ryddheir i'r cyfryngau gan yr heddlu gyda'r bwriad o adnabod neu ganfod y sawl sydd dan amheuaeth, cyn belled â bod hynny'n ymarferol ac na fyddai'n oedi'r ymchwiliad yn ormodol.

***(b) Rhesi adnabod sy'n cynnwys carcharorion***

4. Os bydd angen carcharor ar gyfer adnabod, ac nad oes problemau diogelwch yn gysylltiedig â chaniatáu i'r person adael y sefydliad, gellir gofyn iddynt gymryd rhan mewn rhes adnabod neu adnabod trwy fideo.

5. Gellir cynnal rhes adnabod yn sefydliadau Adran y Carchardai ond dylent gydymffurfio, cyn belled â bod hynny'n ymarferol, â rheolau arferol rhesi adnabod. Aelodau o'r cyhoedd fydd yn ffurfio gweddill y rhes adnabod os nad oes gwrthwynebiad difrifol i roi mynediad iddynt i'r sefydliad ar sail diogelwch neu reolaeth. Mewn achosion o'r fath, neu os bydd adnabod mewn grŵp neu trwy fideo yn cael ei drefnu o fewn y sefydliad, gall carcharorion eraill gymryd rhan. Os mai'r carcharor yw'r sawl sydd dan amheuaeth, nid oes gofyn iddo wisgo dillad carchar ar gyfer y rhes adnabod os nad yw'r bobl eraill sy'n cymryd rhan *hefyd* yn garcharorion mewn dillad tebyg, neu'n aelodau o'r cyhoedd sy'n barod i wisgo dillad carchar ar gyfer yr achlysur.

***(c) Cynnal y rhes adnabod***

6. Yn union cyn y rhes adnabod, rhaid atgoffa'r sawl sydd dan amheuaeth o'r darpariaethau

sy’n rheoli ei chynnal a’u rhybuddio yn nhermau Côd C, paragraffau 10.5 neu 10.6, fel sy’n berthnasol.

7. Rhaid gwahardd unrhyw berson heb ganiatâd ganddo o’r man lle mae’r rhes adnabod i gael ei chynnal.

8. Unwaith mae’r rhes adnabod wedi cael ei ffurfio, bydd unrhyw beth wedyn, sy’n gysylltiedig â hi, yn digwydd ym mhresenoldeb a chlyw y sawl sydd dan amheuaeth ac unrhyw gyfieithydd, cyfreithiwr, ffrind neu oedolyn priodol sy’n bresennol (oni bai fod y rhes adnabod yn cynnwys sgrîn, pryd y dylai unrhyw beth sy’n cael ei ddweud wrth, neu gan, unrhyw dyst yn y man lle cynhelir y rhes adnabod, gael ei ddweud yng nghlyw ac ym mhresenoldeb cyfreithiwr y sawl sydd dan amheuaeth, ffrind neu oedolyn priodol neu gael ei gofnodi ar fideo).

D

9. Bydd y rhes adnabod yn cynnwys o leiaf wyth o bobl (yn ychwanegol at y sawl sydd dan amheuaeth) sydd, cyn belled â phosibl, yn debyg i’r sawl sydd dan amheuaeth o ran oed, taldra, ymddangosiad cyffredinol a safle mewn bywyd. Dim ond un person dan amheuaeth fydd yn cael ei gynnwys mewn rhes adnabod os nad oes dau berson sy’n gymharol debyg o dan amheuaeth. Mewn achos o’r fath gallant fod mewn rhes gyda’i gilydd gydag o leiaf ddeuddeg o bobl eraill. Ni ddylid mewn unrhyw amgylchiadau gynnwys mwy na dau berson dan amheuaeth gyda’i gilydd mewn un rhes adnabod a phan gynhelir rhesi adnabod ar wahân, dylent gynnwys pobl wahanol.

10. Os oes gan y sawl sydd dan amheuaeth nodwedd gorfforol anghyffredin, e.e., craith ar yr wyneb, tatŵ neu steil neu liw gwallt na ellir ei atgynhyrchu ar aelodau eraill o’r rhes adnabod, gellir cymryd camau i guddio lleoliad y nodwedd honno ar y sawl sydd dan amheuaeth a’r aelodau eraill o’r rhes adnabod os yw’r sawl sydd dan amheuaeth a’u cyfreithiwr, neu oedolyn priodol, yn cytuno. Er enghraifft, trwy ddefnyddio plastr neu het, fel bo pob aelod o’r rhes adnabod yn ymdebygu i’w gilydd.

11. Pan fo posibilrwydd fod pob aelod o grŵp tebyg dan amheuaeth, bydd rhes adnabod wahanol yn cael ei chynnal ar gyfer pob un oni bai fod dau berson gymharol debyg o dan amheuaeth. Mewn achos o’r fath gallant fod mewn rhes gyda’i gilydd gydag o leiaf ddeuddeg o bobl eraill nad ydynt dan amheuaeth. Pan fo swyddogion heddlu mewn iwnifform yn ffurfio rhes adnabod rhaid cuddio unrhyw rifau neu fathodynnau adnabod.

12. Wedi dod â’r sawl sydd dan amheuaeth i’r man lle mae’r rhes adnabod i gael ei chynnal, fe ofynnir iddynt a oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i’r trefniadau ar gyfer y rhes adnabod neu unrhyw un sy’n cymryd rhan ynddi ac i nodi’r rhesymau dros y gwrthwynebiad. Gall y sawl sydd dan amheuaeth ofyn cyngor gan eu cyfreithiwr neu ffrind, os ydynt yn bresennol, cyn cynnal y rhes adnabod. Os oes gan y sawl sydd dan amheuaeth wrthwynebiad rhesymol i’r trefniadau neu unrhyw un sy’n cymryd rhan yn y rhes adnabod, bydd camau’n cael eu cymryd, os yw hynny’n ymarferol, i gael gwared ar y seiliau dros wrthwynebu.

Os nad yw hi'n ymarferol i wneud hynny, bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn cael gwybod pan na ellir ymateb i'w gwrthwynebiad a bydd y gwrthwynebiad, y rhesymau dros y gwrthwynebiad a phan na ellir ymateb iddo, yn cael eu cofnodi ar ffurflenni a ddarparwyd ar gyfer y pwrpas.

13. Gall y sawl sydd dan amheuaeth ddewis ei safle ei hun yn y rhes, ond ni all ymyrryd fel arall a threfn y bobl sy'n ffurfio'r rhes. Pan fo mwy nag un tyst, rhaid dweud wrth y sawl sydd dan amheuaeth, ar ôl i bob tyst adael yr ystafell, y gall newid ei safle yn y rhes. Rhaid rhifo pob safle yn y rhes yn glir, un ai trwy osod rhif ar y llawr o flaen pob aelod o'r rhes adnabod neu trwy ddull arall.

D

14. Cyn i dystion fynychu'r rhes adnabod, rhaid gwneud trefniadau priodol i sicrhau na allant:

(i) gyfathrebu â'i gilydd ynghylch yr achos na chlywed tyst sydd eisoes wedi gweld y rhes adnabod;

(ii) weld unrhyw aelod o'r rhes adnabod;

(iii) weld, na chael eu hatgoffa o, unrhyw ffotograff neu ddisgrifiad o'r sawl sydd dan amheuaeth na chael unrhyw arwydd arall a pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth; neu

(iv) weld y sawl sydd dan amheuaeth cyn nac ar ôl y rhes adnabod.

15. Ni ddylai'r person sy'n tywys tyst i res adnabod drafod cyfansoddiad y rhes adnabod gyda hwy ac, yn arbennig, ni ddylai ddatgelu a yw tyst blaenorol wedi adnabod rhywun neu beidio.

16. Bydd tystion yn cael eu tywys i mewn fesul un. Yn syth cyn i dyst archwilio'r rhes adnabod dywedir wrthynt y gall y person a welwyd ganddynt ar achlysur blaenorol penodol fod yn bresennol, neu beidio â bod yn bresennol, ac os na allant adnabod rhywun yn bendant dylent ddweud hynny. Rhaid dweud wrth y tyst *hefyd* na ddylent wneud unrhyw benderfyniad ynghylch presenoldeb y sawl a welwyd ganddynt yn y rhes adnabod nes eu bod wedi edrych ar bob aelod o leiaf ddwywaith.

17. Pan fo'r swyddogion neu staff yr heddlu (*gweler* paragraff 3.11) sy'n cynnal y rhes adnabod yn fodlon fod y tyst wedi edrych yn iawn ar bob aelod o'r rhes adnabod, bydd yn gofyn i'r tyst a yw'r person a welwyd ganddynt ar achlysur blaenorol penodol yn y rhes adnabod ac, os felly, i nodi rhif y person dan sylw, *gweler* paragraff 28.

18. Os yw'r tyst yn dymuno clywed unrhyw aelod o'r rhes adnabod yn siarad, yn cymryd osgo neu'n symud mewn modd arbennig, fe ofynnir iddynt yn gyntaf a allant adnabod unrhyw berson(au) yn y rhes adnabod ar sail ymddangosiad yn unig. Pan wneir cais i glywed aelodau o'r rhes adnabod yn siarad, fe atgoffir y tyst fod aelodau'r rhes adnabod wedi eu dewis ar sail ymddangosiad yn unig. Yna fe ellir gofyn i aelodau'r rhes adnabod gydymffurfio

â chais y tyst am gael eu clywed yn siarad, eu gweld yn symud neu gymryd osgo arbennig.

19. Os bydd y tyst yn gofyn i'r person a ddynodwyd ganddynt ddiosg unrhyw beth a ddefnyddir ar gyfer dibenion *paragraff 10* i guddio lleoliad nodwedd gorfforol anghyffredin, fe ellir gofyn i'r person hwnnw ei ddiosg.

20. Os bydd y tyst yn adnabod rhywun wedi i'r rhes adnabod gael ei chynnal, bydd y sawl sydd dan amheuaeth a'u cyfreithiwr, ffrind neu oedolyn priodol, os presennol, yn cael eu hysbysu o hynny. Pan fo hyn yn digwydd, dylid ystyried caniatáu ail gyfle i'r tyst adnabod y sawl sydd dan amheuaeth.



21 Wedi'r dull adnabod, fe ofynnir i bob tyst a fu iddynt weld unrhyw ddarllediadau neu ffilmiau cyhoeddedig neu ffotograffau neu unrhyw ddisgrifiadau o'r sawl sydd dan amheuaeth mewn cysylltiad â'r drosedd a bydd eu hateb yn cael ei gofnodi.

22. Wedi i'r tyst olaf adael, fe ofynnir i'r sawl sydd dan amheuaeth a ydynt yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau ynghylch y modd y cynhaliwyd y rhes adnabod.

***(d) Dogfennau***

23. Fel arfer dylid gwneud cofnod fideo o'r rhes adnabod. Os nad yw hyn yn ymarferol, dylid cymryd ffotograff lliw o'r rhes adnabod. Bydd copi o'r fideo neu ffotograff yn cael ei roi i'r sawl sydd dan amheuaeth neu eu cyfreithiwr o fewn amser rhesymol.

24. Fel sy'n briodol, dylai *paragraff 3.30* neu *3.31*, fod yn berthnasol i unrhyw ffotograff neu fideo a gymerwyd fel ym *mharagraff 23*.

25. Os gofynnir i unrhyw berson adael rhes adnabod oherwydd eu bod yn amharu ar y modd y mae'n cael ei gynnal, bydd yr amgylchiadau'n cael eu cofnodi.

26. Rhaid gwneud cofnod o enwau pawb sy'n bresennol yn y rhes adnabod y mae eu henwau yn hysbys i'r heddlu.

27. Os bydd carcharorion yn rhan o'r rhes adnabod rhaid gwneud cofnod o'r amgylchiadau.

28. Rhaid gwneud cofnod o'r modd y cynhaliwyd unrhyw res adnabod ar ffurflenni a ddarparwyd ar gyfer y pwrpas. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw beth a ddywedwyd gan y tyst neu'r sawl sydd dan amheuaeth am unrhyw adnabod neu'r modd y cynhaliwyd y dull adnabod, ac unrhyw resymau pan nad ydoedd yn ymarferol i gydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Côd hwn.

D

## ATODIAD C – ADNABOD MEWN GRŴP

***(a) Cyffredinol***

1. Pwrpas yr Atodiad hwn yw gwneud yn siŵr, cyn belled â phosibl, fod adnabod mewn grŵp yn dilyn yr egwyddorion a'r gweithdrefnau ar gyfer rhesi adnabod fel bo'r amodau'n deg i'r sawl sydd dan amheuaeth yn y modd y maent yn profi gallu adnabod y tyst.

2. Gall adnabod mewn grŵp ddigwydd un ai gyda chaniatâd a chydweithrediad y sawl sydd dan amheuaeth neu yn y dirgel heb eu caniatâd.

3. Mater i'r swyddog adnabod yw lleoliad yr adnabod mewn grŵp, er y gall y swyddog roi ystyriaeth i unrhyw achos a gyflwynir gan y sawl sydd dan amheuaeth, oedolyn priodol, eu cyfreithiwr neu ffrind.

4. Dylai'r man lle cynhelir yr adnabod mewn grŵp fod yn rhywle mae pobl eraill un ai'n mynd trwyddo neu'n aros mewn modd anffurfiol, mewn grwpiau fel y gall y sawl sydd dan amheuaeth ymuno â hwy a chael ei weld gan y tyst ar yr un pryd ag eraill yn y grŵp. Er enghraifft, pobl yn gadael grisiau symudol, teithwyr yn cerdded trwy ganolfan siopa, teithwyr mewn gorsaf drenau neu fysiau, pobl yn aros mewn ciw neu grŵp neu'n sefyll neu eistedd mewn grwpiau mewn mannau cyhoeddus eraill.

5. Os yw adnabod mewn grŵp i gael ei gynnal yn y dirgel, bydd y dewis o leoliadau yn cael ei gyfyngu gan y mannau lle gellir canfod y sawl sydd dan amheuaeth a'r nifer o bobl eraill sy'n bresennol ar y pryd. Yn yr achosion hyn, gall lleoliadau addas fod ar y llwybrau y mae'r sawl sydd dan amheuaeth yn eu teithio'n rheolaidd, yn cynnwys bysiau neu drenau neu fannau cyhoeddus y mae'r sawl sydd dan amheuaeth yn eu mynychu.

6. Er na all y swyddog adnabod reoli nifer, oed, rhyw, hil a disgrifiad cyffredinol a steil dillad y bobl eraill sy'n bresennol yn y lleoliad, wrth ddewis y lleoliad rhaid i'r swyddog ystyried ymddangosiad cyffredinol a nifer y bobl sy'n debyg o fod yn bresennol. Yn arbennig, fe ddylai'r swyddog ddisgwyl yn rhesymol y bydd y tyst, wrth wylio'r grŵp dros gyfnod o amser, yn gallu gweld, o bryd i'w gilydd, nifer o bobl eraill sy'n gymharol debyg o ran ymddangosiad i'r sawl sydd dan amheuaeth.

7. Ni fydd rhaid cynnal adnabod mewn grŵp os yw'r swyddog adnabod yn credu, oherwydd ymddangosiad anghyffredin y sawl sydd dan amheuaeth, nad oes yr un o'r lleoliadau sy'n ymarferol i'w defnyddio, yn bodloni'r amodau ym *mharagraff 6* sy'n angenrheidiol i wneud yr adnabod yn deg.

8. Yn syth wedi i'r dull adnabod gael ei gynnal (gyda neu heb ganiatâd y sawl sydd dan amheuaeth), dylid cymryd ffotograff lliw neu wneud fideo o'r olygfa gyffredinol, os yw hynny'n ymarferol, er mwyn cael argraff gyffredinol o'r olygfa a nifer y bobl sy'n bresennol. Fel arall, os yw hynny'n ymarferol, gellir gwneud fideo o'r adnabod mewn grŵp.

9. Os nad ydyw yn ymarferol i gymryd ffotograff neu wneud fideo yn unol â *pharagraff 8*, dylid cymryd ffotograff neu wneud ffilm o'r olygfa yn nes ymlaen ar adeg a benderfynir gan y swyddog adnabod os yw'n credu ei bod yn ymarferol i wneud hynny.

10. Bydd dull adnabod a gafodd ei gynnal yn unol â'r Côd hwn yn aros yn adnabod mewn grŵp er bod y sawl sydd dan amheuaeth, ar yr adeg y cafodd ei weld gan y tyst, ar ei ben ei hun yn hytrach nag mewn grŵp.

11. Cyn y bydd adnabod mewn grŵp yn cael ei gynnal, bydd y sawl sydd dan amheuaeth neu eu cyfreithiwr yn cael manylion am y disgrifiad cyntaf o'r sawl sydd dan amheuaeth gan unrhyw dystion sydd i fynychu'r adnabod. Pan fydd darllediad neu gyhoeddiad yn cael ei wneud, fel ym *mharagraff 3.28*, rhaid caniatáu *hefyd* i'r sawl sydd dan amheuaeth neu eu cyfreithiwr weld unrhyw ddeunydd a rhyddheir i'r cyfryngau gan yr heddlu gyda'r bwriad o adnabod neu ganfod y sawl sydd dan amheuaeth, cyn belled â bod hynny'n ymarferol ac na fyddai'n oedi'r ymchwiliad yn ormodol.

12. Wedi'r dull adnabod, fe ofynnir i bob tyst a fu iddynt weld unrhyw ddarllediadau neu ffilmiau cyhoeddedig neu ffotograffau neu unrhyw ddisgrifiadau o'r sawl sydd dan amheuaeth mewn cysylltiad â'r drosedd a bydd eu hateb yn cael ei gofnodi.

***(b) Adnabod heb ganiatâd y sawl sydd dan amheuaeth***

13. Rhaid rhoi cyfle rhesymol i'r sawl sydd dan amheuaeth gael cyfreithiwr neu ffrind yn bresennol. Gofynnir iddynt ddynodi ar ail gopi a ydynt yn dymuno gwneud hynny ai peidio.

14. Gellir cuddio'r tyst, y person sy'n cynnal y dull adnabod a chyfreithiwr, oedolyn priodol, ffrind neu unrhyw gyfieithydd i'r tyst o olwg yr unigolion yn y grŵp y maent yn ei wylio, os yw'r person sy'n cynnal y dull adnabod yn credu y byddai hyn o gymorth i'r adnabod.

15. Rhaid i'r person sy'n tywys tyst i adnabod mewn grŵp beidio â thrafod yr adnabod mewn grŵp gyda'r tyst ac ni ddylai'n arbennig ddatgelu a oes tyst blaenorol wedi llwyddo i adnabod rhywun.

16. Dylai unrhyw beth a ddywedir wrth, neu gan, y tyst yn ystod y dull adnabod gael ei ddweud ym mhresenoldeb ac yng nghlyw y rhai sy'n bresennol yn yr adnabod.

17. Cyn i dystion fynychu'r adnabod mewn grŵp, rhaid gwneud trefniadau priodol i sicrhau na allant:

    (i) gyfathrebu â'i gilydd ynghylch yr achos na chlywed tyst sydd eisoes wedi cael cyfle i weld y sawl sydd dan amheuaeth mewn grŵp;

    (ii) gweld y sawl sydd dan amheuaeth; neu

(iii) weld, neu gael eu hatgoffa o, unrhyw ffotograffau neu ddisgrifiadau o'r sawl sydd dan amheuaeth neu gael unrhyw arwydd arall o bwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth.

18. Bydd tystion yn cael eu tywys fesul un i'r man lle maent i weld y grŵp. Yn syth cyn gofyn i dyst edrych ar y grŵp, bydd y person sy'n gyfrifol am y dull adnabod yn dweud wrthynt y gall y person a welwyd ganddynt fod yn bresennol, neu beidio â bod yn bresennol, ac os na allant adnabod rhywun yn bendant dylent ddweud hynny. Gofynnir i'r tyst edrych ar y grŵp y mae'r sawl sydd dan amheuaeth i ymddangos ynddo. Bydd y modd mae'r tyst yn gwneud hyn yn dibynnu yw'r grŵp yn un symudol neu lonydd.

D

***Grŵp sy'n symud***

19. Pan fo'r grŵp y mae'r sawl sydd dan amheuaeth i ymddangos ynddo yn symud, e.e., yn gadael grisiau symudol, dylid dilyn darpariaethau *paragraff 20* i *24*.

20. Os bydd dau neu fwy person dan amheuaeth yn cytuno i gael eu hadnabod mewn grŵp, dylai pob un gymryd rhan mewn dull adnabod ar wahân. Gellir cynnal y rhain ar ôl ei gilydd ar yr un achlysur.

21. Bydd y person sy'n cynnal y dull adnabod yn dweud wrth y tyst edrych ar y grŵp ac yn gofyn iddynt ddynodi unrhyw berson maent yn feddwl iddynt ei weld ar achlysur blaenorol penodol.

22. Unwaith y bydd tyst wedi ei hysbysu fel ym *mharagraff 21* dylid caniatáu i'r sawl sydd dan amheuaeth gymryd unrhyw safle maent yn ei ddymuno o fewn y grŵp.

23. Pan fo tyst yn dynodi person fel ym *mharagraff 21* gofynnir iddynt, os yw hynny'n ymarferol, i edrych yn agosach ar y person er mwyn cadarnhau'r adnabod. Os nad yw hyn yn ymarferol, neu os na allant gadarnhau'r adnabod, fe ofynnir iddynt pa mor sicr ydynt mai'r person a ddynodwyd ganddynt yw'r person perthnasol.

24. Dylai'r tyst barhau i edrych ar y grŵp am y cyfnod mae'r person sy'n cynnal y dull adnabod yn credu sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau i'w galluogi i wneud cymariaethau rhwng y sawl sydd dan amheuaeth ac unigolion eraill sy'n gymharol debyg o ran ymddangosiad i'r sawl sydd dan amheuaeth fel ym *mharagraff 6*.

***Grwpiau llonydd***

25. Pan fo'r grŵp mae'r sawl sydd dan amheuaeth i ymddangos ynddo yn llonydd, e.e. pobl yr aros mewn ciw, dylid dilyn darpariaethau *paragraffau 26* i *29*.

26. Os bydd dau neu fwy o bersonau dan amheuaeth yn cytuno i gael eu hadnabod mewn grŵp, dylai pob un gymryd rhan mewn dull adnabod ar wahân os nad ydynt yn gymharol

debyg o ran ymddangosiad pryd y gallant ymddangos yn yr un grŵp. Pan gynhelir grwpiau adnabod ar wahân, dylai'r grwpiau gynnwys pobl wahanol.

27. Gall y sawl sydd dan amheuaeth gymryd unrhyw safle maent yn ei ddymuno o fewn y grŵp. Os oes mwy nag un tyst, rhaid dweud wrth y sawl sydd dan amheuaeth, o olwg a chlyw unrhyw dystion, y gallant, os ydynt yn dymuno, newid eu safle o fewn y grŵp.

28. Gofynnir i'r tyst gerdded heibio i'r grŵp, neu ymysg y grŵp, ac edrych ar bob person yn y grŵp o leiaf ddwywaith, gan gymryd cymaint o ofal ac amser â phosibl yn ôl yr amgylchiadau, cyn adnabod rhywun. Unwaith y bo'r tyst wedi gwneud hyn, fe ofynnir iddynt a yw'r person a welwyd ganddynt ar achlysur blaenorol penodol yn y grŵp ac i ddynodi unrhyw berson o'r fath trwy unrhyw ddull mae'r person sy'n cynnal y dull adnabod yn ei ystyried yn addas yn yr amgylchiadau. Os nad yw hyn yn ymarferol, fe ofynnir i'r tyst ddynodi unrhyw berson maent yn feddwl iddynt ei weld ar achlysur blaenorol.

D

29. Pan fo tyst yn dynodi person fel ym *mharagraff 28*, gwneir trefniadau, os yw hynny'n ymarferol, i'r tyst edrych yn agosach ar y person er mwyn cadarnhau'r adnabod. Os nad yw hyn yn ymarferol, neu os na all y tyst gadarnhau'r adnabod, fe ofynnir iddynt pa mor sicr ydynt mai'r person a ddynodwyd ganddynt yw'r person perthnasol.

***Pob achos***

30. Os bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn oedi'n ormodol cyn ymuno â'r grŵp, neu ar ôl ymuno â'r grŵp, yn cuddio ei hun yn fwriadol o olwg y tyst, fe ellir trin hyn fel amharodrwydd i gydweithredu ag adnabod mewn grŵp.

31. Os bydd tyst yn adnabod person gwahanol i'r sawl sydd dan amheuaeth, dylid hysbysu'r person o'r hyn sydd wedi digwydd a gofyn a ydynt yn barod i roi eu henw a'u cyfeiriad. Nid oes rheidrwydd ar unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n bresennol i roi'r manylion hyn. Nid oes dyletswydd i gofnodi manylion unrhyw aelod arall o'r cyhoedd sy'n bresennol yn y grŵp neu yn y man lle mae'r dull adnabod yn cael ei gynnal.

32. Pan fo'r adnabod mewn grŵp wedi ei gwblhau, fe ofynnir i'r sawl sydd dan amheuaeth a yw'n dymuno gwneud unrhyw sylwadau ynghylch y modd y cynhaliwyd y dull adnabod.

33. Os nad yw'r sawl sydd dan amheuaeth eisoes wedi eu hysbysu, byddant yn cael gwybod am unrhyw adnabod a wnaed gan y tystion.

***(c) Adnabod heb ganiatâd y sawl sydd dan amheuaeth***

34. Dylai adnabod mewn grŵp a gynhelir yn y dirgel heb ganiatâd y sawl sydd dan amheuaeth ddilyn, cyn belled â phosibl, y rheolau ar gyfer cynnal adnabod mewn grŵp gyda chaniatâd.

35. Nid oes gan y sawl sydd dan amheuaeth hawl i gael cyfreithiwr, oedolyn priodol na ffrind yn bresennol oherwydd bydd yr adnabod yn digwydd yn ddiarwybod i'r sawl sydd dan amheuaeth.

36. Gellir adnabod unrhyw nifer o bobl dan amheuaeth ar yr un pryd.

### *(d) Adnabod mewn swyddfeydd heddlu*

37. Ni ddylid ond cynnal adnabod mewn grŵp mewn swyddfeydd heddlu am resymau diogelwch neu oherwydd nad yw'n ymarferol i'w gynnal yn rhywle arall.

38. Gall yr adnabod mewn grŵp ddigwydd mewn ystafell sy'n cynnwys sgrîn sy'n caniatáu i dystion weld aelodau o'r grŵp heb gael eu gweld, neu unrhyw le arall yn swyddfa'r heddlu a ystyrir yn addas gan y swyddog adnabod.

39. Dylid dilyn unrhyw un o'r mesurau diogelwch ychwanegol sy'n berthnasol i resi adnabod os yw'r swyddog adnabod yn credu ei bod yn ymarferol i wneud hynny yn yr amgylchiadau.

D

### *(e) Adnabod sy'n cynnwys carcharorion*

40. Ni ellir ond trefnu adnabod mewn grŵp sy'n cynnwys carcharor yn y carchar neu mewn swyddfa heddlu.

41. Pan fo adnabod mewn grŵp yn cynnwys carcharor, boed hynny mewn carchar neu swyddfa heddlu, dylai'r trefniadau ddilyn y rhai ym *mharagraff 37* i *39*. Os bydd adnabod mewn grŵp yn digwydd o fewn carchar, gall carcharorion eraill gymryd rhan. Os mai carcharor yw'r sawl sydd dan amheuaeth, nid oes raid iddynt wisgo dillad carchar os nad yw'r gweddill sy'n cymryd rhan yn gwisgo'r un dillad.

### *(f) Dogfennau*

42. Pan fo ffotograff neu fideo yn cael ei gymryd fel ym *mharagraff 8* neu *9*, bydd copi o'r ffotograff neu fideo yn cael ei roi i'r sawl sydd dan amheuaeth neu eu cyfreithiwr o fewn amser rhesymol i wneud y cais.

43. Fel sy'n briodol, bydd *paragraff 3.30* neu *3.31*, yn berthnasol pan fo'r ffotograff neu ffilm a gymerwyd yn unol â *pharagraff* 8 neu *9* yn cynnwys y sawl sydd dan amheuaeth.

44. Rhaid gwneud cofnod o'r modd y cynhaliwyd unrhyw adnabod mewn grŵp ar ffurflenni a ddarparwyd ar gyfer y pwrpas. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw beth a ddywedwyd gan y tyst neu'r sawl sydd dan amheuaeth am unrhyw adnabod neu'r modd y cynhaliwyd y dull adnabod, ac unrhyw resymau pan nad ydoedd yn ymarferol i gydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Côd hwn sy'n rheoli'r modd y cynhelir y dull o adnabod mewn grŵp.

**ATODIAD D – CYFWYNEBIAD GAN DYST**

1. Cyn i'r cyfwynebiad ddigwydd, rhaid dweud wrth y tyst y gall y person y maent i ddod wyneb yn wyneb ag ef fod, neu beidio â bod, y person a welwyd ganddynt ac os nad ef yw'r person hwnnw, dylai'r tyst ddweud hynny.

2. Cyn i'r cyfwynebiad ddigwydd bydd y sawl sydd dan amheuaeth neu eu cyfreithiwr yn cael manylion y disgrifiad cyntaf o'r sawl sydd dan amheuaeth a roddwyd gan unrhyw dyst sydd i fynychu'r cyfwynebiad. Pan wneir darllediad neu gyhoeddiad, fel ym *mharagraff 3.28*, dylid caniatáu *hefyd* i'r sawl sydd dan amheuaeth neu eu cyfreithiwr weld unrhyw ddeunydd a ryddheir i'r cyfryngau gyda'r bwriad o adnabod neu ganfod y sawl sydd dan amheuaeth, cyn belled â bod gwneud hynny'n ymarferol ac na fyddai'n oedi'r ymchwiliad yn ormodol.

3. Ni ddylid defnyddio grym i ddangos wyneb y sawl sydd dan amheuaeth i'r tyst.

4. Rhaid i gyfwynebiad ddigwydd ym mhresenoldeb cyfreithiwr y sawl sydd dan amheuaeth, cyfieithydd neu ffrind os na fyddai hynny'n oedi'r ymchwiliad yn ormodol.

5. Bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn dod wyneb yn wyneb â phob tyst ar wahân. Gofynnir i'r tystion "Ai hwn yw'r person?" Os bydd y tyst yn adnabod person ond yn methu cadarnhau'r adnabod, fe ofynnir iddynt pa mor siŵr ydynt mai'r person yw'r un a welwyd ganddynt ar achlysur blaenorol penodol.

6. Fel arfer dylai'r cyfwynebiad ddigwydd mewn swyddfa heddlu, un ai mewn ystafell gyffredin neu un wedi ei chyflenwi â sgrîn sy'n caniatáu i'r tyst weld y sawl sydd dan amheuaeth heb gael ei weld. Yr un yw'r gweithdrefnau yn y ddau achos, ac eithrio na ellir ond defnyddio ystafell gyda sgrîn pan fo cyfreithiwr neu ffrind i'r sawl sydd dan amheuaeth neu oedolyn priodol yn bresennol neu fod y cyfwynebiad yn cael ei gofnodi ar fideo.

7. Wedi'r dull adnabod, fe ofynnir i bob tyst a fu iddynt weld unrhyw ddarllediadau neu ffilmiau cyhoeddedig neu ffotograffau neu unrhyw ddisgrifiadau o'r sawl sydd dan amheuaeth mewn cysylltiad â'r drosedd a bydd eu hateb yn cael ei gofnodi.

## ATODIAD E – DANGOS FFOTOGRAFFAU

***(a) Gweithredu***

1. Bydd swyddog o safle rhingyll neu uwch yn gyfrifol am oruchwylio a chyfarwyddo dangos y ffotograffau. Gall y dangos gael ei wneud gan swyddog arall neu aelod o staff yr heddlu, *gweler* paragraff 3.11.

2. Rhaid i'r swyddog goruchwyliol gadarnhau fod y disgrifiad cyntaf a roddwyd gan y tyst o'r sawl sydd dan amheuaeth wedi ei gofnodi cyn dangos y ffotograffau iddynt. Os na all y swyddog goruchwyliol gadarnhau fod y disgrifiad wedi ei gofnodi bydd dangos y ffotograffau yn cael ei ohirio.

3. Ni ddangosir ffotograffau ond i un tyst ar y tro. Rhoddir cymaint o breifatrwydd ag sy'n ymarferol i bob tyst ac ni chaniateir iddynt gyfathrebu â thystion eraill yn yr achos.

4. Ni ddangosir llai na deuddeg ffotograff ar y tro i'r tyst a chyn belled â phosibl byddant i gyd o'r un math.

5. Pan ddangosir y ffotograffau i'r tyst, fe ddywedir wrthynt y gall y ffotograff o'r person a welwyd ganddynt fod, neu beidio â bod, yn eu mysg ac os na allant adnabod rhywun yn bendant dylent ddweud hynny. Fe ddywedir wrth y tyst *hefyd* na ddylent ddod i benderfyniad nes eu bod wedi gweld o leiaf ddeuddeg ffotograff. Ni fydd y tyst yn cael ei annog na'i arwain mewn unrhyw ffordd ond yn cael ei adael i benderfynu heb unrhyw gymorth.

6. Os bydd tyst yn adnabod rhywun yn bendant o'r ffotograffau ni ddangosir ffotograffau i dystion eraill oni bai fod y person a gafodd ei adnabod wedi ei ddileu o'r ymchwiliad neu ddim ar gael. Ond dylid gofyn iddynt hwy, a'r tyst sydd wedi adnabod rhywun, fynychu adnabod trwy fideo, rhes adnabod neu adnabod mewn grŵp oni bai fod dim amheuaeth ynghylch pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth.

7. Os bydd tyst yn dewis rhywun ond yn methu cadarnhau'r adnabod, bydd y person sy'n dangos y ffotograffau yn gofyn iddynt pa mor sicr ydynt mai'r ffotograff a ddynodwyd ganddynt yw'r person a welwyd ganddynt ar achlysur blaenorol penodol.

8. Pan fo defnydd o ddelwedd gyfrifiadurol neu argraff gyfansawdd gan artist neu lun neu ddelwedd debyg wedi arwain at amau person y gellir gofyn iddo gymryd rhan mewn adnabod trwy fideo, ymddangos mewn rhes adnabod mewn adnabod mewn grŵp, ni ddangosir y ddelwedd neu lun i dystion posibl eraill.

9. Pan fo tyst sy'n mynychu adnabod trwy fideo, rhes adnabod neu adnabod mewn grŵp eisoes wedi gweld ffotograffau neu ddelweddau cyfrifiadurol neu argraff gyfansawdd gan artist neu lun neu ddelwedd debyg (a chyfrifoldeb y swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad

yw rhoi gwybod hyn i'r swyddog adnabod), rhaid hysbysu'r sawl sydd dan amheuaeth a'u cyfreithiwr o'r ffaith cyn i'r dull adnabod gael ei gynnal.

10. Ni fydd yr un o'r ffotograffau a ddangosir yn cael ei ddinistrio, boed rhywun yn cael ei adnabod neu beidio, oherwydd fe ellir gofyn amdanynt mewn llys. Bydd y ffotograffau'n cael eu rhifo a llun ar wahân yn cael ei gymryd o'r ffrâm neu ran o'r albwm y bu i'r tyst adnabod ohono fel cymorth tuag at ei ail-greu.

***(b) Dogfennau***

D

11. Os bydd rhywun yn cael ei adnabod neu beidio, fe wneir cofnod o ddangos y ffotograffau ar ffurflenni a ddarparwyd ar gyfer y pwrpas. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw beth a ddywedir gan y tyst am unrhyw adnabod neu'r modd y cafodd y dull adnabod ei gynnal, unrhyw resymau pam nad ydoedd yn bosibl i gydymffurfio ac unrhyw un o' ddarpariaethau Côd hwn sy'n rheoli dangos ffotograffau ac enw a safle y swyddog goruchwyliol.

12. Bydd y swyddog goruchwyliol yn archwilio a llofnodi'r cofnod cyn gynted â phosibl.

## ATODIAD F – OLION BYSEDD, OLION ESGIDIAU A SAMPLAU – DINISTRIO A CHWILIADAU DYFALIADOL

***(a) Olion bysedd, olion esgidiau a samplau a gymerir mewn cysylltiad ag ymchwiliad troseddol***

1. Pan gymerir olion bysedd, olion esgidiau neu samplau DNA gan berson mewn cysylltiad ag ymchwiliad a phan nad yw'r person dan amheuaeth o ymwneud â'r drosedd, *gweler F1*, rhaid eu dinistrio cyn gynted â'u bod wedi cyflawni pwrpas eu cymryd oni bai:

   (a) iddynt gael eu cymryd ar gyfer dibenion ymchwiliad i drosedd y cyhuddwyd y person ohoni; ac

   (b) y cymerwyd olion bysedd, olion esgidiau neu samplau *hefyd* gan y person a ddyfarnwyd yn euog ar gyfer dibenion yr ymchwiliad hwnnw.

   Fodd bynnag, yn unol â *pharagraff 2*, ni ellir defnyddio'r olion bysedd, olion esgidiau neu samplau, na'r wybodaeth sy'n deillio o samplau, yn yr ymchwiliad i unrhyw drosedd nac fel tystiolaeth yn erbyn person sydd, neu a fyddai, â hawl i gael yr olion bysedd, olion esgidiau neu samplau wedi eu dinistrio, *gweler Nodyn F2*.

2. Nid yw'r angen i ddinistrio olion bysedd, olion esgidiau neu samplau DNA, a'r wybodaeth sy'n deillio o samplau, a'r cyfyngiadau ar eu cadw a'u defnydd ym *mharagraff 1* yn berthnasol os yw'r person yn rhoi caniatâd ysgrifenedig i'w holion bysedd, olion esgidiau neu samplau gael eu cadw a'u defnyddio wedi iddynt gyflawni diben eu cymryd, *gweler Nodyn F1*.

3 Pan fo olion bysedd neu samplau person i gael eu dinistrio:

   (a) rhaid dinistrio *hefyd* unrhyw gopïau o'r olion bysedd;

   (b) gall y person fod yn dyst i ddinistrio'r olion bysedd neu'r copïau os ydyw yn gofyn am gael gwneud hynny o fewn pum diwrnod i gael ei hysbysu fod y dinistrio'n angenrheidiol;

   (c) gwneir mynediad i ddata cyfrifiadurol am olion bysedd perthnasol yn amhosibl cyn gynted â bod hynny'n ymarferol a bydd y person yn cael tystysgrif i'w hysbysu o hyn o fewn tri mis i wneud cais; ac

   (d) ni all yr olion bysedd, y samplau, nac unrhyw wybodaeth sy'n deillio ohonynt, gael eu defnyddio wrth archwilio i unrhyw drosedd neu fel tystiolaeth yn erbyn y person sydd, neu a fyddai, â hawl i'w cael wedi eu dinistrio.

4. Gellir cadw olion bysedd, olion esgidiau neu samplau, a'r wybodaeth sy'n deillio o samplau, a gymerwyd mewn cysylltiad ag ymchwiliad i drosedd ac nad oes angen eu

D

D

dinistrio, wedi iddynt gyflawni pwrpas eu cymryd ond ni ellir ond eu defnyddio ar gyfer dibenion sy'n ymwneud ag atal neu ddatrys trosedd, ymchwiliad i drosedd neu gynnal erlyniad o fewn, yn ogystal â'r tu allan, i'r Deyrnas Unedig a gallant *hefyd* fod yn destun archwiliad dyfaliadol. Mae hyn yn cynnwys eu gwirio yn erbyn cofnodion olion bysedd, olion esgidiau a samplau DNA eraill a gedwir gan, neu ar ran, yr heddlu ac awdurdodau gweithredu'r gyfraith eraill o fewn, yn ogystal â'r tu allan, i'r Deyrnas Unedig.

***(b) Olion bysedd a gymerir mewn cysylltiad ag ymholiadau'r Gwasanaeth Mewnfudo***

5. Rhaid i olion bysedd a gymerwyd ar gyfer ymholiadau'r Gwasanaeth Mewnfudo yn unol â phwerau a gweithdrefnau gwahanol i rai PACE ac sy'n gyfrifoldeb i'r Gwasanaeth Mewnfudo, nid yr heddlu, gael eu dinistrio fel a ganlyn:

(a) rhaid i olion bysedd a phob copi gael eu dinistrio cyn gynted â phosibl os yw'r person y cymerwyd hwy ganddo yn profi ei fod yn ddinesydd Prydeinig neu'n Ddinesydd i'r Gymanwlad sydd â hawl i drigo yn y Deyrnas Unedig o dan Ddeddf Mewnfudo 1971, adran 2(1)(b);

(b) rhaid i olion bysedd a gymerwyd o dan y pŵer ym *mharagraff 4.11(g)* gan ddibynnydd i berson yn *4.11 (b)* to *(f)* gael eu dinistrio pan fo olion bysedd y person hwnnw i gael eu dinistrio;

(c) rhaid i olion bysedd a gymerwyd gan berson o dan unrhyw bŵer fel ym *mharagraff 4.11* gyda neu heb ganiatâd y person nad ydynt wedi eu dinistrio yn unol â'r uchod, gael eu dinistrio o fewn deng mlynedd i gael eu cymryd neu o fewn cyfnod a nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999, adran 143(5).

***Nodiadau arweiniad***

*F1 Mae gan olion bysedd, olion esgidiau a samplau a roddir yn wirfoddol at ddibenion dileu ran bwysig iawn mewn nifer o ymchwiliadau gan yr heddlu. O'r herwydd, mae'n bwysig iawn sicrhau nad yw gwirfoddolwyr dieuog yn cael eu dychryn rhag cymryd rhan a bod eu caniatâd i'w holion bysedd, olion esgidiau a DNA gael eu defnyddio ar gyfer dibenion ymchwiliad penodol yn gwbl wybyddus a gwirfoddol. Os bydd yr heddlu neu wirfoddolwr am gadw olion bysedd, olion esgidiau neu sampl wedi i'r archwiliad penodol ddod i ben, mae'n bwysig fod caniatâd y gwirfoddolwr i hyn hefyd yn gwbl wybyddus a gwirfoddol.*

*Enghreifftiau o ganiatâd ar gyfer:*

- *DNA / olion bysedd/olion esgidiau – i'w defnyddio'n unig ar gyfer dibenion ymchwiliad penodol;*

- *DNA / olion bysedd/olion esgidiau – i'w defnyddio mewn ymchwiliad penodol a'u cadw gan yr heddlu i'w defnyddio yn y dyfodol.*

*I leihau'r perygl o ddryswch, dylai pob caniatâd gael ei roi ar ei ben i hun a dylid gofyn i'r gwirfoddolwr arwyddo pob caniatâd*

*(a) DNA:*

*(i) Sampl DNA a gymerwyd ar gyfer dibenion dileu neu fel rhan o sgrinio cudd-ymchwil ac i'w ddefnyddio'n unig ar gyfer dibenion yr ymchwiliad hwnnw a'i ddinistrio wedyn:*

*"Rwy'n cytuno i'm DNA / swab ceg gael ei gymryd ar gyfer dadansoddiad fforensig. Deallaf y bydd y sampl yn cael ei ddinistrio ar ddiwedd yr achos ac ni fydd fy mhroffil ond yn cael ei ddefnyddio i'w gymharu â'r proffil staen troseddol yn yr archwiliad hwn. Rwyf wedi cael fy nghynghori y gall fod angen i'r person sy'n cymryd y sampl roi tystiolaeth a / neu ddarparu datganiad ysgrifenedig i'r heddlu yn gysylltiedig â'i gymryd."*

*(ii) Sampl DNA i'w gadw ar y Gronfa Ddata DNA Genedlaethol a'i ddefnyddio yn y dyfodol:*

*"Rwy'n cytuno i'm sampl DNA a'r wybodaeth sy'n deillio ohono gael ei gadw a'i ddefnyddio'n unig ar gyfer dibenion sy'n gysylltiedig ag atal a datrys troseddau, ymchwiliad i drosedd neu gynnal erlyniad un ai'n genedlaethol neu'n rhyngwladol."*

*"Deallaf y gall y sampl hwn gael ei wirio'n erbyn cofnodion DNA eraill a gedwir gan, neu ar ran, awdurdodau gweithredu'r gyfraith perthnasol, un ai'n genedlaethol neu'n rhyngwladol."*

*"Unwaith yr wyf wedi cytuno i'r sampl gael ei gadw a'i ddefnyddio rwy'n deall na allaf dynnu'r caniatâd hwn yn ôl."*

*(b) Olion bysedd:*

*(i) Olion bysedd a gymerwyd ar gyfer dibenion dileu neu fel rhan o sgrinio cudd-ymchwil ac i'w defnyddio'n unig ar gyfer dibenion yr ymchwiliad hwnnw a'u dinistrio wedyn:*

*"Rwy'n cytuno i'm holion bysedd gael eu cymryd ar gyfer dibenion dileu. Deallaf y bydd yr olion yn cael eu dinistrio ar ddiwedd yr achos ac na fydd fy olion bysedd ond yn cael eu cymharu ag olion bysedd o'r archwiliad hwn. Rwyf wedi cael fy nghynghori y gall fod angen i'r person sy'n cymryd yr olion*

D

*bysedd roi tystiolaeth a / neu ddarparu datganiad ysgrifenedig i'r heddlu yn gysylltiedig a'u cymryd."*

(ii) *Olion bysedd i'w cadw i'w defnyddio yn y dyfodol:*

*"Rwy'n cytuno i'm holion bysedd gael eu cadw a'u defnyddio'n unig ar gyfer pwrpasa sy'n gysylltiedig ag atal neu ddatrys troseddau, ymchwiliad i drosedd neu gynnal erlyniad un ai'n genedlaethol neu'n rhyngwladol."*

*"Deallaf y gall fy olion bysedd gael eu gwirio'n erbyn cofnodion eraill a gedwir gan, neu ar ran, awdurdodau gweithredu'r gyfraith eraill, un ai'n genedlaethol neu'n rhyngwladol."*

*"Unwaith yr wyf wedi cytuno i'm holion bysedd gael eu cadw a'u defnyddio rwy'n deall na allaf dynnu'r caniatâd hwn yn ôl."*

D

(c) Olion esgidiau:

(i) *Olion esgidiau a gymerwyd ar gyfer dibenion dileu neu fel rhan o sgrinio cudd-ymchwil ac i'w defnyddio'n unig ar gyfer dibenion yr ymchwiliad hwnnw a'u dinistrio wedyn:*

*"Rwy'n cytuno i'm holion esgidiau gael eu cymryd ar gyfer dibenion dileu. Deallaf y bydd yr olion yn cael eu dinistrio ar ddiwedd yr achos ac na fydd fy olion esgidiau ond yn cael eu cymharu ag olion esgidiau o'r archwiliad hwn. Rwyf wedi cael fy nghynghori y gall fod angen i'r person sy'n cymryd yr olion bysedd roi tystiolaeth a / neu ddarparu datganiad ysgrifenedig i'r heddlu yn gysylltiedig a'u cymryd."*

(ii) *Olion esgidiau i'w cadw i'w defnyddio yn y dyfodol:*

*"Rwy'n cytuno i'm holion esgidiau gael eu cadw a'u defnyddio'n unig ar gyfer pwrpasau sy'n gysylltiedig ag atal neu ddatrys troseddau, ymchwiliad i drosedd neu gynnal erlyniad un ai'n genedlaethol neu'n rhyngwladol."*

*"Deallaf y gall fy olion esgidiau gael eu gwirio'n erbyn cofnodion eraill a gedwir gan, neu ar ran, awdurdodau gweithredu'r gyfraith eraill, un ai'n genedlaethol neu'n rhyngwladol."*

*"Unwaith yr wyf wedi cytuno i'm holion esgidiau gael eu cadw a'u defnyddio rwy'n deall na allaf dynnu'r caniatâd hwn yn ôl."*

F2 *Mae'r darpariaethau ar gyfer cadw olion bysedd, olion esgidiau a samplau ym mharagraff 1 yn caniatáu i'r holl olion bysedd, olion esgidiau a samplau mewn achos fod ar gael ar gyfer unrhyw ymchwiliad camweinyddu cyfiawnder all ddigwydd yn ddiweddarach.*

D

## DEDDF YR HEDDLU A THYSTIOLAETH DROSEDDOL 1984 (PACE)

## CÔD E

## CÔD YMARFER AR GYFER RECORDIO CYFWELIADAU SAIN GYDA PHOBL DAN AMHEUAETH

E

**Cychwyniad – Trefniadau Trosiannol**

Mae'r côd hwn yn berthnasol i gyfweliadau a gynhaliwyd ar ôl hanner nos ar 31 Gorffennaf 2004, hyd yn oed os yw'r cyfweliad wedi cychwyn cyn yr adeg hynny.

## 1 Cyffredinol

1.1 Mae'n rhaid i'r Côd Ymarfer yma fod ar gael yn hwylus ar gyfer dibenion ymgynghori:

- swyddogion yr heddlu
- pobl yn y ddalfa
- aelodau o'r cyhoedd.

1.2 Nid yw'r *Nodiadau arweiniad* a gynhwysir yn ddarpariaethau o'r Côd yma.

1.3 Ni fydd dim yn y Côd yma yn tynnu oddi ar ofynion Côd C, sef y Côd Ymarfer ar gyfer cadw, trin a holi pobl gan swyddogion yr heddlu.

1.4 Nid yw'r Côd yma'n berthnasol i'r bobl hynny a restrwyd yn Côd C, *paragraff 1.12*.

E

1.5 Mae ystyr y term:

- 'oedolyn priodol' yr un fath ag ydyw yn Côd C, *paragraff 1.7*
- 'cyfreithiwr' yr un fath ag ydyw yn Côd C, *paragraff 6.12*.

1.6 Yn y Côd yma mae:

(aa) 'cyfrwng recordio' yn golygu unrhyw fath o gyfrwng recordio sain datodadwy (megis teip magnetig, disg optegol neu gof cyflwr caled) y gellir ei chwarae a'i gopïo.

(a) 'person dynodedig' yn golygu rhywun ar wahân i swyddog yr heddlu, a ddynodwyd o dan Deddf Diwygio'r Heddlu 2002, Rhan 4 sydd â phwerau a dyletswyddau penodedig swyddogion yr heddlu a roddwyd iddynt neu a orfodwyd arnynt;

(b) unrhyw gyfeiriad at swyddog yr heddlu yn cynnwys person dynodedig sy'n gweithredu wrth ymarfer neu gyflawni'r pwerau a'r dyletswyddau a roddwyd iddo/iddi neu a orfodwyd arno/arni gan eu dynodiad.

1.7 Os yw'r pŵer a roddwyd i berson dynodedig:

(a) yn caniatáu defnyddio grym rhesymol pan y'i defnyddir gan swyddog yr heddlu, mae gan y person dynodedig sy'n defnyddio'r pŵer yna yr un hawl i ddefnyddio grym;

(b) yn cynnwys pŵer i ddefnyddio grym i gael mynediad i unrhyw eiddo, ni all y person dynodedig ymarfer y pŵer yma ac eithrio:

(i) ym mhresenoldeb, ac o dan oruchwyliaeth swyddog o'r heddlu; neu

(ii) ar gyfer dibenion:

- achub bywyd neu atal niwed corfforol; neu
- rhwystro difrod difrifol i eiddo.

1.8 Nid oes dim yn y Côd yma yn atal swyddog y ddalfa, neu swyddog arall y rhoddwyd gwarchodaeth o'r sawl sydd yn y ddalfa iddynt, rhag caniatáu i staff yr heddlu nad ydynt yn bersonau dynodedig i gyflawni gweithdrefnau neu dasgau unigol yn yr orsaf heddlu os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny. Fodd bynnag, mae'r swyddog yn dal yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithdrefnau a'r tasgau'n cael eu cyflawni'n gywir yn unol â'r Codau hyn. Mae'n rhaid i unrhyw berson lleyg o'r fath fod:

(a) yn berson a gyflogir gan awdurdod heddlu sy'n cynnal gwasanaeth heddlu ac o dan reolaeth a chyfarwyddyd Prif Swyddog yr heddlu yna; neu

(b) yn gyflogedig gan person y mae gan yr heddlu gytundeb â hwy ar gyfer cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phobl a arestir neu sydd yn cael eu cadw fel arall.

1.9 Mae'n rhaid i bersonau dynodedig a staff yr heddlu gadw mewn cof unrhyw ddarpariaethau perthnasol o'r Codau Ymarfer.

1.10 Mae cyfeiriadau at lyfr poced yn cynnwys unrhyw lyfr cofnodi swyddogol a ddosbarthwyd i swyddogion yr heddlu neu aelodau eraill o staff yr heddlu.

1.11 Mae cyfeiriadau at swyddog y ddalfa yn cynnwys rhai sydd yn cyflawni swyddogaethau swyddog y ddalfa.

## 2 Recordio a selio prif recordiadau

2.1 Bydd recordio cyfweliadau ar dâp yn cael ei wneud mewn ffordd agored er mwyn ennyn hyder yn ei ddibynadwyedd fel cofnod diduedd a chywir o'r cyfweliad.

2.2 Bydd un tâp, y prif dâp, yn cael ei selio ym mhresenoldeb y sawl sydd dan amheuaeth. Defnyddir ail dâp fel copi gweithredol. Y prif dâp yw un o'r ddau dâp a ddefnyddir mewn peiriant recordio dec dau dâp neu yr unig dâp mewn peiriant recordio dec un tâp. Y copi gweithredol yw naill ai'r ail/trydydd tâp a ddefnyddir mewn peiriant recordio dec dau/tri dâp neu gopi o'r prif dâp a wnaed gan beiriant recordio dec un tâp. Gweler *Nodiadau 2A* a *2B*

2.3 Nid oes dim yn y Côd yma yn gofyn am gofnodi neu ddatgelu pwy yw'r swyddogion yr heddlu neu staff yr heddlu sy'n cynnal cyfweliadau:

(a) yn achos ymholiadau sy'n gysylltiedig ag ymchwilio i derfysgaeth; neu

(b) os oes gan y cyfwelydd le rhesymol i gredu y gallai cofnodi neu ddatgelu ei enw ei roi mewn perygl;



E

Mewn achosion o'r fath dylai'r cyfwelwyr ddefnyddio gwarant neu rifau adnabod eraill ac enw'r orsaf heddlu. Gweler *Nodyn 2C*

***Nodiadau arweiniad***

*2A Pwrpas selio'r prif dâp ym mhresenoldeb y sawl sydd dan amheuaeth yw dangos bod cyfanrwydd tâp yn cael ei ddiogelu. Os defnyddir peiriant recordio dec un tâp yna mae'n rhaid gwneud y copi gweithredol o'r prif dâp ym mhresenoldeb y sawl sydd dan amheuaeth a heb i'r prif dâp fynd o olwg y sawl sydd dan amheuaeth. Bydd y copi gweithredol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwneud copïau ychwanegol os bydd angen.*

*2B Mae cyfeiriad at 'tapiau' yn cynnwys 'tâp', os defnyddir peiriant recordio dec un tâp.*

*2C Pwrpas paragraff 2.3(b) yw amddiffyn rhai sydd wedi ymwneud ag ymchwiliadau difrifol i dor-cyfraith trefnedig neu arestio pobl sydd dan amheuaeth sy'n dreisiol iawn lle mae yno wybodaeth ddibynadwy y gallai'r rhai a arestiwyd neu eu cymdeithion fygwth neu achosi niwed i'r rhai dan sylw. Lle ceir amheuaeth, dylid ymgynghori gyda swyddog o safle arolygydd neu uwch.*

E

## 3 Cyfweliadau i'w recordio ar dâp

3.1 Yn ddarostyngedig i *baragraffau 3.3* a *3.4*, bydd recordiad tâp yn cael ei ddefnyddio mewn gorsafoedd heddlu ar gyfer unrhyw gyfweliad:

(a) gyda pherson y rhoddwyd rhybudd iddo/iddi o dan Côd C, *adran 10* gyda golwg ar unrhyw drosedd cyhuddadwy, yn cynnwys trosedd sydd yn brofadwy y naill ffordd neu'r llall; *gweler Nodyn 3A.*

(b) sydd yn digwydd o ganlyniad i gyfwelydd mewn achos eithriadol yn rhoi cwestiynau pellach i'r sawl sydd dan amheuaeth ynglŷn a throsedd a ddisgrifir ym *mharagraff 3.1(a)* ar ôl iddynt gael eu cyhuddo o'r drosedd, neu eu hysbysu y gellir eu herlyn am y drosedd honno; *gweler* Côd C, *paragraff 16.5.*

(c) pan yw cyfwelydd am ddweud wrth berson, ar ôl iddynt gael eu cyhuddo o drosedd, neu eu hysbysu y gellir eu herlyn am drosedd a ddisgrifir ym *mharagraff 3.1(a)*, ynghylch unrhyw ddatganiad ysgrifenedig neu gyfweliad gyda rhywun arall; *gweler* Côd C, *paragraff 16.4*.

3.2 Mae Deddf Terfysgaeth 2000 yn gwneud darpariaeth ar wahân i Gôd Ymarfer ar gyfer recordio cyfweliadau'r rhai hynny sy'n cael eu harestio o dan Adran 41 neu a gedwir yn y ddalfa o dan Atodlen 7 y Ddeddf ar dâp. Nid yw darpariaethau'r Côd yma yn berthnasol i gyfweliadau o'r fath.

3.3 Fe all y swyddog y ddalfa awdurdodi'r cyfwelydd i beidio recordio'r cyfweliad ar dâp pan:

(a) nad yw'n ymarferol resymol oherwydd methiant offer neu os nad oes ystafell gyfweld neu recordydd addas ar gael a bod y swyddog awdurdodi'n ystyried, ar sail resymol, na ddylid gohirio'r cyfweliad; neu

(b) os yw'n glir o'r cychwyn na fydd yno erlyniad.

Noder: Yn yr achosion yma dylid cofnodi'r cyfweliad yn ysgrifenedig yn unol â Chôd C, *adran 11*. Ym mhob achos bydd swyddog y ddalfa yn cofnodi'r rhesymau penodol am beidio recordio ar dâp. Gweler *Nodyn 3B*

3.4 Os yw person yn gwrthod mynd i mewn neu aros mewn ystafell gyfweld addas, *gweler* Côd C *paragraff 12.5*, ac os yw'r swyddog y ddalfa ar sail resymol, o'r farn na ddylid gohirio'r cyfweliad, fe all, yn ôl disgresiwn y swyddog y ddalfa, gynnal y cyfweliad mewn cell trwy ddefnyddio offer recordio symudol neu, os nad oes offer o'r fath ar gael gellir cofnodi'r cyfweliad yn ysgrifenedig fel yn Côd C, *adran 11*. Cofnodir y rhesymau am hyn.

3.5 Bydd pob cyfweliad yn ei gyfanrwydd yn cael ei recordio, yn cynnwys cymryd datganiad a darllen y datganiad hynny yn ôl.

E

***Nodiadau arweiniad***

*3A Nid oes dim yn y Côd yma a fwriadwyd i wahardd gwneud recordiad ar dâp yn ôl disgresiwn yr heddlu o gyfweliadau mewn gorsafoedd heddlu gyda phobl y rhoddwyd rhybudd iddynt parthed troseddau na chafodd eu cynnwys ym mharagraff 3.1, neu ymatebion a wnaed gan bersonau ar ôl iddynt gael eu cyhuddo o gyflawni trosedd, neu eu hysbysu y gellir eu herlyn am drosedd, cyhyd ag y cydymffurfir â'r Côd yma.*

*3B Fe all penderfyniad i beidio recordio cyfweliad ar dâp am ba reswm bynnag fod yn destun sylw mewn llys. Dylai'r swyddog awdurdodi fod yn barod i gyfiawnhau'r penderfyniad hwnnw.*

## 4 Y cyfweliad

### *(a) Cyffredinol*

4.1 Bydd darpariaethau Côd C:

- *adrannau 10* ac *11*, a'r *Nodiadau arweiniad* perthnasol yn gymwys ar gyfer cynnal cyfweliadau y mae'r Côd yma'n cyfeirio atynt
- *paragraffau 11.7* i *11.14* yn gymwys yn unig pan fydd angen cofnod ysgrifenedig.

4.2 Mae Côd C, *paragraffau 10.10*, *10.11* ac Atodiad C yn disgrifio'r cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol pan yw y sawl sydd dan amheuaeth yn methu neu'n gwrthod dweud dim am ei ymwneud â'r drosedd wrth gael ei gyfweld neu ar ôl cael ei gyhuddo neu ei

hysbysu o erlyniad posib, a sut y mae hynny'n effeithio ar delerau'r rhybudd a phennu os a chan bwy y gellir rhoi rhybudd arbennig o dan adrannau 36 a 37.

### *(b) Cychwyn cyfweliadau*

4.3 Pan fydd y sawl sydd dan amheuaeth yn cael ei hebrwng i'r ystafell gyfweld bydd y cyfwelydd, heb oedi, ond ym mhresenoldeb y sawl sydd dan amheuaeth, yn llwytho'r recordydd â thapiau glân a'i osod i recordio. Mae'n rhaid agor neu ddadbacio'r tapiau ym mhresenoldeb y sawl sydd dan amheuaeth.

4.4 Dylai'r cyfwelydd ddweud wrth y sawl sydd dan amheuaeth ynglŷn â'r recordiad tâp. Bydd y cyfwelydd:

(a) yn dweud fod y cyfweliad yn cael ei recordio ar dâp

(b) yn ddarostyngedig i *baragraff 2.3*, yn rhoi ei enw a'i safle ac enw a safle unrhyw gyfwelydd arall sy'n bresennol

(c) yn gofyn i'r sawl sydd dan amheuaeth ac unrhyw barti arall sy'n bresennol e.e. cyfreithiwr, i enwi eu hunain

(d) yn nodi dyddiad, amser cychwyn a lleoliad y cyfweliad

(e) yn dweud y bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn cael ei hysbysu o'r hyn fydd yn digwydd i'r tapiau.

Gweler *Nodyn 4A*

4.5 Bydd y cyfwelydd:

- yn rhoi rhybudd i'r sawl sydd dan amheuaeth, *gweler* Côd C, *adran 10*
- yn atgoffa'r sawl sydd dan amheuaeth o'i hawl i gyngor cyfreithiol am ddim, *gweler* Côd C, *paragraff 11.2*.

4.6 Bydd y cyfwelydd yn dwyn unrhyw ddatganiad neu ddistawrwydd arwyddocaol i sylw'r sawl sydd dan amheuaeth; *gweler* Côd C, *paragraff 11.4*.

### *(c) Cyfweliadau gyda phobl fyddar*

4.7 Os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn fyddar neu os amheuir ei fod â nam ar y clyw, yna bydd y cyfwelydd yn gwneud nodyn ysgrifenedig o'r cyfweliad yn unol â Côd C, ar yr un pryd a'i recordio ar dâp yn unol â'r Côd yma. Gweler *Nodiadau 4B* a *4C*.

***(d) Gwrthwynebiadau a chwynion gan y sawl sydd dan amheuaeth***

4.8 Os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn gwrthwynebu recordio'r cyfweliad ar dâp, ar gychwyn y cyfweliad, yn ystod y cyfweliad neu yn ystod toriad yn y cyfweliad, yna bydd y cyfwelydd yn egluro bod y cyfweliad yn cael ei recordio ar dâp a bod y Côd yn ei gwneud yn ofynnol cofnodi gwrthwynebiad y sawl sydd dan amheuaeth ar dâp. Ar ôl recordio unrhyw wrthwynebiadau ar dâp neu fod y sawl sydd dan amheuaeth wedi gwrthod recordio ei wrthwynebiadau, bydd y cyfwelydd yn dweud ei fod yn diffodd y recordydd, gan roi ei resymau ac yna'n ei ddiffodd. Yna bydd y cyfwelydd yn gwneud cofnod ysgrifenedig o'r cyfweliad fel yn Côd C, *adran 11*. Os, fodd bynnag, bod y cyfwelydd yn rhesymol o'r farn y gall fynd ymlaen i holi'r sawl sydd dan amheuaeth gyda'r tâp yn dal i recordio, yna fe all y cyfwelydd wneud hynny. Gweler *Nodyn 4D*

4.9 Os gwneir cwyn yng nghwrs cyfweliad gan neu ar ran y person sy'n cael ei holi e ynghylch darpariaethau'r Côd yma neu Côd C, yna bydd y cyfwelydd yn gweithredu fel yn Côd C, *paragraff 12.9*. Gweler *Nodiadau 4E* a *4F*

4.10 Os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn nodi ei fod am sôn wrth y cyfwelydd am faterion nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r drosedd ac os nad yw'n barod i'r materion hyn gael eu recordio ar dâp, yna dylid rhoi cyfle i'r sawl sydd dan amheuaeth i ddweud hynny wrth y cyfwelydd ar ddiwedd y cyfweliad ffurfiol.

***(e) Newid cyfryngau recordio***

4.11 Pan fydd y recordydd yn dangos nad oes llawer o amser yn weddill ar y tapiau, yna bydd y cyfwelydd yn dweud wrth y sawl sydd dan amheuaeth bod y tapiau yn dod i'w diwedd ac yn dirwyn rhan honno'r cyfweliad i ben. Os bydd y cyfwelydd yn gadael yr ystafell i nôl ail set o dapiau, yna ni bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn cael ei adael heb neb arall yn bresennol. Bydd y cyfwelydd yn tynnu'r tapiau o'r recordydd tâp ac yn rhoi'r tapiau newydd, a fydd yn cael eu dadbacio neu eu hagor ym mhresenoldeb y sawl sydd dan amheuaeth. Dylid gosod y recordydd tâp i recordio'r tapiau newydd. Er mwyn osgoi dryswch rhwng y tapiau, bydd y cyfwelydd yn marcio'r tapiau gyda chyfeirnod yn union ar ôl eu tynnu o'r recordydd tâp.

***(f) Toriad yn ystod y cyfweliad***

4.12 Ar adeg toriad mewn cyfweliad, bydd y ffaith bod toriad yn digwydd, y rheswm dros hynny a'r amser yn cael eu recordio ar dâp.

4.12A Ar adeg toriad a phan fydd y sawl sydd dan amheuaeth yn gadael yr ystafell gyfweld, bydd y tapiau'n cael eu tynnu o'r recordydd tâp gan ddilyn y gweithdrefnau ar gyfer cwblhau cyfweliad; *gweler paragraff 4.18*.

4.13 Os yw'r toriad yn un byr a'r sawl sydd dan amheuaeth a'r cyfwelydd yn aros yn yr ystafell gyfweld, yna gellir diffodd y recordydd tâp. Nid oes angen tynnu'r tapiau a phan bydd y cyfweliad yn ailgychwyn dylai'r recordiad tâp barhau ar yr un tapiau. Bydd amser ailgychwyn y cyfweliad yn cael ei recordio ar dâp.

4.14 Yn dilyn unrhyw doriad yn ystod cyfweliad mae'n rhaid i'r cyfwelydd, cyn ailgychwyn y cyfweliad, atgoffa'r sawl sy'n cael ei holi eu bod yn parhau o dan rybudd neu, os oes unrhyw amheuaeth, roi'r rhybudd yn llawn eto. Gweler *Nodyn 4G*

***(g) Offer recordio yn methu***

4.15 Os bydd nam ar yr offer y gellir ei gywiro'n gyflym, e.e. trwy osod tapiau newydd yn y peiriant, yna bydd y cyfwelydd yn dilyn y gweithdrefnau priodol fel ym *mharagraff 4.11*. Ar ôl ailgychwyn recordio bydd y cyfwelydd yn egluro yr hyn ddigwyddodd ac yn cofnodi'r amser yr ailgychwynnwyd y cyfweliad. Os, fodd bynnag, na fydd yn bosib ailgychwyn recordio ar y recordydd tâp hwnnw ac os nad oes recordydd tâp arall ar gael yn hwylus, yna fe all y cyfweliad barhau heb gael ei recordio. Os digwydd hyn,bydd y cyfwelydd yn ceisio awdurdod y swyddog y ddalfa fel ym *mharagraff 3.3*. Gweler *Nodyn 4H*

E

***(h) Tynnu tapiau o'r recordydd***

4.16 Ar ôl tynnu tapiau o'r recordydd yn ystod y cyfweliad, fe'u cedwir gan ddilyn y gweithdrefnau a nodir ym *mharagraff 4.18*.

***(i) Diwedd y cyfweliad***

4.17 Ar ddiwedd y cyfweliad, cynigir cyfle i'r sawl sydd dan amheuaeth i egluro unrhyw beth y mae ef neu hi wedi'i ddweud a gofynnir iddynt a oes yno rywbeth y maent yn dymuno ei ychwanegu.

4.18 Ar ddiwedd y cyfweliad, yn cynnwys cofnodi a darllen yn ôl unrhyw ddatganiad ysgrifenedig, bydd yr amser yn cael ei gofnodi a'r recordydd tâp yn cael ei ddiffodd. Bydd y cyfwelydd yn selio'r prif dâp gyda label prif dâp ac yn ei drin fel tystiolaeth yn unol â gorchmynion sefydlog yr heddlu. Bydd y cyfwelydd yn llofnodi'r label ac yn gofyn i'r sawl sydd dan amheuaeth ac unrhyw drydydd parti sy'n bresennol yn ystod y cyfweliad i'w lofnodi. Os yw'r sawl sydd dan amheuaeth neu drydydd parti yn gwrthod llofnodi'r label bydd swyddog o safle arolygydd o leiaf, neu os nad yw ar gael y swyddog y ddalfa, yn cael ei alw i mewn i'r ystafell gyfweld gan ofyn iddynt i'w lofnodi, yn ddarostyngedig i *baragraff 2.3*.

4.19 Bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn derbyn hysbysiad a fydd yn egluro:

- sut y defnyddir y recordiad tâp

- y trefniadau ar gyfer cael mynediad i'r tâp
- os bydd y person yn cael ei gyhuddo neu'n cael ei hysbysu o fwriad i'w h/erlyn, yna bydd copi o'r tâp yn cael ei ddarparu cyn gynted ag sy'n ymarferol neu fel a gytunwyd fel arall rhwng y sawl sydd dan amheuaeth a'r heddlu.

***Nodiadau arweiniad***

*4A Ar gyfer dibenion adnabod llais dylai'r cyfwelydd ofyn i'r sawl sydd dan amheuaeth ac unrhyw bobl eraill sy'n bresennol i gyflwyno eu hunain.*

*4B Bwriad y ddarpariaeth yma yw rhoi hawliau mynediad cydradd i berson sydd yn fyddar neu sydd â nam ar y clyw at y cofnod llawn o'r cyfweliad cyn belled ag y mae hynny'n bosib trwy ddefnyddio recordiad sain.*

*4C Mae darpariaethau Côd C, adran 13 ar cyfieithwyr ar gyfer pobl fyddar neu ar gyfer cyfweliadau gyda rhai sydd dan amheuaeth sy'n cael trafferth deall Saesneg yn dal yn berthnasol. Fodd bynnag, mewn cyfweliad sy'n cael ei recordio ar dâp mae'r gofyniad i'r cyfwelydd sicrhau bod y cyfieithydd yn gwneud nodyn ar wahân o'r cyfweliad yn berthnasol i baragraff 4.7 yn unig (cyfweliadau gyda phobl fyddar).*

*4D Dylai'r cyfwelydd gofio y gallai penderfyniad i barhau i recordio yn erbyn dymuniad y sawl sydd dan amheuaeth fod yn destun sylw mewn llys.*

*4E Os gelwir ar y swyddog y ddalfa i ddelio gyda'r gŵyn, yna dylid, os yw hynny'n bosib, gadael y recordydd tâp, i chwarae nes y bydd y swyddog y ddalfa wedi dod i mewn i'r ystafell a siarad gyda'r sawl sy'n cael ei gyfweld. Dylid parhau neu derfynu'r cyfweliad ddigwydd yn ôl disgresiwn y cyfwelydd gan aros gweithredu gan arolygydd o dan Côd C, paragraff 9.2.*

*4F Os yw'r gŵyn yn ymwneud â mater nad yw'n gysylltiedig â'r Côd hwn neu Gôd C, yna bydd y penderfyniad i barhau yn cael ei wneud yn ôl disgresiwn y cyfwelydd. Pan fydd y cyfwelydd yn penderfynu parhau â'r cyfweliad, yna bydd yn dweud wrth y sawl sydd dan amheuaeth y bydd y gŵyn yn cael ei dwyn i sylw'r swyddog y ddalfa ar ddiwedd y cyfweliad. Ar ddiwedd y cyfweliad mae'n rhaid i'r cyfwelydd, cyn gynted ag sy'n ymarferol, hysbysu'r swyddog y ddalfa ynghylch bodolaeth a natur y gŵyn a wnaed.*

*4G Dylai'r cyfwelydd gofio efallai y bydd angen dangos i'r llys na ddigwyddodd ddim yn ystod toriad neu rhwng cyfweliadau a ddylanwadodd ar dystiolaeth y sawl sydd dan amheuaeth a recordiwyd. Ar ôl toriad neu ar gychwyn cyfweliad dilynol, dylai'r cyfwelydd ystyried crynhoi ar dâp y rheswm dros y toriad gan gadarnhau hynny gyda'r sawl sydd dan amheuaeth.*

*4H Lle mae'r cyfweliad yn cael ei recordio a lle mae'r cyfrwng recordio neu'r offer recordio yn torri dylai'r swyddog sy'n cynnal y cyfweliad ddirwyn y cyfweliad i ben ar unwaith. Lle mae rhan o'r cyfweliad heb ei effeithio gan y nam a lle gelir ei ddefnyddio o hyd ar y cyfrwng recordio, yna dylid gwneud copi o'r cyfrwng hynny a'i selio ym mhresenoldeb y sawl sydd dan amheuaeth gan ailgychwyn y cyfweliad trwy ddefnyddio offer/cyfrwng newydd yn ôl yr angen. Os bydd cynnwys y cyfweliad wedi ei golli'n llwyr rhaid selio'r cyfrwng ym mhresenoldeb y sawl sydd dan amheuaeth ac ail ddechrau'r cyfweliad. Os nad oes modd atgyweirio'r offer recordio neu os nad oes offer newydd ar gael ar unwaith ynadylid recordio'r cyfweliad yn unol â Chôd C, adran 11.*

## 5 Ar ôl y cyfweliad

5.1 Bydd y cyfwelydd yn gwneud nodyn yn ei lyfr poced bod y cyfweliad wedi cael ei gynnal, a'i fod wedi'i recordio ar dâp, yn ogystal â nodi amser, hyd a dyddiad y cyfweliad a chyfeirnod y prif dâp.

5.2 Os nad oes achos yn dilyn gyda golwg ar y person y recordiwyd ei gyfweliad, yna mae'n rhaid cadw'r tapiau'n ddiogel fel ym *mharagraff 6.1* a *Nodyn 6A*.

E

***Nodyn arweiniad***

*5A Dylid gwneud unrhyw gofnod ysgrifenedig o gyfweliad a recordiwyd ar dâp yn unol â'r arweiniad cenedlaethol a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.*

## 6 Diogelwch tapiau

6.1 Bydd y swyddog sydd yng ngofal pob gorsaf heddlu lle recordir cyfweliadau gyda phersonau sydd dan amheuaeth yn gwneud trefniadau ar gyfer cadw prif recordiadau yn ddiogel a rhoi cyfrif am symudiadau'r prif dapiau ar yr un sail â deunydd y gellir ei ddefnyddio ar gyfer dibenion tystiolaeth, yn unol â gorchmynion sefydlog yr heddlu. Gweler *Nodyn 6A*

6.2 Nid oes gan swyddog yr heddlu awdurdod i dorri'r sêl ar brif dâp sydd ei angen ar gyfer prawf troseddol neu achos apêl. Os bydd angen cael mynediad at y prif dâp, yna bydd y swyddog yr heddlu yn trefnu ar gyfer torri ei sêl ym mhresenoldeb cynrychiolydd Gwasanaeth Erlyn y Goron. Dylid hysbysu'r diffynnydd neu ei gynrychiolydd cyfreithiol gan roi cyfle rhesymol iddynt fod yn bresennol. Os yw'r diffynnydd neu ei gynrychiolydd cyfreithiol yn bresennol yna fe'u gwahoddir i ailselio a llofnodi'r prif dâp. Os yw'r naill neu'r llall yn gwrthod neu os nad oes yr un ohonynt yn bresennol yna dylid gwneud hyn gan gynrychiolydd Gwasanaeth Erlyn y Goron. Gweler *Nodiadau 6B* a *6C*

6.3 Os nad oes achos troseddol yn deillio neu os yw'r prawf troseddol ac, os yn berthnasol, yr achos apêl y mae'r cyfweliad yn ymwneud â hwy wedi eu terfynu, yna prif swyddog yr heddlu sydd yn gyfrifol am sefydlu trefniadau ar gyfer torri'r sêl ar y prif dâp, os oes angen.

6.4 Pan yw sêl y prif dâp yn cael ei thorri, rhaid cofnodi'r drefn a ddilynwyd, yn cynnwys y dyddiad, amser, lle a'r bobl oedd yn bresennol.

***Nodiadau arweiniad***

*6A Mae'r adran hon yn ymwneud â diogelwch y prif dâp a seliwyd ar ddiwedd y cyfweliad. Mae'n rhaid cymryd gofal o gopïau gweithredol tapiau oherwydd fe allai eu colli neu eu difa arwain at yr angen i gael mynediad at y prif dapiau.*

*6B Os cyflwynwyd y tâp i lys y goron i'w gadw ar ôl traddodi ar gyfer prawf yna bydd erlynydd y goron yn gwneud cais i brif glerc canolfan llys y goron ar gyfer rhyddhau'r tâp i'w ddadselio gan erlynydd y goron.*

*6C Dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad ar Wasanaeth Erlyn y Goron neu erlynydd y goron yn rhan hon y Côd yn cynnwys unrhyw gorff neu berson â chyfrifoldeb statudol ar gyfer erlyn y mae'r heddlu'n cynnal unrhyw gyfweliadau a recordiwyd ar dâp ar ei ran.*

## Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984

# CÔD F

# CÔD YMARFER AR GYFER RECORDIO CYFWELIADAU FIDEO GYDA SAIN GYDA PHOBL DAN AMHEUAETH

F

### Cychwyniad

Dylid ystyried cynnwys y côd yma os yw swyddog cyfweld yn penderfynu gwneud recordiad gweledol â sain o gyfweliad gyda rhywun dan amheuaeth ar ol hanner nos ar 31 Rhagfyr 2005. Nid oes gofyniad statudol i wneud recordiad gweledol o gyfweliadau.

F

## 1 Cyffredinol

1.1 Mae'n rhaid i'r Côd Ymarfer yma fod ar gael yn hwylus ar gyfer dibenion ymgynghori gan swyddogion yr heddlu, staff yr heddlu, pobl yn y ddalfa ac aelodau o'r cyhoedd.

1.2 Nid yw'r Nodiadau Arweiniad a gynhwysir yn ddarpariaethau o'r Côd yma. Maent yn ffurfio arweiniad i swyddogion heddlu ac eraill ynghylch ei weithredu a'i ddehongli.

1.3 Ni fydd dim yn y Côd yma yn tynnu oddi ar ofynion y Côd Ymarfer ar gyfer Cadw, Trin a Holi Pobl gan Swyddogion yr Heddlu (Côd C). [Gweler Nodyn 1A].

1.4 Nodir y cyfweliadau sy'n berthnasol i'r Côd hwn ym mharagraffau 3.1 – 3.3.

1.5 Yn y Côd yma, mae ystyr y term "oedolyn priodol", "cyfreithiwr" a "cyfweliad" yr un fath ag ydynt yn Nghôd C. Bydd darpariaethau cyfatebol a Nodiadau Arweiniad Côd C sy'n berthnasol i'r termau hynny *hefyd* yn gymwys lle bo hynny'n briodol.

1.6 Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Côd yma at recordiad fideo yn golygu recordiad fideo â sain.

1.7 Mae cyfeiriadau at "lyfr poced" yn cynnwys unrhyw lyfr cofnodi swyddogol a ddosbarthwyd i swyddogion yr heddlu.

### *Nodyn Arweiniad*

1A Fel ym mharagraff 1.9, Côd C, mae cyfeiriadau at swyddog y ddalfa yn cynnwys rhai sydd yn cyflawni swyddogaethau swyddog y ddalfa.

## 2 Recordio a selio prif dapiau

2.1 Bydd recordio cyfweliadau ar fideo yn cael ei wneud mewn ffordd agored er mwyn ennyn hyder yn ei ddibynadwyedd fel cofnod diduedd a chywir o'r cyfweliad. [Gweler Nodyn 2A].

2.2 Gosodir y camera(au) yn yr ystafell gyfweld er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys cymaint ag sy'n ymarferol bosib o'r ystafell yn ystod cyfweliadau.

2.3 Bydd y cyfrwng recordio ardystiedig o ansawdd da, yn newydd a heb ei ddefnyddio o'r blaen. Pan roddir y cyfrwng recordio ardystiedig yn y peiriant recordio a'i roi i recordio, bydd y dyddiad a'r amser cywir, mewn oriau a munudau, yn cael eu harosod yn awtomatig yn ystod y recordiad i gyd. [Gweler Nodyn 2B].

2.4 Bydd un copi o'r dull recordio ardystiedig, y cyfeirir ato yn y Côd hwn fel y prif gopi, yn cael ei selio cyn iddo adael presenoldeb y sawl sydd dan amheuaeth. Defnyddir ail gopi fel copi gweithredol. [Gweler Nodyn 2C a 2D].

2.5 Nid oes dim yn y Côd yma yn gofyn am gofnodi neu ddatgelu pwy yw'r swyddog heddlu os:

(a) yw'r cyfweliad neu'r cofnod yn gysylltiedig ag unigolyn a gedwir o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000; neu ymchwilio i derfysgaeth; neu

(b) fel arall os oes gan y swyddog le rhesymol i gredu y gallai cofnodi neu ddatgelu ei enw ei roi mewn perygl.

Mewn achosion o'r fath bydd gan swyddogion eu cefnau at y camera ac yn defnyddio gwarant neu rifau adnabod eraill ac enw eu gorsaf heddlu. Bydd achosion o'r fath a'r rhesymau perthnasol yn cael eu cofnodi yng nghofnod y ddalfa. [Gweler Nodyn 2E]

***Nodiadau arweiniad***

*2A Bydd swyddogion cyfweld yn dymuno trefnu bod trefniadau recordio mor anymwthgar â phosib. Rhaid iddi fod yn glir i'r sawl sydd dan amheuaeth, fodd bynnag, nad oes cyfle i ymyrryd gyda'r cyfrwng recordio neu'r peiriant recordio.*

*2B Yn y cyd-destun yma, bydd y cyfrwng recordio ardystiedig ar ffurf naill ai tâp VHS neu CD digidol a dylai fod yn bosib arosod delwedd o'r dyddiad a'r amser arno wrth recordio'r cyfweliad.*

*2C Pwrpas selio'r prif dâp ym mhresenoldeb y sawl sydd dan amheuaeth yw eu sicrhau bod cyfanrwydd tâp yn cael ei ddiogelu.*

*2D Gellir defnyddio recordiad y cyfweliad ar gyfer unrhyw weithdrefnau adnabod yn unol â pharagraff 3.21 neu Atodiad E Cod D.*

*2E Pwrpas paragraff 2.5 yw amddiffyn swyddogion heddlu ac eraill sydd wedi ymwneud ag ymchwiliadau difrifol i dor-cyfraith trefnedig neu arestio pobl sydd dan amheuaeth sy'n dreisiol iawn lle mae yno wybodaeth ddibynadwy y gallai'r rhai a arestiwyd neu eu cymdeithion fygwth neu achosi niwed i swyddogion, eu teuluoedd neu eu heiddo personol.*

## 3 Cyfweliadau i'w recordio ar fideo

3.1 Yn ddarostyngedig i baragraff 3.2 isod, os yw swyddog cyfweliad yn penderfynu gwneud recordiad gweledol o gyfweliad, dyma’r meysydd lle gallai hynny fod yn berthnasol:

(a) gyda rhywun sydd dan amheuaeth o gyflawni trosedd dditiadwy (yn cynnwys trosedd sydd yn brofadwy y naill ffordd neu'r llall) [Gweler Nodiadau 3A a 3B];

(b) sydd yn digwydd o ganlyniad i gyfwelydd mewn achos eithriadol yn rhoi cwestiynau pellach i'r sawl sydd dan amheuaeth ynglŷn â throsedd a ddisgrifir yn is-baragraff (a) uchod ar ôl iddynt gael eu cyhuddo o'r drosedd, neu eu hysbysu y gellir eu herlyn am y drosedd honno[Gweler Nodyn 3C];

(c) pan yw cyfwelydd am ddweud wrth berson, ar ôl iddynt gael eu cyhuddo o drosedd, neu eu hysbysu y gellir eu herlyn am drosedd a ddisgrifir yn is-baragraff (a) uchod, ynghylch unrhyw ddatganiad ysgrifenedig neu gyfweliad gyda rhywun arall [Gweler Nodyn 3D];

(d) gyda, neu ym mhresenoldeb, person byddar neu berson byddar/dall neu rywun sydd â nam lleferydd sy'n defnyddio iaith arwyddion i gyfathrebu;

(e) gyda, neu ym mhresenoldeb unrhyw un sydd angen "oedolyn priodol"; neu

(f) mewn unrhyw achos lle mae'r sawl sydd dan amheuaeth neu eu cynrychiolydd yn gofyn i'r cyfweliad gael ei recordio ar fideo.

3.2 Mae Deddf Terfysgaeth 2000 yn gwneud darpariaeth ar wahân i Gôd Ymarfer ar gyfer recordio cyfweliadau'r rhai hynny a gedwir yn y ddalfa o dan Adran 41 neu Atodlen 7 y Ddeddf ar fideo. Nid yw darpariaethau'r Côd yma yn berthnasol i gyfweliadau o'r fath [Gweler Nodyn 3E].

3.3 Fe all swyddog y ddalfa awdurdodi'r cyfwelydd i beidio recordio'r cyfweliad ar fideo pan:

F

(a) nad yw'n ymarferol resymol i wneud hynny oherwydd methiant offer neu os nad oes ystafell gyfweld neu recordydd addas ar gael a bod y swyddog awdurdodi'n ystyried, ar sail resymol, na ddylid gohirio'r cyfweliad nes cywiro'r diffyg neu hyd nes y daw ystafell neu recordydd addas ar gael. Mewn achosion o'r fath fe all swyddog y ddalfa awdurdodi'r swyddog sy'n cyfweld i recordio'r cyfweliad ar dâp sain yn unol â'r arweiniad a roddwyd yng Nghôd E;

(b) os yw'n glir o'r cychwyn na fydd yno erlyniad; neu

(c) lle nad yw'n ymarferol resymol i wneud hynny oherwydd bod y person yn gwrthwynebu mynd i mewn i ystafell gyfweld addas neu leoliad arall a fyddai'n galluogi recordio'r cyfweliad, neu fel arall yn methu neu wrthod mynd i mewn i ystafell neu leoliad o'r fath, a bod gan y swyddog awdurdodi sail resymol i gredu na ddylid gohirio'r cyfweliad nes i'r amodau hynny beidio bod yn berthnasol.

Ym mhob achos bydd swyddog y ddalfa yn cofnodi yng nghofnodion y ddalfa y rhesymau dros beidio gwneud cofnod gweledol ar fideo. [Gweler Nodyn 3F].

3.4 Lle mae'n ofynnol rhoi rhybudd i rywun sy'n mynychu gorsaf yr heddlu'n wirfoddol yn unol â Chôd C cyn cael ei gyfweld, yna bydd y cyfweliad dilynol yn cael ei recordio, oni bai fod swyddog y ddalfa yn awdurdodi yn unol â darpariaethau paragraff 3.3 uchod peidio recordio'r cyfweliad yn y modd yma.

3.5 Bydd pob cyfweliad yn ei gyfanrwydd yn cael ei recordio ar fideo, yn cynnwys cymryd datganiad a darllen y datganiad hynny yn ôl.

3.6 Bydd arwydd neu ddangosydd gweledol wedi'i oleuo yn parhau ymlaen trwy gydol yr adeg y bydd offer recordio'n weithredol neu'n alluog i recordio neu drosglwyddo signal neu wybodaeth.

***Nodiadau arweiniad***

*3A Nid oes dim yn y Côd yma a fwriadwyd i wahardd gwneud recordiad ar fideo yn ôl disgresiwn yr heddlu o gyfweliadau mewn gorsafoedd heddlu gyda phobl y rhoddwyd rhybudd iddynt parthed troseddau na chafodd eu cynnwys ym mharagraff 3.1, neu ymatebion a wnaed gan bersonau ar ôl iddynt gael eu cyhuddo o gyflawni trosedd, neu eu hysbysu y gellir eu herlyn am drosedd, cyhyd ag y cydymffurfir â'r Côd yma.*

*3B Tynnir sylw at y darpariaethau a nodir yng Nghôd C ynghylch materion i'w hystyried wrth bennu a yw person a gedwir mewn cyflwr i'w gyfweld.*

*3C Mae Côd C yn pennu'r amgylchiadau lle gellir holi rhywun sydd dan amheuaeth ynglŷn â throsedd heb gael eu cyhuddo o gyflawni'r trosedd.*

*3D Mae Côd C yn pennu'r gweithdrefnau i'w dilyn pan dynnir sylw person ar ôl ei gyhuddo, at ddatganiad gan unigolyn arall. Un ffordd o ddwyn sylw rhywun sydd dan amheuaeth at gynnwys cyfweliad gyda pherson arall yw chwarae recordiad o'r cyfweliad hynny yn ôl iddynt.*

*3E Pan ddaw ond yn glir yn ystod cyfweliad sy'n cael ei recordio ar fideo ei bod yn bosib fod y sawl sy'n cael ei gyfweld wedi cyflawni trosedd y mae paragraff 3.2 yn cyfeirio ato, yna fe ddylai'r swyddog cyfweld ddiffodd y peiriant recordio a pharhau â'r cyfweliad yn unol â darpariaethau Deddf Terfysgaeth 2000.*

*3F Fe all penderfyniad i beidio recordio cyfweliad ar fideo am ba reswm bynnag fod yn destun sylw mewn llys. Dylai'r swyddog awdurdodi fod yn barod i gyfiawnhau'r penderfyniad hwnnw.*

## 4 Y Cyfweliad

### (a) Cyffredinol

4.1 Bydd darpariaethau Côd C mewn perthynas â rhybuddion a chyfweliadau a'r nodiadau arweiniad sy'n berthnasol i'r darpariaethau hynny yn gymwys ar gyfer cynnal cyfweliadau y mae'r Côd yma'n cyfeirio atynt.

4.2 Tynnir sylw'n arbennig at y rhannau hynny o Gôd C sy'n disgrifio'r cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol pan yw y sawl sydd dan amheuaeth yn methu neu'n gwrthod

dweud dim am ei ymwneud â'r drosedd wrth gael ei gyfweld neu ar ôl cael ei gyhuddo neu ei hysbysu o erlyniad posib, a sut y mae hynny'n effeithio ar delerau'r rhybudd a phennu os a chan bwy y gellir rhoi rhybudd arbennig o dan Adrannau 36 a 37 Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994.

### *(b) Cychwyn cyfweliadau*

4.3 Pan fydd y sawl sydd dan amheuaeth yn cael ei hebrwng i'r ystafell gyfweld bydd y cyfwelydd, heb oedi, ond ym mhresenoldeb y sawl sydd dan amheuaeth, yn llwytho’r recordydd a'i osod i recordio. Mae'n rhaid agor neu ddadbacio'r cyfryngau recordio ym mhresenoldeb y sawl sydd dan amheuaeth. [Gweler Nodyn 4A]

4.4 Yna bydd y cyfwelydd yn dweud yn ffurfiol wrth y sawl sydd dan amheuaeth ynglŷn â'r recordiad fideo. Bydd y cyfwelydd:

(a) yn dweud fod y cyfweliad yn cael ei recordio ar fideo

(b) yn ddarostyngedig i baragraff 2.5, yn rhoi ei enw a'i safle ac enw a safle unrhyw gyfwelydd arall sy'n bresennol

(c) yn gofyn i'r sawl sydd dan amheuaeth ac unrhyw barti arall sy'n bresennol (e.e. cyfreithiwr), i enwi eu hunain

(d) yn nodi dyddiad, amser cychwyn a lleoliad y cyfweliad; ac

(e) yn dweud y bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn cael ei hysbysu o'r hyn fydd yn digwydd i'r recordiad.

F

4.5 Yna bydd y cyfwelydd yn rhoi rhybudd i'r sawl sydd dan amheuaeth, gan ddilyn y drefn a nodwyd yng Nghôd C, ac atgoffa'r sawl sydd dan amheuaeth o'i hawl i gyngor cyfreithiol annibynnol am ddim ac y gall siarad gyda chyfreithiwr dros y ffôn.

4.6 Yna bydd y cyfwelydd yn dwyn unrhyw ddatganiad neu ddistawrwydd arwyddocaol i sylw'r sawl sydd dan amheuaeth (h.y. methu neu wrthod ateb cwestiwn neu ei ateb yn anfoddhaol) a ddigwyddodd cyn cychwyn y cyfweliad, a bydd yn gofyn i'r sawl sydd dan amheuaeth a ydynt yn dymuno cadarnhau neu wadu'r datganiad neu'r tawelwch blaenorol neu a ydynt yn dymuno ychwanegu rhywbeth. Mae'r diffiniad o ddatganiad neu ddistawrwydd "arwyddocaol" yr un fath ag a nodwyd yng Nghôd C.

### (c) Cyfweliadau gyda phobl fyddar

4.7 Os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn fyddar neu os amheuir ei fod â nam ar y clyw, yna bydd darpariaethau Côd C ar ddehonglwyr ar gyfer y byddar neu ar gyfer cyfweld rhai sydd dan amheuaeth ac sy’n cael trafferth deall Saesneg yn parhau i fod yn gymwys.

***(d) Gwrthwynebiadau a chwynion gan y sawl sydd dan amheuaeth***

4.8 Os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn gwrthwynebu recordio'r cyfweliad ar fideo, nail ai ar gychwyn y cyfweliad, yn ystod y cyfweliad neu yn ystod toriad yn y cyfweliad, yna bydd y cyfwelydd yn egluro bod y cyfweliad yn cael ei recordio ar fideo a bod darpariaethau'r Côd yn ei gwneud yn ofynnol cofnodi gwrthwynebiad y sawl sydd dan amheuaeth ar y recordiad fideo. Ar ôl cofnodi unrhyw wrthwynebiadau yn weledol neu os yw'r sawl sydd dan amheuaeth wedi gwrthod recordio eu gwrthwynebiadau, bydd y cyfwelydd yn dweud ei fod yn diffodd yr offer recordio, gan roi ei resymau ac yna yn ei ddiffodd. Os oes recordiad sain ar wahân yn cael ei wneud, bydd y swyddog yn gofyn i'r person i gofnodi'r rhesymau dros wrthod cytuno i'r recordiad gweledol o'r cyfweliad. Bydd paragraff 4.8 Cod E yn berthnasol os yw'r person yn gwrthwynebu cael recordiad sain o'r cyfweliad. Rhaid i’r swyddog wedyn wneud cofnod ysgrifenedig o’r cyfweliad. Os yw'r cyfwelydd o'r farn resymol y gall barhau i holi'r sawl sydd dan amheuaeth gyda'r recordiad gweledol yn dal ymlaen, fe all wneud hynny. Gweler *Nodyn 4G*.

4.9 Os gwneir cwyn yng nghwrs cyfweliad gan, neu ar ran, y person sy'n cael ei holi ynghylch darpariaethau'r Côd yma neu Gôd C, yna bydd y cyfwelydd yn gweithredu fel yn unol â Chôd C, gan gofnodi hynny yng nghofnod y cyfweliad ac yn hysbysu swyddog y ddalfa. [Gweler 4B a 4C].

4.10 Os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn nodi ei fod am sôn wrth y cyfwelydd am faterion nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r drosedd ac os nad yw'n barod i'r materion hyn gael eu recordio ar fideo, yna dylid rhoi cyfle i'r sawl sydd dan amheuaeth i sôn am y materion hynny wrth y cyfwelydd ar ddiwedd y cyfweliad ffurfiol.

***(e) Newid y cyfrwng recordio***

4.11 Mewn achosion lle nad yw'r cyfrwng recordio yn ddigon hir i recordio'r holl gyfweliad gyda'r sawl sydd dan amheuaeth, yna defnyddir dulliau recordio cymeradwy eraill. Pan fydd yr offer recordio yn dangos nad oes llawer o amser yn weddill ar y tapiau, yna bydd y cyfwelydd yn hysbysu'r sawl sydd dan amheuaeth o hynny ac yn dirwyn y rhan honno o'r cyfweliad i ben. Os yw'r cyfwelydd yn dymuno parhau â'r cyfweliad ond heb fod â chyfrwng recordio addas, yna bydd yn trefnu bod cyfryngau o'r fath yn cael eu cyflenwi. Ni bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn cael ei adael heb neb arall yn bresennol yn yr ystafell gyfweld. Bydd y cyfwelydd yn tynnu'r cyfrwng recordio o'r peiriant recordio ac yn rhoi'r cyfrwng recordio newydd, a fydd yn cael ei ddadbacio neu fel arall eu hagor ym mhresenoldeb y sawl sydd dan amheuaeth. Dylid gosod y peiriant recordio i recordio. Rhaid cymryd gofal, yn enwedig lle defnyddiwyd nifer o setiau gwahanol o ddeunyddiau recordio, er mwyn osgoi dryswch rhwng y cyfryngau recordio. Gellid gwneud hyn drwy eu marcio â chyfeirnod yn union ar ôl eu tynnu o'r peiriant recordio.

***(f) Toriad yn ystod y cyfweliad***

4.12 Ar adeg toriad mewn cyfweliad, a phan bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn gadael yr ystafell gyfweld, bydd y ffaith bod toriad yn digwydd, y rheswm dros hynny a'r amser yn cael eu recordio. Mae'n rhaid diffodd y peiriant recordio a thynnu'r cyfrwng recordio o'r peiriant. Dylid dilyn y gweithdrefnau ar gyfer diweddu cyfweliad a nodwyd ym mharagraff 4.19 isod.

4.13 Os yw'r toriad yn un byr a'r sawl sydd dan amheuaeth a'r swyddog heddlu yn aros yn yr ystafell gyfweld, bydd y ffaith bod toriad yn digwydd, y rheswm dros hynny a'r amser yn cael eu recordio. Gellir diffodd y peiriant recordio, ond nid oes angen tynnu'r cyfrwng recordio o'r peiriant. Pan fydd y cyfweliad yn ailgychwyn dylai'r recordiad barhau ar yr un cyfrwng recordio ag o'r blaen a bydd amser ailgychwyn y cyfweliad yn cael ei recordio.

4.14 Yn dilyn unrhyw doriad yn ystod cyfweliad pan fo'r person dan rybudd, mae'n rhaid i'r swyddog sy'n cyfweld atgoffa'r sawl sy'n cael ei holi eu bod yn parhau o dan rybudd. Os oes unrhyw amheuaeth dylid rhoi'r rhybudd yn llawn eto wrth ailgychwyn y cyfweliad. [Gweler Nodyn 4D a 4E].

F

***(g) Offer recordio yn methu***

4.15 Os bydd nam ar yr offer y gellir ei gywiro'n gyflym, yna dilynir y gweithdrefnau priodol fel ym mharagraff 4.12. Ar ôl ailgychwyn recordio bydd y cyfwelydd yn egluro yr hyn ddigwyddodd ac yn cofnodi'r amser yr ailgychwynnwyd y cyfweliad. Os, fodd bynnag, na fydd yn bosib ailgychwyn recordio ar y recordydd hwnnw ac os nad oes offer arall ar gael yn hwylus, yna fe all y cyfweliad barhau heb gael ei recordio ar fideo. Os digwydd hyn, bydd y cyfwelydd yn dilyn y weithdrefn sydd ym mharagraff 3.3 y Côd hwn ar gyfer ceisio awdurdod y swyddog y ddalfa. [Gweler Nodyn 4F].

***(h) Tynnu cyfrwng recordio o'r offer recordio***

4.16 Lle tynnir y cyfrwng recordio o'r offer recordio yn ystod y cyfweliad, fe'u cedwir gan ddilyn y gweithdrefnau a nodir ym mharagraff 4.18 isod.

***(i) Diwedd y cyfweliad***

4.17 Cyn cwblhau'r cyfweliad, cynigir cyfle i'r sawl sydd dan amheuaeth i egluro unrhyw beth y mae ef neu hi wedi'i ddweud a gofynnir iddynt a oes yno rywbeth y maent yn dymuno ei ychwanegu.

4.18 Ar ddiwedd y cyfweliad, yn cynnwys cofnodi a darllen yn ôl unrhyw ddatganiad ysgrifenedig, bydd yr amser yn cael ei gofnodi a'r peiriant recordio yn cael ei ddiffodd.

Bydd y prif dâp neu'r CD yn cael ei dynnu o'r peiriant recordio ac yn cael ei selio gyda label prif gopi ac yn cael ei drin fel tystiolaeth yn unol â gorchmynion sefydlog yr heddlu. Bydd y cyfwelydd yn llofnodi'r label ac yn gofyn i'r sawl sydd dan amheuaeth ac unrhyw oedolion priodol neu drydydd parti sy'n bresennol yn ystod y cyfweliad i'w lofnodi. Os yw'r sawl sydd dan amheuaeth neu drydydd parti yn gwrthod llofnodi'r label bydd swyddog o safle arolygydd o leiaf, neu os nad yw ar gael swyddog y ddalfa, yn cael ei alw i mewn i'r ystafell gyfweld gan ofyn iddynt i'w lofnodi.

4.19 Bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn derbyn hysbysiad a fydd yn egluro sut y defnyddir y recordiad a'r trefniadau ar gyfer cael mynediad ato. Os bydd y person yn cael ei gyhuddo neu'n cael ei hysbysu o fwriad i'w erlyn, yna bydd copi o'r tâp yn cael ei ddarparu cyn gynted ag sy'n ymarferol.

***Nodiadau arweiniad***

*4A Dylai'r cyfwelydd geisio amcangyfrif hyd tebygol y cyfweliad a sicrhau bod nifer digonol o gyfryngau recordio addas ynghyd â labeli ar gyfer selio'r prif gopïau ar gael yn yr ystafell gyfweld.*

*4B Os gelwir ar swyddog y ddalfa i ddelio gyda'r gŵyn, yna dylid, os yw hynny'n bosib, gadael y peiriant recordio i chwarae nes bydd swyddog y ddalfa wedi dod i mewn i'r ystafell a siarad gyda'r sawl sy'n cael ei gyfweld. Dylid parhau neu derfynu'r cyfweliad ddigwydd yn ôl disgresiwn y swyddog cyfweld gan aros gweithredu gan arolygydd fel nodir yng Nghôd C.*

F

*4C Os yw'r gŵyn yn ymwneud â mater nad yw'n gysylltiedig â'r Côd Ymarfer hwn neu Gôd C, yna bydd y penderfyniad i barhau yn cael ei wneud yn ôl disgresiwn y swyddog cyfweld. Pan fydd y swyddog cyfweld yn penderfynu parhau â'r cyfweliad, yna bydd yn dweud wrth y sawl sy'n cael ei gyfweld y bydd y gŵyn yn cael ei dwyn i sylw swyddog y ddalfa ar ddiwedd y cyfweliad. Ar ddiwedd y cyfweliad mae'n rhaid i'r swyddog cyfweld, cyn gynted ag sy'n ymarferol, hysbysu swyddog y ddalfa ynghylch bodolaeth a natur y gŵyn a wnaed.*

*4D Wrth ystyried rhoi rhybudd eto ar ôl toriad dylai'r cyfwelydd gofio efallai y bydd angen dangos i'r llys bod y person yn deall ei fod yn dal o dan rybudd wrth i'r cyfweliad ailgychwyn.*

*4E Dylai'r cyfwelydd gofio efallai y bydd angen dangos i'r llys na ddigwyddodd ddim yn ystod toriad neu rhwng cyfweliadau a ddylanwadodd ar dystiolaeth y sawl sydd dan amheuaeth a recordiwyd. Ar ôl toriad neu ar gychwyn cyfweliad dilynol, dylai'r cyfwelydd ystyried crynhoi ar y tâp neu'r CD y rheswm dros y toriad gan gadarnhau hynny gyda'r sawl sydd dan amheuaeth.*

*4F Pe bai un o'r cyfryngau recordio'n torri neu'n cael ei difrodi yn ystod y cyfweliad, dylid ei selio fel prif gopi ym mhresenoldeb y sawl sydd dan amheuaeth gan ailgychwyn y cyfweliad o'r man lle stopiodd y cyfweliad. Dylid copïo'r rhan heb ei dorri gan selio'r gwreiddiol fel prif dâp ym mhresenoldeb y sawl sydd dan amheuaeth, ar ôl y cyfweliad os oes angen. Os nad oes offer ar gyfer copïo ar gael yn hwylus, dylid selio'r ddwy ran ym mhresenoldeb y sawl sydd dan amheuaeth ac ailgychwyn y cyfweliad.*

*4G Dylai'r cyfwelydd fod yn ymwybodol y gallai penderfynu parhau â'r recordiad yn groes i ddymuniadau'r sawl sydd dan amheuaeth fod yn destun sylw yn y llys.*

## 5 Ar ôl y cyfweliad

5.1 Bydd y cyfwelydd yn gwneud nodyn yn ei lyfr poced bod y cyfweliad wedi cael ei gynnal, a'i fod wedi'i recordio ar fideo, yn ogystal â nodi amser, hyd a dyddiad y cyfweliad a chyfeirnod prif gopi'r cyfrwng recordio.

5.2 Os nad oes achos yn dilyn gyda golwg ar y person y recordiwyd ei gyfweliad, yna mae'n rhaid cadw'r cyfrwng recordio'n ddiogel fel ym mharagraff 6.1 a Nodyn 6A.

F

***Nodyn Arweiniad***

5A Dylid gwneud unrhyw gofnod ysgrifenedig o gyfweliad a recordiwyd yn unol â'r arweiniad cenedlaethol a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a chan ystyried y cyngor a roddir yn y Llawlyfr Arweiniad ar gyfer paratoi, prosesu a chyflwyno ffeiliau.

## 6 Diogelwch Prif Gopi

### (a) Cyffredinol

6.1 Bydd y swyddog sydd yng ngofal yr orsaf heddlu lle recordir cyfweliadau gyda phersonau sydd dan amheuaeth yn gwneud trefniadau ar gyfer cadw'r prif gopïau'n ddiogel a rhoi cyfrif am symudiadau’r prif gopïau ar yr un sail â deunydd y gellir ei ddefnyddio ar gyfer dibenion tystiolaeth, yn unol â gorchmynion sefydlog yr heddlu [Gweler Nodyn 6A].

### (b) Torri sêl y prif gopi ar gyfer achosion troseddol

6.2 Nid oes gan swyddog yr heddlu awdurdod i dorri'r sêl ar brif gopi sydd ei angen ar gyfer prawf troseddol neu achos apêl. Os bydd angen cael mynediad at y prif gopi, yna bydd swyddog yr heddlu yn trefnu ar gyfer torri ei sêl ym mhresenoldeb cynrychiolydd Gwasanaeth Erlyn y Goron. Dylid hysbysu'r diffynnydd neu ei gynrychiolydd cyfreithiol gan roi cyfle rhesymol iddynt fod yn bresennol. Os yw'r diffynnydd neu ei gynrychiolydd

cyfreithiol yn bresennol yna fe'u gwahoddir i ailselio a llofnodi'r prif gopi. Os yw'r naill neu'r llall yn gwrthod neu os nad oes yr un ohonynt yn bresennol yna dylid gwneud hyn gan gynrychiolydd Gwasanaeth Erlyn y Goron. [Gweler Nodiadau 6B a 6C].

**(c) Torri sêl y prif gopi: achosion eraill**

6.3 Prif swyddog yr heddlu sydd yn gyfrifol am sefydlu trefniadau ar gyfer torri'r sêl ar y prif gopi lle nad oes achos troseddol yn deillio, neu os yw’r prawf troseddol y mae'r cyfweliad yn ymwneud â hwy wedi eu terfynu a bod angen torri'r sêl. Dylai'r trefniadau hyn fod yn rhai y mae prif swyddog yr heddlu o'r farn eu bod yn angenrheidiol resymol er mwyn dangos i'r sawl sy'n cael ei gyfweld ac unrhyw barti arall a allai ddymuno ddefnyddio neu gyfeirio at y cofnod o'r cyfweliad nad amharwyd ar y prif gopi a bod y cofnod o'r cyfweliad yn dal yn gywir. [Gweler Nodyn 6D]

6.4 Yn ddarostyngedig i baragraff 6.6, mae'n rhaid rhoi cyfle rhesymol i gynrychiolydd pob parti i fod yn bresennol adeg torri'r sêl, llunio copi o'r prif gopi a'i ailselio.

6.5 Os nad yw un neu fwy o’r partïon yn bresennol pan dorrir sêl y prif gopi oherwydd na ellir cysylltu â hwynt neu oherwydd eu bod yn gwrthod bod yn bresennol neu os yw paragraff 6.6 yn berthnasol, dylid gwneud trefniadau i berson annibynnol megis ymwelydd â'r ddalfa i fod yn bresennol. Fel arall, neu fel cam ychwanegol, dylid trefnu i gofnodi'r weithdrefn ar ffilm neu mewn ffotograffau.

F

6.6 Nid yw paragraff 6.5 yn ei gwneud yn ofynnol rhoi cyfle i rywun fod yn bresennol pan fod;

(a) angen torri sêl y prif gopi ar gyfer ymchwiliad priodol a phellach i'r trosedd gwreiddiol neu ymchwilio i ryw drosedd arall; ac

(b) os oes gan y swyddog sydd yng ngofal yr ymchwiliad sail resymol i amau y byddai caniatáu cyfle yn rhagfarnu yn erbyn ymchwiliad o'r fath neu achos troseddol y gellid ei ddwyn o ganlyniad i hynny neu beryglu unrhyw berson. [Gweler Nodyn 6E]

**(d) Dogfennau**

6.7 Mae'n rhaid ar adeg torri sêl y prif gopi, llunio copi ac ailselio'r prif gopi, cofnodi'r drefn a ddilynwyd, yn cynnwys y dyddiad, amser, lle a'r bobl oedd yn bresennol.

***Nodiadau arweiniad***

*6A Mae'r adran hon yn ymwneud â diogelwch y prif gopi a seliwyd ar ddiwedd y cyfweliad. Mae'n rhaid cymryd gofal o gopïau gweithredol oherwydd fe allai eu colli neu eu difa arwain at yr angen i gael mynediad at y prif gopïau.*

6B *Os cyflwynwyd y prif gopi i Lys y Goron i'w gadw ar ôl traddodi ar gyfer prawf yna bydd Erlynydd y Goron yn gwneud cais i Brif Glerc Canolfan Llys y Goron ar gyfer rhyddhau'r copi i'w ddadselio gan Erlynydd y Goron.*

6C *Dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad ar Wasanaeth Erlyn y Goron neu Erlynydd y Goron yn rhan hon y Côd yn cynnwys unrhyw gorff neu berson â chyfrifoldeb statudol ar gyfer erlyn y mae'r heddlu'n cynnal unrhyw gyfweliadau a recordiwyd ar dâp ar eu rhan.*

6D *Mae'r rhesymau mwyaf cyffredin dros angen mynediad at brif gopïau nad oes eu hangen ar gyfer achosion troseddol yn deillio o achosion sifil a chwynion yn erbyn yr heddlu ac achosion sifil rhwng unigolion sy'n deillio o honiadau tor-cyfraith y mae'r heddlu wedi ymchwilio iddynt.*

6E *Fe allai paragraff 6.6 fod yn berthnasol, er enghraifft, pan fyddai un neu fwy o ganlyniadau tebygol yr ymchwiliad olygu o bosib; (i) erlyn un neu fwy o'r rhai oedd dan amheuaeth yn wreiddiol, (ii) erlyn rhywun na fu dan amheuaeth o'r blaen, yn cynnwys rhywun a oedd yn wreiddiol yn dyst; a (iii) unrhyw un oedd dan amheuaeth yn wreiddiol sy'n cael eu trin fel tyst ar ran yr erlyniad a phan fyddai datgelu rhag blaen o unrhyw weithredu gan yr heddlu, yn enwedig trwy gyswllt â'r partïon dan sylw, yn arwain at berygl o danseilio'r ymchwiliad a pheryglu tystion.*

F

## Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984

# CÔD G

# CÔD YMARFER AR GYFER PWERAU ARESTIO STATUDOL SWYDDOGION YR HEDDLU

G

### Cychwyniad

Mae'r Côd yma yn berthnasol i unrhyw arestiad a wneir gad swyddog yr heddlu ar ôl hanner nos ar 31 Rhagfyr 2005.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae’r Côd Ymarfer hwn yn delio â phŵer statudol yr heddlu i arestio pobl yr amheuir eu bod yn ymwneud â throsedd.

1.2 Mae’r hawl i ryddid yn egwyddor allweddol yn Neddf Hawliau Dynol 1998. Mae defnyddio’r pŵer i arestio yn cynrychioli ymyrraeth amlwg a sylweddol â’r hawl honno.

1.3 Rhaid cyfiawnhau’r defnydd o’r pŵer yn llawn a dylai swyddogion sy’n defnyddio’r pŵer ystyried a oes modd cyflawni’r amcanion angenrheidiol trwy ddulliau eraill, llai ymwthiol. Ni ddylid byth defnyddio arestio yn unig oherwydd y gellir ei ddefnyddio. Fe all absenoldeb cyfiawnhad dros ddefnyddio’r pwerau i arestio arwain at herio hynny pe bai'r achos yn dod gerbron llys. Pan ddefnyddir y pŵer i arestio mae'n hanfodol ei ddefnyddio mewn ffordd gymesur nad yw'n arddangos rhagfarn.

1.4 Mae Adran 24 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (fel y’i cyfnewidiwyd gan adran 10 Deddf Troseddu Trefnedig Ddifrifol a’r Heddlu 2005) yn darparu’r pŵer statudol i arestio. Os na chydymffurfir â darpariaethau’r Ddeddf a’r Côd hwn, gall yr arestiad a’r modd y cynhaliwyd unrhyw ymchwiliad dilynol fod yn destun amheuaeth.

1.5 Rhaid i’r côd ymarfer hwn fod ar gael yn rhwydd ym mhob gorsaf heddlu er mwyn i swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu, pobl a gedwir yn y ddalfa ac aelodau’r cyhoedd allu troi ato.

1.6 Nid yw’r nodiadau arweiniad yn ddarpariaethau i’r côd hwn.

G

## 2 Elfennau Arestio dan adran 24 PACE

2.1 Mae dwy elfen yn angenrheidiol er mwyn arestio’n gyfreithlon:

> Bod unigolyn yn ymwneud neu yr amheuir ei fod yn ymwneud neu ei fod wedi ymgeisio ymwneud â chomisiynu trosedd;
>
> **A**
>
> Sail resymol dros gredu bod angen arestio’r unigolyn.

2.2 Mae’n ofynnol i swyddogion arestio hysbysu’r unigolyn a arestiwyd ei fod wedi’i arestio, hyd yn oed os yw’r ffaith hon yn amlwg, ynghyd ag amgylchiadau perthnasol yr arestiad mewn perthynas â’r ddwy elfen a hysbysu swyddog y ddalfa o’r rhain pan fyddant yn cyrraedd gorsaf yr heddlu. Gweler Côd C paragraff 3.4.

**'Ymwneud â chomisiynu trosedd'**

2.3 Gall heddwas arestio heb warant mewn perthynas ag unrhyw drosedd, oni bai am yr

un eithriad unigol a restrir yn Nodyn Arweiniad 1. Gall heddwas arestio unrhyw un:

- sydd ar fin cyflawni trosedd <u>neu</u> sydd wrthi'n cyflawni trosedd
- y mae gan y swyddog sail resymol dros amau ei fod ar fin cyflawni trosedd <u>neu</u> ei fod yn cyflawni trosedd
- y mae gan y swyddog sail resymol dros amau ei fod yn euog o drosedd y mae ganddo ef neu ganddi hi sail resymol dros amau ei bod wedi'i chyflawni
- unrhyw un sy'n euog o drosedd a gyflawnwyd neu unrhyw un y mae gan y swyddog sail resymol dros amau ei fod yn euog o'r drosedd honno.

***Meini prawf rheidrwydd***

2.4 <u>Dim ond</u> os oes gan y heddwas sail resymol dros gredu fod angen arestio'r unigolyn y gellir defnyddio'r pŵer i arestio. Nodir y meini prawf ar gyfer yr hyn sy'n gyfystyr â rheidrwydd ym mharagraff 2.9. Mae'r canlynol yn benderfyniadau gweithredol seiliedig ar ddisgresiwn y swyddog sy'n arestio:

- pa gamau y gall ef neu hi eu cymryd yn y pwynt cyswllt â'r unigolyn;
- y maen neu'r meini prawf rheidrwydd (os o gwbl) sy'n berthnasol i'r unigolyn; ac
- a ddylid arestio, cyflwyno gwŷs, caniatáu mechnïaeth stryd, rhoi hysbysiad cosb sefydlog neu gymryd unrhyw gam arall sydd ar gael i'r swyddog.

2.5 Wrth gymhwyso'r meini prawf, rhaid i'r swyddog sy'n arestio fod yn fodlon fod o leiaf un o'r rhesymau sy'n cefnogi'r angen i arestio yn berthnasol.

G

2.6 Mae ymestyn y pŵer i arestio i bob trosedd yn rhoi'r gallu i gwnstabl ddefnyddio'r pŵer hwnnw i ddelio ag unrhyw sefyllfa. Fodd bynnag, golyga'r meini prawf rheidrwydd ei bod yn ofynnol i'r heddwas archwilio a chyfiawnhau'r rheswm neu'r rhesymau pam fod angen mynd ag unigolyn i orsaf yr heddlu er mwyn i swyddog y ddalfa benderfynu a ddylid cadw'r unigolyn yn y ddalfa dan ofal yr heddlu.

2.7 Nodir y meini prawf isod yn adran 24 PACE fel y'i cyfnewidiwyd gan adran 110 Deddf Troseddu Trefnedig Ddifrifol a'r Heddlu 2005. <u>Mae'r</u> meini prawf yn gynhwysfawr. Er hynny, erys yr amgylchiadau a all fodloni'r meini prawf hynny yn fater i ddisgresiwn gweithredol swyddogion unigol. Isod ceir rhai enghreifftiau o'r amgylchiadau posibl hynny.

2.8 Wrth ystyried yr amgylchiadau unigol, rhaid i'r heddwas roi ystyriaeth i sefyllfa'r dioddefwr, natur y drosedd, amgylchiadau'r sawl sydd dan amheuaeth ac anghenion y broses ymchwiliol.

2.9 Y meini prawf yw bod yr arestiad yn angenrheidiol:

(a) er mwyn gallu canfod enw'r unigolyn dan sylw (mewn achos lle nad yw'r heddwas yn gwybod, ac na all ganfod yn rhwydd, enw'r unigolyn, neu os oes ganddo sail resymol dros amau ai'r enw a roddwyd gan unigolyn fel ei enw yw ei enw cywir)

(b) yn yr un modd mewn perthynas â chyfeiriad yr unigolyn:

bod cyfeiriad yn gyfeiriad boddhaol ar gyfer cyflwyno gŵys os bydd yr unigolyn yno am gyfnod digon hir iddi fod yn bosibl cyflwyno gŵys iddo ef neu iddi hi; neu, y bydd rhyw unigolyn arall yn y cyfeiriad hwnnw a nodwyd gan yr unigolyn yn fodlon derbyn y wŷs ar ei ran.

(c) i atal yr unigolyn dan sylw:

- (i) rhag peri niwed corfforol iddo ef ei hun neu i unrhyw unigolyn arall;
- (ii) rhag dioddef niwed corfforol;
- (iii) rhag achosi colled neu niwed i eiddo;
- (iv) rhag cyflawni trosedd yn erbyn gwedduster cyhoeddus (dim ond os na ellir disgwyl yn rhesymol i aelodau'r cyhoedd osgoi'r unigolyn dan sylw wrth gyflawni eu gorchwylion arferol y mae hyn yn berthnasol); neu
- (v) rhag achosi rhwystr anghyfreithlon ar y briffordd;

(d) i ddiogelu plentyn neu unigolyn diamddiffyn arall rhag yr unigolyn dan sylw

(e) i alluogi ymchwilio'r drosedd neu ymddygiad yr unigolyn dan sylw yn brydlon ac yn effeithiol.

G

Gall hyn gynnwys achosion megis:

- (i) Os oes sail resymol dros gredu bod yr unigolyn:
  - wedi gwneud datganiadau ffug;
  - wedi gwneud datganiadau na ellir eu gwirio'n hawdd;
  - wedi cyflwyno tystiolaeth ffug;
  - y gall ddwyn neu ddinistrio tystiolaeth;
  - y gall gysylltu â rhai a amheuir ar y cyd ag ef neu gynllwynwyr;
  - y gall ddychryn neu fygwth neu gysylltu â thystion;
  - lle mae angen cael tystiolaeth drwy holi; neu
- (ii) wrth ystyried arestiad mewn perthynas â throsedd dditiadwy, fod angen i:

- fynd i mewn a chwilio unrhyw eiddo y mae unigolyn yn preswylio ynddo neu'n ei reoli
- chwilio'r unigolyn
- atal cyswllt ag eraill
- cymryd olion bysedd, olion esgidiau, samplau neu ffotograffau o'r sawl a amheuir

(iii) sicrhau cydymffurfiad â gofynion statudol profi am gyffuriau.

(f) atal unrhyw erlyniad ar gyfer y drosedd rhag cael ei rwystro wrth i'r unigolyn dan sylw ddiflannu.

Gall hyn godi os oes sail resymol dros gredu

- y bydd yr unigolyn yn methu â mynychu'r llys os na chaiff ei arestio
- y byddai mechnïaeth stryd ar ôl yr arestiad yn ddigonol i rwystro'r sawl a amheuir rhag ceisio osgoi cael ei erlyn

**3 Gwybodaeth sydd i'w rhoi wrth Arestio**

***(a) Rhybuddion – pryd y mae'n rhaid rhoi rhybudd (cymerwyd o Gôd C adran 10)***

3.1 Rhaid cyflwyno rhybudd i unigolyn y mae sail dros amau iddo gyflawni trosedd (*gweler* Nodyn 2) cyn cyflwyno unrhyw gwestiynau am y drosedd, neu gwestiynau pellach os yw'r atebion yn darparu'r sail dros yr amheuaeth, os gellir cyflwyno atebion y sawl a amheuir neu ei ddistawrwydd (h.y. methiant neu wrthodiad i ateb neu i ateb yn foddhaol) i'r llys mewn erlyniad. Nid oes rhaid rhybuddio unigolyn os yw'r cwestiynau ar gyfer unrhyw ddibenion angenrheidiol eraill e.e.:

(a) i sefydlu pwy ydyw neu berchnogaeth cerbyd yn unig;

(b) i gael gwybodaeth yn unol ag unrhyw ofyniad statudol perthnasol;

(c) i hyrwyddo cyflawni chwiliad yn briodol ac yn effeithiol, e.e. i bennu'r angen i chwilio wrth ddefnyddio pwerau stopio a chwilio neu i geisio cydweithrediad wrth gyflawni chwiliad;

(d) i geisio dilysu cofnod ysgrifenedig fel yng Nghod C *paragraff 11.13*;

(e) wrth archwilio unigolyn yn unol â Deddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 7 a'r Côd Ymarfer ar gyfer Swyddogion Archwilio a gyhoeddwyd dan y Ddeddf honno, Atodlen 14, paragraff 6.

3.2 Pryd bynnag y bydd unigolyn nad arestiwyd yn cael ei rybuddio yn gyntaf, neu ei atgoffa ei fod yn destun rhybudd, rhaid dweud wrth yr unigolyn hwnnw'r un pryd nad yw wedi'i arestio a'i fod yn rhydd i adael os yw'n dymuno.

3.3 Rhaid hysbysu unigolyn sydd wedi'i arestio, neu wedi'i arestio ymhellach, ar y pryd neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny, ei fod wedi'i arestio a'r rheswm iddo gael ei arestion, *gweler* Nodyn 3.

3.4 Rhaid rhybuddio unigolyn sydd wedi'i arestio, neu wedi'i arestio ymhellach hefyd, oni bai:

(a) nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd ei gyflwr neu ei ymddygiad ar y pryd;

(b) ei fod eisoes wedi'i rybuddio yn union cyn cael ei arestio fel ym mharagraff 3.1

***(b) Geiriad y rhybudd (Wedi'i gymryd o Gôd C adran 10)***

3.5 Dylai'r rhybudd, y mae'n rhaid ei roi wrth arestio, ddefnyddio'r geiriad canlynol:

"Nid oes raid i chi ddweud unrhyw beth. Ond efallai y bydd yn niweidio eich amddiffyniad os nad ydych yn crybwyll rhywbeth yr ydych yn dibynnu arno yn y Llys yn nes ymlaen, wrth gael eich holi. Gellir cyflwyno unrhyw beth yr ydych yn ei ddweud fel tystiolaeth."

Gweler *Nodyn 5*

3.6 Nid yw mân amrywiadau o eiriau unrhyw rybudd a roddir yn unol â'r Côd hwn yn gyfystyr â thorri'r Côd hwn, ar yr amod fod synnwyr y rhybudd perthnasol yn cael ei gadw. Gweler *Nodyn 6*

G

3.7 Os bydd unigolyn, er gwaethaf cael ei rybuddio, yn methu â chydymffurfio neu ateb cwestiynau penodol a allai effeithio ar ei driniaeth uniongyrchol, dylid hysbysu'r unigolyn o unrhyw ganlyniadau perthnasol ac nad yw'r rhybudd yn effeithio ar y canlyniadau hynny. Er enghraifft, os bydd unigolyn yn gwrthod darparu:

- ei enw a'i gyfeiriad pan gaiff ei arestio gall olygu ei fod yn agored i gael ei gadw yn y ddalfa;
- manylion a gwybodaeth yn unol â gofyniad statudol, e.e. dan Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1988, gall fod yn drosedd neu gall olygu bod yr unigolyn yn agored i gael ei arestio ymhellach.

**4 Cofnodion Arest**

**(a) Cyffredinol**

4.1 Mae'n ofynnol i'r swyddog sy'n arestio gofnodi yn ei lyfr poced neu drwy ddulliau eraill a ddefnyddir i gofnodi gwybodaeth:

- natur ac amgylchiadau'r drosedd sy'n arwain at yr arestiad
- y rheswm neu'r rhesymau pam yr oedd angen yr arestiad
- rhoi'r rhybudd
- unrhyw beth y mae'r unigolyn yn ei ddweud ar adeg yr arestiad

4.2 Dylid gwneud cofnod o'r fath ar adeg yr arestiad oni bai fod hynny'n anymarferol. Os na chedwir cofnod ar y pryd, dylid ei gwblhau cyn gynted â phosibl wedi hynny.

4.3 Ar ôl cyrraedd gorsaf yr heddlu, bydd swyddog y ddalfa yn agor y cofnod dalfa (*gweler* paragraff 1.1A ac adran 2 o Gôd C). Caiff y wybodaeth a roddir gan y swyddog arestio ynglŷn â'r amgylchiadau a'r rheswm neu'r rhesymau dros arestio eu cofnodi fel rhan o'r cofnod dalfa. Fel arall, caiff copi o'r cofnod a wnaed gan y swyddog yn unol â pharagraff 4.1 uchod ei roi ynghlwm fel rhan o'r cofnod dalfa. Gweler paragraff 2.2 a Côd C paragraffau 3.4 a 10.3.

4.4 Bydd y cofnod dalfa yn ymddwyn fel cofnod o'r arestiad. Darperir copïau o'r cofnod dalfa yn unol â pharagraffau 2.4 a 2.4A o Gôd C a mynediad i archwilio'r cofnod gwreiddiol yn unol â pharagraff 2.5 o Gôd C.

***(b) Cyfweliadau ac arestiadau***

4.5 Caiff cofnodion cyfweld, datganiadau pwysig neu ddistawrwydd eu trin yn yr un ffordd ag a nodir yn adrannau 10 ac 11 o Gôd C ac yng Nghod E (cofnodi cyfweliadau ar dâp).

G

***Nodiadau Arweiniad***

*1 Mae'r pwerau i arestio yn berthnasol i'r troseddau o dan adrannau 4(1) a 5(1) Deddf Cyfraith Droseddol 1967 yn ei gwneud yn ofynnol bod y troseddau y maent yn ymwneud â hwynt yn cynnwys dedfryd wedi'i phennu yn ôl y gyfraith neu lle gallai rhywun sy'n troseddu am y tro cyntaf sy'n 18 oed neu'n hŷn dderbyn dedfryd o bum mlynedd o garchar.*

*2 Rhaid cael rhyw sail resymol, wrthrychol dros yr amheuaeth, yn seiliedig ar ffeithiau neu wybodaeth hysbys sy'n berthnasol i'r tebygolrwydd bod y drosedd wedi'i chyflawni ac mai'r unigolyn sydd i gael ei holi a'i cyflawnodd.*

*3 Rhaid rhoi digon o wybodaeth i unigolyn sydd wedi'i arestio i'w alluogi i ddeall fod ei ryddid wedi'i ddwyn oddi arno a'r rheswm y mae wedi'i arestio, e.e. pan fydd unigolyn wedi'i arestio ar amheuaeth o gyflawni trosedd rhaid ei hysbysu o natur y drosedd a amheuir, a phryd ac ymhle y'i cyflawnwyd. Rhaid hysbysu'r sawl a amheuir hefyd o'r rheswm neu'r rhesymau pam y bernir bod angen ei arestio. Dylid osgoi iaith amwys neu dechnegol.*

4 *Nid oes unrhyw beth yn y Côd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i roi neu i ailadrodd rhybudd wrth hysbysu unigolyn nad yw wedi'i arestio y gallai gael ei erlyn am drosedd. Fodd bynnag, ni fydd llys yn gallu dod i unrhyw gasgliadau dan y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, adran 34, os na roddwyd rhybudd i'r unigolyn.*

5 *Os yw'n ymddangos nad yw unigolyn yn deall y rhybudd, dylai'r bobl sy'n ei roi ei egluro yn eu geiriau eu hunain.*

6 *Dim ond mewn perthynas â throseddau ditiadwy y gellir defnyddio'r pwerau sydd ar gael i swyddog o ganlyniad i arestiad – megis mynd i mewn i eiddo a'i chwilio, cadw unigolyn heb allu cysylltu â neb, gosod rhwystrau ffordd. Maent hefyd yn destun y gofynion awdurdodi penodol a nodwyd yn Neddf 1984 a Chod Ymarfer perthnasol PACE.*

G

## MYNEGAI

Noder: nid yw cofnodion mynegai yn cyfeirio at rifau tudalen. Yn hytrach, nodir pob Côd yn ôl ei lythyren, a ddangosir mewn print **bras**, wedi'i ddilyn gan rifau paragraff, ac/neu rifau nodiadau (mewn *llythrennau italig*), ac/neu gyfeiriadau at Atodiadau'r Côd. Os mai ychydig baragraffau yn unig o'r Atodiad sy'n berthnasol, rhoddir eu rhifau mewn cromfachau (mewn *llythrennau italig* os oes cyfeiriad at nodyn o fewn yr Atodiad).

Er enghraifft: Mae "**C** 16.1-10, *16A-D*, Atodiad E (11, *E1*)" yn cyfeirio at Côd **C**, paragraffau 16.1-10, nodiadau *16A-D*, ac Atodiad E (paragraff 11 a nodyn *E1*).


Achos sifil **F** *6D*
Adeiladau
  diffiniad **B** 2.3
  defnyddio grym i gael mynediad **D** 2.20, **E** 1.7
  diogelu **B** 6.13
  meddiannu **B** *7B*
  *gweler hefyd* Mynediad, Gwarant chwilio
Adnabod
  tapiau cyfweld **E** 4.11
  personau **C** 10.1, **D** 5.1-24, **F** 2D
  gan samplau corfforol **D** 1.4, 1.7, 2.17, 6.1-12, *6A-E*
  gan olion bysedd **D** 1.3, 1.7, 4.1-15, *4A-B*
  trwy ôl **D** 1.4, 1.7
  gan dystion **D** 1.2, 3.1-33, *3A-F*, Atodiad E (2)
  dogfennau **D** 2.10-11, 3.25-27
  ffotograffau **D** 1.5, 1.7, 3.3, *5B-E*, Atodiad B (14, 23-4), Atodiad E (6, 8-9)
Adnabod mewn grŵp **D** 3.9-10, 3.16, 3.21, Atodiad C
  dogfennau **D** 3.25-27, Atodiad C (12, 13, 31, 42-4)
  mewn carchardai **D** Atodiad B (5)
  hysbysiadau i'r sawl sydd dan amheuaeth **D** 3.17-20
  ffotograffau **D** Atodiad C (8-9, 17, 42-3), Atodiad E (6, 8-9)
Adnabod trwy fideo **D** 1.2, 3.5-6, 3.14, 3.17-21, 3.25-27, Atodiad A
  mewn carchardai **D** Atodiad B (5)
  ffotograffau **D** Atodiad A (13), Atodiad E (6, 8-9)
  carcharorion **D** Atodiad A (6), Atodiad B (4-5)
Adolygu ac ymestyn cyfnodau cadw **C** 15.1-16, *15A-F*, Atodiad E (10)
Addysgol, mannau **A** 2.27, 2.28, **B** *2C*, **C** 11.15, *11D*
Agored i niwed yn feddyliol, diffiniad **C** *1G*
Agoriadau;r corff *gweler* archwiliadau personol
Alban, warant arestio a gyhoeddwyd yn yr **C** 1.12, **D** 2.17
Albanaidd, swyddogion heddlu **C** 1.12, **D** 2.17
Ambiwlans **C** 9.5A, Atodiad E (5), Atodiad H
Amddiffyn plant, maen prawf ar gyfer arestio **G** 2.9
Amddiffyn plant a phobl fregus, meini prawf arestio **G** 2.9
Amod arest, prawf cyffuriau **C** 17.2, 17.3, 17.10, 17.11, *17F*
Amod gofyn, prawf cyffuriau **C** 17.2
Amod cyhuddo, prawf cyffuriau **C** 17.2, 17.4, 17.9, 17.11, *17F*
Amod oedran, prawf cyffuriau **C** 17.2, 17.5, *17F*
Amod rhybuddio, prawf cyffuriau **C** 17.2, *17F*
Amseru/dyddio cyfryngau recordio **F** 2.3, 2B
Anawsterau darllen **C** 1.6. **D** 2.5
  cymorth gyda dogfennau **C** 3.20, 11.11, 16.4A, **D** 2.13, *2B*
  datganiadau **C** Atodiad D (12)
Anawsterau iaith
  recordiad sain o gyfweliadau **C** 13.3, 13.7
  cynnal chwiliadau **A** 3.11
  cyfieithwyr **C** 3.12, 11.18, 12.3, 13.1, 13.10 **D** 2.14, *4C*, **F** 4.7
  cofnodion cyfweliad **C** 13.3
  datganiadau **C** 13.4
  cyfweliadau ar fideo **F** 4.7
Anhwylder meddwl, diffiniad **C** 1G
Archwiliadau personol **A** 3.7, *6*, **C** 4.1, Atodiad A (1-8, 11(f), *A1-5*), **D** 5.11
  *gweler hefyd* Diosg dillad
  oedolion priodol yn **C** Atodiad A (5), Atodiad E (12)
  gan ymarferwyr meddygol a nyrsys **C** Atodiad A (3, 3A, 4, 6, 8, *A1, A3*)
  gan swyddogion yr heddlu **C** Atodiad A (3, 6, 8, *A4-5*)
Archwilio cofnodion atal a chwilio gan y cyhoedd **A** 5.4, *19*
Archwilio personau

*gweler hefyd* Archwiliadau personol; Archwiliadau amhersonol, Diosg dillad; Atal a chwilio; Noeth chwiliadau
rhoi rhybudd cyn holi **C** 10.1, **G** 3.1
cynnal **A** 3.1-11, *6*, **C** 10.1
swyddogion cefnogaeth cymunedol **A** Atodiad C
cyffuriau a reolir **A** 2.6, 2.27, 2.28, 3.3 Atodiad C, **C** Atodiad A (2(b), 2A, 2B)
meini prawf arestio **G** 2.9
offer peryglus **A** 2.1, 2.12-14, 2.27, 2.28, **B** *2C*
mynediad i faes chwaraeon **A** 1.5
canfyddwyd yn ystod chwilio adeiladau **A** 2.1, 2.27-29, **B** 2.4
canfyddwyd mewn adeiladau ysgol **B** *2C*
Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 **B** *2C*
arfau peryglus **A** 2.1, 2.12-14, 2.27-8, *10-13*, **B** *2C*
grym rhesymol **A** 3.2, **D** 5.9
Deddf Terfysgaeth 2000 **A** 2.19-24, 3.5, *7-8, 12, 14, 17*
sefydlu pwy ydynt **D** 1.6, 5.1-11, 5.16-21
Archwilio'r sawl sy'n cael eu cadw **C** 4.1, *4A*
Arfau *gweler* Arfau peryglus
Arfau Peryglus
*gweler hefyd* Offer peryglus; Eitemau a waharddwyd
amheuaeth resymol **A** 2.6
archwilio personau **A** 2.1, 2.12-14, 2.27-8, *10-13*, **B** *2C*
chwilio adeiladau **B** *2B(c)*
Arestio *gweler hefyd* Cadw
mynediad heb warant **B** 4.1
sail ar gyfer **C** 10.3, 10B, **G** 2.1, 2.3, 2, 3
ar warant a gyhoeddwyd yn yr Alban **C** 1.12, **D** 2.17
hysbysiad o **C** 3.15, 7.2, 7.4, Atodiad B, Atodiad E (3), Atodiad F, **G** 2.2
Ar gael, diffiniad **D** 3.4
Arnodi, gwarant chwilio **B** 8.2
Asesiadau, camddefnydd o gyffuriau **C** 17.17-22
Asesiadau cychwynnol, camddefnyddio cyffuriau **C** 17.17-22
Asesiadau risg **C** 3.6-10, *3E*, 9.3
cyflwr i'w cyfweld **C** Atodiad G
cyngor meddygol **C** 9.13
Atal a chwilio
*gweler hefyd* Archwilio personau
cynnal **A** 3.1-11
pwerau **A** 2.1-29, *10-13*, Atodiad A
swyddogion cefnogaeth cymunedol A Atodiad C
cadw personau **A** 1.2, 3.3, *6*, **C** 1.12
monitro'r defnydd o **A** 5.1-4, *17, 19*
gwahaniaethu ar sail hil **A** 1.1, 2.25
egwyddorion **A** 1.1-5
Atal anafiadau, meini prawf arestio **G** 2.9
Awdurdodau lleol,
caniatâd pobl ifanc i weithdrefnau adnabod **D** *2A*
cyfrifoldeb am bobl ifanc **C** 3.13, *3C*, 16.7, 16.10, *16D, 17G*

**B**
Barnwyr cylchdaith **B** *2A(b)*, **B** 3.4(a), 3.4, 3.6, 8.3
Braint gyfreithiol
oedolion priodol **C** 1E
eitemau sy'n destun **B** 3.6, *3B*, 7.2, 7.9B. 7.10
Blancedi, mewn celloedd **C** 8.3
Blew cedor, samplau *gweler* Samplau personol
Bwyd *gweler* Prydau bwyd

**C**
Cadw **B** 4.1
*gweler hefyd* Arestio, Celloedd; Sawl sy'n cael eu cadw; Hysbysiad o arestio
ar ôl cyhuddo **C** *15F*, 16.7, *16C*
oedolion priodol yn bresennol **C** 3.17
awdurdodi **C** 1.9A, 1.12, *15B(f)*, 16.7, *16C*, 17.7, Atodiad E (3)
Deddf Mechnïaeth 1976 **C** *15B(b)*
amodau **C** 8.1-11, *8A-B*
Deddf Trosedd (Dedfrydau) 1997 **C** *15B(c)*
hyd cyfnod **A** 1.2, 3.3, *5*, **C** 1.1, 14.1, 14A, 16AB, 17.10
dinasyddion tramor **C** Atodiad F
sail dros **C** 3.4, 3.23, 3.25
seiliau rhesymol dros amheuaeth **A** 2.9-11, *3*
Deddfau Mewnfudo **C** 1.12
Deddf Carcharu (Darpariaethau Dros Dro) 1980 **C** *15B(d)*
Deddf Llysoedd Ynadon 1980 **C** *15B*
uchafswm cyfnod **C** 15.2A, 16AB
pobl nad ydynt wedi eu harestio **C** 3.21-22
adolygu ac ymestyn **C** 15.1-16, *15A-F*, Atodiad E (10)
atal a chwilio **A** 1.2, 3.3, *6*
gwarantau **C** 15.8, 15.16

Cadw eitemau
dillad **C** 4.2
dogfennau **B** 7.5
olion bysedd **D** 4.7, Atodiad F
olion esgidiau **D** Atodiad F (4 F1(c)
ffotograffau a delweddau **D** 5.6, 5.12, 5.16, 5.22, *5B*, Atodiad A (15-16), Atodiad E (10)
eiddo **B** 7.14-16, *7G, 7H*
samplau **D** 6.8, Atodiad F
Cadw heb gyhuddo **C** 12.5, 15.2, 15.5
Cadw heb warant **C** 1.12, **D** 4.12
Cadw mewn carchar **C** 4.1
Cadw mewnfudwyr **B** 8A, **D** 4.10-15, Atodiad F (5)
*gweler hefyd* Ceiswyr lloches; Dinasyddion tramor camddefnyddio cyffuriau, asesiadau cychwynnol **C** 17.17-22
*gweler hefyd* profi am gyffuriau
Camerâu *gweler* Offer recordio gweledol
Camerâu fideo, yn y man cadw **C** 3.11
Caniatad ysgrifenedig
olion esgidiau **D** 4.16
archwiliadau personol **C** Atodiad A (2(b), 7)
sgan uwchsain a phelydr X **C** Atodiad K (1)
Carchardai, adnabod mewn grŵp neu adnabod trwy fideo mewn **D** Atodiad B (5)
Carcharorion a gedwir yng nghelloedd yr heddlu **C** 1.12, 15B(d)
Carcharorion a gollfarnwyd a gedwir yng nghelloedd yr heddlu **C** 1.12, 15B(d)
Carcharorion, dulliau adnabod **D** Atodiad A (6), Atodiad B (4-5, 27), Atodiad C (40-1) *gweler hefyd* Carcharorion a gollfarnwyd
Celloedd **C** 8.1-3, 8.8, 8.10, *8A, 9B*
Ceiswyr lloches, hysbysiad o arestio **C** 7.4
*gweler hefyd* Cadw mewnfudwyr
Cerbydau
sefydlu perchnogaeth **C** 10.1
cofnodi cyfarfyddiadau **A** 4.14
chwiliadau **A** 3.8-11, 4.3, 4.5, 4.8-10, *16*
meddiannu **B** *7B*
pwerau atal a chwilio **A** 2.19
Cerbydau gwag **A** 4.8-10
Chwilio adeiladau
*gweler hefyd* Mynediad
camau gweithredu yn dilyn **B** 8.1-3
awdurdodi **B** 2.7
samplau anadl **B** 2B(a)
rhoi rhybudd yn ystod **B** 6.12
iawndal **B** 6.7, *6A*
cynnal **B** 1.4, 6.9-12, 6.15, *6B*, 7.7
cyffuriau a reolir **B** *2C*
copïo neu ddelweddu deunyddiau a ganfyddir **B** 7.5, 7.11, 7.15, 7.17, *7H*
difrod a achosir yn ystod **B** 8.1
meini prawf arestio **G** 2.9
offer peryglus ac arfau peryglus **B 2B(c)**
datrys yr ymchwiliad trwy ddogfennau a ganfyddir **B** 7.8A
Deddf Ffrwydron 1875 **B** *2B(e)*
Deddf Iawnderau Dynol 1998 **B** 1.3
swyddogion mewnfudo **B** *2D*
gwybodaeth a roddir cyn chwilio **B** 6.5, 6.7-8
gwybodaeth a roddir cyn gofyn am ganiatâd **B** 5.2
gwybodaeth a ganfyddir ar ffurf electronig **B** 7.6
cyfweliadau yn ystod **B** 6.12A
ar sawl achlysur **B** 6.3A
chwilio adeiladau lle maent yn byw neu sydd dan eu rheolaeth **B** 4.3
Deddf Llysoedd Bach (Iwerddon) 1851 **B** *2B(f)*
Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 1984 **B** 6.14-15
holi yn ystod **B** 6.12
grym rhesymol **B** 1.4, 6.6, 6.10, *6C*
cadw deunyddiau a ganfyddir **B** *7G*
hawl i breifatrwydd **B** 1.3, 6.10
Deddf Traffig y Ffyrdd 1988 **B** *2B(a)*
adeiladau ysgol **B** *2C*
diogelu adeiladau ar ôl **B** 6.13
meddiannu eiddo **B** *3C*
Deddf (Proses) Awdurdod Diannod 1881 **B** *2B(f)*
Deddf Terfysgaeth 2000 **B** *2B(d)*, 6.14-15
amser **B** 6.1-3
Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd, 1992 **B** *2B(b)*
tystion **B** 6.11, 8.1
Chwilio cerbydau *gweler* Cerbydau
Chwilio cofrestrau **B** 9.1, *9A*
Chwilio heb warant *gweler* Mynediad, heb warant
Chwiliadau dyfaliadol **D** *4B*, 6.8, 6.12, *6E*, Atodiad F
Clefydau **C** 9.7
*gweler hefyd* Pobl sâl
Codau Ymarfer, **C** 10.1, *11B*, **D** 2.22

defnydd **C** 1.10
ar gael **A** (Cyff.), **C** 1.2, **F** 1.1
gweithrediad **A** 4.11
gofynion cofnodi **A** 2.24A, **C** 11.7
hawl i weld **C** 3.1, *3D*, 17.4
Cofnodi cyfarfyddiadau **A** (Cyff.), 4.11-4.20, *15-20*
amgylchiadau eithriadol **A** 4.1, 4.12
Cofnodion *gweler* Dogfennau
Cofnodion cadw **C** 2.1-7, *2A*, 3.2, 3.23, 6.14, **G** 4.3
mynediad gan oedolion priodol **C** 2.4, *2.4A*, 2.5
mynediad gan gyfreithwyr/cynrychiolwyr cyfreithiol **C** 2.4, 2.4A, 2.5
cywirdeb **C** 2.3
mechnïaeth, pobl yn ateb **C** 3.25
gohiriadau **C** 1.1A, *1H*, Atodiad B (4, 6, 11)
sylwadau'r sawl sy'n cael eu cadw **C** 3.4
sawl sy'n cael eu cadw, cyflwr i'w cyfweld **C** Atodiad G
cyflwr y sawl sy'n cael eu cadw ar gyfer cyfweld **C** Atodiad **G** (7)
eiddo'r sawl sy'n cael eu cadw **C** *4B, 4C*
llofnod sawl sy'n cael eu cadw **C** 2.7, 3.2, 3.5, 3.20, Atodiad B (4, 13)
adnabod personau **D** 2.11
cyfweliadau **C** 6.14, 6.15, 12.10-11
triniaeth a chyngor meddygol **C** 9.9, 9.15-17, *9C, 9G-H*
hawl i lythyrau a galwadau ffôn **C** 5.8
peidio datgelu pwy yw'r swyddog **F** 2.5
adolygu'r cadw **C** 15.5, *15.9C*, 15.10
atgoffa o hawl i gael cyngor cyfreithiol **C** 6.5, 6.14, 6.15, 6.16-17, 15.4, 15.12, **D** 6.3
asesiad cychwynnol o gamddefnyddio cyffuriau **C** 17.20
asesiadau risg **C** 3.8
archwilio'r sawl sy'n cael eu cadw **C** *4A* (Atodiad A (12)
y rhai sydd wedi arwyddo **C** 2.6, 2.7, 3.2, 3.5
archwiliadau personol **C** Atodiad A (7)
cymryd samplau **C** 17.8-10
rheswm dros arestio **C** 3.4
sgan uwchsain a phelydr X **C** Atodiad K (5)
Cofnodion cyfweliad **C** 11.7-14, *11E*, 12.10-12
ar ôl cyhuddo **C** 16.9
rhoi rhybudd **C** 10.13
cwynion **C** 12.9
yn ystod cyhuddo **C** 16.4, 16.4A
cyfieithwyr **C** 13.3, 13.4, 13.7, 13.9, 13.11
cyfweld cyn cael cyngor cyfreithiol **C** 6.6
pobl ifanc **C** 11.15, 11.20, 16.4A
cyngor cyfreithiol **C** 6.5, 6.16-17, 11.2
personau sy'n dioddef anhwylder meddwl/agored i niwed meddyliol C 11.15, 11.20, 16.4A
darllen ac arwyddo **C** 11.11, 11.12, 11.13, 11.14, 11E, 13.3, 16.4A, Atodiad E (8)
Cofnodion ysgrifenedig **C** 10.1, 11.7-14
Cofrestr Genedlaethol Cyfieithwyr Gwasanaethau Cyhoeddus (NRPSI) **C** 13.1
Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol **C** 6.11, 6.12
Copïau
Recordiadau sain **E** 4.4(e), 4.19
cofnodion cadw **C** 2.4A, **G** 4.3-4
diffiniad **D** 2.16
olion bysedd a samplau **D** Atodiad F (3(a), 5(a))
ffotograffau a delweddau **D** 5.15, 5.22-24, Atodiad B (23), Atodiad C (42-3)
cofnodion cyfarfyddaiadau **A** 4.19
meddiannu eiddo **B** *7E*
cofnodion atal a chwilio **A** 4.10A, 21
Copïau gweithredol
recordiad sain **E** 2.2, 2A, 6A
recordiad ar fideo **F** 2.4
Copïo, deunydd a ganfyddwyd yn ystod chwilio adeiladau **B** 7.5, 7.11, 7.15, 7.17, *7H*
Credoau crefyddol **C** 8.6
Creithiau *gweler* Marciau adnabod
Cuddio troseddau, pŵer i arestio am **G** 1
Cuddwisgoedd **A** 2.15, 3.5, *4*
*gweler hefyd* Gorchudd wyneb
Cwynion **C** 9.2, 9.15, 12.9, **E** 4.9, *4E-F*, **F** 4.9, *4B, 6D*
Cyfarfyddiadau cyhoeddus *gweler* Cofnodi cyfarfyddiadau
Cyfarfyddiadau nad ydynt o dan bwerau statudol **A** 4, 11-20
Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, Arweiniad **C** 16.1, 16.1A, *16AB*
Cyfeiriadau, ar gyfer cyflwyno gwŷs **G** 2.9
Cyfieithiadau **C** *3B*, 6.3, *6H*, 13.4
*gweler hefyd* Cyfieithwyr
Cyfieithwyr **C** 13.1-11

*gweler hefyd* Cyfieithiadau
recordiad sain o gyfweliadau **E** *4C*
cynnal chwiliadau **A** 3.11
cyfwynebiadau **D** Atodiad D (4)
dyletswyddau swyddogion y ddalfa **C** 3.5, 3.12, 13.10
pobl fyddar **C** 3.12, 11.18, 12.3, 13.1, 13.5-7, **D** 2.14, **F** 4.7
pennu angen ar gyfer **C** 3.5
tystiolaeth o **C** 13.3
adnabod mewn grŵp **D** Atodiad C (14)
rhesi adnabod **D** Atodiad B (8)
anawsterau iaith **C** 3.12, 11.18, 12.3, 13.1, **D** 2.14, **E** *4C*
llythyrau a galwadau ffôn **C** *5A*
anawsterau siarad **D** 2.14
Cyfleusterau ymolchi, mynediad at **C** *3A*, 8.4
Cyflwr i'w cyfweld **C** 12.3, Atodiad G, **F** 3B
Cyfnodau gorffwys **C** 12.2, *12B*, 15.7, *15C*
Cyfreithwyr, **C** *1F*, 2.4, 3.1, 3.19, 3.20, 15.3, **F** 4.5
*gweler hefyd* Cyngor cyfreithiol, Cynrychiolwyr cyfreithiol
mewn cyfweliadau **C** 6.8-11
dewis **C** *6B*
cyfathrebu gyda **C** 3.21, 5.7, 6.1, 6.5
ymddygiad 6.9-6.11
cyfrinachedd **C** *6J,* 17.4 Atodiad B (3), Atodiad E *(E1)*
gwrthdaro mewn buddiannau **C** 6G
diffiniadau **C** 6.12, **D** 2.6, **E** 1.5
oedi mewn cael mynediad at **C** 6.6, *6A*, Atodiad B
gwrthod i'r sawl sy'n cael eu cadw i ymgynghori gyda **C** 6.6, Atodiad C (1(a), *C2*)
dyletswydd **C** 6.1, 6.6, 6.11, *6B*, Atodiad C (1(a))
cyfieithwyr **C** 13.9
pobl ifanc **C** 6.5A
symud **C** 6.10-11, *6E*
cynrychiolwyr **C** 12A-6.14, *6F*
Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, gwirio C 3.6
Cyfrifiaduron
*gweler hefyd* Ffurfiau gwybodaeth electronig
cofnodion cadw **C** 2.6
dinistrio data **D** 2.16, Atodiad F (3(c))
Cyfrwng recordio dilys **F** 2.3, *2B*, 4.11, *4A*
torri **F** *4F*
newid **F** 4.11
tynnu **F** 4.12, 4.16
Cyfryngau recordio
diffiniad **E** 1.6
adnabod **E** 4.11
toriad mewn cyfweliad **E** 4.12A-13
cychwyn cyfweliad **E** 4.3
tynnu o'r recordydd **E** 4.11, 4.12A, 4.16
diogelwch **E** 5.2, 6.1-4, *6A-C*
Cyfweliadau **C** 11.1A-20, *11A-E*, 12.1-14, *12A-B*, 15.6, **F** 1.5
*gweler hefyd* Cofnodion cyfweliad; Holi; Datganiadau; Recordiad fideo, Recordiad sain,
dillad digonol, sawl sy'n cael eu cadw C *3A,* 8.5
ar ôl cyhuddo **C** 16.5, 16.9
oedolion priodol mewn **C** 11.15-18, *11C*, 12.2, 12.3, 13.6, Atodiad E (8-9)
mewn gorsaf heddlu **C** 12.1-12.14, *12AB*
cyn cael cyngor cyfreithiol **C** 3.4, 6.6-7, *6A, 6I*
rhoi rhybudd **C** 10.13, 11.1A, 11.4, 12.5, 16.5
caniatâd i gael **C** 12.5
pobl fyddar **C** 11.18, 12.3, 13.4-7, **E** 4.6, 4.7, *4B-C*
oedi **C** 11.1, 11.2, 11.16
dogfennau **C** 11.20, **E** 3.3-4, 4.6, 4.8, *4C*, 5.1, *5A*
cyflwr i'w cyfweld **C** Atodiad G, **F** *3B*
mewn ysbyty **C** 14.2, *14A*
wrth drosglwyddo **C** 14.1
pobl ifanc **C** 11.15-18, *11C*, 12.3, 13.6
cynrychiolwyr cyfreithiol mewn **C** 6.6-14, *6D*, 12.2
triniaeth a chyngor meddygol **C** 9.13, 14.2, *14A*
personau sy'n dioddef anhwylder meddwl/agored i niwed meddyliol **C** 11 15-18, *11C*, 12.3, 16.4A, Atodiad E (8-9, *E2*)
personau nad ydynt wedi eu harestio C *10F*, 12.2
holi gan swyddogion y ddalfa **C** 3.4
gwrthod ateb cwestiynau **C** 10.9-11
atgoffa o'r hawl i gael cyngor cyfreithiol **C** 11.2, 16.4, 16.5
chwilio adeiladau **B** 6.12A
stopio **C** 6.7, 6.10, 11.1, 11.6, 11.18
Cyfwynebiadau **D** 3.23, 3.25-27, Atodiad D

Cyfyngiadau **C** 8.2, 8.11, Atodiad E (13)
Cyffuriau *gweler* Cyffuriau Dosbarth A; Cyffuriau a reolir; Profi am gyffuriau; Meddyginiaeth
Cyffuriau a reolir **C** 9.5B
*gweler hefyd* Cyffuriau Dosbarth A; Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971
gweinyddu **C** 9.10
pobl a gedwir dan ddylanwad **C** 9.3, 9CA, 15B(g)
archwilio personau **A** 2.6, 2.27, 2.28, 3.3, Atodiad C,
**C** Atodiad A (2(b), 2A, 2B)
chwilio adeiladau **B** *2C*
Cyffuriau Dosbarth **A C** 17.1-14, *17A-G*, Atodiad A (2(a)), Atodiad I, Atodiad J
Cyhuddo'r sawl sy'n cael eu cadw **C** 16.1-10, *16A-D*, Atodiad E (11)
Cyhoeddusrwydd **D** 3.28-29, Atodiad A (8, 14), Atodiad B (3, 21), Atodiad C (11-12), Atodiad D (2)
Cyngor dietegol **C** 8.6
Cyngor cyfreithiol
rôl yr oedolyn priodol **C** 3.19, *1E*, Atodiad E (4, *E1*)
newid meddwl ar ran y sawl sy'n cael eu cadw **C** 6.6, *6I*, Atodiad C (1(a))
cyfrinachedd **C** *6J*, 7.3
gohirio, mynediad at **C** 6.5, 6.6, *6A*, Atodiad B, Atodiad C (1(a))
cyfweliadau cyn cael **C** 6.6-7, *6A, 6I*, **F** 4.5
personau sy'n gwrthod dulliau adnabod D 3.15
ceisiadau am **C** 3.19, 6.5, 6.16-17, Atodiad C (1(a), C1)
hawl i gael **C** *1I*, 3.1, 3.2, 3.5, 6.1-17, *6A-K*, 11.2, 12.14, 15.4, 17.6, **D** 3.17
dinasyddion y Gymanwlad a dinasyddion tramor **C** 7.3
wrth gyhuddo **C** 16.4
cyfieithwyr **C** 13.9
personau nad ydynt yn cael eu harestio **C** *1A*
ymwrthod â hawl i gael **C** *1I*, 6.5, 6.15
Deddf Terfysgaeth 2000 **C** *6J*, Atodiad B (8-12)
Cyngor Hyrwyddo Cyfathrebu gyda Phobl Fyddar **C** 13.1
Cyngor ysgrifenedig gan gyfreithiwr **C** 6.1
Cyllyll *gweler* Arfau peryglus
Cymdeithas y Gyfraith **C** 6.11, 6F
Cymorth gyda dogfennau **C** 3.20, 16.4A, D 2.13, *2B*
oedolion priodol **C** 3.20, **D** 2.13
dyletswyddau swyddogion y ddalfa **C** 3.5, 3.20, **D** 2.13
pobl anabl **C** 3.20, **D** 2.13, *2B*
Cymraeg, yr iaith **C** *3B*, 6.3, *6H*
Cymryd olion bysedd **C** 1.12, **D** 4.1-11, Atodiad F (*F1*)
Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 **D** 2.17
meini prawf ar gyfer arestio **G** 2.9
cadw heb warant ar gyfer **D** 4.12
mewnfudwyr **D** 4.10-15, Atodiad F (5)
Deddfau Mewnfudo **D** 2.17, 4.11
darparu gwybodaeth **D** 4.7, 4.13
grym rhesymol **D** 4.6, 4.14
Deddf Terfysgaeth 2000 **D** 2.17, *2C*
Cymryd olion bysedd electronig **D** 4.5
Cynllun Cyfreithiwr ar Ddyletswydd **C** 6.6
Cynorthwyo troseddwyr, pŵer i arestio am **G** 1
Cynrychiolwyr cyfreithiol
*gweler hefyd* Cyngor cyfreithiol; Cynrychiolwyr cyfreithiol heb eu hachredu
oedolion priodol **C** *1E, 1F*
dewis **C** *6B*
gwrthdaro buddiannau **C** *6G*
cyfwynebiadau **D** Atodiad D (4, 6)
cofnodion cadw **C** 2.4, 2.4A, 2.5, 6.15
gwahardd o gyfweliadau **C** 6.9-14, *6D-E*
adnabod mewn grŵp **D** Atodiad C (3, 13-14, 35)
adnabod gan dystion **D** 3.1, 3.17, Atodiad A (8), Atodiad B (3), Atodiad C (11), Atodiad D (2)
rhesi adnabod **D** Atodiad B (8, 10,12, 20, 23)
dulliau adnabod **D** 3.15
cyfweliadau **C** 6.8-14, *6D*, 12.2
ffotograffau **D** 3.29, Atodiad A (8), Atodiad B (3, 23), Atodiad C (11-12, 42-3)
adolygu ac ymestyn cyfnodau cadw C 15.3, 15.11
rôl **C** *6D*
gweld deunydd a ddarlledwyd neu a gyhoeddwyd **D** 3.29, Atodiad A (8), Atodiad B (3), Atodiad C (11-12)
adnabod trwy fideo **D** Atodiad A (7-9)
recordiadau fideo **D** Atodiad B (23), Atodiad C (42-3)
Cynrychiolwyr cyfreithiol ar gyfnod prawf **C** 6. 12A-14, *6F*

Cynrychiolwyr cyfreithiol heb eu hachredu
**C** 6.12A-14, *6F*
Cyrff gwirfoddol **C** 3.13, *3C, 5C*, **D** *2A, 17G*
Cytundebau dwyochrog, hysbysiad o arestio
**C** 7.2, Atodiad F

**D**
Darlledu *gweler* Cyhoeddusrwydd
Datganiadau
*gweler hefyd* Datganiadau ysgrifenedig
oedolion priodol **C** 1E
recordiad sain **C** *12A*, **E** 3.5
cadarnhad mewn cyfweliadau **C** 11.4, *11A, 11E*
meini prawf arestio **G** 2.9
pobl ifanc a phersonau sy'n dioddef anhwylder meddwl/agored i niwed meddyliol **C** 11.15, 16.4A
nad ydynt mewn Saesneg **C** 13.4
personau gydag anawsterau darllen C Atodiad D (12)
darllen ac arwyddo **C** 13.4, Atodiad D (4, 7, 11-12), Atodiad E (8)
arwyddocaol **C** 11.4, 11.4A, *11A, 11E*, **E** 4.6, **F** 4.6
o dan rybudd **C** 12.13-14, *12A*
recordio gweledol **F** 3.5, *3D*, 4.18
Datganiadau arwyddocaol *gweler* Datganiadau
Datganiadau ysgrifenedig **C** 11.15, 12.13-14, *12A*, 16.4, Atodiad C (1(B)), Atodiad D, Atodiad E (8)
*gweler hefyd* Datganiadau
Datrys ymchwiliad **B** 7.8A
Deddf (Proses) Awdurdod Diannod 1881 **B** *2B(f)*
Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 **A** 2.27, 2.28-29, *6*, **B** *2A(a), 2C*, **C** 17.13, *17E*
Deddf Carcharu (Darpariaethau Dros Dro) 1980 **C** 1.12, *15B(d)*
Deddf Crwydradaeth 1824 **C** *17E*, **D** *4A*
Deddf Cyfiawnder Troseddol (Cydweithrediad Rhyngwladol) 1990 **B** 2.6
Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988
gohirio wrth hysbysu rhywun ei fod yn cael ei arestio neu roi'r cyfle iddo gael cyngor cyfreithiol **C** Atodiad B (2, 9)
cyfweliadau **C** 11.6
archwilio personau **A** 2.27-29
chwilio adeiladau **B** *2B(c), 2C*
Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994
casgliadau niwediol o ddistawrwydd C 11.4A, Atodiad C (1), **F** 4.2
awdurdodi archwiliadau **A** 2.13-14, *10-13, 17*
rhoi rhybudd **C** 10.10-11, *10F-G*
dulliau adnabod **D** 2.17
personau a arestiwyd ar warantau a gyhoeddwyd yn yr Alban **C** 1.12
torseddau cofnodadwy **D** *4A*
diosg dillad **A** 3.5
tynnu gorchuddion wyneb **A** 2.15-18
pwerau atal a chwilio **A** 2.1, 2.12-14
Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 **C** *16AB, 17F*, Atodiad J
Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000 **C** 17.15
Deddf Cyfiawnder yr Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999 **C** Atodiad C (1), **D** 2AB
Deddf Cyfraith Droseddol 1967 **G** 1
Deddf Cyffuriau 2005 **C** 17.17
Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiedig) 2000 **A** 1.1
Deddf Difrod Troseddol 1971 **A** 2.1
Deddf Delio mewn Cyffuriau 1994 **C** 11.6
Deddf Diogelwch Awyrennau 1982 **A** (Cyff.)
Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 **A** 4.20, **B** 2.11, **C** 1.13, **D** 5.12
Deddf Dwyn 1968 **B** *2A(a)*
Deddf Elw Troseddau 2002 **C** Atodiad B (2, 9)
Deddf Ffrwydron 1875 **B** *2B(e)*
Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 **B** *7G*, **C** *11B*
Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2001
archwilio neu gopïo dogfennau **B** 7.5
deunydd sy'n rhan annatod **B** *7H*
tynnu ffotograff o'r rhai a gedwir **D** 5.12
cadw eiddo **B** *7H*
pwerau meddiannu a didoli **B** 7.7-13
pwerau meddiannu **B** 3.6, 7.1, 7.2-3
Deddf Iawnderau Dynol 1998 **B** 1.3, **G** 1.2
Deddf Iechyd Meddwl 1983 **C** 1.10, *1G,* 3.16, 4.1, 9.6, *9D*, Atodiad E (5, 6)
Deddf Llysoedd Bach (Iwerddon) 1851 **B** *2B(f)*
Deddf Llysoedd Ynadon 1980 **C** 15B
Deddf Mechnïaeth 1976 **C** *15B(b)*
Deddf Mewnfudo 1971 **B** *2D*, **D** 2.17, 4.11
Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 **B** *2D*, C 1.12, **D** 2.17, 4.11-12
Deddf Plant 1989 **C** 1.7, 3.13
Deddf Terfysgaeth 2000 **C** 1.11, 1.12
mynediad at gyngor cyfreithiol **C** *6J*, Atodiad B (8-12)

recordiad sain o gyfweliadau **E** 3.2
samplau corfforol **D** 2.17, *2C, 6C*
rhoi rhybudd **G** 3.1
amodau cadw **C** *8A*
dulliau adnabod **D** 2.17, *2C*
llythyrau a galwadau ffôn **C** 5.6
hysbysiad o arestio **C** Atodiad B (8-12)
ffotograffau **D** 2.17, *2C*
holi'r sawl sy'n cael eu cadw **C** 10.1
seiliau rhesymol dros amheuaeth **A** 2.2, 2.3, 2.8, 2.24
adolygu ac ymestyn cyfnodau cadw **C** 15.8, *15A, 15F*
gwarant chwilio **B** *2A,* 3.4, 3.7
archwilio personau **A** 2.19-24A, 3.5, *7-8, 12, 14, 17*
chwilio adeiladau **B** *2B(d)*, 6.14-15
pwerau atal a chwilio **A** (Cyff.), 2.1, 2.8, 2.19-26
recordio cyfweliadau ar fideo **F** 2.5(a), 3.2, *3E*
Deddf Traffig y Ffyrdd 1988 **A** 4.14, **B** *2B(a*), C 11.1A, **D** 2.17, *4A*, **G** *3.7*
Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 B *2B(b)*, **C** 11.1A, **D** 2.17
Deddf Trosedd (Dedfrydau) 1997 **C** *15B(c)*
Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 **D** 4.3
Deddf Troseddau Stryd 1959 **D** *4A*
Deddf Troseddwyr Traffig y Ffyrdd 1988 **C** 16B, D 2.17
Deddf Troseddu Trefnedig Ddifrifol a'r Heddlu 2005 **G** 1.4, 2.7
Deddf Ymgeisiadau Troseddol 1981 **C** *17E*
Deddf yr Heddlu (Eiddo) 1897 **B** *7A*
Deddfau Mewnfudo
cadw a awdurdodwyd o dan **C** 1.12
cymryd olion bysedd **C** 1.12, **D** 2.17, 4.11
chwilio adeiladau **B** 2D
Delweddau
*gweler hefyd* Ffilmiau; Ffotograffau; Adnabod trwy fideo; Recordiadau fideo
copïau o **D** 3.30-33, 5.15, 5.22-24, Atodiad B (23), Atodiad C (42-3)
eu dinistrio **D** 3.30-33, 5.22-24, Atodiad A (15-16), Atodiad E (10)
adnabod mewn grŵp **D** Atodiad C (42-3)
rhesi adnabod **D** Atodiad B (23)
dulliau adnabod **D** 3.17, 3.20-21, 3.24, 3D
eiddo a feddiannwyd **B** 7E
eu dangos i dystion **D** 3.3
Delweddau 'e-fit' **D** 3.3
Delweddau llonydd *gweler* Ffotograffau
Delweddau symudol **D** 2.16, 3.5, 3.17
Delweddu **B** 7.5, 7.11, 7.15, 7H
Deunydd a waherddir **B** 3.6, *3B*, 7.9B, 7.10
Deunydd cysylltiedig *gweler* Deunydd sy'n rhan annatod
Deunydd gweithdrefn arbennig **B** 3.6, *3B*, 7.9B, 7.10
Deunydd sy'n rhan annatod **C** *7H*
Deunyddiau ysgrifennu **C** 5.6
*gweler hefyd* Llythyrau
Dinasyddion Gweriniaeth Iwerddon **C** 3.3, 7.1, 7.3-5, *7A*
Diosg dillad **C** 8.5
*gweler hefyd* Gorchuddion wyneb; Penwisgoedd; Archwiliadau personol; Noeth chwiliadau
yn ystod chwiliadau **A** 3.5-7, *4, 6-8,* **C** 4.1, D 5.10
wrth gymryd samplau **D** 6.9
Distawrwydd
casgliadau niweidiol o **C** 6.6, 10.1, 10.5, 10.6, 10.9-11, *10C,* 11.4A, 16.1A, Atodiad B (D) Atodiad C, **F** 4.1
esbonio i;r sawl sy'n cael eu cadw C Atodiad C (3, *C2*)
arwyddocaol **C** 11.4, 11.4A, *11A*, **E** 4.6, **F** 4.6
Difrod troseddol **A** 2.1, Atodiad A (6)
Dillad
*gweler hefyd* Eitemau arbennig o ddillad; Diosg dillad;
Dillad yn lle dillad sy'n cael eu cadw
adnabod mewn grŵp **D** Atodiad C (40-1)
rhesi adnabod **D** Atodiad B (5)
cyfweliadau **C** 8.5
eu cadw gan y sawl sy'n cael eu cadw **C** 3A, 4.2
adnabod trwy fideo **D** Atodiad A (6)
Dillad gwely, mewn celloedd **C** 8.3, 8A
Dillad yn lle dillad sy'n cael eu cadw **C** 8.5, 8.9
Dinasyddion y Gymanwlad **C** 3.3, *3A*, 7.1-5, *7A*, Atodiad B (*B2*), **D** Atodiad F (5(a))
Dinasyddion Tramor **C** 3.3, 7.1-5, *7A*, Atodiad B (*B2*), Atodiad F
*gweler hefyd* Cadw mewnfudwyr
Diodydd **C** 8.6, *8A*
Diosg dillad **C** 8.5
*gweler hefyd* Gorchudd wyneb;

Penwisgoedd; Archwiliadau personol; Noeth-chwiliadau
yn ystod archwiliadau **A** 3.5-7.4, 6-8, C 4.1, Atodiad A (9-12), **D** 5.10
wrth gymryd samplau **D** 6.9
Dinistrio
samplau corfforol **D** 6.10, Atodiad F
data cyfrifiadur **D** 2.16, Atodiad F (3(c))
dogfennau **D** 6.10
olion bysedd **D** 4.7, 4.13, Atodiad F
ffotograffau a delweddau **D** 5.22-24, Atodiad A (15-16), Atodiad E (10)
olion esgidiau **D** 4.19, Atodiad F (1-3)
Dogfennau
*gweler hefyd* Recordiad sain; Cymorth gyda dogfennau; Cofnodion cadw; Delweddau; Cofnodion cyfweliad; Hysbysiad o Bwerau a Hawliau; Hysbysiadau i'r sawl sydd dan amheuaeth; Cofrestrau chwilio
arestio **G** 4.1-5
mechniaeth, pobl yn ateb **C** 3.25
samplau corfforol **D** 6.10-12
torri sêl prif gopi recordiadau **E** 6.4
rhoi rhybudd **C** 10.13, **G** 4.1
cyhuddo'r sawl sy'n cael eu cadw **C** 16.8-10
cwynion **C** 9.2, 9.15
amodau cadw **C** 8.9-11
cyfwynebiadau **D** 3.25-27, Atodiad D (7)
gohiriadau, hysbysiad o arestio neu fynediad at gyngor cyfreithiol **C** Atodiad B (13-4)
eiddo sawl sy'n cael eu cadw' **C** 4.4-5, *4B-C*
cadw pobl ifanc ar ôl cyhuddo **C** 16.10
gweithdrefn gadw **C** 3.24
profi am gyffuriau **C** 17.12, 17.18-21
archwiliadau i sefydlu pwy ydynt **D** 5.17-18
cymryd olion bysedd **D** 4.2, 4.7
olion esgidiau **D** 4.20-1
grym a ddefnyddir **B** 8.1
a roddir i'r sawl sy'n cael eu cadw **C** 3.2
seiliau dros gadw **C** 3.23
adnabod mewn grŵp **D** 3.25-27, Atodiad C (12, 13, 31, 42-4)
adnabod gan dystion **D** 3.1, 3.2, *3E*, Atodiad E (2)
adnabod personau **D** 2.10-11, 3.25-27
rhesi adnabod **D** 3.25-27, Atodiad B (1, 12, 23-8)
cyfieithwyr **C** 13.11
cyfweld cyn cael cyngor cyfreithiol **C** 6.6
cyfweliadau **C** 11.20, **E** 3.3-4, 4.6, 4.8, *4C*, 5.1, *5A*
samplau personol **D** 6.2
archwiliadau personol **C** Atodiad A (5, 7-8)
llythyrau a galwadau ffôn **C** 5.8
triniaeth a chyngor meddygol **C** 9.9, 9.15-17, *9C*, *9G-H*
samplau amhersonol **D** 6.5
gwrthod dulliau adnabod **D** 3.15
ceisiadau i gael cyngor cyfreithiol **C** 6.16-17
adolygu ac ymestyn cyfnodau cadw C 15.5, 15.10, 15.12-16
asesiadau risg **C** 3.6
samplau **D** 6.2, 6.5, 6.10-12
gwarant chwilio **B** 3.6
archwilio personau **A** 3.10, 4.1-10, *15-19, 21*
awdurdodiadau **A** 2.14, 2.17-18, 2.20, *14*
monitro'r defnydd o bwerau **A** 5.3-4, *17, 19*
i sefydlu pwy ydynt **D** 5.8, 5.17
chwilio adeiladau **B** 2.8, 6.15
camau gweithredu yn dilyn **B** 8.1-3
awdurdodi **B** 4.3
caniatâd i chwilio **B** 5.1, *5A-B*
tystion **B** 6.11, 8.1
chwilio cerbydau **A** 4.3, 4.5, 4.8-10, *16*
eiddo a feddiannwyd **B** 7.12-13, 7.16, 8.1, 8.2
archwiliad **B** 7.8A, 7.11
gwrthod mynediad **B** 7.17
noeth chwiliadau **C** Atodiad A (11(c), 12)
adnabod trwy fideo **D** 3.25-27, Atodiad A (4, 7, 9, 14, 17-18)
cyfweliadau a recordiwyd ar fideo **F** 4.8, 5.1
ymwrthod â'r hawl i cyngor cyfreithiol C 6.5, *1I*
sgan uwchsain a phelydr X **C** Atodiad K
Dogfennau a ganfyddwyd **B** 7.5, 7.7, 7.8A, 7.15, 7.17
Dyletswyddau Prif Swyddogion **C** 3.7, 13.1
Dyletswyddau swyddogion adnabod **D** 3.11, 3B
adnabod mewn grŵp **D** Atodiad C
rhoi rhybudd i 'r sawl sydd dan amheuaeth **D** 3.17-20
dewis trefniadau adnabod **D** 3.14-16, 3.21, 3.22
adnabod trwy fideo **D** 3.5, Atodiad A
Dyletswyddau swyddogion y ddalfa **C** 1.1A, 1.9, 1.15, *1H-I*, 3.4-6, 3.8-9, 3.21-22, 3.25, **F** *1A*
*gweler hefyd* cofnodion cadw
mynediad at gyngor cyfreithiol **C** 6.5, *6B*

cymorth gyda dogfennau **C** 3.5, 3.20, D 2.13
awdurdodi cadw **C** 16.7, *16C*, 17.7, Atodiad E (3)
cyhuddo **C** 16.1, 16.7, 16.10 *16A, 16B, 4A, 4B*
cyfathrebu gyda'r sawl sy'n cael eu cadw **C** 3.12
cwynion **C** 9.2, 9.15, 12.9, **F** 4.9
cyffuriau a reolir **C** 9.5B, 9.10
penderfyniad i beidio recordio cyfweliad ar fideo **F** 3.3
pobl a arestiwyd **G** 4.2
sawl sy'n cael eu cadw, cyflwr i'w cyfweld **C** Atodiad G
sawl sy'n cael eu cadw, prydau bwyd **C** 8.6, *8A*
sawl sy'n cael eu cadw, eiddo **C** 4.1-5, *4A-C*
sawl sy'n cael eu cadw, sydd â chlefydau heintus **C** 9.7
pobl anabl **C** 3.12, 3.20, 13.10, **D** 2.13
dulliau adnabod **D** 2.21, 3.17-20
cyfieithwyr **C** 3.12, 13.10
cyfweliadau **C** 11.6, 12.1, 12.3, 12.10
pobl ifanc **C** 3.13-15, *3C*, 8.8, 8.10, 16.7, 16.10, *16A, 16C-D*
triniaeth feddygol i'r sawl sy'n cael eu cadw **C** 9.4-17, 12.3, *9A-H*
personau sy'n dioddef anhwylder meddwl/agored i niwed meddyliol **C** *1G*, 9.5, Atodiad E (3-5)
hysbysiadau i'r sawl sydd dan amheuaeth D 3.17-20
holi'r sawl sy'n cael eu cadw **C** 3.4
grwpiau arbennig sy'n cael eu cadw **C** 3.12,-20
recordiad sain o gyfweliadau **E** 1.8, 3.3-4, 4.15, *4E*
ymweliadau â sawl sy'n cael eu cadw C 5.4, *5B*
archwiliadau personol **C** Atodiad A (7)
trefniadau sgan uwchsain a phelydr X C Atodiad K (2)

Dulliau adnabod
*gweler hefyd* Cyfwynebiadau; Cymryd olion bysedd; Adnabod mewn grŵp; Rhesi adnabod; Ffotograffau; Samplau; Adnabod trwy fideo
oedolion priodol **D** 2.12, 2.15, *2A*, 3.15
trefnu **D** 3.11
amgylchiadau sy'n gofyn am **D** 3.12-13
cynnal **D** 3.11
caniatâd **D** 2.12, *2A,* 3.17, 3.18, 3.27

Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 **D** 2.17
dyletswyddau swyddogion y ddalfa **D** 2.21, 3.17-20
personau dynodedig **D** 2.22
dyletswyddau swyddogion adnabod **D** 3.14-16, 3.21, 3.22
delweddau **D** 3.17, 3.20-21, 3.24, *3D*
darparu gwybodaeth **D** 3.17-20, 3.24, 3.26
cyflwyniadau cynrychiolwyr cyfreithiol **D** 3.15
mwy nag un tyst **D** 3.2
hysbysiadau i'r sawl sydd dan amheuaeth D 3.17-20
swyddog yng ngofal yr ymchwiliad **D** 3.11, 3.13, 3.20, *3B, 3E*
staff yr heddlu **D** 2.1, 2.18, 2.12-2.22, 3.2, 3.11
carcharorion **D** Atodiad A (6), Atodiad B (4-5, 27)
dewis **D** 3.14-16

Deddf Terfysgaeth 2000 **D** 2.17, *2C*

Defnydd o gyfweliadau fideo **F** *2D*

Dyddio/amseru cyfryngau recordio **F** 2.3, *2B*

Dyletswyddau swyddogion Adnabod D 3.11, *3B*
adnabod mewn grŵp **D** Atodiad C
hysbysiadau i'r sawl sydd dan amheuaeth D 3.17-20
dewis dulliau adnabod **D** 3.14-16, 3.21, 3.22
adnabod trwy fideo **D** Atodiad A

**E**

Eiddo *gweler* Sawl sy'n cael eu cadw, eiddo; Meddiannu eiddo

Eiddo personol **C** 4.2-3

Eiddo'r sawl sy'n cael eu cadw **C** 4.1-5, *4A-C*

Eitemau
wedi eu cuddio **C** Atodiad A (10)
a gafwyd neu a feddiannwyd yn anghyfreithlon **A** 2.1
a ddefnyddiwyd wrth achosi difrod troseddol **A** 2.1, Atodiad A (6)

Eitemau â llafn *gweler* Offer peryglus

Eitemau anghyfreithlon *gweler* Eitemau a waharddwyd

Eitemau a gafwyd neu a feddiannwyd yn anghyfreithlon **A** 2.1

Eitemau arbennig o ddillad **A** 2.6, *9*

samplau DNA *gweler* Samplau corfforol
Eitemau a waharddwyd **A** 2.6, 2.9-10
*gweler hefyd* Offer peryglus; Arfau Peryglus
Eitemau braint gyfreithiol **B** 3.6, *3B*, 7.2, 7.9B, 7.10
Eitemau pigog *gweler* Offer peryglus
Enw a chyfeiriad, meini prawf ar gyfer canfod **G** 2.9
Erlynwyr y Goron **C** 16.1A, *16AB*, *6B, 6C*
Esgidiau, diosg **A** 3.5, *7*

**F**

Fersiynau sain o hysbysiadau o hawl **C** *3B*
Fideo gynadledda **C** 15.3C, 15.9-9C, *15F, 15G*
Ffilmiau **D** 2.16, 3.28-29, Atodiad A (8, 14), Atodiad B (3, 21), Atodiad C (11-12), Atodiad D (2), **F** 6.5
Ffoaduriaid *gweler* Ffoaduriaid gwleidyddol
Ffoaduriaid gwleidyddol, hysbysu ynghylch arestio **C** 7.4
*gweler hefyd* Cadw mewnfudwyr
Ffotograffau
*gweler hefyd* Delweddau
meini prawf arestio **G** 2.9
awdurdodi **D** 5.17
darlledu **D** 3.28-29, Atodiad A (8, 14), Atodiad B (3, 21), Atodiad C (11-12), Atodiad D (2)
caniatâd **D** 5.4, 5.9, 5D
Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 **D** 2.17
diffiniad **D** 2.16
dinistrio **D** 3.30-33, 5.22-24, Atodiad E (10)
sawl sy'n cael eu cadw **D** 3.30, 5.12-24, *5E*
dogfennau **D** 5.17-18, Atodiad E (11-12)
dogfennau a ganfyddwyd **B** 7.5, 7.17
adnabod mewn grŵp **D** Atodiad C (8-9, 17, 42-3), Atodiad E (6, 8-9)
adnabod personau **D** 1.5, 1.7, 3.3, *5B-E*, Atodiad B (14, 23-4),
Atodiad E (6, 8-9)
marciau adnabod **D** 1.6, 5.1, 5.4-7, 5.21-24, *5B*
grym rhesymol **D** 5.9, 5.14, 5.18, *5F*
Deddf Mewnfudo 1971 **D** 2.17
pobl ifanc **D** *5D(c), 5E(d)*
hawliau cynrychiolwyr cyfreithiol **D** 3.29, Atodiad A (8), Atodiad B (3, 23), Atodiad C (11-12, 42-3)
hysbysiad i'r sawl sydd dan amheuaeth D 3.17
swyddogion yn tynnu **D** 5.17
personau nad ydynt wedi eu cadw **D** 5.21-24
grym rhesymol **D** 5.9, 5.14, 5.18
diosg penwisgoedd a gorchuddion wyneb D 5.13, 5.14, *5F*
cadw **D** 5.6, 5.12, 5.16, 5.22, *5B*, Atodiad E (10)
dangos i'r cyhoedd **D** 3.28-29, Atodiad A (8)
dangos i dystion **D** 3.3, Atodiad E
Deddf Terfysgaeth 2000 **D** 2.17, *2C*
adnabod trwy fideo **D** Atodiad A (13), Atodiad E (6, 8-9)
Ffurfiau gwybodaeth electronig **A** 4.10A, **B** 7.6
*gweler hefyd* Cyfrifiaduron
Ffurflen HORT/1 **A** 4.14

**G**

Galwadau ffôn **C** 5.6-8, *5A, 5E*
mynediad at gyngor cyfreithiol **C** 6.5, *6J*
awdurdodi cyfweliad cyn cael cyngor cyfreithiol **C** *6I*
awdurdodi unigolion i roi cyffuriau a reolir i'w hunain **C** 9.10
dyletswyddau swyddogion y ddalfa **C** 5.4
adolygu ac ymestyn cyfnodau cadw C 15.3B, 15.9-11, 15.14, *15F*
Glanhau, celloedd **C** 8.2
Gobenyddion, mewn celloedd **C** 8.3, *8A*
Gofal a thriniaeth o'r sawl sy'n cael eu cadw C 8.2, 9.1-17, *9A-H*
Gorchmynion atafaelu **C** Atodiad B (2)
Gorchmynion cyflwyno **B** *2B(f)*, 3.4, 3.7
Gorchmynion llys **C** 3.14
Gorchmynion yn gofyn am eglurhad o'r deunydd **B** 3.4
Gorchuddion wyneb, diosg **A** 2.15-18, *4, 10,* D 5.13, 5.14
Gorsafoedd heddlu,
*gweler hefyd* Lleoliadau
fel mannau diogel **C** 1.10
presenoldeb oedolion priodol **C** 3.15, 3.17, Atodiad E (3, *E1*)
cofnodion cadw'r sawl sy'n cael eu cadw **C** 2.1A-2.7, *2A*
fel lleoliad i garcharorion **C** 4.1
cyfweliadau mewn **C** 11.1, 11.2, 11.7, 11.18, 12.1-14, *12A-B*
trefn arferol ar gyfer y sawl sy'n cael eu cadw **C** 3.1-3.11
rhai sy'n mynychu'n wirfoddol **C** *1A*, 2.1A, 2.1, 3.1, 3.21-22

chwilio'r sawl sy'n cael eu cadw **C** *3D*, Atodiad A (4)
cymryd olion bysedd **D** 4.3
rosglwyddo rhwng **C** 5.3
Grwpiau llonydd, adnabod mewn grŵp D Atodiad C (25-29)
Grym **B** 8.1, **D** Atodiad D (3)
personau dynodedig **B** 2.12, **C** 1.14, D 2.20, **E** 1.7
cyfwynebiad gan dystion **D** Atodiad D (3)
dogfennu'r defnydd o **B** 8.1
mynediad i adeiladau **C** 1.14, **D** 2.20, **E** 1.7
cymryd olion bysedd **D** 4.6, 4.14
olion esgidiau **D** 4.18, 4.20
personau nad ydynt yn cael eu cadw **D** 5.21
archwilio personau **A** 3.2, **D** 5.9
chwilio adeiladau **B** 1.4, 6.6, 6.10, *6C*
cymryd ffotograffau **D** 5.9, 5.14, 5.18
cymryd samplau **D** 6.7, 6.10
honiad o ddefnydd afresymol neu ddiangen **C** 9.2
Grym afresymol neu ddiangen **C** 9.2
Grym rhesymol *gweler* Grym
Gwahaniaethu **A** 1.1, 2.2, 2.25, 5.1
Gwahaniaethau ar sail hil *gweler* Gwahaniaethau
Gwaharddiadau
oedolion priodol **C** *1B, 1F*
cynrychiolwyr cyfreithiol o gyfweliadau **C** 6.9-14, *6D-E*
Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) **C** 16.1A, *16AB*, **F** 6.2, *6C*
Gweddustra cyhoeddus, meini prawf arestio **G** 2.9
Gweithwyr cymdeithasol **C** 3.16, *17G*, Atodiad E (6)
Gweithwyr iechyd proffesiynol *gweler* hefyd Ymarferwyr iechyd cofrestredig
diffiniad **C** *9A*,
gofal a thriniaeth y sawl sy'n cael eu cadw **C** 8.6, 9.1-16, *9C, 9F*, Atodiad E (5-6), Atodiad H
cyflwr i'w cyfweld **C** 12.3, Atodiad G
asesiad risg **C** 3.6, 3.9, 9.13
sgan uwchsain a phelydr X o'r sawl sy'n cael eu cadw **C** Atodiad K (4, *K1*)
Gwrthdaro buddiannau, cynrychiolwyr cyfreithiol **C** *6G*
Gwybodaeth
*gweler hefyd* Rhoi rhybudd; Dogfennau; Geiriad rhybudd
ceisiadau am warant chwilio **B** 3.1, 3.2-3, *3A-B*
ffurfiau electronig o **A** 4.10A, **B** 7.6
ar gyfer y sawl sy'n cael eu cadw **C** 1.8
ac amheuaeth resymol **A** 2.4-6
Gweriniaeth Iwerddon, dinasyddion **C** 3.3, 7.1-5, *7A*
Gwybodaeth arbennig *gweler* Gwybodaeth
Gwybyddus, diffiniad **D** 3.4

**H**

Hawliadau *gweler* Llythyrau; Hysbysiad o hawliau; Hawliau; Galwadau ffôn; Ymweliadau; Deunyddiau ysgrifennu
Hawliau
*gweler hefyd* Cyngor cyfreithiol; Preifatrwydd
gwrthod **C** 5.6
sawl sy'n cael eu cadw **C** 1I, 2.5, 3.1-5, 3.13, 3.18, *3D,* 5.1-8, *5A-E, 17.6*
rhai nad ydynt yn ddinasyddion y DU **C** 7.1-5, *7A*
i beidio cael eu cadw heb gyfathrebu â neb **C** 5.1-8, *5A-E*
perchnogion eiddo a feddiannwyd **B** 7.16 17
i gyngor cyfreithiol **C** 6.1-17, *6A-K*, 15.4, Atodiad (4, *E1*)
Hawliau'r sawl sy'n cael eu cadw **C** *1I*, 2.5, 3.1, 3.3, 3.5, 3.13, 3.18, *3D*, 5.1-8, *5A-E*,
17.6 *gweler hefyd* Cyngor cyfreithiol; Preifatrwydd
Heddlu lleol/swyddogion cyswllt cymunedol, ymgynghori gyda **B** 3.5
Holi **C** 11.1A, 12.6, **F** *3C*
*gweler hefyd* Toriad mewn cyfweliad, Cyfweliadau
awdurdodi **C** 1.9A, *1K*
gan swyddogion y ddalfa **C** 3.4
rhoi rhybudd cyn **C** 10.1, **G** 3.1
pobl fyddar **D** 2.14
sawl sy'n cael eu cadw **A** 2.9-10, *2*, 15.6
yn ystod adolygu ac ymestyn cyfnodau cadw **C** 15.6
yn ystod chwilio adeiladau **B** 6.12
er mwyn canfod pwy ydynt **C** 10.1
gorffen **C** 11.6
mewn ysbyty **C** 14.2, *14A*
wrth drosglwyddo **C** 14.1
pobl ifanc a phersonau sy'n dioddef

anhwylder meddwl/agored i niwed meddyliol **D** 2.14
hysbysiad o'r seiliau dros gadw cyn **C** 3.4
personau nad ydynt wedi eu cadw **A** *1*
personau sydd ag anawsterau iaith neu siarad **D** 2.14
recordio **A** 4.13
gwrthod ateb cwestiynau **C** 10.9-11
cyfyngiadau arbennig **C** 14.1-2, *14A*
sefyll yn ystod **C** 12.6
Deddf Terfysgaeth 2000 **C** 10.1
Hunan-ddiffiniad o darddiad ethnig **A** 4.3, 4.5, *18*, Atodiad B
Hysbysiad o hawliau **C** 3.2, *3A, 3B*
Hysbysiad o arestiad **C** 3.15, 7.2, 7.4, Atodiad B, Atodiad E (3), Atodiad F, **G** 2.2
Hysbysiad o drefniadau profi am gyffuriau **C** 17.1
Hysbysiad Cynllun Cywiro Nam Cerbyd **A** 4.14

**I**

Iawndal, chwilio adeiladau **B** 6.7, *6A*
Iechyd *gweler* Triniaeth a chyngor meddygol; Pobl sâl
Iaith Arwyddion **F** 3.1 (d)
Ieithoedd *gweler* ieithoedd Tramor
Ieithoedd Ewropeaidd *gweler* Ieithoedd Tramor
Ieithoedd lleiafrifol **C** *3B*, 6.3, *6H*
Ieithoedd tramor **C** *3A*, 6.3, 13.2-4
*gweler hefyd* Cyfieithwyr; anawsterau iaith

**L**

Lifrai, heddlu nad ydynt mewn **A** 3.9, **B** 2G, 6.5(i)
Llawfeddygon yr heddlu **C** 9.1, 9.8
Llefydd *gweler* Lleoliadau
Lleoliadau
*gweler hefyd* Ystafelloedd cyfweld; Gorsafoedd heddlu
cyfwynebiadau **D** Atodiad D (6)
cadw ar gyfer atal a chwilio **A** 1.2, *6*
adnabod mewn grŵp **D** Atodiad C (3-7, 37-39)
rhesi adnabod **D** Atodiad B (2, 5)
cyfweliadau **C** 11.1, 11.2, 11.7, 11.16
archwiliadau personol **C** Atodiad A (4)
chwiliadau o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 **A** 6
noeth chwiliadau **C** Atodiad A (11)
ymweliadau i, er mwyn adnabod gan dystion **D** 3.2
trefniadau sgan uwchsain a phelydr X C Atodiad K (4)

Llofnodion **C** 3.20, 4.4, 5.8, Atodiad B (14), **F** 4.18
cofnodion cadw **C** 3.5, Atodiad B (4)
cofnodion cyfweliad **C** 11.9, 11.11, 11.12, 11.13, 11.15, 16.9
gwrthod arwyddo **C** 3.2, 2.7, 5.8, 11.11, 11.14, *11E*, 16.9, Atodiad D (12),
**F** 4.18
datganiadau ysgrifenedig **C** 16.9, Atodiad D (4, 7, 9, 11)
Llyfrau poced **B** 2.8, 4.3, **C** 1.17, **D** 2.11, **E** 1.10, **F** 1.7,
arestiad **G** 4.1
rhybudd **C** 10.13
dulliau adnabod **D** 3.2(e)
cofnodion cyfweliad **C** 10.13, 11.7, **E** 5.1, **F** 5.1
archwilio eiddo **B** 4.3
Llysoedd Ynadon **C** 15.2, 15D
Llythyrau **C** 5.6-8, *5A*

**M**

Manylion personol, dogfennau chwiliadau A 4.2-3, *18*
Marciau adnabod
mewn rhesi adnabod **D** Atodiad B (10, 19)
personau nad ydynt yn cael eu cadw **D** 5.21
ffotograffau **D** 1.6, 5.1, 5.4-7, 5.21-24, *5B*
caniatâd i weld **D** 5.4, 5.9, *5D*
grym rhesymol **D** 5.9, 5.18
adnabod trwy fideo **D** Atodiad A (2A, 2B-C)
Matresi, mewn celloedd **C** 8.3, 8A
Mechnïaeth, pobl sy'n ateb **C** 2.1A, 2.1, 3.25, 4.1, *15B(a), 16C*
Mechnïaeth stryd, *gweler* mechnïaeth
Meddiannu adeiladau **B** *7B*
Meddiannu eiddo **B** 3.6, 7.1-17, *7A-H*
swyddogion cefnogaeth cymunedol **A** Atodiad C
dogfennau **B** 7.12-13, 7.16, 8.1, 8.2
swyddogion mewnfudo **B** *2D*
Meddyginiaeth, sydd eu hangen gan y sawl sy'n cael eu cadw **C** 9.9-12, 9.17
Meini prawf rheidrwydd, pŵer i arestio **G** 2.4-9
Mewnfudwyr anghyfreithlon *gweler* Cadw mewnfudwyr
Monitro'r defnydd o bwerau atal a chwilio **A** 5.1-4, *17, 19*
Mwy nag un dan amheuaeth **D** Atodiad B (9, 11), Atodiad C (20, 26, 36)

Mwy nag un tyst **D** 3.2, Atodiad B (13, 16), Atodiad D (5), Atodiad E (3, 8)
Mynediad
ar sawl achlysur **B** 6.3A
gyda chaniatâd **B** 5.1-4, *5A-C*, 8.1
heb ganiatâd **B** 6.4-6
heb warant **B** *2D*, 4.1-3, 8.1
Mynediad ar sawl achlysur **B** 6.3A
Mynychu gorsaf heddlu'n wirfoddol **C** *1A*, 2.1A, 2.1, 12.2, **F** 3.4

**N**
Negeseuon **C** 5.5-8
Newid cyfryngau recordio (sain) **E** 4.11
Nodweddion corfforol *gweler* Marciau adnabod
Nodweddion corfforol anarferol *gweler* Marciau adnabod
Noeth chwiliadau **C** 4.1, Atodiad A (9-12), Atodiad E (12)
*gweler hefyd* Diosg dillad
Nwyddau wedi eu dwyn **A** 2.6
Nyrsys *gweler* Samplau personol; Archwiliadau personol; Triniaeth a chyngor meddygol

**O**
Oedolion priodol **C** 1.7, 1B-E
*gweler hefyd* Ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa; personau cefnogol
cyn achos llys
mynediad at gofnodion cadw **C** 2.4, 2.4A, 2.5
cymorth gyda dogfennau **C** 3.20, **D** 2.13
rhoi rhybudd ym mhresenoldeb **C** 10.12, Atodiad E (7)
cyhuddo sawl sy'n cael eu cadw **C** 16.1, 16.3, 16.4A, 16.6, *16C*, Atodiad E (11)
cyfwynebiadau **D** Atodiad D (6)
pobl fyddar **C** 13.6
diffiniadau **C** 1.7, Atodiad E (2), **D** 2.6, **E** 1.5, **F** 1.5
gweithdrefnau cadw **C** 3.17
dyletswyddau **C** 3.18
gwaharddiadau **C** *1B, 1F*
ymestyn cyfnodau cadw **C** 15.3, 15.11, Atodiad E (10)
adnabod mewn grŵp **D** Atodiad C (3, 14)
rhesi adnabod **D** Atodiad B (8, 10)
dulliau adnabod **D** 2.12, 2.15, *2A*, 3.15
darparu gwybodaeth i **C** 3.15, Atodiad E (3)
cofnodion cyfweliad **C** 11.12, 16.4A
cyfweliadau **C** 11.15-18, *11C*, 12.2, 12.3, 13.6, Atodiad E (8-9)
archwiliadau personol **C** Atodiad A (5), Atodiad E (12)
pobl ifanc **C** 1.7, *1B-C*, 3.17-19, 6.5A, 11A, 15.2A, 17.5, 17G, Atodiad A (5, 11(b-c)), **D** 2.14, 2.15
cyngor cyfreithiol **C** 1E, Atodiad E (4, *E1*)
braint gyfreithiol **C** *1E*
cynrychiolwyr cyfreithiol **C** *1E-F*
personau sy'n dioddef anhwylder meddwl/agored i niwed meddyliol **C** 1.7, *1D, 1G*, 10.12, 15.2A, Atodiad A (5, 11(b-c)), Atodiad E, D 2.12, 2.14, 2.15
angen am **C** 3.5, Atodiad G (5,8)
hysbysiad o arestio **C** 3.15, Atodiad B (*B1*), Atodiad E (3)
hawl i ymgynghori â **C** 3.18
rôl **C** 11.17, 3.18, Atodiad E (9)
noeth chwiliadau **C** Atodiad A (11(b-c)), Atodiad E (12)
cymryd samplau corfforol **D** 6.9, *6C*
adnabod trwy fideo **D** Atodiad A (7)
cyfweliadau wedi'u recordio ar fideo **F** 3.1
gweithdrefn sgan uwchsain a phelydr X C Atodiad K (5(e))
Offer peryglus
*gweler hefyd* Arfau peryglus; Eitemau a waharddwyd
archwilio personau **A** 2.1, 2.12, 2.13-14, 2.27, 2.28, **B** *2C*
chwilio adeiladau **B** *2B(c)*
Offer recordio gweledol **F** 2.2, *2A*, **F** 3.6
yn methu **F** 3.3, 4.15
Offer recordio yn methu, **E** *4H*
Ôl, adnabod trwy **D** 1.4, 1.7, 2.17, *2C*
*gweler hefyd* Ôl dannedd; Ôl croen
Ôl croen **D** 2.17, *2C*, 6.1, 6.6
*gweler hefyd* Samplau amhersonol
Ôl dannedd **D** 6.1, 6.4
*gweler hefyd* Samplau personol
Olion bysedd
*gweler hefyd* Chwiliadau dyfaliadol
diffiniad **D** 4.1
adnabod trwy **D** 1.3, 1.7, 4.1-15, *4A-B*
cadw neu ddinistrio **D** 4.7, 4.13, Atodiad F
Olion esgidiau **C** 3D, **D** 1.3A, 4.16-21, 4B, Atodiad F, **G** 2.9

**P**
Parafeddygon **D** 6.4

Pelydr X **C** Atodiad K
Penwisgoedd, diosg **A** 3.5, *4, 7-8,* **D** 5.13, 5.14, *5F*
Perchnogion, eiddo a feddiannwyd **B** 7.16-17
Personau awdurdodedig **B** 2.9, 2.11, 3C, 8.1, 8.2
Personau cefnogi cyn achos llys **D** 2.15A, *2AB*
*gweler hefyd* Oedolion priodol
Personau cefnogol **D** 2.15A, 2Ab
*gweler hefyd* Oedolion priodol
Personau dynodedig **B** 2.11-13, **C** 1.14, 1.16, **E** 1.9
diffiniadau **C** 1.13, **D** 2.19, **E** 1.6
defnyddio grym i gael mynediad i eiddo C 1.14, **D** 2.20, **E** 1.7
dulliau adnabod **D** 2.22
defnyddio grym rhesymol **C** 1.14
Personau nad ydynt wedi eu cadw **A** *1*, C Atodiad C (*C1*), **D** 5.19-24, 6.2, 6.3, *10C*
Personau nad ydynt wedi eu harestio
rhoi rhybudd **C** 3.21, 10.2, *10C, 10F-G*
cadw **C** 3.21-22
cyfweliadau **C** *10F*, 12.2
hawl i gael cyngor cyfreithiol **C** 3.21-22, *10C*
hawl i gofnod o gyfarfyddiad **A** 4.15
triniaeth **C** *1A*
Personau rhagnodedig **C** 17.13, *17C*
Personau'n rhoi cyffuriau a reolir i'w hunain **C** 9.10
Personau sy'n ddibynnol ar gyffuriau *9C*
Personau sy'n dioddef anhwylder meddwl/agored i niwed yn feddyliol C Atodiad E,
D 2.3
mynediad at gyngor cyfreithiol **C** Atodiad B (B1), Atodiad E (4)
oedolion priodol **C** 1.7, 1D, 1G, **D** 2.12, 2.14, 2.15
asesiad **C** 3.16, Atodiad E (5-6)
cymorth gyda dogfennau **C** 3.20
rhoi rhybudd **C** 10.12, Atodiad E (7)
cyhuddo **C** 16.1, 16.3, 16.4A, 16.6, 16C, Atodiad E (11)
cadw **C** Atodiad E (3)
dulliau adnabod **D** 2.12, 2A, 3.17
cyfweliadau **C** 11.15-18, *11C*, 12.3, 16.4A, Atodiad E (8-9, *E2*)
archwiliadau personol **C** Atodiad A (5), Atodiad E (12)
rhybudd o arestio **C** 3.15, Atodiad B (*B1*)
diosg dillad **D** 6.9
datganiadau **C** 11.15, 16.4A
noeth chwiliadau **C** Atodiad A (11(c)), Atodiad E (12)
goruchwylio **C** *9B*
triniaeth fel **C** 1.4, *1G*
Pobl agored i niwed sydd dan amheuaeth *gweler* Pobl anabl;
Pobl anabl **C** 3.12, 13.10, **D** 2.5
*gweler hefyd* Pobl fyddar; pobl sydd â nam ar eu lleferydd
cymorth gyda dogfennau **C** 3.20, **D** 2.13, *2B*
trefniadau adnabod **D** 2.5, *2AB*
triniaeth fel **C** 1.6
Pobl a arestiwyd **C** 12.2
*gweler hefyd* Sawl sy'n cel eu cadw
rhoi rhybudd i **C** 10.4, **G** 3.1, 3.3
cyfweld **C** 11.1
cyfnodau o seibiant **C** 12.2
hawl i wybodaeth **C** 10.3 *10B*
Pobl dan Anfantais *gweler* Pobl anabl
Pobl dan ddylanwad alcohol *gweler* Pobl feddw
Pobl dan ddylanwad cyffuriau **C** 9.3, *9C*, 9CA, 11.18, 12.3
*gweler hefyd* Pobl feddw
Pobl ddall **C** 3.20, **D** 2.5, 2.13, *2B*
*gweler hefyd* Pobl anabl; Pobl sydd â nam ar eu golwg
Pobl feddw
asesiad **C** 9.5B, 9C
cyfweliadau **C** 11.18, 12.3
tynnu ffotograff **D** 5D(a), 5E(a)
goruchwylio **C** 9.3
Pobl fregus, amddiffyn, meini prawf arestio **G** 2.9
Pobl fyddar
*gweler hefyd* Pobl anabl
cyfieithwyr **C** 3.12, 11.18, 12.3, 13.1, 13.5-7, 13.10 **D** 2.14 **F** 4.7
cyfweliadau **C** 11.18, 12.3, 13.4-7, **E** 4.6, 4.7, *4B-C* **F** 4.7
holi **D** 2.14
cyfyngiadau **C** 8.2
archwilio **A** 3.11
Pobl ifanc
*gweler hefyd* oedolion priodol
mynediad at gyngor cyfreithiol **C** Atodiad B (*B1*)
cymorth gyda dogfennau **C** 3.20
rhoi rhybudd **C** 10.12
cyhuddo **C** 16.1, 16.3, 16.4A, 16.6-7, *16A, 16C-D*
dyletswyddau swyddogion y ddalfa **C** 3.13

15, *3C*, 8.8, 8.10, 16.7, 16.10, *16A, 16C-D*
cadw **C** 8.8, 8.10, *9B, 11D*, 16.7, 16.10, *16C*
profi am gyffuriau **C** 17.2, 17.5, *17F, 17G*
olion esgidiau **D** 4.17
dulliau adnabod **D** 2.4, 2.12, 2.15, *2A*, 3.17, 3.21
marciau adnabod **D** *5D(c)*
yng ngofal awdurdod lleol **C** 3.13, *3C*, 16.7, 16.10, *16D, 17G*
yng ngofal cyrff gwirfodddol **C** 3.13, *3C, 17G*
cofnodion cyfweliad **C** 11.15, 16.4A
cyfweliadau **C** 11.15-18, *11C*, 12.3, 13.6
archwiliadau personol **C** Atodiad A (5)
hysbysiad o arestio **C** Atodiad B (*B1*)
hysbysu swyddogion cyfrifol **C** 3.14
person sy'n gyfrifol am les **C** 3.13, *3C, 17G*
ffotograffau **D** *5D(c), 5E(d)*
ymwrthod â chyngor cyfreithiol **C** 6.5A
diosg dillad **D** 6.9
hawliau **C** 3.13
datganiadau **C** 11.15, 16.4A
noeth chwiliadau **C** Atodiad A (11(c))
goruchwylio **C** *9B*
triniaeth fel **C** 1.5
Pobl ifanc; Personau sy'n dioddef anhwylder meddwl/agored i niwed meddyliol
Pobl mud **D** 2.5
*gweler hefyd* Pobl anabl; Pobl sydd â nam ar eu lleferydd
Pobl nad ydynt wedi eu harestio
rhoi rhybudd **C** 3.21, 10.2, 10C, 10F-G, G 3.2, 4
cadw **C** 3.21-22
mewn mannau cyhoeddus **A** 4.12-19
manylion personol **A** 4.17-18
hawl i gyngor cyfreithiol **C** 1A, 3.21-22, *10C*
hawl i gofnodi cyfarfyddiad **A** 4.15, 4.19
triniaeth **C** 1A
Pobl sâl **C** 1.8, 3.5, 9.12, 11.18, 12.3, Atodiad G
Pobl sydd â nam ar eu golwg **C** 3.20, **D** 2.5, 2.13, *2B*
*gweler hefyd* Pobl ddall; Pobl anabl
Poster, hysbysu ynghylch hawl i gael cyngor cyfreithiol **C** 6.3, *6H*
Preifatrwydd
materion iechyd **C** *9E*
cyngor cyfreithiol mewn **C** *6J*
chwilio adeiladau **B** 1.3, 6.10
ymweliadau i'r sawl sy'n cael eu cadw gan swyddogion consylaidd **C** 7.3
Prif gopiau, cyfryngau recordio gweledol **F** 2.4, *2C*, 4.18, *4A, 4F*, 5.1
Prif gopiau, cyfryngau recordio sain **E** 2.1-3, 2A-C, 4.18, 4H, 6.2-4,6A-C
Prif Swyddogion
derbyn pwerau o dan Deddf Terfysgaeth 2.24A
dyletswyddau **C** 3.7, 13.1, **F** 6.3
Preswylwyr, Hysbysiad o Bwerau a Hawliau B 6.7-8, 8.1, 8.2
Profi am gyffuriau **C** 17.1-14, *17A-G*
Prydau bwyd **C** *3A*, 8.6, 8.9, 8A-B, 12.8, *12B*
Pwerau meddiannu a didoli **B** 6.3, 7.1, 7.7-13, *7C-D*

**R**
Recordiad ar dâp *gweler* Recordiad sain
Recordio ar fideo **C** 2.1, **D** Atodiad B (2, 23-4), Atodiad C (8-9, 42-3)
Recordio cyfweliadau ar fideo **C** 13.3, 13.7, 13.9, 16.9, **F** 3.1-6, *3A-F*, 4.1-4.19, *4A-F*, 5.1-2, *5A*
yn ôl disgresiwn yr heddlu **F** *3A*
swyddog awdurdodi **F** *3F*
toriad **F** 4.8, 4.12-4.14, *4D, 4E*
rhoi rhybudd **F** 4.1, 4.5, 4.14, *4D*
cychwyn **F** 4.3-4.6
cwblhau **F** 4.17-19
meini prawf ar gyfer **F** 3.1
dogfennau **F** 4.8, 4.9, 4.19
dyddiad ac amser **F** *2B*, 4.4(d), 4.12, 4.13, 4.17, 6.7
egluro i'r sawl sydd dan amheuaeth **F** 4.4
adnabody partion **F** 4.4(b-c)
yn y llys **F** *3E, 4D, 4E*
gwybodaeth heb gysyltiad â' r drosedd **F** 4.10
peidio recordio cyfweliadau **F** 3.3
gwrthwynebiadau i **F** 4.8
ymwrthodiad gan y sawl sy'n cael ei gyfweld **F** 3.3
Recordio gweledol
*gweler hefyd* Recordio cyfweliadau ar fideo; Cyfryngau recordio
diffiniad **F** 1.6
prif gopiau **F** 2.4, 4.18, *4A, 4F*, 6.1-6.7, *6A-6E*
gweithredu agored **F** 2.1, *2A*, 3.6, 4.3, 4.11
stopio **F** *3E*, 4.12
copïau gweithredol **F** 2.4

Recordiad sain **C** 6.6, **C** 10E, *12A* **E** 1.1-6.4, 2A-6C, **F** 3.3
cyfweliadau ar ôl cyhuddo **C** 16.9
anawsterau iaith **C** 13.3, 13.7, 13.9
yn y man cadw **C** 2.1
rol staff yr heddlu **E** 1.8-1.20, 2.3
datganiadau **C** 12A, **E** 3.5
Recordio a selio, prif recordiad sain **E** 2.1-3, *2A-C*, 4.18, *4H*
Rhai sy'n cael eu cyfweld
*gweler hefyd* Cyfweliadau; Prydau bwyd; Cyfnodau gorffwys
darparu gwybodaeth **C** 11.1A, 11.5
darllen a llofnodi cofnodion cyfweliad C 11.11, 11.12, *11E*, 13.3
darllen a llofnodi datganiadau **C** *12A*, 13.4, Atodiad D (4, 7, 11-12)
Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 1985 C 9.10
Rheoliadau Cofnodion Cenedlaethol yr Heddlu (Troseddau Cofnodadwy) 2000 **D** *4A*
Rhesi adnabod **D** 1.2, 3.7-8, Atodiad B
dogfennau **D** 3.25-27, Atodiad B (1, 12, 23-8)
hysbysiadau i'r sawl sydd dan amheuaeth D 3.17-20
ffotograffau **D** Atodiad B (14, 23-4), Atodiad E (6, 8-9)
Rhesi adnabod llais **D** 1.2
Rhestr Arsylwi **C** Atodiad H
Rhoi rhybudd **C** 3.2, 10.1-13, *10A-G*, 12.5, 12.14, *12A*
*gweler hefyd* Hysbysiad o arestio; Geiriad rhybudd
oedolion priodol yn bresennol **C** 10.12, Atodiad E (7)
cyhuddo **C** 16.2, 16.3, 16.4, 16.5, *16A*
gohirio wrth roi Rhybudd o arestio neu fynediad at gyngor cyfreithiol
**C** Atodiad B (D)
cadw heb gyhuddo **C** 12.5
cyfweliadau **C** 10.8, 1013, 11.1A, 11.4, 11.4A, 16.5
personau sy'n dioddef anhwylder meddwl/agored i niwed meddyliol C 10.12, Atodiad E (7)
personau nad ydynt yn cael eu harestio **C** 3.21, 10.2, *10C, 10F-G*
cyfyngiad ar gasgliadau niweidiol o ddistawrwydd **C** Atodiad C,
Atodiad D (2, 3, 7, 8)
chwilio adeiladau **B** 6.12
eglurhad **G** 5
pobl ifanc **C** 10.12, 11.15
pobl nad ydynt wedi eu harestio **C** 3.21, 10.2, 10C, 10F-G, **G** 3.2, 4
sawl sydd dan amheuaeth mewn rhesi adnabod **D** Atodiad B (6)
recordiad sain o gyfweliadau **E** 4.5, 4.14
telerau **C** 10.5-9, *10D*, **G** 3.5, 5
recordio cyfweliadau ar fideo **F** *3A*, 4.1, 4.5, 4.14, *4D*
datganiadau ysgrifenedig **C** Atodiad D
Rhwystro'r briffordd, meini prawf arestio **G** 2.9
Rhybudd o arestio **C** 3.15, 7.2, 7.4, Atodiad B, Atodiad C, Atodiad E (3), Atodiad F
*gweler hefyd* Rhoi rhybudd
Rhybudd o Fwriad i Erlyn **C** *16B*
Rhybudd o Bwerau a Hawliau **B** 4.3, 5.1, *5A-B*, 6.7-8, 8.1, 8.2
Rhybuddio'r sawl sydd dan amheuaeth D 3.17-20, **F** 4.4(e), 4.19
personau na chawsant eu harestio **C** 3.21, 10.2, *10C, 10F-G*
cyfyngiad ar ddod i gasgliadau niweidiol oherwydd distawrwydd **C** Atodiad C
chwilio adeiladau **B** 6.12
rhai dan amheuaeth mewn rhesi adnabod D Atodiad B (6)
recordio cyfweliadau ar dâp **E** 4.5, 4.14
Rhybuddion, methu darparu sampl **C** *17A*
Rhybuddion arbennig **F** 4.2
Rhybuddion cosb **A** 4.14, **D** 5.12, **G** 2.4
Rhybuddion cosb sefydlog **A** 4.14, **D** 5.12, **G** 2.4
Rhybuddion, geiriad
methu darparu sampl **C** 17A
gwrthod archwiliad personol **C** Atodiad A (2B, A6)
gwrthod sgan uwchsain neu belydr X C Atodiad K (K2)
*gweler hefyd* Rhoi rhybudd
Rhybuddion ysgrifenedig *gweler* Dogfennau

**S**
Salwch **C** 9.7
*gweler hefyd* Pobl sâl
Samplau
*gweler hefyd* Samplau corfforol, Samplau anadl, Samplau personol; Samplau amhersonol; Samplau digonol/addas
meini prawf arestio **G** 2.9

dinistrio **D** Atodiad F
profi am gyffuriau **C** 17.1-14, *17A-G*, Atodiad J
Samplau amhersonol **C** 17.1, *17A*, **D** 6.1, 6.5-9
Samplau anaddas **D** 6.2, 6.6, *6B(b)*
Samplau anadl **A** 4.14, **B** 2B (a), **C** 3D, **D** 2.17
Samplau annigonol **D** 6.2, 6.6, *6B(a)*
Samplau corfforol **D** 1.4, 1.7, 2.17, *4B*, 6.1-12, *6A-E*, Atodiad F
*gweler hefyd* Samplau personol, Chwiliadau Dyfaliadol
Deddf Terfysgaeth 2000 **D** 2.17, *2C, 6C*
Samplau digonol/addas **C** *17B*, **D** 6.2, 6.6, *6B*
Samplau, dinistrio **D** Atodiad F
*gweler hefyd* Samplau personol; Samplau amhersonol; Samplau digonol/addas
ysgol adeiladau **A** 2.27, 2.28, **B** *2C*
Samplau ewinedd *gweler* Samplau amhersonol
Samplau gwaed *gweler* Samplau personol
Samplau gwallt **D** 6.1, *6A*
*gweler hefyd* Samplau amhersonol
Samplau personol **C** *3D*, 17.2, *17A,* **D** 2.17, 6.1, 6.2-4, 6.8, *6F*
Samplau poer *gweler* Samplau amhersonol
Samplau semen *gweler* Samplau personol
Samplau wrin *gweler* Samplau personol
Sawl sydd dan amheuaeth
*gweler hefyd* Sawl sy'n cael eu cadw; Seiliau dros amheuaeth;
Dulliau adnabod
pan nad yw'n wybyddus pwy ydynt **D** 3.2-3
gwybodaeth ar gyfer **D** 3.2-3
yn wybyddus ac ar gael **D** 3.4-20
yn wybyddus ond nid ar gael **D** 3.21-24, *3D*
hysbysiad ar gyfer **D** 3.17
gwrthod ateb cwestiynau **C** 12.1, **F** 4.6
distawrwydd a datganiadau arwyddocaol C 11.4, 11.4A, *11A*
Sawl sydd dan amheuaeth yn wybyddus ac ar gael **D** 3.4-20
Sawl sydd dan amheuaeth yn wybyddus ond nid ar gael **D** 3.21-24, *3D*
Sawl sy'n cael eu cadw **C** 1.1, 1.2, 1.4-12, *1A,* 3.1-11 **D** 4.3
*gweler hefyd* Gofal a thriniaeth y sawl sy'n cael eu cadw; Cofnodion cadw; Sawl sy'n cael eu cadw a anafwyd; Hawliau, sawl sy'n cael eu cadw; Sawl sy'n cael eu cyfweld; Cyfweliadau; Pobl feddw; Pobl ifanc; Personau sy'n dioddef anhwylder meddwl/agored i niwed meddyliol;
mynediad at godau ymarfer **C** 1.2, 17.6
asesiad **C** 3.16, 9.6, *9C, 9D*, Atodiad E (5-6)
cyhuddo **C** 16.1-10, *16A-D*, Atodiad E (11)
dyletswyddau swyddogion y ddalfa C Atodiad G
cofnodion cadw *2.1A-2.7*
oedi wrth brosesu **C** *1H*, 5.2, 5.6, *6G*
profi am gyffuriau **C** 17.1-22, 17A-G
gwrthod cyngor cyfreithiol **C** 6.5, 6.5A, 6.15
ymholiadau ynghylch **C** 5.5
archwilio er mwyn sefydlu pwy ydynt **D** 5.1-18
ymarfer ar gyfer **C** 8.7
cyflwr i'w cyfweld **C** 12.3, Atodiad G, **F** 3B
clefydau heintus **C** 9.7
darparu gwybodaeth am **C** 5.5, 5.8, *5D*
rhoi gwybod i rywun arall eu bod wedi cael eu harestio **C** 3.1, 3.5, 5.1,
*5D*, 17.6
samplau personol **C** 17.1-22, 17A-G, **D** 6.2
cynrychiolydd cyfreithiol yn absenol **C** 6.6
triniaeth feddygol **C** 3.5
samplau amhersonol **C** 17.1-22, 17A-G, D 6.6
ffotograffau **D** 3.30, 5.12-24, *5E*
holi **A** 2.9-10, 2, **C** 10.8
rhyddhau **C** 1.1, *15B*, 16.1B
cyfyngiadau **C** 8.1, **C** 8.11
ailgychwyn **C** 10.8
adolygu ac ymestyn cyfnod cadw **C** 15.1-16, *15A-G*, Atodiad E (10)
asesiadau risg **C** 3.6-10, *3E*
chwilio adeiladau lle maent yn byw neu sydd dan eu rheolaeth **B** 4.3
chwilio mewn gorsafoedd heddlu **C** *3D*, 4.1, *4A*, Atodiad A
grwpiau arbennig **C** 3.12-20
trosglwyddo **C** 2.3, 4.1
o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 **C** 1.10, 9.6, *9D*
ymweliadau **C** 5.6, *5B*, 9.3, *9CA*
recordiad fideo o **F** 1.3, 3.1-6, *3A-F*, 4.1-19, *4A-F*
lles **C** 15.3A
sganiau uwchsain a phelydr X **C** Atodiad K
Sawl sy'n cael eu cadw a anafwyd **B** *9C*
Sawl sy'n cael eu cadw yn rhannol ymwybodol, goruchwylio **C** 9.3, *9H*
Seiliau dros amheuaeth **A** 2.1, 2.2-11, 2.26,

2.29, *3*, **C** 10.1, *10A*, **G** 2
cynnal archwiliad o **A** 3.3
eitemau arbennig o ddillad neu ddulliau adnabod eraill **A** 2.6, *9*
gwybodaeth i'w roi cyn chwilio **A** 3.8
camddefnyddio cyffuriau Dosbarth **A** C 17.1, 17.8
Deddf Terfysgaeth 2000 **A** 2.2, 2.3, 2.8, 2.24
Seiliau dros arestio **C** 10.3, *10B*
Seiliau dros gadw **C** 3.4, 3.23
Seiliau rhesymol dros amheuaeth *gweler* Seiliau dros amheuaeth
Selio, prif recordiadau sain **E** 2.1-3, *2A-C*, 4.18, *4H*
Sganiau uwchsain **C** Atodiad K
Staff yr Heddlu **A** 4.20, **C** 1.15,
recordiad sain **E** 1.8, 1.9
gofalu am y sawl sy'n cael eu cadw **C** 9.4
codau ymarfer **A** (Cyff.), **D** 2.1, 2.22, **C** 1.2, **C** 1.15, 1.16
dulliau adnabod **D** 2.1, 2.18, 2.12-2.22, 3.2, 3.11, Atodiad B (17),
Atodiad E (1)
dangos pwy ydynt **C** 2.6A, **D** 2.18, **E** 2.3
llyfrau adroddiad swyddogol **C** 1.17, D 2.11, **E** 1.9, **F** 1.7
cofnodi cyfarfyddiadau **A** (Cyff.)
rhybudd cyn archwiliad personol C Atodiad D (6-12)
datganiadau ysgrifenedig **C** Atodiad D (6-12)
trefniadau sgan uwchsain a phelydr X **C** Atodiad K (2, 3)
Steil a lliw gwallt *gweler* Marciau adnabod
Swabiau *gweler* samplau personol; samplau amhersonol
Swyddog yng ngofal y chwiliad **B** 2.10, *2F*
gweithredu yn dilyn chwiliad **B** 8.1-3
cynnal chwiliadau **B** 6.15
ymgynghori gyda heddlu lleol/swyddog cyswllt cymunedol **B** 3.5
cais am ddogfennau gan **B** 6.15
safle a dyletswyddau **B** 6.14
eiddo a feddiannwyd **B** 7.9-11
Swyddogion
*gweler hefyd* swyddogion sy'n arestio; dyletswyddau Prif Swyddogion; swyddogion cenfogaeth cymunedol; yletswyddau swyddogion y ddalfa; dyletswyddau swyddogion adnabod; Swyddogion cyfrifol; Swyddogion adolygu; Uwch swyddogion
rhoi cyffuriau a reolir **C** 9.10
fel tystion **D** *3A*
awdurdodi cymryd samplau **D** 6.6
codau ymarfer ar gael **C** 1.2
hawl y sawl sy'n cael eu cadw i gyngor cyfreithiol **C** 6.4
pwy ydynt **C** 2.6A, 16.4, **F** 2.5
yn gyfrifol am ymchwiliadau **C** 11.6, 16.1, **F** 16.6
mewn rhesi adnabod **D** Atodiad B (11)
mewn adnabod trwy fideo **D** Atodiad A (6)
archwiliadau personol gan **C** Atodiad A (3, 6, 8, *A4-5*)
ddim yn eu lifrai **A** 3.9, **B** 2G, 6.5 (i)
amddiffyn **F** 2.5, 2E
cofnodi cyfarfyddiadau **A** (Cyff.), 4.11-4.20
adrodd am wybodaeth **C** 9.4
noeth-chwiliadau gan **C** Atodiad A (11)
datganiadau ysgrifenedig dan rybudd C Atodiad D
trefniadau sganiau uwchsain a phelydr X C Atodiad K (2, 3)
Swyddogion adolygu **C** 15.1, 15.3C, 15.4, 15.9, 15.9A, 15.9C, 15.10, 15.11 15.12, 15.14, *15A*
Swyddogion cefnogaeth cymunedol **A** 2.24A, 4.20, Atodiad C, **D** 5.12
pwerau dan Ddeddf Terfysgaeth 2000 **A** 2.24A
Swyddogion consylaidd, ymweliadau gyda sawl sy'n cael eu cadw **C** 7.3-4
Swyddogion cyfrifol **C** 3.14
Swyddogion cyswllt cymunedol, ymgynghori gyda **B** 3.5
Swyddogion mewnfudo
awdurdodi cadw **C** 1.12, *15B(f)*
pwerau i gymryd olion bysedd **D** 4.11-12
cofrestrau chwilio **B** *9A*
chwilio adeiladau **B** *2D*
Swyddogion sy'n arestio **C** 3.4, 3.6, *10F*, **G** 1.1-4.5, *1-6*
Swyddogion yr heddlu *gweler* Swyddogion
Symud grwpiau, adnabod mewn grŵp D Atodiad C (19-24)

**T**
Tapiau *gweler* Recordiad sain
Tapiau wedi torri **E** *4H*
Tatŵs *gweler* Marciau adnabod
Telerau rhoi rhybudd **C** 10.5-9, *10D*, 16.2,

Atodiad C
Tîm Troseddu Ieuenctid **C** 3.14
Toiledau, mynediad gan y sawl sy'n cael eu cadw at **C** *3A*, 8.4
Trefn personau, rhesi adnabod **D** Atodiad B (13)
Tystysgrifau'n cadarnhau dinistrio
olion bysedd a samplau **D** Atodiad F (3(c))
delweddau **D** 5.23
Tocynnau Cosb Sefydlog **A** 4.14
Tollau Cartref a Thramor **C** *10F*
Toriad *gweler* Toriad mewn cyfweliadau; Cyfnodau gorffwys
Toriad ar gyfer lluniaeth **C** 12.8, *12B*
Toriad yn ystod cyfweliadau **C** 10.8, *10E*, *12B*
recordiad sain o gyfweliadau **E** 4.12-14, *4G*
rhoi rhybudd ar ol **C** 10.8
oedi **C** 12.8, 12.12, *12B*
cofnodion cyfweliad **C** 11.7
prydau bwyd a lluniaeth **C** 12.8, *12B*
crynhoi;r rhesymau am **C** *10E*
recordio cyfweliadau ar fideo **F** 4.8, *4D*, *4E*
Torri sêl recordiad, prif gopi **E** 6.2-4, 6A-C
Troseddau eiddo, meini prawf arestio **G** 2.9
Troseddau gyrru **D** 2.17
Triniaeth *gweler* Triniaeth a chyngor meddygol
Triniaeth a chyngor meddygol **C** 3.5, 3.6, 3.9, *3A*, 8.6, 9.1-17, *9A-H*, 12.3, 15.3C, Atodiad H
*gweler hefyd* Gweithwyr proffesiynol iechyd
oedi cyn i feddyg gyrraedd **C** 9.6
gohirio cyfnodau gorffwys **C** 12.2
personau sy'n dioddef anhwylder meddwl/agored i niwed yn feddyliol C Atodiad E (5-6)
holi'r sawl sy'n cael eu cadw mewn ysbyty **C** 14.2, 4A
Triniaeth amhriodol o'r sawl sy'n cael eu cadw **C** 9.2
Triniaeth glinigol **C** 9.3, 9.4, 9.5-17
Troseddau delio mewn cyffuriau **C** Atodiad B (2)
Troseddau gyrru **D** 2.17
Troseddau ysgogol **C** 17.3, 17.4, 17.15, *17E*
Tynnu ffotograff, diffiniad **D** 2.16
Tynnu cyfrwng recordio o recordydd **E** 4.11, 4.12A, 4.16
Tystiolaeth **C** *9G,* 10.1, 10.11, *10E*, 11.1, 11.4A, 11.6, 12.5, Atodiad B (1, 8), **F** 6.1
oedolion priodol **C** 1E
meini prawf ar gyfer arestio **G** 2.9
dibynadwyedd **C** *11C*, Atodiad E (*E2-3*),
Atodiad G
Tystiolaeth ar fideo **F** 4.19
Tystion
*gweler hefyd* Cyfwynebiadau; Adnabod mewn grŵp; Rhesi adnabod; Adnabod trwy fideo
dinistrio olion bysedd a samplau **D** Atodiad F (3(b))
archwilio eiddo a feddiannwyd **B** 7.8, 7.12, *7D*
adnabod gan **D** 1.2, 3.1-33, *3A-F*, Atodiad E (2)
swyddogion yr heddlu fel **D** *3A*
personau cefnogol cyn achos llys **D** *22.15A, 2Ab*
chwilio adeiladau **B** 6.11, 8.1
dangos ffotograffau i **D** 3.3, Atodiad E
Tystysgrifau'n cadarnhau dinistrio
olion bysedd a samplau **D** Atodiad F (3(c))
delweddau **D** 5.23

**U**

Uwch swyddogion **C** 1.9A,
*gweler hefyd* Prif Swyddogion
awdurodi profi am gyffuriau **C** 17.1, 17.4, 17.6, 17.8
awdurodi chwiliadau **C** Atodiadau **A** (2, 3, 3A, *A1-5*)
awdurdodi sgan uwchsain a phelydr X C Atodiad K (1)
cwynion **C** 9.2
llythyrau a galwadau ffôn y sawl sy'n cael eu cadw **C** 5.6
hawl y sawl sy'n cael eu cadw i gyngor cyfreithiol **C** 6.6, 6.12A, 6.14, *6F, 6I*, Atodiad B (1, 8)
newid cyfreithwyr **C** 6.10-11
cyfweliadau gyda rhai bregus sydd dan amheuaeth **C** 11.18, Atodiad E (*E3*)
wedi'u henwi yn y cofnod cadw **C** 2.2
hysbysiad o arestio **C** Atodiad B (1, 8)
symud cyfreithiwr oddi yno **C** 6.10-6.11
adolygu ac ymestyn cyfnod cadw **C** 15.2, *15A, 15B 15E*, Atodiad E (10)
amddiffyn staff **C** *2A*
Deddf Terfysgaeth 2000 **C** 15.8

**W**

Warantau *gweler* Mynediad heb warant; Warant chwilio
Warant Chwilio
camau gweithredu ar ôl chwiliadau B

8.1, 8.2-3
ceisiadau am **B** 3.1-8, *3A-B*
arnodi **B** 8.2
swyddogion mewnfudo **B** *2D*
cyhoeddi **B** 1.2, *2A(a-b), 2D*
tu allan i Gymru a Lloegr **B** 2.6, *2B(f)*
o dan y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (Cydweithrediad Rhyngwladol) 1990
**B** 2.6
Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 **B** 1.2, *2A*
dychwelyd **B** 8.3
Deddf Terfysgaeth 2000 **B** *2A*, 3.4, 3.7
Deddf Dwyn 1968 **B** *2A(a)*

**Y**
Ymarfer **C** 8.7
Ymarfer corff **C** 8.7
Ymarferwyr meddygol cofrestredig **C** 3.16, 9.10, Atodiad A (3, 3A, 4, 8, *A1, A3*), Atodiad E (6), Atodiad K (4, *K1*)
Ymchwiliadau,
meini prawf arestio **G** 2.9
rhwystro **C** 6.12A
Ymestyn cyfnodau cadw *gweler* Adolygu ac ymestyn cyfnodau cadw
Ymosodiadau ar y sawl sy'n cael eu cadw, adroddiadau **C** 9.2
Ymweliadau **C** 5.4, *5B*, 7.3-4 *gweler* hefyd Goruchwylio
Ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa, oedolion priodol **C** *1F*
Ynadon heddwch **B** 1.2, *2A(a)*, *2D*, 3.4a, 3.6, 8.3
Ystafelloedd cyfweld **C** 12.4, 12.11, **E** 3.3-4, **F** 2.2, 3.3, 4.11

**Cyhoeddwyd y Codau a gynhwysir yn y llyfryn hwn gan yr Ysgrifennydd Cartref o dan Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 ac fe'u cymeradwywyd gan y Senedd.**

**Maent yn delio gyda chysylltiadau rhwng yr heddlu a'r cyhoedd wrth ymarfer pwerau'r heddlu i atal a chwilio ac i chwilio adeiladau ac wrth drin, holi ac adnabod rhai sydd dan amheuaeth a recordio cyfweliadau ar dâp. Mae'r codau'n rheoleiddio pwerau a gweithdrefnau'r heddlu wrth ymchwilio i dor-cyfraith ac maent yn pennu camau diogelu ac amddiffyniad ar gyfer aelodau'r cyhoedd.**

**Mae'r Codau'n darparu datganiad clir o hawliau'r unigolyn a phwerau'r heddlu. Mae'n rhaid i gopïau o'r Codau a gyhoeddir o dan Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 fod ar gael yn hwylus ar gyfer dibenion ymgynghori gan swyddogion yr heddlu, pobl yn y ddalfa ac aelodau'r cyhoedd.**

ISBN 0-11-341307-6

9 780113 412969

TSO

www.tso.co.uk